



Cyfarfod

PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU

Dyddiad ac Amser

10.00 y.b., DYDD IAU, 14EG CHWEFROR, 2019

Lleoliad

Siambr Hywel Dda, Swyddfa'r Cyngor, Caernarfon LL55 1SH

*** NODER ***

Bydd y cyfarfod yn cael ei we-ddarlledu

https://gwynedd.public-i.tv/core//cy_GB/portal/home

Pwynt Cyswllt

Bethan Adams

01286 679020

BethanAdams@gwynedd.llyw.cymru

(Dosbarthwyd 07/02/19)

PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU

AELODAETH (19)

Plaid Cymru (10)

Y Cynghorwyr

Aled Ll. Evans
Huw Gruffydd Wyn Jones
Cemlyn Rees Williams

Aled Wyn Jones
Berwyn Parry Jones
Gethin Glyn Williams

Charles Wyn Jones
Paul John Rowlinson
Sedd Wag x2

Annibynnol (5)

Y Cynghorwyr

John Brynmor Hughes
Dewi Wyn Roberts
Angela Russell

Richard Medwyn Hughes
John Pughe Roberts

Llais Gwynedd (1)

Y Cyngorydd Alwyn Gruffydd

Annibynnol Unedig Gwynedd (1)

Sedd Wag

Aelod Unigol (1)

Y Cyngorydd Sion W. Jones

Aelod Lleyg (1)

Mrs Sharon Warnes

Aelodau Ex-officio

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor

R H A G L E N

1. YMDDIHEURIADAU

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Derbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

3. MATERION BRYD

Ystyried unrhyw fater arall sydd yn teilyngu sylw bryd ym marn y Cadeirydd.

4. COFNODION

5 - 13

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 29 Tachwedd 2018, fel rhai cywir.

5. CYLLIDEB REFENIW 2018/19 – ADOLYGIAD DIWEDD TACHWEDD 14 - 36

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Cyllid.

6. RHAGLEN GYFALAF 2018/19 – ADOLYGIAD DIWEDD TACHWEDD 37 - 45

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Cyllid.

7. TROSOLWG ARBEDION: ADRODDIAD CYNNYDD AR WIREDDU CYNLLUNIAU ARBEDION 46 - 53

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Cyllid.

8. CYLLIDEB 2019/20 54 - 201

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Cyllid.

9. ADRODDIAD STRATEGAETH CYFALAF 2019/20 202 - 233

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Cyllid.

10. CYNNYRCH ARCHWILIO MEWNOL 19/11/18 - 1/2/19 234 - 264

Cyflwyno adroddiad y Rheolwr Archwilio.

11. CYNLLUN ARCHWILIO MEWNOL 2018/19 265 - 270

Cyflwyno adroddiad y Rheolwr Archwilio ar y cynnydd ar Gynllun Archwilio Mewnol 2018/19.

12. CYNLLUN ARCHWILIO MEWNOL DRAFFT 2019/20 271 - 278

Cyflwyno Cynllun Archwilio Mewnol Drafft ar gyfer y flwyddyn 1 Ebrill 2019 – 31 Mawrth 2020.

**13. STRATEGAETH GWRTH-DWYLL, GWRTH-LYGREDD A GWRTH-
GWGRWOBRYWO CYNGOR GWYNEDD A CHYNLLUN YMATEB** 279 - 298

Cyflwyno adroddiad yr Uwch Reolwr Refeniw a Risg.

PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU 29/11/18

Yn bresennol: Y Cynghorydd R. Medwyn Hughes (Cadeirydd)
Y Cynghorydd John Brynmor Hughes (Is-Gadeirydd)

Y Cynghorwyr: Aled Ll. Evans, Alwyn Gruffydd, Aled Wyn Jones, Berwyn Parry Jones, Charles Wyn Jones, Elin Walker Jones, Huw G. Wyn Jones, Sion W. Jones, Dewi Wyn Roberts, Paul Rowlinson, Angela Russell a Cemlyn Williams.

Aelod Lleyg: Sharon Warnes

Eraill a wahoddwyd: Y Cynghorwyr Peredur Jenkins (Aelod Cabinet Cyllid), Dafydd Meurig (Aelod Cabinet Amgylchedd – ar gyfer Eitem 5 ar y rhaglen) a Edgar Owen (Aelod ex-officio).

Hefyd yn Bresennol: Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid), Dewi Morgan (Uwch Reolwr Refeniw a Risg), Ffion Madog Evans (Uwch Reolwr Cyllid - ar gyfer Eitemau 6 - 8 ar y rhaglen), Caroline Lesley Roberts (Rheolwr Buddsoddi – ar gyfer Eitem 9 ar y rhaglen), Luned Fôn Jones (Rheolwr Archwilio), Dafydd Wyn Williams (Pennaeth Amgylchedd – ar gyfer Eitem 5 ar y rhaglen) a Bethan Adams (Swyddog Cefnogi Aelodau).

Ymddiheuriadau: Y Cynghorwyr John Pughe Roberts a Gethin Glyn Williams.

1. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

2. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 27 Medi 2018, fel rhai cywir.

3. TWYLL A LLYGREDD: EXPRESS MOTORS

Gosodwyd cefndir a chyd-destun i'r adroddiad gan yr Uwch Reolwr Refeniw a Risg. Adroddwyd y cafwyd pedwar o ddiffynyddion yn euog yn Llys y Goron, Caernarfon ar 2 Hydref 2018 o gyhuddiadau o dwyll yn ymwneud â hawliadau am gymorthdaliadau gan Express Motors i redeg y cynllun tocynnau teithio rhad yng Ngwynedd. Roedd pumed diffynnydd wedi pledio'n euog mewn gwrandawriad cynharach. Nodwyd ar 31 Hydref 2018, cafodd yr holl ddiffynyddion eu dedfrydu yn Llys y Goron yr Wyddgrug i'r carchar, am gyfnodau o rhwng 12 mis a saith mlynedd a hanner. Nodwyd gan fod y mater yn destun achos llys, nid oedd modd i'r Pwyllgor drafod y mater mewn cyfarfod cyhoeddus cyn nawr.

Nodwyd y cyfeiriwyd y mater i Archwilio Mewnol gan yr Adran Rheoleiddio yn 2014, o fewn ychydig wythnosau o ddarganfod twyll yng nghwmni Bws Padarn. Eglurwyd bod y mater wedi ei gyfeirio oherwydd pryderon yr Adran, ac ymhellach roeddynt wedi derbyn cwynion gan gwsmeriaid fod y cardiau teithio bws yn cael eu taro fwy nag unwaith (wrth gamu ar y bws ac fel yr oeddent yn gadael) ar gyfer teithiau wnaed gydag Express Motors.

Eglurodd yr Uwch Reolwr mai system Wayfarer gan gwmni Parkeon oedd y system a ddefnyddiwyd i gofnodi data tocynnau teithio rhatach ar gyfer gweithredwyr bysiau. Nodwyd ei fod yn anodd cael y data perthnasol allan o'r system er mwyn casglu tystiolaeth y gellid ei drafod gyda'r Swyddog Monitro i weld os oedd sail i gyfeirio'r mater at yr heddlu. Nodwyd nad oedd modd ar y pryd i gynhyrchu adroddiad eithriadau o'r system, ond erbyn hyn roedd hyn yn bosib.

Nodwyd bod risgiau yn parhau gyda llawer o arian dan sylw a'r Cyngor yn defnyddio'r system genedlaethol.

Nododd yr Aelod Cabinet Amgylchedd nad oedd yn y rôl ar adeg y twyll ond ei fod pan oedd y mater gerbron y llys. Pwysleisiodd mai'r hyn oedd yn bwysig oedd beth a wneir o hyn ymlaen. Awgrymodd efallai bod y sefyllfa yn amlygu bod gorddibyniaeth ar grantiau a bod Llywodraeth Cymru yn deall hyn ac yn gwneud gwaith i fynd i'r afael â'r mater.

Eglurodd y Pennaeth Amgylchedd yn dilyn y twyll a ddarganfuwyd yng nghwmni Bws Padarn ei fod yn ymddangos bod gor-hawlio o ran tocynnau gostyngiad gan gwmni Express Motors. Nododd bod Archwilio Mewnol wedi edrych i mewn i gwmni Express Motors, cyn y darganfuwyd y twyll yng nghwmni Bws Padarn, ond nid oedd tystiolaeth. Roedd y twyll yng nghwmni Bws Padarn wedi amlygu'r gor-hawlio yng nghwmni Express Motors, oherwydd y disgwyliad y byddai lefel sybsidi'r ddau gwmni yn gymharol debyg. Eglurodd ei bod yn anodd echdynnu'r data o'r system genedlaethol ac o'r herwydd roedd rhaid i'r Cyngor dalu i gwmni chwilio am y data. Nododd y rhoddir pwysau ar Lywodraeth Cymru i wella'r system, gyda rhai gwelliannau wedi eu gwneud, ond roedd yr anawsterau o ran echdynnu data o'r system yn rhwydd yn parhau.

Nododd y Pennaeth Amgylchedd bod Llywodraeth Cymru drwy gytundeb newydd o ran y cynllun tocynnau teithio rhatach yn ceisio rhoi cyfrifoldeb ar awdurdodau lleol am unrhyw dwyll a ddarganfyddir. Nododd os byddai'r system genedlaethol yn addas byddai'r Cyngor yn barod i ymrwymo i'r gofyniad. Ymhelaethodd yr ysgrifennwyd at Lywodraeth Cymru i ddatgan hyn.

Yn ystod y drafodaeth ddilynol nodwyd y prif sylwadau canlynol gan aelodau:

- A oedd tystiolaeth neu amheuaeth bod y ddau gwmni yn cydweithio efo'i gilydd?
- Efallai bod gwendid o safbwynt fod rhai gweithredwyr gyda'u swyddfa gefn eu hunain gan eu galluogi i gynhyrchu eu hadroddiadau eu hunain a'u hanfon yn uniongyrchol i'r Adran yn hytrach nag uwch-lwytho eu data o'r system genedlaethol i Gyngor Sir y Fflint fel y mwyafrif o gwmnïau;
- Bod risgiau ynghlwm efo'r system genedlaethol o ystyried nad oedd echdynnu data o'r system yn rhwydd. Ei fod yn arswydus bod y sefyllfa wedi ei adael i ddatblygu a pe na fyddai cwsmeriaid wedi cwyno efallai y byddai'r twyll wedi parhau. Roedd gorddibyniaeth ar rhai cwmnïau a'r sefyllfa yn codi materion o ran rheolaeth fewnl a rheolaeth Llywodraeth Cymru;
- Sut nad oedd Cyngor Sir y Fflint wedi sylwi ar y gorddefnydd a hwythau yn gyfrifol am weinyddu'r system genedlaethol?
- Rhyfeddu ei fod yn bosib defnyddio cerdyn mwy nag unwaith mewn cyfnod o amser byr. Dylid gofyn i Lywodraeth Cymru i edrych i mewn i'r cyfnod amser er mwyn atal twyll;
- A oedd y system genedlaethol yn ddigonol o ran echdynnu data? Pryder bod y risg dal yn bodoli a byddai ymrwymo i'r gofyniad ar y Cyngor i gymryd cyfrifoldeb am unrhyw dwyll a ddarganfyddir yng nghytundeb newydd Llywodraeth Cymru yn uchafu'r risg i'r Cyngor. A oedd y cynghorau yn dod at ei gilydd i drafod y mater efo Llywodraeth Cymru?
- Fyddai wedi bod yn bosib i swyddogion edrych ar fideo Teledu Cylch Cyfyng i wirio o ran y twyll?
- Doedd y system genedlaethol bresennol ddim yn ddigonol a gan mai system genedlaethol Llywodraeth Cymru ydoedd, mi ddylent fod yn gyfrifol amdano;
- Bod angen buddsoddiad yn y system er mwyn ei wella. A oedd cynghorau eraill wedi anfon at Lywodraeth Cymru o ran y mater?
- A oedd gan y Cyngor gynlluniau i liniaru risg pe ymrwymir i'r cytundeb newydd?
- Diolch am waith yr Adran Amgylchedd o ran cwmni Express Motors a oedd yn dangos Cyngor Gwynedd ar ben ei gêm. Byddai'r arian yn cael ei adennill?

- Nid oedd dewis ond ymrwymo i'r cytundeb newydd gan y byddai atal y cynllun tocynnau teithio rhatach yn arwain at golled i'r bobl fwyaf bregus. A oedd ymchwiliad o'r fath wedi ei gynnal yn rhywle arall yng Nghymru unai cyn yr achos neu'n bresennol? Nodwyd unrhyw awgrymiadau yn y llys o ran diffygion yn y system genedlaethol a allai berswadio Llywodraeth Cymru i newid a gwella'r system?
- Bod llawer o unigolion yn credu bod y Cyngor yn gyfrifol oherwydd nad oedd y twyll wedi ei ganfod ynghynt, ond nid oedd hyn yn wir ac nid oedd bai o gwbl ar y Cyngor;
- Llongyfarch swyddogion am eu gwaith yn wyneb trafferthion i gasglu tystiolaeth. Yn unol â'r hyn a awgrymwyd y dylai'r Pwyllgor anfon llythyr at Lywodraeth Cymru o ran y system;
- Yn bresennol i glywed yr Uwch Reolwr Refeniw a Risg yn cyflwyno tystiolaeth yn y llys, nodi canmoliaeth ei fod wedi cyflwyno tystiolaeth yn broffesiynol;
- Pe anfonir llythyr gan y Pwyllgor at Lywodraeth Cymru o ran y system, fe ddylai ei rannu efo cynghorau eraill a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru;
- Gofyn i'r Pwyllgor dderbyn gwybodaeth yn y cyfarfod nesaf am y camau y gellir eu cymryd i liniaru'r risg roedd y cytundeb newydd gyda Llywodraeth Cymru yn ei osod ar y Cyngor.

Mewn ymateb i'r sylwadau uchod, nododd y swyddogion a'r Aelod Cabinet Amgylchedd:

- Nid oedd tystiolaeth o gydweithio rhwng y ddau gwmni. Roedd natur y twyll yn y ddau gwmni yn bur wahanol, gyda chwmi Bws Padarn wedi defnyddio eu system swyddfa gefn personol i newid data defnydd 6 wythnos i edrych fel cyfnod o fis, tra roedd cwmni Express Motors wedi gor-ddefnyddio 4 cerdyn teithio bws gan arwain at chwyddo'r ffigyrau teithiau rhatach dros nifer o flynyddoedd;
- O ran cwmni Bws Padarn, yr unig ffordd y byddent wedi gallu gweithredu'r twyll oedd trwy eu system swyddfa gefn eu hunain. Byddai'r twyll yn Express Motors wedi ei weithredu heb neu efo swyddfa gefn eu hunain. Roedd mantais ddilys i gwmnïau fod â'u swyddfa gefn eu hunain, gan fod modd iddynt gynhyrchu adroddiadau rheolaeth ayb. Roedd un cwmni ar ffin y Sir wedi derbyn caniatâd yn ddiweddar i gael swyddfa gefn eu hunain, nid oedd yr Adran Amgylchedd yn hollol hapus efo'r sefyllfa ond os caiff y swyddfa gefn ei ddefnyddio yn briodol roedd yn dderbyniol;
- Bod clychau'n canu cyn 2014 o ran cwmni Express Motors. Yn 2007 bu swyddog o Archwilio Mewnol ar fysiau i weld beth oedd yn mynd ymlaen ond nid oedd unrhyw dystiolaeth, gyda'r drefn ar yr adeg o yrrwr yn pwysu botwm. Cyflwynwyd y "cerdyn clyfar" gan Lywodraeth Cymru yn rhannol yn dilyn trafodaethau am bryderon o ran y drefn ar y pryd. Derbynnir y feirniadaeth i raddau ond daeth i'r amlwg adeg yr achos llys, pan ddiddymwyd cerdyn o'r system o ganlyniad i ddefnyddiwr ei golli neu yn dilyn marwolaeth defnyddiwr, roedd y cardiau yn dod yn ôl yn weithredol ar ôl 3 diwrnod. Roedd y Cyngor wedi cyflawni o ran rheoli defnydd o'r cardiau yn unol â gofynion Llywodraeth Cymru, byddai'n anodd gweld sut allai'r Cyngor adnabod y gorddefnydd. Er bod canran uchel o ddefnydd gan rhai cwmnïau, efallai bod rhesymau dilys am y niferoedd. Er mwyn darganfod y twyll roedd rhaid mynd yn bellach na'r gofynion i gael tystiolaeth. Roedd risgiau yn parhau efo'r system genedlaethol;
- Bod y peiriant ar y bws yn cofnodi defnydd o'r cerdyn i'r system. Roedd data cwmnïau llai yn mynd i system Cyngor Sir y Fflint a oedd yn creu adroddiadau iddynt tra bod cwmnïau mwy yn gwneud yr adroddiadau eu hunain;
- Bod swyddogion yng Nghyngor Sir y Fflint yn mynd at ddarparwyr y peiriannau i gael y data. Gyda systemau mewnol y Cyngor gellir gosod paramedrau a fyddai'n amlygu materion ond yn y sefyllfa yma nid oedd gan swyddogion y Cyngor fynediad i'r wybodaeth;
- Bod swyddogion wedi sôn wrth Lywodraeth Cymru o ran y cyfnod amser a'u bod yn edrych ar y mater. Yn achos twyll cwmni Express Motors, ni fyddai newid y cyfnod amser lle gellir defnyddio cerdyn mwy na unwaith wedi rhwystro'r twyll yn gyfan gwbl oherwydd bod nifer o gardiau yn cael eu defnyddio;

- Ymhellach i hyn, bod angen ystyried beth oedd yn rhesymol o ran cyfnod amser rhwng defnyddio cerdyn unigol o ystyried bod defnyddwyr yn newid bysiau wrth fynd ar daith;
- Byddai tynnu allan o'r cynllun tocynnau teithio rhatach yn wleidyddol gynhennus. System genedlaethol well oedd yr ateb ac yn y tymor hir dylid cael system debyg i'r "Oyster Card" sydd yn Llundain;
- Bod yr adroddiad yn nodi'r gwaith a wnaed gan Archwilio Mewnol. O ran fideo Teledu Cylch Cyfyng, yr heddlu oedd â'r hawl i edrych ar y fideo er mwyn casglu tystiolaeth. Nid oedd disgwyl i swyddogion edrych drwy oriau o fideo Teledu Cylch Cyfyng;
- Ni dderbyniwyd ymateb i'r llythyr a anfonwyd at Lywodraeth Cymru hyd yn hyn. Roedd yn bosib i'r Cyngor gydweithio efo'r cynghorau eraill;
- Os nad oedd y Cyngor yn fodlon derbyn y risg o ran y cytundeb newydd ni fyddai'r Cyngor yn rhan o'r cynllun tocynnau teithio rhatach. Byddai arbediad ariannol o £0.5miliwn yn sgil hyn, ond byddai defnyddwyr bysiau a oedd yn gymwys ar gyfer y cynllun yn dioddef. Roedd rhaid derbyn y risg wrth ymrwymo i'r cytundeb newydd;
- Bod y sefyllfa bresennol o ran y system genedlaethol yn annerbyniol ond ni ellir wynebu'r opsiwn o beidio ymrwymo i'r cytundeb newydd. Felly, yr opsiwn orau oedd ymrwymo i'r cytundeb newydd a bod yr Adran Amgylchedd yn parhau i lobio Llywodraeth Cymru i gael gwell sefyllfa. Fe allai'r Pwyllgor atgyfnerthu safbwynt yr Adran gan anfon llythyr at Lywodraeth Cymru yn nodi bod y Cyngor yn cael ei roi mewn cyfyng gornel gyda dim llawer o ddewis ond arwyddo cytundeb nad oedd yn dderbyniol gan ofyn iddynt ail-edrych ar y sefyllfa;
- Roedd y twyll ar geisiadau oedd wedi eu prosesu gan Lywodraeth Cymru ac y byddai trafodaethau yn parhau o ran yr arian, ond o dan y cytundeb presennol nid oedd gan y Cyngor gyfrifoldeb am yr arian a gollwyd drwy'r twyll. Roedd potensial i'r arian gael ei adennill gan Wasanaeth Erynn y Goron o dan y Ddeddf Enillion Troseddol 2002;
- Bod y Barnwr wedi datgan mai anonestrwydd pur yr unigolion a oedd yn gyfrifol am y twyll;
- Nid oedd y swyddogion yn ymwybodol o ymchwiliad o'r fath yng Nghymru ond gellir cadarnhau nad oedd ymchwiliad yn gyfredol yng Ngwynedd;
- Bod gwaith da wedi ei wneud gan yr Adran Amgylchedd a'r Adran Gyllid i ddarganfod tystiolaeth i'r Heddlu. Ni ellir profi faint yn gynharach roedd y twyll wedi cychwyn, gyda'r dystiolaeth a gyflwynwyd yn seiliedig ar ffeithiau cadarn a dderbyniwyd o'r system. Bu swyddogion yn dystion yn yr achos llys ac ar ddiwedd yr achos nodwyd canmoliaeth i'r gwaith trylwyr a wnaed gan swyddogion y Cyngor. Bod risgiau yn parhau, ond roedd y gallu i liniaru'r risg allan o ddwylo swyddogion oherwydd ei fod yn system genedlaethol.

PENDERFYNWYD:

- Derbyn yr adroddiad fel cefndir o'r twyll yn Express Motors erbyn y Cyngor, a beth a wnaeth y Cyngor i ymateb;**
- Nodi'r risg roedd y cytundeb newydd gyda Llywodraeth Cymru yn ei osod ar y Cyngor;**
- Anfon llythyr at Lywodraeth Cymru yn nodi bod y Cyngor yn cael ei roi mewn cyfyng gornel gyda dim llawer o ddewis ond arwyddo cytundeb nad oedd yn dderbyniol, gan ofyn iddynt ail-edrych ar y sefyllfa a'i rannu efo cynghorau eraill ynghyd â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru;**
- Bod y Pwyllgor yn derbyn gwybodaeth yn ei gyfarfod ar 14 Chwefror 2019, am y camau y gellir eu cymryd i liniaru'r risg roedd y cytundeb newydd gyda Llywodraeth Cymru yn ei osod ar y Cyngor.**

4. CYLLIDEB REFENIW 2018/19 – ADOLYGIAD DIWEDD AWST

Cyflwynwyd yr adroddiad gan yr Uwch Reolwr Cyllid, gosododd y cyd-destun ac ymhelaethodd ar gynnwys yr adroddiad a gyflwynwyd i'r Cabinet ar 16 Hydref 2018. Nododd bod adolygiad ddiwedd Awst o'r cyllidebau yn dangos darlun cymysg, ond fod angen camau gweithredu pendant i'r Adran Addysg, Adran Plant a Theuluoedd ynghyd a'r Adran Prifffyrdd a Bwrdeistrefol, i sicrhau rheolaeth o'u cyllidebau erbyn 31 Mawrth 2019.

Tynnodd sylw at benderfyniad y Cabinet:

“Derbyn yr adroddiad ar adolygiad diwedd Awst 2018 o'r Gyllideb Refeniw, ac ystyried y sefyllfa ariannol ddiweddaraf parthed cyllidebau pob adran / gwasanaeth.

- Gofyn i'r Aelodau Cabinet ar gyfer gwasanaethau Plant, Addysg a Phrifyfyrdd a Bwrdeistrefol sicrhau fod yna gynllun gweithredu clir gan yr adrannau i gymryd camau i leihau'r diffyg ariannol ac i drafod y cynlluniau hynny gyda mi er mwyn cael hyder eu bod yn rhesymol.
- Digolledu'r Adran Economi a Chymuned £40k sef y golled incwm yn dilyn cau pwll nofio Arfon dros yr haf.
- Cynaeafu (£1,904) o'r tanwariant net ar gyllidebau Corfforaethol, gyda (£40k) i'w defnyddio i ddigolledu'r Adran Economi a Chymuned am y golled incwm tra bu Pwll Nofio Arfon ar gau. Gyda'r gweddill sef (£1,864) i'w drosglwyddo i Gronfa Cynorthwyo'r Strategaeth Ariannol i gynorthwyo gyda phwysau anoche! un tro ar gyllidebau'r Cyngor.”

Yn ystod y drafodaeth ddilynol ymatebodd y swyddogion a'r Aelod Cabinet Cyllid i ymholiadau'r aelodau fel a ganlyn:

- Bod pwll nofio Arfon wedi cau am ddeg wythnos dros yr haf er mwyn galluogi gwaith addasu. Er tegwch i gwmni Byw'n Iach Cyf, a fyddai'n gyfrifol am y canolfannau byw'n iach o Ebrill 2019 ymlaen, fe ddigolledir yr Adran Economi a Chymuned am y golled incwm;
- Cytuno efo sylwadau aelodau, nid oedd y sefyllfa gorwariant o ran cludiant yn yr Adran Addysg yn dderbyniol. Cynhaliwyd cyfarfod efo'r swyddogion perthnasol ynghyd â'r Prif Weithredwr i drafod y mater ac fe dderbyniodd sylw yng nghyfarfod y Cabinet ar 16 Hydref 2018. Y gorwariant yn yr adrannau yng nghysylltiedig â gwasanaethau ynghlwm â'r bobl fwyaf bregus ac yn yr achos yma roedd y gorwariant o ran cludo disgyblion i Ysgol Hafod Lôn. Gofynnwyd i'r adran ystyried ffyrdd amgen o gludo disgyblion drwy efallai dalu i rieni yn hytrach na defnyddio tacsï gyda'r gofyniad bod hebryngwr yn bresennol;
- Bod y Cabinet yn ystyried y gorwariant o ran cludiant yn yr Adran Addysg ac yn herio'r Aelod Cabinet Addysg a swyddogion. Roedd angen newid y drefn gan y byddai'n anodd iawn i ddatrys y gorwariant o gynnal y drefn bresennol;
- Annog yr aelodau i fynychu un o'r pedwar gweithdy a gynhelir yn dechrau Mis Rhagfyr o ran arbedion a'r sefyllfa gyllidebol;
- Amcangyfrifir y byddai £2.9 miliwn o incwm o ran Cynllun Premiwm Treth y Cyngor ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, roedd £200,000 wedi ei ymrwymo yn y gyllideb ar gyfer gorfodi'r drefn. Gyda chanran o weddill yr arian wedi ei ymrwymo ar gyfer gwella'r sefyllfa o ran tai ar gyfer pobl ifanc. Roedd y nifer o geisiadau gan berchnogion tai i gofrestru eu tai fel busnes yn parhau i gynyddu. Nid oedd gan Swyddfa'r Prisiwr adnodd digonol i herio'r ceisiadau yn briodol. Parheir i lobio Llywodraeth Cymru i newid y drefn ac annog cynghorau eraill i lobio ar y mater, gyda Chyngor Sir Benfro yn lobio, ynghyd â Chyngor Ynys Môn wedi ysgrifennu at Mark Drakeford AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid yn gofyn iddo drafod y mater efo Cyllid a Thollau ei Mawrhydi;
- Bod y Cyngor yn lobio Llywodraeth Cymru yng nghyswllt yr angen i newid y drefn gan gyflwyno gofyniad i dderbyn caniatâd trwy'r drefn gynllunio er mwyn newid tŷ i fusnes, ond nid oedd y Llywodraeth yn gefnogol i hyn;
- Sicrhau'r aelodau bod y Cabinet yn rhoi pobl Gwynedd yn ganolog ac fe wneir newidiadau i'r ffyrdd a ddarperir gwasanaethau yn wyneb yr her ariannol gan geisio sicrhau nad oedd neb yn dioddef. Rhoddir pwysau ar Gaerdydd o ran ariannu cynghorau gydag Arweinwyr Cynghorau Gogledd Cymru wedi cyfarfod efo Mark Drakeford AC i drafod y mater yn ddiweddar;
- O ran pryder aelod bod lleihad yn nifer pecynnau gofal cartref yn yr Adran Oedolion, lechyd a Llesiant, ystyrir pob achos yn unigol ac edrychir ar y ffordd y darperir gwasanaethau;

- Bod y Cyngor yn darparu pecynnau gofal cartref a phreswyl yn fewnol ar gyfran uwch na chynghorau eraill yng ngogledd Cymru. Roedd darpariaeth fewnol yn angenrheidiol mewn ardaloedd gwledig lle nad oedd darpariaeth breifat. Ystyriwyd fel rhan o'r arbedion i allanoli'r ddarpariaeth ond wrth gymharu'r costau darganfuwyd na fyddai gwahaniaeth o ran costau;
- Yng nghyswllt y lleihad yn y nifer o geisiadau fel rhan o gynllun Gostyngiad Treth y Cyngor, nid oedd eglurhad cadarn ond bod y tueddiad yn awgrymu bod yr economi yn gwella ac efallai bod swyddi tymhorol yn golygu bod unigolion uwchben y trothwy o ran derbyn budd-daliadau;
- Bod y Cyngor yn anfon pecyn gwybodaeth o ran cynllun Gostyngiad Treth y Cyngor i unigolion a'i fod wedi ei ariannu gan Lywodraeth Cymru.

PENDERFYNWYD:

- (i) **nodi'r sefyllfa a'r risgiau perthnasol yng nghyswllt cyllidebau'r Cyngor a'i adrannau;**
- (ii) **gofyn i'r Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi ystyried craffu gorwariant yr Adran Addysg ar gludiant disgyblion.**

5. RHAGLEN GYFALAF 2018/19 – ADOLYGIAD DIWEDD AWST

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Cyllid, a oedd yn nodi yn unol â gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, y disgwylir i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu craffu rhai materion ariannol gan gynnwys adroddiadau monitro cyllideb, lle'n briodol.

Gosododd yr Uwch Reolwr Cyllid y cyd-destun ac ymhelaethodd ar gynnwys yr adroddiad a gyflwynwyd i'r Cabinet ar 16 Hydref 2018. Nododd bod cynnydd o £25.227 miliwn yn y gyllideb ar gyfer y rhaglen gyfalaf tair blynedd ers sefyllfa'r gyllideb agoriadol. Eglurwyd bod cynlluniau pendant mewn lle i fuddsoddi tua £28.6m yn 2018/19 gyda £6.9m (24%) ohono wedi ei ariannu trwy ddenu grantiau penodol. Tynnwyd sylw at benderfyniad y Cabinet.

PENDERFYNWYD nodi'r sefyllfa a'r risgiau perthnasol yng nghyswllt rhaglen gyfalaf y Cyngor.

6. TROSOLWG ARBEDION: ADRODDIAD CYNNYDD AR WIREDDU CYNLLUNIAU ARBEDION

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Cyllid a oedd yn adrodd ar sefyllfa ddiweddaraf gwireddu cynlluniau arbedion.

Gosododd yr Uwch Reolwr Cyllid y cyd-destun ac ymhelaethodd ar gynnwys yr adroddiad a gyflwynwyd i'r Cabinet ar 16 Hydref 2018. Nododd ei fod yn galonogol adrodd bod £23m o'r cyfanswm o dros £24m o gynlluniau arbedion yn y cyfnod 2015/16 – 2017/18, sef 95%, wedi eu gwireddu gyda dim ond ychydig o lithriad gyda'r gweddill.

Tynnodd sylw bod 11 o 26 o gynlluniau arbedion 2018/19 wedi eu gwireddu'n llawn neu'n rhannol, ac yn galonogol, dim ond dau gynllun y rhagwelwyd llithriad mewn gwireddu. Cadarnhaodd yn nhermau ariannol bod y rhagolygon yn dangos y byddai dros 80% o'r arbedion wedi'u gwireddu.

Mewn ymateb i gwestiwn gan aelod parthed gohirio trosglwyddo darpariaeth cyfleusterau hamdden i Byw'n Iach Cyf, nododd yr Uwch Reolwr Refeniw a Risg bod yr amserlen trosglwyddo wreiddiol yn or-uchelgeisiol o ystyried y gwaith paratoi cyfreithiol manwl angenrheidiol. Cadarnhaodd y bwriad i drosglwyddo'r ddarpariaeth i Byw'n Iach Cyf ar 1 Ebrill 2019 yn unol â'r amserlen.

PENDERFYNWYD nodi'r sefyllfa a'r risgiau perthnasol yng nghyswllt y trosolwg arbedion.

7. RHEOLAETH TRYSORLYS 2018/19 – ADOLYGIAD CANOL BLWYDDYN

Gosodwyd cefndir a chyd-destun i'r adroddiad gan y Pennaeth Cyllid ar weithgaredd rheolaeth trysorlys y flwyddyn gyfredol. Cadarnhaodd yn ystod y cyfnod chwe mis rhwng 1 Ebrill a 30 Medi 2018, arhosodd gweithgarwch benthycy'r Cyngor o fewn y cyfyngiadau a osodwyd yn wreiddiol ac nid oedd unrhyw fanciau lle'r oedd y Cyngor wedi adnau arian wedi methu ad-dalu.

Tynnodd sylw bod y benthyciadau llog cymharol uchel cymerwyd yn yr 1980au yn dod i ddiwedd eu cyfnod. Nodwyd fod y Cyngor ers cryn amser yn hunan-fenthycy yn hytrach na benthycy gan eraill, a bod angen edrych pa fenthyciadau i gymryd yn y tymor canolig neu'r tymor hwy, ond bwriedir cymryd benthyciadau am gyfnodau byr hyd ddechrau Ebrill 2019.

Nododd y cynhelir sesiwn hyfforddiant ar gyfer aelodau'r Pwyllgor ar 16 Ionawr 2019, lle ceir arweiniad gan gwmni Arlingclose, ymgynghorwyr rheolaeth trysorlys y Cyngor. Nodwyd byddai'n gyfle euraidd er mwyn trafod ac egluro'r sail i strategaeth rheolaeth trysorlys 2019/20, cyn i'r Pwyllgor argymhell i'r Cyngor llawn gymeradwyo'r strategaeth.

Nododd aelod bod Cyngor Manceinion yn buddsoddi yn y gymuned, yn hytrach na thu allan i'r ardal. Ychwanegodd gyda thri phrif afon yng Ngwynedd bod cyfle i fuddsoddi mewn cynlluniau cynhyrchu trydan, felly pam na fyddai'r Cyngor yn buddsoddi mewn cynlluniau o'r fath. Mewn ymateb, eglurodd y Pennaeth Cyllid bod Cronfa Bensiwn Cyngor Manceinion wedi buddsoddi yn y farchnad dai, tra rheolaeth trysorlys oedd dan sylw yma, ac roedd sefyllfa'r Cyngor yn fwy cyfyng. Ymhelaethodd roedd rheoliadau yn Lloegr wedi rhoi mwy o ryddid, ond bu llacio diweddar ar reoliadau cyffelyb Llywodraeth Cymru. Ychwanegodd bod buddsoddi mewn isadeiledd yn fwy addas i'r Gronfa Bensiwn. Nododd bod cyfleoedd diogel i fuddsoddi yng Ngwynedd yn fwy cyfyng.

Mewn ymateb i sylw gan aelod parthed y tabl 'Prif Symiau a Fuddsoddir am Gyfnodau sy'n hwy na 364 diwrnod' ar dudalen 57 y rhaglen, eglurodd y Rheolwr Buddsoddi bod y tabl yn dangos yr uchafsymiau y gellir eu buddsoddi. Ymhelaethodd bod yr uchafsymiau o ran buddsoddi am gyfnod o ddwy neu dair blynedd yn llai, o'u cymharu â buddsoddiadau am gyfnod o flwyddyn.

PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad er gwybodaeth.

8. CYNNYRCH ARCHWILIO MEWNOL 17/9/18 – 16/11/18

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Archwilio yn amlinellu gwaith Archwilio Mewnol am y cyfnod. Nodwyd bod 8 adroddiad am archwiliadau o'r cynllun gweithredol wedi eu cwblhau. Tynnwyd sylw o ran archwiliadau dilyniant, bod gweithrediad derbyniol ar 58.28% o'r camau cytunedig, sef 95 allan o 163.

Rhodddwyd ystyriaeth i'r adroddiadau yn unigol ac yn ystod y drafodaeth cyfeiriwyd at y prif faterion canlynol –

Ad-Daliadau Treth Cyngor

Mewn ymateb i ymholiad gan aelod o ran y risg uwch o dwyll o dan y trefniadau newydd i dalu ad-daliadau drwy BACS, nododd y Rheolwr Archwilio bod yr archwiliad wedi derbyn lefel sicrwydd uchel a bod swyddogion yn ymchwilio i gynhyrchu adroddiadau pwrpasol ar gyfer cynnal gwiriadau a bod rheolaethau cydadfer wedi eu sefydlu.

Canolfannau Hamdden

Holodd aelod os byddai Archwilio Mewnol yn parhau i gynnal archwiliadau o ganolfannau hamdden ar ôl trosglwyddo'r ddarpariaeth cyfleusterau hamdden i Byw'n Iach Cyf. Mewn

ymateb, nododd yr Uwch Reolwr Refeniw a Risg bod y cytundeb trosglwyddo, oedd heb ei arwyddo eto, yn nodi y byddai Archwilio Mewnol yn darparu'r gwasanaeth i'r cwmni.

Mewn ymateb i sylw gan aelod, eglurodd y Rheolwr Archwilio y cyflwynir cynllun gweithredu gydag amserlen i'r gwasanaeth perthnasol, gyda gwaith dilyniant yn cael ei gwblhau i ystyried y cynnydd. Ymhelaethodd bod gwelliant clir wedi ei weld yn nhrefniadau canolfannau hamdden. Tan yn ddiweddar, byddai archwiliadau o'r canolfannau yn derbyn barn C (dan y drefn flaenorol), gyda nifer fawr o gamau gweithredu. Nododd bod y camau gweithredu erbyn hyn yn oddeutu 2 neu 3 mewn nifer gyda Chanolfan Hamdden Plas Silyn wedi derbyn barn A yn 2017.

Mewn ymateb i gwestiwn gan aelod os oedd hi'n bosib i'r cwmni ddethol pwy fyddai'n cynnal archwiliadau, eglurodd yr Uwch Reolwr Refeniw a Risg bod cymal torri pe byddai'r cwmni o'r farn nad oedd y gwasanaeth a ddarperir gan Archwilio Mewnol i'r safon ddisgwylidig. Nododd mai Bwrdd Cyfarwyddwyr y cwmni fyddai'n derbyn adroddiadau archwilio gan Archwilio Mewnol o Ebrill 2019 ymlaen, a gan mai cwmni hyd braich y Cyngor oedd Byw'n Iach Cyf byddai'r Cyngor dal angen sicrwydd am drefniadau llywodraethu'r cwmni, ond mai'r Pennaeth Economi a Chymuned fyddai'r prif gyswilt. Ymhelaethodd bod Archwilio Mewnol yn ceisio sicrhau bod y cwmni yn cychwyn ar sylfaen gadarn ac fe fyddai'n fuddiol cwblhau'r gwaith dilyniant ar ganolfannau hamdden cyn diwedd mis Mawrth 2019.

Nododd aelod bod archwiliadau canolfannau hamdden yn amlygu diffyg meddylfryd masnachol, er mwyn i'r cwmni newydd fod yn llwyddiannus byddai rhaid arfogi staff i'w galluogi i weithredu yn fasnachol.

Holodd aelod os fyddai modd i'r archwiliadau i barhau i gael eu cyflwyno i'r Pwyllgor ar ôl y trosglwyddiad i Byw'n Iach Cyf. Mewn ymateb, nododd aelod ei fod yn Gadeirydd y Bwrdd Cysgodol a bod cynllun busnes yn cael ei baratoi. Ymhelaethodd y byddai gofyniad i'r cwmni gyflwyno adroddiad blynyddol i'r Cyngor a bod trafodaethau yn parhau o ran trefniadau craffu posib.

Nododd aelod oherwydd bod aelodau'r Cyngor ar Fwrdd Cyfarwyddwyr Byw'n Iach Cyf beth oedd diben i'r adroddiadau gael eu cyflwyno i'r Pwyllgor. Mewn ymateb, nododd y Pennaeth Cyllid byddai mwy o sylw yn cael ei roi i'r maes hamdden nac o'r blaen gyda'r cwmni yn atebol i'r Cyngor. Ychwanegodd y byddai cyfrifon Byw'n Iach Cyf yn cael ei gynnwys fel rhan o'r cyfrifon grŵp a gyflwynir er sylw'r Pwyllgor.

Incwm Parc Glynllifon

Mewn ymateb i gwestiwn gan aelod parthed gwiriadau o niferoedd ymwelwyr, nododd y Rheolwr Archwilio mai'r datrysiad gorau i'r Cyngor o ran casglu ffioedd mynediad ymwelwyr i Barc Glynllifon oedd y trefniant efo tenant y Siop ger mynediad y Parc. Amlygodd bod gostyngiad yn yr adnoddau staffio, ac o ystyried mai £14,000 oedd yr incwm blynyddol, mi fyddai costau cyflogi unigolyn i wneud y gwaith yn uwch na'r incwm.

PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad ar waith Archwilio Mewnol am y cyfnod o 17 Medi 2018 hyd at 16 Tachwedd 2018 a chefnogi'r gweithrediadau cytunedig a gyflwynwyd eisoes i reolwyr y gwasanaethau perthnasol.

9. CYNLLUN ARCHWILIO MEWNOL 2018/19

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Archwilio yn rhoi diweddariad ar y sefyllfa gyfredol o ran cwblhau cynllun archwilio mewnol 2018/19.

Adroddwyd bod y Gwasanaeth Archwilio Mewnol hyd at 16 Tachwedd 2018 wedi cwblhau 37.29% o'r cynllun, gyda 22 o'r 59 archwiliad yng nghynllun 2018/19 wedi eu rhyddhau yn derfynol. Tynnwyd sylw at yr addasiadau i'r Cynllun.

PENDERFYNWYD derbyn a nodi cynnwys yr adroddiad fel diweddariad o gynnydd yn erbyn cynllun archwilio 2018/19.

10. HUNANASESIAD O EFFEITHIOLRWYDD Y PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU

Cyflwynwyd adroddiad yr Uwch Reolwr Refeniw a Risg a oedd yn nodi canlyniadau'r Hunanasesiad o Ymarfer Da gan ddefnyddio canllawiau asesu CIPFA, a gynhaliwyd mewn gweithdy ar 5 Tachwedd 2018, ynghyd â chynllun gweithredu er mwyn gwella cydymffurfiaeth efo'r gofynion statudol ac ymarfer gorau'r cyrff proffesiynol.

Gofynnwyd i'r aelodau a oedd yn bresennol yn y gweithdy i gadarnhau bod yr adroddiad yn adlewyrchiad teg o'r drafodaeth a gafwyd yno.

Mewn ymateb i sylw gan aelod o ran y Pwyllgor yn cyflwyno adroddiad blynyddol ffurfiol i'r Cyngor Llawn yn hytrach nag adroddiad eithriad yn unig, eglurodd y Pennaeth Cyllid, daethpwyd i'r casgliad yn y gweithdy y byddai gwaith y Pwyllgor yn cael ei gynnwys yn Adroddiad Blynyddol Craffu ac mai adroddiad eithriad a gyflwynir gan y Pwyllgor i'r Cyngor Llawn, pe cyfyd yr angen.

Cyfeiriodd aelod at y Datganiad Llywodraethu Blynyddol gan nodi y dylai bod cyfeiriad at waith y Pwyllgor a'i rôl o ran llywodraethu. Mewn ymateb, nododd yr Uwch Reolwr Refeniw a Risg y bwriedir cryfhau'r cyswllt efo'r Grŵp Asesu Trefniadau Llywodraethu gan gyflwyno adroddiadau mwy rheolaidd ar waith y Grŵp i'r Pwyllgor.

PENDERFYNWYD derbyn cynnwys yr adroddiad fel sail i gynllun gweithredu ar gyfer datblygiad pellach y Pwyllgor a gofyn am ddiweddariad i gyfarfodydd dilynol ar y cynnydd yn erbyn y camau gweithredu.

Dechreuodd y cyfarfod am 10.00am a daeth i ben am 12.45pm

CADEIRYDD

Eitem 5

CYFARFOD:	PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU
DYDDIAD:	14 CHWEFROR 2019
TEITL:	CYLLIDEB REFENIW 2018/19 – ADOLYGIAD DIWEDD TACHWEDD 2018
PWRPAS:	Adroddiad Monitro ar y Sefyllfa Ariannol Ddiweddaraf
GWEITHREDIAD:	Derbyn yr wybodaeth, ystyried risgiau sy'n deillio o'r tafluniadau gwariant yn erbyn y gyllideb, a chraffu penderfyniadau'r Cabinet yng nghyswllt rheoli cyllidebau'r Cyngor a'i adrannau
SWYDDOG CYSWLLT:	DAFYDD L EDWARDS, PENNAETH CYLLID
AELOD CABINET:	CYNGHORYDD PEREDUR JENKINS

1. Yn unol â gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, disgwylir i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu graffu rhai materion ariannol gan gynnwys adroddiadau monitro cyllideb, lle'n briodol.
2. Cyflwynwyd yr adroddiad atodol (Cyllideb Refeniw 2018/19 – Adolygiad Diwedd Tachwedd 2018) i'r Cabinet ar 22 Ionawr 2019.
3. Mae'r Aelod Cabinet dros Gyllid a Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu wedi gofyn i ni gyflwyno'r adroddiad yma i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu i'w graffu, ynghyd â'r daflen penderfyniad perthnasol sydd ar y dudalen nesaf.
4. Gofynnir i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu nodi'r sefyllfa a'r risgiau perthnasol yng nghyswllt cyllidebau'r Cyngor a'i adrannau, ystyried penderfyniadau'r Cabinet a sylwebu fel bo angen.

Atodiadau:

Taflen Penderfyniad Cabinet 22/01/2019

Cyllideb Refeniw 2018/19 – Adolygiad Diwedd Tachwedd 2018 (adroddiad Cabinet 22/01/2019)

TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET CYNGOR GWYNEDD

Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:	22 Ionawr 2019
Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd	6 Chwefror 2019

PWNC

Eitem 8:CYLLIDEB REFENIW 2018/19 - ADOLYGIAD DIWEDD TACHWEDD

PENDERFYNIAD

- Dderbyn yr adroddiad ar adolygiad diwedd Tachwedd 2018 o'r Gyllideb Refeniw, a nodi y sefyllfa ariannol ddiweddaraf parthed cyllidebau pob adran / gwasanaeth.
- Gofyn i'r Aelod Cabinet ar gyfer Oedolion, Iechyd a Llesiant, ynghyd â'r Pennaeth Adran, i fynd at wraidd gorwariant y gwasanaeth Darparu a chymryd camau i leihau'r gorwariant, ac i adrodd i'r Cabinet ar y cynllun ymateb.
- Oherwydd cynnydd yn y gorwariant ar nifer o benawdau'r gyllideb gan yr Adran Plant a Theuluoedd ers yr adolygiad diwethaf, i ystyried y sefyllfa pan dderbynnir adroddiad perfformiad yr Aelod Cabinet (Cabinet 29/01/19) gyda golwg ar geisio lleihau'r gorwariant erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.
- Oherwydd lefel y gorwariant ar gludiant disgyblion gan yr Adran Addysg, i ystyried y sefyllfa pan dderbynnir adroddiad yr Aelod Cabinet (Cabinet 29/01/19).
- Caniatáu'r Adran Amgylchedd i neilltuo (£60k) o danwariant yr adran ar gyfer cynnal adolygiad gan gomisiynu ymchwil gan y Brifysgol a chyflogi swyddogion ychwanegol i gasglu tystiolaeth yn y maes Cludiant Cyhoeddus yn dilyn nifer o faterion dros y blynyddoedd diwethaf.
- Cynaeafu (£2,984k) o'r tanwariant net ar gyllidebau Corfforaethol,
 - gyda (£700k) cysylltiedig â'r premiwm Treth y Cyngor i'w neilltuo i gronfa benodol i'w ystyried ar gyfer y Strategaeth Dai.
 - (£435k) yn ymwneud â chostau cyfalaf i'w drosglwyddo i gronfa ariannu'r rhaglen gyfalaf.
 - gyda'r gweddill sef (£1,849k) i'w drosglwyddo i Gronfa Cefnogi'r Strategaeth Ariannol i gynorthwyo gyda phwysau anochel un-tro ar gyllidebau'r Cyngor.

RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Cyfrifoldeb y Cabinet yw cymryd camau, fel bo angen, er mwyn sicrhau rheolaeth briodol dros gyllidebau'r Cyngor (e.e. cymeradwyo trosglwyddiadau sylweddol neu gyllideb ychwanegol).

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU
PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol am eu barn, sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad

ADRODDIAD I'R CABINET

22 Ionawr 2019

Aelod Cabinet: Cyngorydd Peredur Jenkins, Aelod Cabinet Cyllid

Pwnc: Cyllideb Refeniw 2018/19 – Adolygiad Diwedd Tachwedd 2018

Swyddog Cyswllt: Dafydd L Edwards, Pennaeth Cyllid

1. Y penderfyniad a geisir

Gofynnir i'r Cabinet:

- Dderbyn yr adroddiad ar adolygiad diwedd Tachwedd 2018 o'r Gyllideb Refeniw, ac ystyried y sefyllfa ariannol ddiweddaraf parthed cyllidebau pob adran / gwasanaeth.
- Gofyn i'r Aelod Cabinet ar gyfer Oedolion, Iechyd a Llesiant, ynghyd â'r Pennaeth Adran, i fynd at wraidd gorwariant y gwasanaeth Darparu a chymryd camau i leihau'r gorwariant, ac i adrodd i'r Cabinet ar y cynllun ymateb.
- Oherwydd cynnydd yn y gorwariant ar nifer o benawdau'r gyllideb gan yr Adran Plant a Theuluoedd ers yr adolygiad diwethaf, i ystyried y sefyllfa pan dderbynnir adroddiad perfformiad yr Aelod Cabinet (Cabinet 29/01/19) gyda golwg ar geisio lleihau'r gorwariant erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.
- Oherwydd lefel y gorwariant ar gludiant disgyblion gan yr Adran Addysg, i ystyried y sefyllfa pan dderbynnir adroddiad yr Aelod Cabinet (Cabinet 29/01/19).
- Caniatáu yr Adran Amgylchedd i neilltuo (£60k) o danwariant yr adran ar gyfer cynnal adolygiad gan gomisiynu ymchwil gan y Brifysgol a chyflogi swyddogion ychwanegol i gasglu tystiolaeth yn y maes Cludiant Cyhoeddus yn dilyn nifer o faterion dros y blynyddoedd diwethaf.
- Cynaeafu (£2,984k) o'r tanwariant net ar gyllidebau Corfforaethol,
 - gyda (£700k) cysylltiedig â'r premiwm Treth y Cyngor i'w neilltuo i gronfa benodol i'w ystyried ar gyfer y Strategaeth Dai.
 - (£435k) yn ymwneud â chostau cyfalaf i'w drosglwyddo i gronfa ariannu'r rhaglen gyfalaf.
 - gyda'r gweddill sef (£1,849k) i'w drosglwyddo i Gronfa Cefnogi'r Strategaeth Ariannol i gynorthwyo gyda phwysau anochel un-tro ar gyllidebau'r Cyngor.

2. Cyflwyniad / Cefndir

Cyfrifoldeb y Cabinet yw cymryd camau, fel bo angen, er mwyn sicrhau rheolaeth briodol dros gyllidebau'r Cyngor (e.e. cymeradwyo trosglwyddiadau sylweddol neu gyllideb ychwanegol).

Cyflwynir yr adroddiad ddiwedd Tachwedd yma ar yr adolygiad diweddaraf o gyllideb refeniw'r Cyngor am 2018/19, ac amlinellir grynhoad o'r sefyllfa fesul Adran yn **Atodiad 1**.

Yn **Atodiad 2**, rhoddir fanylion pellach yn ymwneud â'r prif faterion a'r penawdau cyllideb ble rhagwelir gwahaniaethau sylweddol, ynghyd ag argymhellion penodol ble'n briodol.

2.1 Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant

Gorwariant gan y gwasanaeth Darparu a Llithriad yng ngwireddu cynlluniau arbedion o 2017/18, yn cael eu gwrthbwyso gan danwariant ar wasanaethau Pobl Hŷn, Anabledd Corff a Dysgu.

2.2 Adran Plant a Theuluoedd

Y tuedd o orwariant a welwyd yn 2017/18 yn dwysáu, gyda'r gorwariant ar wasanaethau lleoliadau, gweithredol, Arbenigol/Derwen ac eraill wedi cynyddu ers yr adolygiad blaenorol.

2.3 Adran Addysg

Pwysau ychwanegol ar gludiant tacsis a bysus ysgolion ac ar arlwyfaeth a glanhau. Hefyd, gorwariant yn parhau yn y maes Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad.

2.4 Adran Economi

Llithriad cynllun arbedion yn y maes hamdden yw'r prif reswm am y gorwariant ond gwelwyd hefyd ostyngiad yn y rhagolygon incwm canolfannau hamdden.

2.5 Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol

Problemau gorwariant yr Adran wedi dwysáu yn ystod 2018/19, sydd yn gyfuniad o orwariant ar gostau staffio, costau cynyddol salwch, diffyg incwm a chynnydd yn y costau gweithredol. Yr Adran eisoes wedi cychwyn cymryd camau i leihau'r gorwariant yn y maes gwastraff, ond bu oedi cyn gweithredu rhai cynlluniau.

2.6 Amgylchedd

Tanwario o ganlyniad i arbedion wedi eu gwireddu ymlaen llaw a rhagolygon ffafriol o ran incwm. Mae'r adran yn awyddus i gynnal adolygiad o gludiant cyhoeddus ac felly argymhellir ganiatáu iddynt neilltuo (£60k) o'r tanwariant i'r pwrpas.

2.7 Corfforaethol

Rhagolygon ffafriol o gynnyrch treth ychwanegol ar Dreth y Cyngor ac ar Premiwm Treth y Cyngor, ond ôl-ddyddio trosglwyddiadau o Dreth y Cyngor i Drethi Annomestig yn lleihau'r incwm. Lleihad mewn hawlio Gostyngiadau Treth Cyngor sydd yn gyson â'r tueddiad ar hyd Cynghorau'r Gogledd a Chanolbarth Cymru.

Tanwariant ar y gyllideb costau cyfalaf. Derbyniad ad-daliad un-tro hawliad Treth ar Werth o £1.383m yn y maes hamdden yn ystod y cyfnod.

Argymhellir trosglwyddo y tanwariant cyffredinol ar Gorfforaethol i'r Gronfa Strategaeth Ariannol i gynorthwyo gyda pwysau anochel un-tro ar gyllidebau'r Cyngor, gyda'r tanwariant Premiwm Treth y Cyngor i'w neilltuo i'w ystyried ei ddefnyddio tuag at y strategaeth dai, a'r tanwariant costau cyfalaf i'w neilltuo i gyllido'r cynllun rheoli asedau.

3. Cyffredinol

Mae'r adolygiad ddiwedd Tachwedd o'r cyllidebau yn dangos darlun cymysg, gyda rheolaeth ariannol dderbyniol gan nifer o adrannau'r Cyngor. Mae'r pwysau sydd ar adrannau ac sydd eisioes wedi gorfod cael eu cydnabod yn y gyllideb ar gyfer y flwyddyn 2019/20 yn amlwg eleni, gyda'r adrannau yn cael trafferthion dygymod gyda'r galw ychwanegol yma. Argymhellir cyfuniad o gamau gweithredu pendant i'r Adran Oedolion, Addysg, Plant a Theuluoedd, i sicrhau rheolaeth o'u cyllidebau erbyn 31 Mawrth 2019.

4. Camau nesaf ac amserlen

Gweithredu ar yr argymhellion gerbron a chyflwyno adroddiad dilynol i'r Cabinet ar 21 Mai 2019 ar sefyllfa diwedd y flwyddyn.

Barn yr aelod lleol

Dim yn berthnasol

Barn y swyddogion statudol**Y Swyddog Monitro:**

Dim sylwadau o safbwynt priodoldeb.

Y Pennaeth Cyllid:

Rwyf wedi cydweithio gyda'r Aelod Cabinet i baratoi'r adroddiad yma ac yn cadarnhau'r cynnwys.

Atodiadau

Atodiad 1 – Crynhoad o sefyllfa net cyllidebau'r adrannau

Atodiad 2 – Manylion y cyllidebau a'r gwahaniaethau sylweddol

Cyllideb Refeniw 2018/19 - Crynhoad o'r sefyllfa fesul Adran

	Adolygiad Diwedd Tachwedd				Amcan Sefyllfa Diwedd Awst £ '000
	Cyllideb Arfaethedig 2018/19 £'000	Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2018/19 £ '000	Addasiadau a Argymhellir £'000	Amcan Gor/ (Tan) Wariant Addasedig £ '000	
Oedolion, Iechyd a Llesiant	51,171	29	0	29	153
Plant a Theuluoedd	14,244	1,333	0	1,333	1,090
Addysg	87,265	741	0	741	750
Economi a Chymuned	5,454	187	0	187	161
Priffyrdd a Bwrdeistrefol	25,091	589	0	589	560
Amgylchedd	7,214	(229)	60	(169)	(29)
Ymgynghoriaeth Gwynedd	244	(11)	0	(11)	(20)
Tîm Rheoli Corfforaethol a Chyfreithiol	1,991	(93)	0	(93)	(58)
Cyllid (a Thechnoleg Gwybodaeth)	6,078	(53)	0	(53)	(66)
Cefnogaeth Gorfforaethol	7,621	(59)	0	(59)	(100)
Cyllidebau Corfforaethol (Gwahaniaethau yn unig)	*	(3,031)	2,984	(47)	(770)
Cyfansymiau (net)	206,373	(597)	3,044	2,447	1,671

CYLLIDEB REFENIW 2018/19 - ADOLYGIAD DIWEDD TACHWEDD

Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant	Cyllideb Arfaethedig 2018/19	Amcan Sefyllfa Terfynol 2018/19	Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2018/19	Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir	Amcan Gor / (Tan) Wariant Addasedig	Gor/(Tan) Wariant Net Sefyllfa Diwedd Awst
Maes:-	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
<u>Gwasanaethau Oedolion</u>						
Gwasanaethau Pobl Hŷn						
Preswyl a Nyrsio - Cartrefi	11,408	11,102	(306)	0	(306)	15
Gofal Cartref	6,241	5,923	(318)	0	(318)	(512)
Eraill	1,821	1,846	25	0	25	54
	19,470	18,871	(599)	0	(599)	(443)
Gwasanaethau Anabledd Corff						
Preswyl a Nyrsio	523	456	(67)	0	(67)	(69)
Gofal Cartref	1,108	945	(163)	0	(163)	(170)
Eraill	664	684	20	0	20	26
	2,295	2,085	(210)	0	(210)	(213)
Gwasanaethau Anabledd Dysgu	16,736	16,543	(193)	0	(193)	(205)
Gwasanaethau Iechyd Meddwl						
Preswyl a Nyrsio	1,569	1,571	2	0	2	(6)
Eraill	1,878	1,933	55	0	55	90
	3,447	3,504	57	0	57	84
Gwasanaethau Eraill (Oedolion)	2,947	2,987	40	0	40	115
<u>Cyfanswm Gwasanaethau Oedolion</u>	44,895	43,990	(905)	0	(905)	(662)

CYLLIDEB REFENIW 2018/19 - ADOLYGIAD DIWEDD TACHWEDD						
Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant	Cyllideb Arfaethedig 2018/19	Amcan Sefyllfa Terfynol 2018/19	Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2018/19	Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir	Amcan Gor / (Tan) Wariant Addasedig	Gor/(Tan) Wariant Net Sefyllfa Diwedd Awst
Maes:-	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
<u>Gwasanaethau Darparu (dangos cyllideb net)</u>						
Gofal Preswyl	90	364	274	0	274	264
Gofal Dydd	11	133	122	0	122	41
Gofal Cymunedol	488	1,040	552	0	552	437
Eraill	(4)	71	75	0	75	94
<u>Cyfanswm Gwasanaethau Darparu</u>	585	1,608	1,023	0	1,023	836
<u>Gwasanaethau Eraill</u>						
Gwasanaethau Tai	1,867	2,005	138	0	138	105
Gwasanaethau Canolog Adrannol (<i>gan gynnwys arbedion yr Adran</i>)	3,824	4,054	230	0	230	331
Defnydd o gronfa benodol		(457)	(457)	0	(457)	(457)
<u>Cyfanswm Gwasanaethau Eraill</u>	5,691	5,602	(89)	0	(89)	(21)
<u>Cyfanswm Oedolion, Iechyd a Llesiant</u>	51,171	51,200	29	0	29	153

Oedolion, lechyd a Llesiant

Gwasanaethau Pobl Hŷn - cynnydd yn yr incwm preswyl a nyrsio yn dilyn asesiadau a chynnydd yn y niferoedd. Galw cynyddol am becynnau gofal cartref.

Gwasanaethau Anabledd Corff - y tueddiad o leihad yn y nifer pecynnau gofal cartref a phreswyl a nyrsio yn parhau eleni, ond dau achos dwys Llety Cefnogol wedi trosglwyddo o Gyngor Sir Ceredigion.

Gwasanaethau Anabledd Dysgu - dau achos costus preswyl a nyrsio wedi dod i ben yn y cyfnod, gyda'r tanwariant ar breswyl a nyrsio a llety cefnogol yn cael ei leihau gan orwariant ar wasanaethau dydd a chynlluniau cefnogol.

Gwasanaethau lechyd Meddwl - cyfraniad yn ymwneud â darpariaeth gwasanaeth blynyddoedd blaenorol wedi ei dderbyn gan lechyd yn y cyfnod, sydd yn cynorthwyo i leihau'r effaith gorwariant ar lety cefnogol.

Gwasanaethau Darparu - y tueddiad gorwario yn parhau ac yn cynnyddu, costau staffio ychwanegol sydd bennaf gyfrifol am y gorwariant gyda rhai o'r rhesymau yn cynnwys cartrefi wedi bod mewn mesurau arbennig, argymhellion gan Arolygiaeth Gofal Cymru, a phenodi uwchlaw'r gyllideb. Costau yn uwch na'r incwm sydd yn cael ei ad-ennill ar Ofal Cymunedol.

Gwasanaethau Tai - pwysau cynyddol ar lety dros dro i'r digartref a llithriad mewn gwireddu cynllun arbedion.

Gwasanaethau Canolog Adrannol - derbyniad incwm a swyddi gwag yn lleihau effaith y llithriad mewn gwireddu gwerth £372k o gynlluniau arbedion o 2017/18.

Gan fod yr adran yn gorwario, mae'n briodol fod yr adran yn defnyddio cyllid o £457k, sydd gyfwerth â grant cefnogi gwasanaethau cymdeithasol a dderbyniwyd yn 2017/18 i gynorthwyo i leddfu'r gorwariant a adroddir.

Oherwydd lefel y gorwariant gan y gwasanaeth Darparu, disgwylir i'r Aelod Cabinet Oedolion a'r Pennaeth Adran gymryd camau pendant i fynd at wraidd y mater a lleihau'r gorwariant. Gofynnir felly i'r Aelod Cabinet adrodd yn uniongyrchol i'r Cabinet ar y cynllun ymateb.

CYLLIDEB REFENIW 2018/19 - ADOLYGIAD DIWEDD TACHWEDD

Adran Plant a Theuluoedd	Cyllideb Arfaethedig 2018/19	Amcan Sefyllfa Terfynol 2018/19	Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2018/19	Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir	Amcan Gor / (Tan) Wariant Addasedig	Gor/(Tan) Wariant Net Sefyllfa Diwedd Awst
Maes:-	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Rheolaeth Gwasanaeth	610	588	(22)	0	(22)	(16)
Gweithredol	2,062	2,335	273	0	273	162
Lleoliadau						
Lleoliadau All-Sirol	1,587	2,577	990	0	990	600
Maethu Drwy Asiant	1,009	1,007	(2)	0	(2)	24
Maethu Mewnol	1,701	1,957	256	0	256	211
Gwasanaethau Cefnogol ac Eraill	1,616	1,755	139	0	139	90
	5,913	7,296	1,383	0	1,383	925
Ôl-16	998	1,173	175	0	175	109
Arbenigol/Derwen	1,684	1,926	242	0	242	156
Cyfiawnder Ieuenctid	251	207	(44)	0	(44)	(45)
Blynyddoedd Cynnar	162	167	5	0	5	(2)
Ieuenctid	972	793	(179)	0	(179)	(188)
Eraill	1,592	1,644	52	0	52	(11)
Derbyniad Grant 2018/19		(552)	(552)	0	(552)	0
Cyfanswm Plant a Theuluoedd	14,244	15,577	1,333	0	1,333	1,090

Plant a Theuluoedd

Gweithredol - y tueddiad yn parhau ers 2017/18 gyda chostau staff uwchlaw lefel y gyllideb ynghyd â chynnydd yn y nifer o blant mewn gofal ond ddim mewn lleoliadau drytach, mae'r maes yn destun bid am adnodd ychwanegol yn 2019/20.

Lleoliadau - tri achos lleoliad all-sirol newydd a newid yn nwyster dau achos, cynnydd yng nghostau y pecynnau newydd ond cwtogiad yng nghyfraniadau lechyd. Gorwariant cynyddol yn maethu mewnol ac ar y cynllun Aros Ymlaen a gwasanaethau cefnogol. Mae adolygiad o'r ymrwymïadau all-sirol wedi ei gynnal sydd wedi amlygu newid i'r math o achosion dros y blynyddoedd diwethaf, ac felly i'r costau cysylltiedig.

Ôl-16 - achosion diweddar sydd wedi trosglwyddo o leoliadau all-sirol yn gyfrifol am y gorwariant.

Arbenigol/Derwen – Gorwariant o £190k ar gynlluniau Cefnogol yn dilyn cynnydd yn y galw am wasanaeth ac am gefnogaeth arbenigol. Gorwariant o £29k gan yr Uned Hafan y Sêr ac ar gostau staff.

Ieuenctid – cyfnod trosiannol o ddarparu'r gwasanaeth ieuenctid gydag arbedion wedi cael eu gwireddu ymlaen llaw.

Yn Rhagfyr, bu i'r Cyngor dderbyn grant o £552k gan Lywodraeth Cymru i gefnogi gwasanaethau cymdeithasol cynaliadwy, oherwydd sefyllfa ariannol yr Adran Plant, mae'n briodol fod yr arian yn cael ei ddefnyddio i geisio lleihau'r gorwariant gros o £1.9m i £1.3m.

Nodir cynnydd yn y gorwariant ar nifer o benawdau'r gyllideb ers yr adolygiad diwethaf, gyda'r sefyllfa i'w ystyried pan dderbynir adroddiad perfformiad yr Aelod Cabinet (Cabinet 29/01/19) gyda golwg ar geisio lleihau'r gorwariant erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.

CYLLIDEB REFENIW 2018/19 - ADOLYGIAD DIWEDD TACHWEDD

Adran Addysg	Cyllideb Arfaethedig 2018/19	Amcan Sefyllfa Terfynol 2018/19	Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2018/19	Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir	Amcan Gor / (Tan) Wariant Addasedig	Gor/(Tan) Wariant Net Sefyllfa Diwedd Awst
Maes:-	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Ysgolion Datganoledig	74,036	74,036	0	0	0	0
Gwasanaethau Ansawdd Ysgolion	(392)	(532)	(140)	0	(140)	(147)
Isadeiledd a Gwasanaethau Cefnogol						
Cludiant	4,605	5,052	447	0	447	482
Gwasanaeth Atodol	414	618	204	0	204	100
Eraill	2,300	2,290	(10)	0	(10)	(30)
	7,319	7,960	641	0	641	552
Arweinyddiaeth a Rheolaeth	2,133	2,180	47	0	47	9
Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad	4,169	4,362	193	0	193	336
Cyfanswm Addysg	87,265	88,006	741	0	741	750

Addysg

Gwasanaethau Ansawdd Ysgolion - rhagolygon tanwariant o (£140k) o ganlyniad i drosiant staff, denu incwm grant a lleihad mewn costau.

Cludiant - y tueddiad gorwariant yn parhau, gyda diffyg o £10k ar werthiant tocynau cludiant ôl-16 a £170k o orwariant ar gludiant bysus ysgol yn dilyn ail-dendro teithiau bysus dau weithredwr.

Er fod cyllideb ychwanegol un-tro o £200k wedi ei roi i cludiant tacsis ysgolion ar ddechrau'r flwyddyn, rhagwelir gorwariant o £267k, sydd yn effaith flwyddyn lawn y twf yn 2017/18, ynghyd â chynnydd yn y ceisiadau ers sefydlu'r gyllideb eleni. Gofynnwyd i'r Pennaeth Addysg mewn ymgynghoriad â'r Pennaeth Amgylchedd ymchwilio i'r cynnydd yn y gwariant ar gludiant tacsis ysgolion a gweithredu i reoli'r sefyllfa. Mae adolygiad wedi ei wneud o'r sefyllfa gyda'r canlyniad wedi ei adrodd i gyfarfod herio perfformiad yr Adran. Yn dilyn cais gan yr adran am adnodd ychwanegol i gynorthwyo gyda'r costau cynyddol, mae bwriad dyrannu adnodd ychwanegol i'r Adran yn 2019/20.

Isadeiledd a Gwasanaethau Cefnogol - Gwasanaeth Atodol - diffyg yn yr incwm prydau ysgol a'r elfen gofal o'r cynllun brecwast, ynghyd â chostau yn deillio o faterion staffio a salwch yn Arlwyfaeth, Glanhau a Gofalu am ysgolion.

Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad - amgylchiadau yn ymwneud â un ganolfan benodol yn parhau ac yn gyfrifol am £220k o'r gorwariant. Unedau Cyn Ysgol ABC yn gorwario £96k yn ystod cyfnod trosiannol i'r gyfundrefn newydd. Addysg heblaw mewn Ysgol yn gorwario £91k. Lleoliadau all-sirol ac unedau anghenion dysgu ychwanegol yn tanwario ac felly'n lleihau'r gorwariant a adroddir.

Oherwydd lefel y gorwariant ar gludiant disgyblion gan yr Adran Addysg, i ystyried y sefyllfa pan dderbynir adroddiad yr Aelod Cabinet (Cabinet 29/01/19).

CYLLIDEB REFENIW 2018/19 - ADOLYGIAD DIWEDD TACHWEDD						
Adran Economi a Chymuned	Cyllideb Arfaethedig 2018/19	Amcan Sefyllfa Terfynol 2018/19	Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2018/19	Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir	Amcan Gor / (Tan) Wariant Addasedig	Gor/(Tan) Wariant Net Sefyllfa Diwedd Awst
Maes:-	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Rheolaeth	344	344	0	0	0	0
Dysgu Cymunedol	1,823	1,779	(44)	0	(44)	10
Twristiaeth a Threftadaeth	1,144	1,167	23	0	23	26
Economi a Chymuned	374	380	6	0	6	(34)
Cymunedau'n Iach	1,769	1,971	202	0	202	159
<u>Cyfanswm Economi a Chymuned</u>	5,454	5,641	187	0	187	161

Economi a Chymuned

Dysgu Cymunedol - swyddi gwag ac arbedion wedi eu gwireddu yn fuan yn gyfrifol am y tanwariant.

Twristiaeth a Threftadaeth - rhagolygon gorwariant o £60k gan Storiell yn gyfuniad o orwariant ar staff a diffyg yn yr incwm. Tanwariant gan y Neuaddau ac Archifau yn lleihau'r gorwariant a adroddir.

Economi a Chymuned - symudiad ers yr adroddiad blaenorol gan nad yw'r rhagolygon incwm harbyrau mor addawol. Hafan, Pwllheli a Doc Fictoria, Caernarfon yn gorwario ond yn cael ei leddfu gan danwariant ar barciau gwledig a drwy ragori ar incwm traethau.

Cymunedau'n Iach - £157k o'r gorwariant o ganlyniad i lithriad yn yr amserlen sefydlu cwmni i redeg y cyfleusterau hamdden, ynghyd â gostyngiad yn y rhagolygon incwm canolfannau hamdden.

CYLLIDEB REFENIW 2018/19 - ADOLYGIAD DIWEDD TACHWEDD						
Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol (yn cynnwys Cefnffyrdd)	Cyllideb Arfaethedig 2018/19	Amcan Sefyllfa Terfynol 2018/19	Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2018/19	Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir	Amcan Gor / (Tan) Wariant Addasedig	Gor/(Tan) Wariant Net Sefyllfa Diwedd Awst
Maes:-	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Gwasanaethau Priffyrdd (cynnwys Cefnffyrdd)	9,748	9,787	39	0	39	66
Gwasanaethau Peirianeg	365	364	(1)	0	(1)	29
Gwasanaethau Bwrdeistrefol						
Gwastraff	11,035	11,505	470	0	470	178
Eraill	3,943	4,024	81	0	81	287
Cyfanswm Priffyrdd a Bwrdeistrefol	25,091	25,680	589	0	589	560

Priffyrdd a Bwrdeistrefol (gan gynnwys Cefnffyrdd)

Gwasanaethau Priffyrdd - trosiant staff yn y cyfnod yn gyfrifol am leihau'r diffyg a ragwelir ar yr incwm.

Gwastraff - cynnydd sylweddol yn y gorwariant a ragwelir i £470k, gyda chynnydd yn y costau staffio a chostau cysylltiedig â salwch. Gwelwyd hefyd gostau gweithredol uwch ar drafnidiaeth, cynnal a chadw'r fflyd ac ymdrin â deunyddiau ailgylchu. Er fod yr adran wedi cymryd camau i leihau costau drwy newid shifftiau a threfniadau cylchdeithiau casglu, oedd fod i ddod i rym yn Nhachwedd yn Nwyfor ac yna Arfon a Meirionnydd yn 2019/20, bu llithriad yn yr amserlen gweithredu, gyda Dwyfor yn weithredol o Ionawr 2019.

Gwasanaethau Bwrdeistrefol Eraill - lleihad yn lefel y gorwariant a ragwelir i £81k gyda'r rhagolygon incwm ar wastraff masnachol yn fwy addawol bellach. Costau rhedeg a hurio cerbydau yn parhau i fod yn broblemus, ond negodi gwell prisiau ar ddeunyddiau ailgylchu a lleihad mewn costau cludo a thirlenwi yn cynorthwyo i leihau lefel y gorwariant.

Er fod rhai camau eisioes wedi eu cymryd ar yr ochr Gwastraff yn ystod y flwyddyn i sicrhau mesurau i weithredu o fewn y gyllideb, nodir bu oedi gyda'r gweithrediad.

CYLLIDEB REFENIW 2018/19 - ADOLYGIAD DIWEDD TACHWEDD						
Adran Amgylchedd	Cyllideb Arfaethedig 2018/19	Amcan Sefyllfa Terfynol 2018/19	Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2018/19	Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir	Amcan Gor / (Tan) Wariant Addasedig	Gor/(Tan) Wariant Net Sefyllfa Diwedd Awst
Maes:-	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Rheolaeth yr Adran	472	391	(81)	0	(81)	2
Gwasanaethau Cynllunio						
Rheolaeth Datblygu	192	274	82	0	82	127
Eraill	204	187	(17)	0	(17)	(15)
	396	461	65	0	65	112
Gwasanaethau Gofal Stryd a Thrafnidiaeth						
Rheolaeth Rhwydwaith (Trafnidiaeth)	720	592	(128)	0	(128)	(91)
Parcio a Gorfodaeth Parcio	(1,656)	(1,675)	(19)	0	(19)	(66)
Cludiant Integredig	1,702	1,594	(108)	60	(48)	(1)
	766	511	(255)	60	(195)	(158)
Cefn Gwlad a Mynediad	715	720	5	0	5	(3)
Gwarchod y Cyhoedd	1,609	1,580	(29)	0	(29)	(15)
Eiddo, Gofalu, Arlwyyo a Glanhau	3,256	3,322	66	0	66	33
Cyfanswm Amgylchedd	7,214	6,985	(229)	60	(169)	(29)

Amgylchedd

Rheolaeth - arbedion ymlaen llaw ar ail-strwythuro a derbyniad grant i gyllido swydd yn yr adran wedi arwain at arbedion un-tro ar y pennawd Rheolaeth.

Gwasanaeth Cynllunio - rhagwelir ddiffyg yn yr incwm yn y maes Rheolaeth Datblygu, ond fod y rhagolygon bellach yn edrych yn fwy addawol yn dilyn derbyniad incwm yn ymwneud â dau gais sylweddol.

Gwasanaethau Gofal Stryd a Thrafnidiaeth - rhagolygon ffafriol o ran yr incwm yn y maes Rheolaeth Rhwydwaith (Trafnidiaeth) a Pharcio a Gorfodaeth, ynghyd â thanwariant staffio.

Yn Cludiant Integredig, costau ychwanegol yn deillio o ail-dendro teithiau bysus dau weithredwr bysus, ond fod elfen o'r cymorth ariannol tuag at y costau cynyddol a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru ar ddiwedd 2017/18 yn cael ei ddefnyddio i gyllido'r gorwariant cysylltiedig eleni. Tanwariant ar gostau gweithwyr a chynnydd yn y rhagolygon incwm wedi gwella'r sefyllfa ariannol. Mae'r Adran yn awyddus i gynnal adolygiad o gludiant cyhoeddus ac felly awgrymir fod £60k o danwariant yr Adran yn cael ei glustnodi i gomisiynu ymchwil gan y Brifysgol i adolygu'r ddarpariaeth a chyflogi swyddogion ychwanegol i gasglu tystiolaeth yn y maes.

Eiddo, Gofalu, Arlwyo a Glanhau - cynnydd yn y gorwariant, yn bennaf ar gostau staff.

Argymhellir ganiatáu yr Adran Amgylchedd i neilltuo (£60k) o'r tanwariant ar gyfer cynnal adolygiad gan gomisiynu ymchwil gan y Brifysgol a chyflogi swyddogion ychwanegol i gasglu tystiolaeth yn y maes Cludiant Cyhoeddus yn dilyn nifer o faterion dros y blynyddoedd diwethaf.

CYLLIDEB REFENIW 2018/19 - ADOLYGIAD DIWEDD TACHWEDD						
Adran Ymgynghoriaeth	Cyllideb Arfaethedig 2018/19	Amcan Sefyllfa Terfynol 2018/19	Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2018/19	Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir	Amcan Gor / (Tan) Wariant Addasedig	Gor/(Tan) Wariant Net Sefyllfa Diwedd Awst
Maes:-	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Gwasanaethau Ffyrdd a Pheirianeg	(389)	(391)	(2)	0	(2)	(72)
Gwasanaeth Adeiladu	(26)	(29)	(3)	0	(3)	31
Gwasanaethau Uned Rheoli Risg Llifogydd	549	550	1	0	1	2
Rheolaeth Adeiladu	110	103	(7)	0	(7)	19
Cyfanswm Ymgynghoriaeth	244	233	(11)	0	(11)	(20)

Ymgynghoriaeth

Gwasanaethau Ffyrdd a Pheirianeg - symudiad o £70k ers yr adolygiad diwethaf, gan fod gostyngiad yn y rhagolygon incwm erbyn hyn, ynghyd â chynnydd yn y costau staffio a thrafnidiaeth.

Gwasanaeth Adeiladu - tanwariant ar gostau staff a chostau trafndiaeth yn gwrthbwysu'r diffyg incwm o £46k a ragwelir ar gyfer y maes, gyda'r gwasanaeth yn parhau i ymgeisio am waith gan sefydliadau allanol i ddenu incwm.

Rheolaeth Adeiladu - tanwariant staffio un-tro yn diddymu effaith incwm islaw lefel y gyllideb yn y maes Rheolaeth Adeiladu.

CYLLIDEB REFENIW 2018/19 - ADOLYGIAD DIWEDD TACHWEDD						
Adrannau Canolog	Cyllideb Arfaethedig 2018/19	Amcan Sefyllfa Terfynol 2018/19	Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2018/19	Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir	Amcan Gor / (Tan) Wariant Addasedig	Gor/(Tan) Wariant Net Sefyllfa Diwedd Awst
Maes:-	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Tim Rheoli Corfforaethol a Chyfreithiol	1,991	1,898	(93)	0	(93)	(58)
Cyllid (a Thechnoleg Gwybodaeth)	6,078	6,025	(53)	0	(53)	(66)
Cefnogaeth Gorfforaethol	7,621	7,562	(59)	0	(59)	(100)
Cyfanswm Adrannau Canolog	15,690	15,485	(205)	0	(205)	(224)

Adrannau Canolog

Tim Rheoli Corfforaethol a Chyfreithiol - y rhagolygon diweddaraf yn awgrymu tanwariant o (£93k), o ganlyniad i swydd wag, derbyniad incwm ychwanegol o (£46k) gan yr Uned Gyfreithiol a lleihad mewn costau yn y maes Cynllunio Argyfwng. Bydd yr arbedion yma yn rhan o gynlluniau arbedion a gynigir ar gyfer 2019/20 ymlaen.

Cyllid (a Thechnoleg Gwybodaeth) - tanwariant un-tro ar swyddi ar draws yr Adran sydd bennaf gyfrifol am y tanwariant, ynghyd â denu incwm ychwanegol. Yr arbedion ymlaen llaw wedi eu cynllunio mewn paratoad i allu cyfrannu at gynlluniau arbedion 2019/20 ymlaen.

Cefnogaeth Gorfforaethol - y tanwariant a ragwelir yn gyfuniad o arbedion staffio un-tro o ganlyniad i swyddi gwag, ynghyd â llwyddiant yr Adran i ddenu incwm allanol uwchlaw lefel y gyllideb gan gynnwys yn y maes lechyd Galwedigaethol, gyda'r bwriad o'u defnyddio fel rhan o gynlluniau arbedion o 2019/20 ymlaen.

CYLLIDEB REFENIW 2018/19 - ADOLYGIAD DIWEDD TACHWEDD						
Corfforaethol (Dim ond yn adlewyrchu y gwahaniaethau)	Cyllideb Arfaethedig 2018/19	Amcan Sefyllfa Terfynol 2018/19	Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2018/19	Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir	Amcan Gor / (Tan) Wariant Addasedig	Gor/(Tan) Wariant Net Sefyllfa Diwedd Awst
Maes:-	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Treth y Cyngor	*	*	(360)	360	0	(92)
Premiwm Treth Cyngor	*	*	(700)	700	0	(700)
Gostyngiadau Treth Cyngor	*	*	(106)	106	0	0
Derbyniad Llog Net	*	*	8	0	8	22
Costau Cyfalaf	*	*	(435)	435	0	0
Hawliad Treth ar Werth yn y Maes Hamdden	*	*	(1,383)	1,383	0	0
Eraill	*	*	(55)	0	(55)	0
Cyfanswm Corfforaethol	*	*	(3,031)	2,984	(47)	(770)

Corfforaethol

Treth y Cyngor a Premiwm Treth y Cyngor - Rhagwelir sefyllfa ffafriol o dreth ychwanegol o (£360k) erbyn diwedd y flwyddyn ariannol. O ran Premiwm Treth y Cyngor, rhagolygon o gynnyrch treth ychwanegol o (£700k) uwchlaw'r treth premiwm o £2.2m a gyllidebwyd, sef premiwm o 50% ar ail gartrefi ac eiddo gwag ers dros 12 mis. Argymhellir y dylid ei neilltuo i ystyried ei ddefnyddio fel rhan o'r strategaeth Dai.

Mae Swyddfa'r Prisiwr eisioes wedi caniatáu 287 eiddo i drosglwyddo o'r rhestr Treth y Cyngor i Drethi Annomestig hyd yn hyn eleni (282 ar gyfer blwyddyn lawn yn 2017/18, 199 yn 2016/17) gyda effaith ceisiadau yn cael eu hôl-ddyddio yn arwain at golled incwm pellach. Mi fyddai'r cynnyrch treth wedi bod yn uwch heblaw am hyn. Byddwn yn parhau i dynnu sylw Llywodraeth Cymru a'r Swyddfa Prisiwr at y sefyllfa anfoddhaol yma.

Gostyngiadau Treth y Cyngor - tanwariant gan fod niferoedd ceisiadau y cynllun Gostyngiad Treth y Cyngor (budd-daliadau) ar ei lefel isaf o'i gymharu â'r ddwy flynedd flaenorol ar hyd Gogledd a Chanolbarth Cymru.

Costau Cyfalaf - polisi rheolaeth trysorlys presennol yn golygu fod tanwariant yn erbyn y gyllideb llog ar fenthyca allanol tymor hir. Gan fod Cynllun Rheoli Asedau 2019/20 ymlaen wrthi'n cael ei datblygu, awgrymir y dylid sicrhau fod y tanwariant yma yn cael ei ddargyfeirio'n benodol i gynorthwyo gyda ariannu'r rhaglen gyfalaf.

Hawliad Treth ar Werth yn y Maes Hamdden - ad-daliad un-tro o £1.383m net yn ymwneud â newidiadau Treth ar Werth yn y maes Hamdden wedi ei dderbyn ers yr adolygiad blaenorol.

Argymhellir cynaeafu (£2,984k) o'r tanwariant net ar gyllidebau Corfforaethol, gyda (£700k) cysylltiedig â'r premiwm Treth y Cyngor yn cael ei neilltuo i gronfa benodol i'w ystyried ar gyfer y Strategaeth Dai, (£435k) yn ymwneud â chostau cyfalaf yn cael ei drosglwyddo i gronfa ariannu'r rhaglen gyfalaf, gyda'r gweddill sef (£1,849k) i'w drosglwyddo i Gronfa Cefnogi'r Strategaeth Ariannol i gynorthwyo gyda phwysau anochel un-tro ar gyllidebau'r Cyngor.

Eitem 6

CYFARFOD:	PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU
DYDDIAD:	14 CHWEFROR 2019
TEITL:	RHAGLEN GYFALAF 2018/19 – ADOLYGIAD DIWEDD TACHWEDD 2018
PWRPAS:	Adroddiad Monitro ar Wariant ac Ariannu'r Rhaglen Gyfalaf
GWEITHREDIAD:	Derbyn y wybodaeth, ystyried y risgiau ynglŷn â'r Rhaglen Gyfalaf, a chraffu penderfyniadau'r Cabinet
SWYDDOG CYSWLLT:	DAFYDD L EDWARDS, PENNAETH CYLLID
AELOD CABINET:	CYNGHORYDD PEREDUR JENKINS

1. Yn unol â gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, disgwylir i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu graffu rhai materion ariannol gan gynnwys adroddiadau monitro cyllideb, lle'n briodol.
2. Cyflwynwyd yr adroddiad atodol (Rhaglen Gyfalaf 2018/19 - Adolygiad Diwedd Tachwedd 2018) i'r Cabinet ar 22 Ionawr 2019 ar gyfer penderfyniadau ynglŷn â'r rhaglen ddiwygiedig a'i ariannu.
3. Mae'r Aelod Cabinet dros Gyllid, a Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu wedi gofyn i ni gyflwyno'r adroddiad yma i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu i'w graffu, ynghyd â'r daflen penderfyniad perthnasol sydd ar y dudalen nesaf.
4. Gofynnir i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu nodi'r sefyllfa ac unrhyw risgiau yng nghyswllt rhaglen gyfalaf y Cyngor, craffu penderfyniadau'r Cabinet, a sylwebu fel bo angen.

Atodiadau:

Taflen Penderfyniad Cabinet 22/01/2019

Rhaglen Gyfalaf 2018/19 - Adolygiad Diwedd Tachwedd 2018 (adroddiad Cabinet 22/01/2019)

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET
CYNGOR GWYNEDD**

Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:	22 Ionawr 2019
Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd	6 Chwefror 2019

PWNC

Eitem 9:RHAGLEN CYFALAF 2018/19 - ADOLYGIAD DIWEDD TACHWEDD

PENDERFYNIAD

Derbyn yr adroddiad ar adolygiad diwedd Tachwedd (sefyllfa 30 Tachwedd 2018) o'r rhaglen gyfalaf, a chymeradwyo'r ariannu addasedig a gyflwynir yn rhan 4 o'r adroddiad, sef:

- £9,000 cynnydd mewn defnydd o fenthycia
 - £3,502,000 cynnydd mewn defnydd o grantiau a chyfraniadau
 - £30,000 cynnydd mewn defnydd o dderbyniadau cyfalaf
 - £488,000 cynnydd mewn defnydd o gyfraniadau refeniw
 - £220,000 cynnydd mewn defnydd o gronfeydd adnewyddu ac eraill
-

RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Cyfrifoldeb y Cabinet yw cymryd camau, fel bo angen, er mwyn sicrhau rheolaeth briodol dros gyllidebau'r Cyngor (e.e. cymeradwyo trosglwyddiadau sylweddol neu gyllideb ychwanegol).

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU
PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol am eu barn, sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad

ADRODDIAD I'R CABINET

22 Ionawr 2019

Aelod Cabinet: Cyngorydd Peredur Jenkins, Aelod Cabinet Cyllid

Pwnc: Rhaglen Gyfalaf 2018/19 –
Adolygiad Diwedd Tachwedd 2018 (sefyllfa 30 Tachwedd 2018)

Swyddog Cyswllt: Dafydd L Edwards, Pennaeth Cyllid

Y penderfyniad a geisir / Pwrpas yr adroddiad

Derbyn yr adroddiad ar adolygiad diwedd Tachwedd (sefyllfa 30 Tachwedd 2018) o'r rhaglen gyfalaf, a chymeradwyo'r ariannu addasedig a gyflwynir yn rhan 4 o'r adroddiad, sef:

- £9,000 cynnydd mewn defnydd o fenthyca
 - £3,502,000 cynnydd mewn defnydd o grantiau a chyfraniadau
 - £30,000 cynnydd mewn defnydd o dderbyniadau cyfalaf
 - £488,000 cynnydd mewn defnydd o gyfraniadau refeniw
 - £220,000 cynnydd mewn defnydd o gronfeydd adnewyddu ac eraill
-

1. Cyflwyniad / Crynodeb

Cyflwynir yr adroddiad technegol yma fel rhan o drefn monitro cyllideb 2018/19. Prif ddiben yr adroddiad yw cyflwyno'r rhaglen gyfalaf ddiwygiedig, a chymeradwyo'r ffynonellau ariannu perthnasol. Mae crynodeb yn rhan 3 a rhan 4 o'r adroddiad, gyda'r argymhellion yn rhan 5:

Rhan 3: Dadansoddiad fesul Adran o'r rhaglen gyfalaf £51.271m am y 3 blynedd 2018/19 – 2020/21.

Rhan 4: Ffynonellau ariannu'r cynnydd net oddeutu £4.249m ers yr adolygiad diwethaf.

Y Cabinet sydd wedi eu hawdurdodi i addasu'r rhaglen gyfalaf. Gofynnir am gymeradwyaeth i'r rhaglen arfaethedig (rhan 3) a'i ariannu (rhan 4).

Mae gweddill yr adroddiad er gwybodaeth:

- Atodiad A: Prif newidiadau fesul ffynhonnell ariannu
- Atodiad B: Symudiadau o 2018/19 i 2019/20
- Atodiad C: Gwariant 8 mis cyntaf 2018/19.

2. Prif Gasgliadau:

Y prif gasgliadau sydd yn codi o'r sefyllfa ddiwygiedig yw :

- Fod cynlluniau pendant mewn lle i fuddsoddi tua £28.5m yn 2018/19, gyda £9.2m (32%) ohono wedi'i ariannu trwy ddenu grantiau penodol.
- Yn ychwanegol i'r £1.0m adroddwyd arno'r tro diwethaf mae £3.4m pellach o wariant arfaethedig wedi'i ail-broffilio o 2018/19 i 2019/20, ond ni achoswyd unrhyw golled ariannu i'r Cyngor ble gwelwyd cynlluniau yn llithro.

3. RHAGLEN GYFALAF 2018/19 i 2020/21

Gweler isod y rhaglen gyfalaf arfaethedig ddiwygiedig.

ADRAN	ADOLYGIAD DIWEDD TACHWEDD				CYNNYDD / (LLEIHAD) ERS YR ADOLYGIAD DIWETHAF £'000
	2018/19	2019/20	2020/21	CYFANSWM	
	£'000	£'000	£'000	£'000	
Addysg	3,558	9,117	3,624	16,299	-
Amgylchedd	9,348	538	42	9,928	1,653
Cefnogaeth Gorfforaethol	111	13	-	124	-
Cyllid	952	74	-	1,026	-
Economi a Chymuned	687	399	-	1,086	447
Oedolion, Iechyd a Llesiant – Uned Tai	4,317	584	-	4,901	250
Oedolion, Iechyd a Llesiant – Arall	826	1,119	525	2,470	93
Plant a Chefnogi Teuluoedd	107	-	-	107	13
Prifffyrdd a Bwrdeistrefol	7,281	3,924	1,893	13,098	320
Ymgynghoriaeth	978	907	45	1,930	1,723
Corfforaethol	302	-	-	302	(250)
CYFANSWM	28,467	16,675	6,129	51,271	4,249

4. NEWIDIADAU I'R FFYNONELLAU ARIANNU

Mae cynnydd o £4.249m yn y gyllideb ar gyfer y rhaglen gyfalaf tair blynedd ers sefyllfa'r adolygiad diwethaf. Nodir isod y ffynonellau ariannu arfaethedig ar gyfer hyn:

ARIANNU	ADOLYGIAD DIWEDD TACHWEDD				CYNNYDD / (LLEIHAD) ERS YR ADOLYGIAD DIWETHAF £'000
	2018/19	2019/20	2020/21	CYFANSWM	
	£'000	£'000	£'000	£'000	
Benthyca gyda chefnogaeth	6,666	-	-	6,666	-
Benthyca Arall	1,873	1,393	777	4,043	9
Grantiau a Chyfraniadau	9,226	8,753	525	18,504	3,502
Derbyniadau Cyfalaf	342	98	750	1,190	30
Refeniw Adrannol a Chorfforaethol	1,700	265	-	1,965	488
Cronfa Cyfalaf	3,166	1,435	-	4,601	0
Cronfeydd Adnewyddu ac Eraill	5,494	4,731	4,077	14,302	220
CYFANSWM	28,467	16,675	6,129	51,271	4,249

5. ARGYMHELLION

Gofynnir i'r Cabinet:

- dderbyn y rhaglen gyfalaf ddiwygiedig ar gyfer 2018/19 i 2020/21, a
- cymeradwyo'r ffynonellau ariannu perthnasol (para. 4 uchod).

6. Rhesymau dros argymell y penderfyniad

Rhaid sicrhau trefniadau ariannu priodol ar gyfer cynlluniau'r Cyngor i wario ar gyfalaf, a rhaid i'r Cabinet gymeradwyo'r rhaglen gyfalaf a'r ffynonellau ariannu.

Mater o drefn yw ymgorffori ariannu trwy grant, ond hefyd mae angen delio gyda sefyllfaoedd lle bu newid rhwng blynyddoedd mewn proffil gwario a newid mewn gwerth cyfraniadau a derbyniadau cyfalaf.

Argymhellir yma gamau er mwyn sicrhau ffynonellau ariannu pendant am gynlluniau cyfalaf 2018/19 – 2020/21.

7. Ystyriaethau perthnasol

Materion technegol ynghylch ariannu'r cynlluniau sydd gerbron ac mae ymhlygiadau a dadleuon eisoes wedi'u cyfarch wrth fabwysiadu'r cynlluniau cyfalaf unigol.

8. Camau nesaf ac amserlen

Gweithredu ar yr argymhellion i ariannu'r rhaglen.

Barn yr Aelod Lleol

Dim yn berthnasol.

Barn y Swyddogion Statudol

Y Swyddog Monitro:

Dim sylwadau ynglŷn â phriodoldeb.

Y Pennaeth Cyllid:

Rwyf wedi cydweithio gyda'r Aelod Cabinet i baratoi'r adroddiad yma ac yn cadarnhau'r cynnwys.

Atodiadau

Atodiadau A, B a C

PRIF NEWIDIADAU FESUL FFYNHONNELL ARIANNU:

Gweler isod y cynlluniau perthnasol sydd yn achosi'r prif newidiadau i'r ffynonellau ariannu ers yr adolygiad diwethaf :

	2018/19	2019/20-
	£'000	2020/21 £'000
Grantiau a Chyfraniadau		
<ul style="list-style-type: none"> Grant Cynllun Datblygu Gwledig (RCDF) i hwyluso darpariaeth Ddigidol mewn ardaloedd gwledig (Adran Economi a Chymuned). 	178	39
<ul style="list-style-type: none"> Dylunio a datblygu cynllun atal llifogydd yn Llanberis (Adran Ymgynghoriaeth). 	603	770
<ul style="list-style-type: none"> Cronfa Gofal Canolraddol (ICF) – grant ychwanegol gan Lywodraeth Cymru ar gyfer addasiadau sefydliadau i ddarparu gwelyau dementia ac arbenigol yn ogystal a hwyluso gweithio ar y cyd ag asiantaethau eraill (Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant). 	77	
<ul style="list-style-type: none"> Cynlluniau Grant TRIP - grant gan Lywodraeth Cymru ar gyfer datblygu tai gwag yn ardal Arfon (Uned Tai, Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant). 	250	
<ul style="list-style-type: none"> Grant o'r Gronfa Trafnidiaeth Lleol gan Lywodraeth Cymru ar gyfer nifer o wahanol gynlluniau gan gynnwys A496 Llanbedr; Lôn Las Peris; A499 i Trefor (Adran Amgylchedd). 	1,269	
<ul style="list-style-type: none"> Grant llwybrau Diogel mewn Cymunedau (SRIC) – cynllun yng Nghaernarfon (Adran Amgylchedd). 	98	
<ul style="list-style-type: none"> Uwchraddio Depos Priffyrdd – cyfraniadau gan Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru (Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol). 	52	
<ul style="list-style-type: none"> Grant Cynllun Datblygu Gwledig (RCDF) i uwchraddio toiledau (Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol). 	51	67
Derbyniadau Cyfalaf		
<ul style="list-style-type: none"> Datblygu gofod swyddfa a chaffi mewn dwy ganolfan Hamdden (Adran Economi a Chymuned). 	30	
Refeniw Adrannol		
<ul style="list-style-type: none"> Ariannu cyfatebol i gynllun Grant Cynllun Datblygu Gwledig (RCDF) i hwyluso darpariaeth Ddigidol mewn ardaloedd gwledig (Adran Economi a Chymuned). 	45	10
<ul style="list-style-type: none"> Dylunio a datblygu cynllun atal llifogydd yn Llanberis (Adran Ymgynghoriaeth) - cyfraniadau Adrannau eraill i'r cynllun Adran Ymgynghoriaeth. 	108	136

• Cynllun Amddiffyn yr Arfordir - Borth y Gest (Adran Ymgynghoriaeth).	72	
• Ariannu cyfatebol i gynllun Grant Cynllun Datblygu Gwledig (RCDF) i uwchraddio toiledau (Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol).		33
• Nifer o fân gynlluniau.	84	
Cronfeydd Adnewyddu ac Eraill		
• Adnewyddu Cerbydau ac Offer Gwastraff (Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol, Adran Ymgynghoriaeth).	205	
• Pryniant cwch i Harbwr Porthmadog (Adran Economi a Chymuned).	20	
• Nifer o fân gynlluniau.	(5)	

Ail-broffilio Cyllideb - Prif Gynlluniau:

Gweler isod y prif gynlluniau sydd wedi eu hail-broffilio ers y gyllideb wreiddiol:

	2018/19 £'000	2019/20 £'000
Ad-leoli Gwasanaeth Dydd Segontiw (Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant)	(210)	210
Cynlluniau Grantiau a Benthyciadau Tai (Uned Tai, Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant)	(583)	583
Ysgol Gydol Oes Y Berwyn (Adran Addysg)	(361)	361
Cynlluniau Eraill Ysgolion (Ganrif 21 ac Eraill) (Adran Addysg)	(550)	550
Cynlluniau sefydliadau Oedolion (Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant)	(129)	129
Ail-wynebu meysydd parcio (Adran Amgylchedd)	(219)	219
Cynlluniau Ffyrdd Amgylchedd (Adran Amgylchedd)	(218)	218
Adnewyddu Cerbydau (Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol ac Adran Amgylchedd)	(1,906)	1,906

Noder:

Ni fydd yr ail-broffilio uchod yn golygu unrhyw golled grant.

Mae amrywiol resymau dilys tu ôl i'r ail-broffilio mewn sawl achos, ond gall yr oedi cyn gweithredu'r cynlluniau yma olygu bod gwasanaethau yn ymdopi'n hirach gyda'r asedau cyfredol heb eu gwella.

Gwariant Cyfalaf 8 Mis Cyntaf 2018/19

CRYNODEB	RHAGLEN GYFALAF BLWYDDYN LAWN (adolygwyd Tachwedd)	GWIR WARIANT 8 MIS HYD AT
	2018/19 £'000	30/11/2018 £'000
Addysg	3,558	2,175
Amgylchedd	9,348	2,479
Cefnogaeth Gorfforaethol	111	-
Cyllid (a Thechnoleg Gwybodaeth)	952	246
Economi a Chymuned	687	433
Oedolion, Iechyd a Llesiant – Uned Tai	4,317	2,348
Oedolion, Iechyd a Llesiant – Arall	826	282
Plant a Chefnogi Teuluoedd	107	77
Priffyrdd a Bwrdeistrefol	7,281	4,857
Ymgynghoriaeth	978	549
Corfforaethol	302	-
CYFANSWM	28,467	13,446

Noder:

Mae'r gyfran sydd wedi'i wario eleni (47%) yn gyfatebol is na'r sefyllfa adeg yma'r llynedd (gwariant 8 mis yn 49% o'r gyllideb adolygiad Rhagfyr).

Eitem 7

CYFARFOD:	PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU
DYDDIAD:	14 CHWEFROR 2019
TEITL:	TROSOLWG ARBEDION: ADRODDIAD CYNNYDD AR WIREDDU CYNLLUNIAU ARBEDION
PWRPAS:	Adrodd ar y Sefyllfa Ddiweddaraf
GWEITHREDIAD:	Derbyn yr wybodaeth, ystyried risgiau cyffredinol sy'n deillio o'r llithriadau, a chraffu penderfyniadau'r Cabinet yng nghyswllt y Trosolwg Arbedion
SWYDDOG CYSWLLT:	DAFYDD L EDWARDS, PENNAETH CYLLID
AELOD CABINET:	CYNGHORYDD PEREDUR JENKINS

1. Yn unol â gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, disgwylir i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu graffu rhai materion ariannol lle'n briodol.
2. Cyflwynwyd yr adroddiad atodol (Trosolwg Arbedion: Adroddiad cynnydd ar wireddu cynlluniau arbedion) i'r Cabinet ar 22 Ionawr 2019.
3. Mae'r Aelod Cabinet dros Gyllid, a Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu wedi gofyn i ni gyflwyno'r adroddiad yma i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu i'w graffu, ynghyd â'r daflen penderfyniad perthnasol sydd ar y dudalen nesaf.
4. Gofynnir i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu nodi'r sefyllfa a'r risgiau perthnasol yng nghyswllt y Trosolwg Arbedion, ystyried penderfyniadau'r Cabinet a sylwebu fel bo angen.

Atodiadau:

Taflen Penderfyniad Cabinet 22/01/2019

Trosolwg Arbedion: Adroddiad cynnydd ar wireddu cynlluniau arbedion (adroddiad Cabinet 22/01/2019)

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET
CYNGOR GWYNEDD**

Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:	22 Ionawr 2019
Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd	6 Chwefror 2019

PWNC

Eitem 10:TROSOLWG ARBEDION 2018/19 - ADRODDIAD CYNNYDD AR WIREDDU CYNLLUNIAU ARBEDION

PENDERFYNIAD

Derbyn yr adroddiad a nodi'r cynnydd calonogol tuag at wireddu cynlluniau arbedion 2018/19 a blynyddoedd blaenorol.

RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Yn strategaeth ariannol y Cyngor ers 2015/16, mae gwerth £27m o arbedion wedi eu cymeradwyo i'w gwireddu yn ystod y cyfnod 2015/16 i 2018/19.

Mae gwireddu'r cynlluniau unigol yn gyfrifoldeb aelodau perthnasol o'r Cabinet, ac mae adroddiadau perfformiad yr Aelodau, sy'n cael eu cyflwyno yn rheolaidd i gyfarfodydd y Cabinet, yn manylu ar gynnydd y cynlluniau arbedion unigol o fewn eu portffolios, fel y bo'r sefyllfa ar y pryd. Cyfrifoldeb yr Aelod Cabinet dros Gyllid yw cadw trosolwg o'r darlun cyfan.

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU
PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol am eu barn, sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad

ADRODDIAD I'R CABINET

Dyddiad	22 Ionawr 2019
Aelod Cabinet	Y Cyngorydd Peredur Jenkins, Aelod Cabinet Cyllid
Pwnc	Trosolwg Arbedion: Adroddiad Cynnydd ar Wireddu Cynlluniau Arbedion
Swyddog Cyswilt	Dafydd L Edwards, Pennaeth Cyllid

Y PENDERFYNIAD A GEISIR

Derbyn y wybodaeth yn yr adroddiad a nodi'r cynnydd calonogol tuag at wireddu cynlluniau arbedion 2018/19 a blynyddoedd blaenorol.

1. CYFLWYNIAD / CEFNDIR

Yn strategaeth ariannol y Cyngor ers 2015/16, mae gwerth £27m o arbedion wedi eu cymeradwyo i'w gwireddu yn ystod y cyfnod 2015/16 i 2018/19. Adroddir yma ar arbedion 2018/19 a'r blynyddoedd blaenorol.

Mae gwireddu'r cynlluniau unigol yn gyfrifoldeb aelodau perthnasol o'r Cabinet, ac mae adroddiadau perfformiad yr Aelodau, sy'n cael eu cyflwyno yn rheolaidd i gyfarfodydd y Cabinet, yn manylu ar gynnydd y cynlluniau arbedion unigol o fewn eu portffolios, fel y mae'r sefyllfa ar y pryd. Cyfrifoldeb yr Aelod Cabinet dros Gyllid yw cadw trosolwg o'r darlun cyfan.

2. CYNLLUNIAU ARBEDION 2015/16 - 2017/18

Mae **Atodiad 1** yn crynhoi cyrhaeddiad pob adran yn erbyn y targed arbedion oedd wedi ei osod iddynt o 2015/16 – 2017/18, cyfanswm o dros £24m. Mae'n galonogol i mi allu adrodd bod £23m, neu 95%, o'r cynlluniau yma wedi eu gwireddu, a dim ond ychydig o lithriad gyda'r gweddill.

Mae hyn yn bennaf yng nghynlluniau 2017/18 yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant lle mae cynnydd wedi ei wneud yn ddiweddar gyda rhai o'r cynlluniau roedd wedi llithro, ond mae'r her o wireddu rhai cynlluniau yn parhau.

3. CYNLLUNIAU ADRANNOL 2018/19

Mae **Atodiad 2** yn crynhoi'r rhagolygon presennol o ran gwireddu cynlluniau arbedion 2018/19. O'r 29 o gynlluniau, mae gwerth 62% o'r cynlluniau wedi eu gwireddu. Mae 7 cynllun ar drac i gyflawni'n amserol, ac yn galonogol, dim ond 5 cynllun a ragwelir fydd yn llithro.

Un ohonynt yw'r cynllun 'Adolygiad Dechrau i'r Diwedd' yn yr Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd, sydd yn gynllun arbedion o £250,280. Mae'r cynllun wedi

bod yn destun adolygiad ar y cyd rhwng yr Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd, Cyllid a'r Rheolwr Ymchwil a Gwybodaeth, gan ail ymweld â thybiaethau'r model 'Dechrau i'r Diwedd' gwreiddiol. Gwelwyd fod niferoedd y nosweithiau plant mewn lleoliadau preswyl wedi lleihau ond fod newid yn y proffil a chymhlethdod yr achosion ac felly yn cael effaith ar gyfartaledd cost lleoliadau. Gwelwyd hefyd leihad yng nghyfraniadau gan lechyd.

O ran gweddill y cynlluniau, mae'r rhagolygon o wireddu'r arbedion yn parhau yn gyffredinol addawol.

4. CASGLIAD

Er bod rhai adrannau wedi gwireddu eu holl gynlluniau arbedion, mae'n anrffod bod gwireddu bron i £27m o arbedion ers Ebrill 2015 wedi bod yn heriol. Mae angen mwy o amser i gynllunio a gweithredu'n briodol ar rai cynlluniau. Fodd bynnag, yn gyffredinol, rwyf yn fodlon gyda'r cynnydd sydd wedi ei wneud i wireddu cynlluniau arbedion y cyfnod hwn ac yn ddiolchgar i'r holl adrannau a'r Aelodau Cabinet am sicrhau'r llwyddiant yma. Bydd pob ymdrech yn cael ei wneud i geisio gwireddu y cynlluniau sydd wedi llithro, a bydd yr holl Aelodau Cabinet yn parhau i fonitro'r sefyllfa, gan weithredu fel bo angen er sicrhau'r nod.

Felly, gofynnaf i'r Cabinet nodi'r cyrhaeddiad derbyniol iawn a amlinellir yn yr adroddiad yma tuag at wireddu'r cynlluniau arbedion.

Barn yr Aelod Lleol

Dim yn berthnasol

Barn y Swyddogion Statudol

Y Swyddog Monitro:

Dim sylwadau ynglŷn â phriodoldeb.

Y Pennaeth Cyllid:

Rwyf wedi cydweithio gyda'r Aelod Cabinet i baratoi'r adroddiad yma ac yn cadarnhau'r cynnwys.

Atodiadau:

Atodiad 1 – Trosolwg Cynlluniau Arbedion 2015/16 – 2017/18 fesul adran

Atodiad 2 – Trosolwg Cynlluniau Arbedion 2018/19 fesul adran

TROSOLWG CYNLLUNIAU ARBEDION 2015/16 I 2017/18 FESUL ADRAN

Adran	Cyfanswm Arbedion £	Cynlluniau wedi eu gwireddu £	Wrthi'n gweithredu, ond wedi llithro £ (nifer)	Cynlluniau sydd wedi eu gohirio £ (nifer)	Sylwadau'r Pennaeth Cyllid
Addysg	685,860	598,879	86,981 (2)	-	Yn disgwyl adnoddau ychwanegol gan yr Uned Technoleg Gwybodaeth er mwyn cyflymu'r gwaith ar gynllun "Ffordd Gwynedd - Uned Cyflogau a Chontractau", ond yn y cyfamser mae'r Adran yn pontio'r diffyg.
Ysgolion	4,037,000	3,738,010	298,990 (1)	-	Mae'r Cabinet ar 13.12.16 wedi cymeradwyo pontio am ddwy flynedd y swm o £298,990 o arbedion 2017/18 y mae disgwyl i'r sector Uwchradd ei ddarganfod, ac mae'r ysgolion eisoes yn ymwybodol o amseriad y toriad yn eu cyllidebau.
Amgylchedd	2,179,353	2,179,353	-	-	Holl gynlluniau'r cyfnod wedi'u gwireddu.
Cefnogaeth Gorfforaethol	1,652,838	1,652,838	-	-	Holl gynlluniau'r cyfnod wedi'u gwireddu.
Cyllid	960,826	960,826	-	-	Holl gynlluniau'r cyfnod wedi'u gwireddu.
Economi a Chymuned	2,085,602	2,085,602	-	-	Holl gynlluniau'r cyfnod wedi'u gwireddu.
Oedolion, Iechyd a Llesiant	4,934,141	4,473,401	460,740 (7)	-	Er bod cynnydd wedi ei wneud yn ddiweddar gyda rhai o'r cynlluniau oedd wedi llithro, mae amrediad o gynlluniau 2017/18 yn parhau heb eu gwireddu'n llawn.

TROSOLWG CYNLLUNIAU ARBEDION 2015/16 I 2017/18 FESUL ADRAN

Adran	Cyfanswm Arbedion £	Cynlluniau wedi eu gwireddu £	Wrthi'n gweithredu, ond wedi llithro £ (nifer)	Cynlluniau sydd wedi eu gohirio £ (nifer)	Sylwadau'r Pennaeth Cyllid
Plant a Chefnogi Teuluoedd	1,987,318	1,870,318	117,000 (1)	-	Mae'r cynllun "Dechrau i'r Diwedd" wedi bod yn destun adolygiad diweddar, sydd wedi cadarnhau fod niferoedd y nosweithiau plant mewn gofal wedi lleihau yn ystod y cyfnod, ond fod y math o leoliad preswyl wedi newid, ac felly yn cael effaith ar gost lleoliadau. Bu hefyd leihad yng nghyfraniadau gan lechyd.
Prifffyrdd a Bwrdeistrefol	4,968,550	4,809,550	63,000 (4)	96,000 (1)	Rhagwelir y bydd y pedwar cynllun yn cael eu gwireddu yn ystod 2019/20. Mae'r Cabinet ar 11 Medi 2018 eisioes wedi cymeradwyo gohirio gweithrediad y cynllun arbediad "Canolfannau Ailgylchu (PB5)", gan ymdrin â'r bwch o £96,000 sy'n cael ei greu wrth ystyried arbedion 2019/20 ymlaen.
Ymgynghoriaeth	387,000	387,000	-	-	Holl gynlluniau'r cyfnod wedi'u gwireddu.
Tîm Rheoli Corfforaethol a Chyfreithiol	172,270	172,270	-	-	Holl gynlluniau'r cyfnod wedi'u gwireddu.
Trawsadrannol	224,220	224,220	-	-	Holl gynlluniau'r cyfnod wedi'u gwireddu.
CYFANSWM	24,274,978	23,152,267	1,026,711 (15)	96,000 (1)	Yn nhermau ariannol (£), mae 95% o gynlluniau arbedion 2015/16 - 2017/18 wedi eu gwireddu.

TROSOLWG CYNLLUNIAU ARBEDION 2018/19 FESUL ADRAN

Adran	Cyfanswm Arbedion 2018/19 £ (nifer)	Cynlluniau wedi eu gwireddu £ (nifer)	Cynlluniau ar drac i gyflawni'n amserol £ (nifer)	Cynlluniau sydd yn llithro £ (nifer)	Sylwadau'r Pennaeth Cyllid
Addysg	521,450 (3)	436,000 (1)	43,750 (1)	41,700 (1)	Mae'r ystadegau presennol yn dangos nad yw'r targed incwm "Lleihau amser a/neu godi ffi am yr elfen gwarchod o fewn y cynllun brecwast am ddim i blant ysgolion cynradd" yn debygol o gael ei wireddu'n llawn yn 2018/19.
Ysgolion	-	-	-	-	- Dim cynlluniau wedi eu rhaglennu yn 2018/19.
Amgylchedd	154,970 (6)	154,970 (6)	-	-	- Holl gynlluniau wedi eu gwireddu
Cefnogaeth Gorfforaethol	47,340 (2)	47,340 (2)	-	-	- Y ddau gynllun wedi eu gwireddu.
Cyllid	66,430 (2)	66,430 (2)	-	-	- Y ddau gynllun wedi eu gwireddu.
Economi a Chymuned	308,830 (3)	100,000 (1)	52,330 (2)	156,500 (1)	Mae gwaith ar y gweill i wireddu'r holl gynlluniau, ond bellach 1 Ebrill 2019 fydd dyddiad trosglwyddo'r ddarpariaeth cyfleusterau hamdden i'r cwmni newydd. O ganlyniad, bydd llithriad rhannol cyn gwireddu'r arbedion sydd i ddod o'r cynllun "Rhedeg cyfleusterau hamdden yn fwy effeithiol".
Oedolion, Iechyd a Llesiant	645,000 (6)	575,000 (4)	70,000 (2)	-	- Dim problem yn cael ei ragweld.

TROSOLWG CYNLLUNIAU ARBEDION 2018/19 FESUL ADRAN

Adran	Cyfanswm Arbedion 2018/19 £ (nifer)	Cynlluniau wedi eu gwireddu £ (nifer)	Cynlluniau ar drac i gyflawni'n amserol £ (nifer)	Cynlluniau sydd yn llithro £ (nifer)	Sylwadau'r Pennaeth Cyllid
Plant a Chefnogi Teuluoedd	314,480 (2)	64,200 (1)	-	250,280 (1)	Mae'r cynllun "Dechrau i'r Diwedd" wedi bod yn destun adolygiad diweddar, sydd wedi cadarnhau fod niferoedd y nosweithiau plant mewn gofal wedi lleihau yn ystod y cyfnod, ond fod y math o leoliad preswyl wedi newid ac felly yn cael effaith ar gost lleoliadau. Bu hefyd leihad yng nghyfraniadau gan lechyd. Bydd angen i'r Adran ystyried newid trywydd canolbwyntio er mwyn ceisio datrysiaid.
Priffyrdd a Bwrdeistrefol	86,700 (1)	86,700 (1)	-	-	Y cynllun wedi ei wireddu.
Ymgynghoriaeth	-	-	-	-	Dim cynlluniau wedi eu rhaglennu yn 2018/19.
Tim Rheoli Corfforaethol a Chyfreithiol	13,800 (1)	-	-	13,800(1)	Y cynllun yn llithro.
Is-gyfanswm	2,159,000 (26)	1,530,640(18)	166,080 (5)	462,280 (4)	
Trawsadrannol	295,740(3)	-	210,740(2)	85,000(1)	Mae un o'r cynlluniau trawsadrannol yn llithro.
CYFANSWM	2,454,740(29)	1,530,640(18)	376,820 (7)	547,280(5)	Yn nhermau ariannol (£), mae 62% o gynlluniau'r flwyddyn wedi eu gwireddu a 15% ar drac i gyflawni'n amserol.

Eitem 8

CYFARFOD:	PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU
DYDDIAD:	14 CHWEFROR 2019
TEITL:	CYLLIDEB 2019/20
PWRPAS:	Cyflwyno'r gyllideb y bwriedir ei argymell gan y Cabinet i'r Cyngor i'w graffu gan y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu
GWEITHREDIAD:	Craffu'r wybodaeth, gan gynnwys y cynllun ariannol tymor-canol, cyn i'r Cabinet argymell cyllideb 2019/20 i'r Cyngor llawn
SWYDDOG CYSWLLT:	DAFYDD L EDWARDS, PENNAETH CYLLID
AELOD CABINET:	CYNGHORYDD PEREDUR JENKINS

1. Yn ei gyfarfod ar 19 Chwefror bydd y Cabinet yn ystyried yr adroddiad amgaeedig ac yn dod i gasgliad ynglŷn â'r gyllideb i'w gynnig i'r Cyngor, fydd yn cynnwys argymhelliad ynglŷn â'r cynnydd Treth Cyngor ar gyfer 2019/20 (gweler y penderfyniad a geisir ar flaen yr adroddiad Cabinet atodol).
2. Wedi ystyriaeth hynod drylwyr mewn dwy gyfres o weithdai aelodau, bydd y gyllideb yn cynnwys rhaglen o gynlluniau arbedion cyflwynir yn Atodiad 3, ynghyd â 'bidiau' ychwanegir at y gyllideb sydd wedi'u rhestru yn Atodiad 2.
3. Gan dderbyn ei fod yn ymarfer da i osod y gyllideb yng nghyd-destun y sefyllfa ar gyfer y tymor hirach, bwriedir hefyd ymgynghori gyda'r Cyngor ynglŷn â'r strategaeth ariannol ar gyfer y cyfnod 2019/20 – 2021/22 (Atodiad 8).
4. Bydd y Cabinet yn rhoddi ystyriaeth i'r adroddiad yn fuan ar ôl cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu, ac wedi'r craffu yma, byddwn yn hysbysu'r Cabinet o gasgliadau'r Pwyllgor.
5. Rhoddir cyfle i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ystyried priodoldeb ariannol y cynigion a'r risgiau perthnasol, ac wedyn cyflwyno sylwadau i'r Cabinet ar yr opsiynau.

Atodiad:

Cyllideb 2019/20 (adroddiad Cabinet 19/02/2019)

Cyfarfod:	Cabinet
Dyddiad:	19 Chwefror 2019
Aelod Cabinet:	Cynghorydd Peredur Jenkins, Aelod Cabinet dros Gyllid
Pwnc:	Cyllideb 2019/20
Swyddog Cyswilt:	Dafydd L Edwards, Pennaeth Cyllid

CYLLIDEB 2019/20

Y Penderfyniad a geisir (*yn amodol ar benderfyniad Cabinet ar ran 10 o'r adroddiad ac Atodiad 12*)

- (a)** Argymhell i'r Cyngor (yn ei gyfarfod ar 7 Mawrth 2019) y dylid:
1. Sefydlu cyllideb o £247,797,900 ar gyfer 2019/20 i'w ariannu drwy Grant Llywodraeth o £176,551,790 a £71,246,110 o incwm o'r Dreth Cyngor gyda chynnydd o 5.5%.
 2. Ychwanegu £18,316,130 at y rhaglen gyfalaf i'w wario yn 2019/20 er mwyn sefydlu rhaglen gyfalaf gwerth £34,991,250 erbyn 2019/20 i'w ariannu o'r ffynonellau a nodir yn Atodiad 4 i'r adroddiad.
- (b)** Cymeradwyo symud ymlaen i weithredu'r rhestr cynlluniau arbedion sy'n Atodiad 3, er mwyn sefydlu'r gyllideb argymhellir i'r Cyngor llawn.
- (c)** Nodi'r Strategaeth Ariannol Tymor Canol a'r tafluniadau sy'n Atodiad 8, a mabwysiadu'r cynllun sy'n rhan 18-20 ohono.
-

1. CYFLWYNIAD

- 1.1 Rhaid i'r Cyngor osod cyllideb gytbwys ar gyfer 2019/20, ac yn unol â'r drefn arferol, cyflwynir y gyllideb flynyddol o fewn cyd-destun strategaeth ariannol tymor canolig (Atodiad 8), gan sicrhau fod y gyllideb yn paratoui ar gyfer y sefyllfa i ddod, yn hytrach na chyfarch anghenion un flwyddyn yn unig.
- 1.2 Eleni, mae'r Cyngor yn elwa o'r cynllunio tymor canolig mewn blynyddoedd blaenorol, gan ein bod yn medru defnyddio rhai arbedion cynlluniwyd yn flaenorol i gynorthwyo i fantoli'r gyllideb. Er hynny, rhaid cymryd rhai penderfyniadau anodd ar gyfuniad o gyflawni arbedion ychwanegol a chodi'r Dreth 5.5%.
- 1.3 Argymhellir codi'r Dreth 5.5% yn 2019/20 er mwyn amddiffyn gwasanaethau i bobl Gwynedd, gan fyddai gweithredu'r cynlluniau arbedion eraill a ystyriwyd wedi bod yn annerbyniol oherwydd yr effaith ar bobl Gwynedd.
- 1.4 Wedi ymgynghori gyda'r cyhoedd, ac wedi trafod mewn dau gyfres o weithdai yn Rhagfyr/Ionawr, a gyda'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu (14 Chwefror), mater i'r Cabinet yw ystyried y strategaeth ariannol 2019/20 – 2021/22, wrth argymhell cyllideb briodol i'r Cyngor ar gyfer 2019/20.

- 1.5 Erbyn 2019/20, byddai angen cynyddu ein gwariant o £10.37m er mwyn "sefyll yn llonydd" (mae manylion yn rhan 3 isod), gan gynnwys £2.5m i gwrdd â phwysau ar gyllidebau'r gwasanaethau (mae manylion o'r 'bidiau' unigol yn Atodiad 2).
- 1.6 Er mwyn cyfarch y bwlch ariannol, bydd raid priodoli £5.4m o arbedion (mae manylion yn rhan 4 isod a'r cynlluniau unigol wedi'u rhestru yn Atodiad 3) ac wedyn rhaid cynyddu'r Dreth Cyngor 5.5% (mae manylion yn rhan 5 isod, ac yn Atodiad 6).
- 1.7 Mae adolygiad trylwyr o'r Strategaeth Asedau ar droed, ond am y tro yma rydym wedi sefydlu rhaglen ar sail isafswm ar gyfer 2019/20, yn unol â'r hyn a nodir yn Atodiad 4, fydd yn golygu ychwanegu £18,316,130 at raglen gyfalaf 2019/20.
- 1.8 Mae'r gwaith modelu Strategaeth Ariannol Tymor Canolig sy'n Atodiad 8 yn dangos, oni bai fod rhywbeth sylfaenol yn newid yng ngweithrediadau'r Llywodraeth, ei fod yn debygol bydd angen trefniadau hyblyg er mwyn gallu gwireddu mwy o arbedion mewn blynyddoedd dilynol. I'r perwyl hyn, argymhellir y dylai'r Cabinet ystyried strategaeth arbedion i'r dyfodol, tra'n pwysu ar Lywodraeth Cymru i ariannu awdurdodau lleol yn briodol.
- 1.9 Mae cyllideb 2019/20 yn ceisio gwarchod y gwasanaethau y mae'r Cyngor yn eu darparu i bobl Gwynedd, ac yn argymhell cynnydd 5.5% yn y Dreth Cyngor er mwyn cyflawni'r amcan hwnnw eleni. Wrth sicrhau arbedion, bwriedir eu cyflawni yn y lleoedd hynny fydd yn cael yr ardrawiad lleiaf ar ein pobl, ond gwelir y bydd hynny yn fwy heriol erbyn 2020/21 a tu hwnt.
- 1.10 Mater i'r Cyngor llawn yw ystyried y gyllideb a gosod y Dreth Cyngor erbyn 2019/20 ar sail y materion a nodir yn yr adroddiad dilynol. Mae'r adroddiad manwl yma'n nodi'r ffactorau sydd yn dylanwadu ar y gyllideb refeniw arfaethedig ar gyfer 2019/20, ac yn amlinellu'r prif newidiadau ers 2018/19.

2. GRANT LLYWODRAETH CYMRU

- 2.1 Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi'r setliad i ariannu llywodraeth leol ar gyfer 2019/20. Nodir manylion fel y'i cyhoeddwyd yn swyddogol gan Lywodraeth Cymru yn y tabl isod, ynghyd â'r gwir ffigyrau "cash":

Grant Cynnal Refeniw 2018/19 – 2019/20	Cyfanswm Awdurdodau Cymru £	Cyngor Gwynedd swyddogol £	Cyngor Gwynedd "cash" £
Grant y Llywodraeth 2018/19 (heb addasu)	4,214,066,930	176,376,410	175,127,330
Grant y Llywodraeth 2018/19 (wedi addasu)	4,227,135,930	176,926,640	175,677,570
Grant y Llywodraeth 2019/20	4,237,431,000	176,551,790	176,551,790
Cynnydd £	+10,295,070	-374,850	+874,220
Cynnydd %	+0.2%	-0.2%	+0.5%

Mae manylion pellach ar gael yma –

<https://gov.wales/topics/localgovernment/finandfunding/settlement/lg-settlement-2019-20/final-settlement-2019-20/?skip=1&lang=cy>

- 2.2 Fe welir o ffigyrau swyddogol Llywodraeth Cymru sy'n y tabl uchod yn dybiannol fod Cyngor Gwynedd yn derbyn lleihad grant o £375k erbyn y flwyddyn nesaf (ar ôl addasu'r ffigwr 2018/19 i adlewyrchu'r trosglwyddiadau i mewn i'r setliad), sy'n leihad o -0.2%, gyda chyfartaledd y cynnydd ar draws Cymru yn +0.2%.
- 2.3 Mae nifer o ffactorau yn bwydo'r fformiwla dyrannu grant llywodraeth leol, megis y nifer disgyblion, nifer hawl wyr cymorth incwm, ayb, ac nid yw'r ffactorau rheiny wedi mynd o'n plaid ni eleni.
- 2.4 Er hynny, yn groes i'r cwtogiad £374,850 sy'n ffigyrau swyddogol "tebyg wrth debyg" Llywodraeth Cymru (uchod), derbyniwyd cynnydd go sylweddol o £1,249,070 oherwydd addasiad sylfaen trethiannol sy'n ail-ddosbarthu grant rhwng awdurdodau lleol Cymru. Roedd hyn oherwydd lleihad mewn eiddo treth cyngor yng Ngwynedd (gwneud i fyny am effaith mudo 'tai gwyliau' i'r rhestr treth busnes), o'i gymharu â chynnydd cyffredinol arferol mewn eiddo treth cyngor ar draws awdurdodau lleol eraill Cymru. Golygai hynny fod y symudiad grant yn nhermau "cash" yn gynnydd net o £874,220 sy'n +0.5%.

3. GWARIANT REFENIW'R CYNGOR - 2019/20

- 3.1 Nodir yn y tabl isod y cynnydd yn y gwariant fydd ei angen er mwyn "sefyll yn llonydd" yn 2019/20.

Gofynion Gwario Ychwanegol

	£	£
Cyllideb Sylfaenol		242,862,930
Chwyddiant Cyflogau Staff	5,260,930	
Pensiynau Athrawon	1,632,340	
Chwyddiant Arall (cyflenwyr)	2,253,830	
Ardollau	372,860	
Demograffi	878,420	
Trosglwyddiadau i'r Setliad	546,640	
Bidiau - Pwysau ar Wasanaethau	2,513,390	
Addasiadau Cyllideb Amrywiol	360,060	
Neilltuo cynnyrch ychwanegol Treth Cyngor y Premiwm i Gronfa	669,560	
Cost Benthycu / Llog ar falansau	-149,270	
Addasiadau Incwm Gwasanaethau	-100,640	
Grant Pensiynau Athrawon	-1,632,340	
Grantiau Penodol	-2,000,000	
Cyfanswm net yr ychwanegiadau		<u>10,370,000</u>
Cyfanswm gofynion gwario 2019/20 cyn arbedion		<u>253,232,930</u>

3.2 **Cyllideb Sylfaenol 2018/19**

Er mai £243m yw gwariant net 2018/19, mae'n bwysig nodi fod gwir wariant y Cyngor yn £403m oherwydd ein bod yn derbyn llu o grantiau penodol gwerth £99m ac yn codi bron i £61m am wasanaethau yr ydym yn eu darparu.

3.3 **Chwyddiant Cyflogau £5.26m**

Darperir ar gyfer cynnydd tâl 2% i staff y Cyngor, yn unol â chytundeb cenedlaethol, gyda % sylweddol fwy i rai staff ar raddfeydd isaf gwerth £1.6m i gyfarch gofynion 'cyflog byw' cenedlaethol. Hefyd, darperir £1.4m ar gyfer cynnydd tâl hyd at 3.5% i athrawon ysgolion Gwynedd.

3.4 **Pensiynau Athrawon £1.63m**

Mae Llywodraeth San Steffan wedi codi cyfradd cyfraniad pensiwn cyflogwyr i'r Cynllun Pensiwn Athrawon o 16.5% i 23.6% o Fedi 2020, ac mae gwerth 7% o gost cyflogau athrawon ysgolion Gwynedd am 7 mis yn £1.63m. Mae'r 'Department for Education' yn ymgynghori ynglŷn ag ariannu'r gost yn llawn yn ysgolion Lloegr, ac ymhen hir a hwyr disgwylir derbyn grant penodol i ariannu'r gost yn ysgolion Cymru.

3.5 **Chwyddiant arall £2.25m**

Swm 'net' sy'n cynnwys darpariaeth ar gyfer effaith y 'cyflog byw' (isafswm tâl) ar gostau a ffioedd ein cyflenwyr preifat, ynghyd â chynnydd chwyddiant sylweddol ar gyllidebau tanwydd ac ynni.

3.6 **Ardollau £373k**

Yn Rhagfyr 2018, penderfynodd Awdurdod Tân Gogledd Cymru godi'r ardoll 5.2% ar yr awdurdodau cyfansoddol, sy'n cynyddu'r gofyn ar Cyngor Gwynedd o £313k, tra bu cynnydd £10k mewn ardoll draenio arbennig i 'Cyfoeth Naturiol Cymru', a chynnydd £50k yn ardoll Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri.

3.7 **Demograffi £878k**

Cyfanswm sy'n adlewyrchu +£418k oherwydd cynnydd net mewn nifer disgyblion yn yr ysgolion, +£471k i'r Adran Oedolion oherwydd cynnydd anorfod mewn costau gofalu am boblogaeth sy'n heneiddio, a +£11k oherwydd cynnydd mewn plant sy'n derbyn gofal gan yr Adran Plant a Theuluoedd.

Mae'r ffigwr net o +£418k i ysgolion yn cuddio sefyllfa wahanol mewn gwahanol sectorau, sef uwchradd +£617k, cynradd -£260k ac arbennig +£61k.

3.8 **Trosglwyddiadau i'r setliad £546k**

Ar wahân i adnoddau ar gyfer y gytundeb tâl athrawon (pwysau sydd wedi'i gynnwys o fewn 'Chwyddiant Cyflogau' uchod), mae dau gyfrifoldeb yn trosglwyddo i mewn i setliad grant Llywodraeth Cymru i'r Cyngor erbyn 2019/20. Bydd y cyllidebau sy'n trosglwyddo i gyllideb y Cyngor, ynghyd â'r cyfrifoldebau perthnasol, yn cael eu priodoli i'r adrannau perthnasol.

Felly, bydd cynnydd £312k yng nghyllideb yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant i adlewyrchu cyfrifoldebau newydd trothwy cyfalaf gofal preswyl.

Hefyd, bydd cynnydd £234k yng nghyllideb yr Adran Addysg i adlewyrchu trosglwyddiad mwy o brydau ysgol am ddim yng nghyd-destun gweithredu'r Credyd Cynhwysol.

3.9 **Pwysau ar Wasanaethau £2.51m**

'Bidiau' anorfod – gweler Atodiad 2 am fanylion pob 'bid' unigol.

Argymhellir cymeradwyo ceisiadau ("bidiau") gwerth £2.51m gan adrannau'r Cyngor am adnoddau parhaol ychwanegol i gwrdd â phwysau anorfod ar eu gwasanaethau.

Hefyd, argymhellir cymeradwyo bid un-tro gwerth £38,280 o'r Gronfa Cynorthwyo'r Strategaeth Ariannol.

Cofier fod nifer o brif flaenoriaethau'r Cyngor (materion datblygol er mwyn gwneud gwahaniaeth) yn cael eu hariannu a'u comisiynu ar wahân i hyn (fesul un drwy benderfyniadau'r Cabinet), drwy Gynllun y Cyngor. Beth gyflwynir drwy'r "bidiau" yma yw ymrwymadau anorfod mae'r gwasanaethau'n wynebu rŵan.

Mae pob Adran yn cael yr hawl i nodi os oes yna unrhyw wariant y mae'n rhaid i'r Cyngor ei gyflawni os yw am sicrhau parhad gwasanaeth sylfaenol. Nid ar gyfer datblygiadau newydd y mae'r pennawd, ond yn hytrach ar gyfer parhad gwasanaethau sylfaenol presennol.

Mae elfen o'r ceisiadau yma wrth gwrs yn amlygu eu hunain wrth i ni adolygu patrymau gwariant eleni. Mae eraill yn ganlyniad i faterion sy'n codi lle mae angen gwario er mwyn gwarchod deilliannau i'r cyhoedd, neu i gwrdd â gofynion statudol. Mae yna elfen hefyd o lywodraeth ganolog yn creu pwysau a disgwyliadau, wedyn ninnau'n gorfod dygymod gyda'r sgil effeithiau.

Mae'r eitemau cyflwynir yma yn Atodiad 2 wedi cael eu herio'n drylwyr gan y Tîm Rheoli Corfforaethol a'r Aelod Cabinet dros Gyllid cyn eu hargymell i'w cymeradwyo gan y Cabinet. Ymhellach, trafodwyd yr holl 'bidiau' yma pryd y'i cyflwynwyd ar 'sleids' i'r gyfres o 'Weithdai Cyllideb' ar 4-7 Rhagfyr 2018, lle roedd aelodau'r Cyngor yn cydsynio fod y gwariant yn anorfod.

3.10 **Addasiadau Cyllideb Amrywiol £360k**

Cyfanswm sy'n adlewyrchu nifer sylweddol o addasiadau mewn darpariaethau ar draws y Cyngor, ond yn bennaf neilltuo cyllideb wrth gefn ar gyfer cyfarch pwysau gwario ychwanegol posibl yn ystod 2019/20 (yn arbennig ym maes gofal plant) ac hefyd ar gyfer cyfarch sefyllfaoedd anodd gydag incwm yn ystod 2019/20 (tebyg i benderfyniad pris cinio ysgol Medi 2018).

3.11 **Premiwm Treth Cyngor £670k**

Argymhellir neilltuo cynnyrch Treth Cyngor y Premiwm yn 2019/20 i gronfa benodol i'w ddefnyddio er mwyn ariannu Strategaeth Tai y Cyngor. Roedd £2.03m wedi'i neilltuo yng nghyllideb gwreiddiol 2018/19, felly bydd yr ychwanegiad £670k yn golygu cyfanswm o £2.7m erbyn 2019/20.

Rhoddir sylw penodol i hyn yn Atodiad 6.

3.12 **Costau Benthycia a Llog ar Falansau -£149k**

Rhagamcan o ostyngiad mewn llog taladwy ar fenthyciadau yn 2019/20, wrth i hen fenthyciadau hir-dymor ddirwyn i ben.

3.13 **Addasu Cyllidebau Incwm Gwasanaethau -£101k**

Swm 'net' wedi addasu targed incwm gwasanaethau, yn cynnwys -£198k Oedolion (Llywodraeth Cymru wedi codi cap ffioedd di-breswyl wythnosol o £70 i £80), yr Adran Addysg +£66k (cost rhewi pris cinio ysgol ym Medi 2018), Ymgynghoriaeth -£100k

(ffioedd ar staff ychwanegol), Cyllid +£97k (£55k oherwydd costau banc newydd a £42k o addasiad sybsidi budd-dal), Economi a Chymuned +£30k (yn bennaf ffioedd Morwrol), ac Amgylchedd +£5k (+£40k ffioedd cynllunio, -£20k gofal stryd, a -£15k traffig a threfniadau statudol).

3.14 **Grantiau Penodol -£2m**

Derbynnir nifer sylweddol o grantiau penodol lle disgwylir yn aml i'r Cyngor ymrwymo i wariant penodol ychwanegol. Mewn rhai achosion, gellid defnyddio grantiau penodol i ariannu pwysau ar wariant anorfod.

Crybwyllwyd hyn eisoes yn 3.4 uchod lle disgwylir grant penodol er mwyn ariannu'r gost ychwanegol pensiynau athrawon. Hefyd, disgwylir grant £0.3m ar gyfer ariannu chwyddiant tâl athrawon yn 2019/20, grant pwysau gofal £1.2m gellid defnyddio er mwyn ariannu'r demograffi a 'bidiau' Oedolion a Plant, ynghyd â £0.5m i atal plant rhag cael eu derbyn i ofal gellid ei ddefnyddio i ariannu rhai bidiau ataliol yr Adran Plant.

4. ARBEDION

4.1 Roedd y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig a gyflwynwyd gyda chyllideb 2018/19 i'r Cyngor llawn ar yr 8fed o Fawrth 2018 yn darogan bwlch ariannu rhwng £11m a £20m dros y 3 blynedd 2018/19 – 2020/21. Felly, penderfynwyd cychwyn yn gynnar ar y dasg heriol i adnabod arbedion sylweddol ar gyfer 2019/20 a tu hwnt.

4.2 Roedd hynny yn golygu fod y Cabinet yn gosod targedau arbedion heriol i'r adrannau, ac yn ystyried dros haf 2018 yr holl gynlluniau 'posib' a gyflwynwyd gan benaethiaid adrannau. Cyflawnodd aelodau'r Cabinet waith anodd o ddethol y cynlluniau cyflwynir yma'n Atodiad 3, a diystyrro opsiynau lle fyddai'r effaith ar bobl Gwynedd yn annerbyniol.

4.3 Wedi adnabod bwlch ariannu tebygol 2019/20 yn sgîl 'setliad' dangosol siomedig Llywodraeth Cymru ar gyfer awdurdodau lleol ym mis Hydref 2018, eglurwyd sefyllfa'r gyllideb i aelodau'r Cyngor mewn cyfres o 'Weithdai Cyllideb' ar 4–7 Rhagfyr 2018.

4.4 Wedi gwrando ar adborth aelodau yn y 'Gweithdai Cyllideb', cyflwynodd yr Aelod Cabinet dros Gyllid adroddiad am arbedion arfaethedig i gyfarfod y Cabinet ar 18 Rhagfyr 2018, yn nodi fod y Cyngor yn wynebu bwlch ariannu sylweddol erbyn 2019/20 ac yn cyflwyno rhaglen o arbedion ar gyfer cyfarch y bwlch yn rhannol, gyda'r cynnydd mewn Treth Cyngor yn gorfod cyfarch y bwlch gweddilliol. Penderfynodd y Cabinet fabwysiadu'r cynlluniau arbedion a gyflwynwyd mewn 6 rhestr, yn amodol ar ganlyniadau'r ymgynghoriad, fel rhai bydd rhaid i'r Cyngor gyflawni. Mae manylion y cofnodion perthnasol a'r rhestrau gwreiddiol yma –

<https://democratiaeth.cyngor.gwynedd.gov.uk/mgAi.aspx?ID=12357#mgDocuments&LLL=1>

4.5 Cynhaliodd y Cabinet ymgynghoriad gyda'r cyhoedd yn ystod mis Ionawr 2019 ac mae'r prif negeseuon wedi'u cyhoeddi ar lein. Cyflwynir y casgliadau rheiny yma hefyd fel Atodiad 11, a rhaid i'r Cabinet dalu sylw priodol i ganlyniadau'r ymgynghoriad wrth benderfynu ar weithredu'r cynlluniau arbedion. Ystyriwyd gwrthwynebiad y cyhoedd i rai cynlluniau penodol yn y Gweithdy Aelodau ar 5 Chwefror, ac mae rhai o'r rheiny wedi'u dethol yn Atodiad 12.

- 4.6 Hefyd, cafwyd 6 'Gweithdy Arbedion' gydag aelodau'r Cyngor ar 18–28 Ionawr i glywed os roedd awydd gan aelodau i newid trywydd, a cafwyd cyfarfod torfol anffurfiol ar 5 Chwefror er mwyn sicrhau cydsyniad aelodau ar y ffordd ymlaen.
- 4.7 Felly, yn amodol ar benderfyniad Cabinet ar ran 10 o'r adroddiad ac Atodiad 12, pe bai'r Cyngor yn cymeradwyo gweithredu'r cynlluniau arfaethedig cyflwynir yn Atodiad 3, byddwn yn cynhaeafu gwerth £2.45m o arbedion pellach yn 2019/20.
- 4.8 Hefyd, er mwyn dygymod gyda'r bwloch ariannu, gellid cynhaeafu £2.48m o arbedion 'Her Gwynedd' sydd eisoes wedi'u cymeradwyo ar gyfer 2019/20.
- 4.9 Yn ogystal, gofynnwyd i'r Prif Weithredwr fwrw mlaen gyda'i syniadau i ddarganfod £0.5m o arbedion effeithlonrwydd pellach er mwyn lleihau'r bwloch ariannu.

Arbedion i ddygymod gyda Bwlch Ariannu 2019/20	
	£
Arbedion Cymeradwy Her Gwynedd	2,483,100
Cynlluniau Arbedion Arfaethedig	2,451,930
Arbedion Effeithlonrwydd Pellach	<u>500,000</u>
Cyfanswm yr Arbedion i gau'r Bwlch	<u>5,435,030</u>

- 4.10 O ganlyniad, byddai cyfanswm o £5.4m o arbedion i'w ddefnyddio i leihau'r bwloch ariannu. Yn amlwg, byddai penderfyniad amgen ar y cynlluniau sy'n Atodiad 12 yn golygu cyfanswm llai, fel nodir yn rhan 10 o'r adroddiad.
- 4.11 Mae'r holl gynlluniau arbedion arfaethedig sydd angen eu cymeradwyo wedi'u cyflwyno yma'n Atodiad 3 fel y'i cyflwynwyd i'r Cabinet 18/12/18, ond gyda manylion / lincs asesiadau ardrawiad wedi'u diweddarau.

5. BWLCH ARIANNU 2019/20, A'R DRETH CYNGOR

- 5.1 Fe welir o ran 3 uchod fod anghenion gwario'r Cyngor (cyn tynnu arbedion) ar gyfer 2019/20 yn £253.2m. Nodwyd yn rhan 2 uchod fod y grant oddi wrth Lywodraeth Cymru am fod yn £176.6m.
- 5.2 Fel eglurwyd yn rhan 3 uchod, mae cyfanswm o £5.4m o arbedion i'w ddefnyddio i leihau'r bwloch ariannu.

Sefydlu Cyllideb 2019/20	
	£
Cyllideb Sylfaenol 2018/19	242,862,930
Gofynion Gwario Ychwanegol	<u>10,370,000</u>
Gofynion Gwario 2019/20 cyn Arbedion	253,232,930
llai Incwm Grant Refeniw Llywodraeth Cymru	-176,551,790
llai Cyfanswm yr Arbedion i gau'r Bwlch	<u>-5,435,030</u>
Bwlch gweddilliol o'r Dreth Cyngor	<u>71,246,110</u>

- 5.3 Golygai hynny fod bwlch gweddilliol o £71.25m, ac argymhellir cyfarch y bwlch hwnnw drwy'r Dreth Cyngor. Bydd angen codi'r Dreth 5.5% er mwyn cynhyrchu incwm digonol. Eto, pe bai penderfyniad amgen ar y cynlluniau arbedion sy'n Atodiad 12, yna byddai'r bwlch i'w ariannu o'r Dreth yn fwy, fel nodir yn rhan 10 isod.
- 5.4 Mae gwybodaeth gefndirol a'r cyd-destun ar gyfer gosod lefel y Dreth (ynghyd â manylion y Premiwm ar ail gartrefi a tai gwag) wedi'i gyflwyno yn Atodiad 6.

6. CASGLIADAU

- 6.1 Mae'r adroddiad yma a'r atodiadau yn gosod allan y ffactorau y dylid eu hystyried wrth sefydlu cyllideb 2019/20 ac yn cadarnhau rhaid parhau gyda'r strategaeth arbedion ar gyfer dygymod gyda'r sefyllfa ariannol sy'n wynebu'r Cyngor.

CYLLIDEB 2019/20

- 6.2 Yn amodol ar benderfyniad Cabinet ar Atodiad 12, argymhellir cyfarch angen gwario refeniw o £247.8m, wedi ychwanegu £10.4m (sy'n cynnwys darparu £2.5m ar gyfer pwysau ar wasanaethau).
- 6.3 Ar ôl derbyn grant gan Lywodraeth Cymru o £176.6m a dibynnu ar £5.4m o arbedion, bydd angen i lefel y Dreth Cyngor gynyddu 5.5% i gynhyrchu £71.25m o incwm er mwyn cau bwlch ariannu 2019/20.

Cyllideb gytbwys ar gyfer 2019/2020	
	£
Gofynion Gwario 2019/20 cyn Arbedion	253,232,930
Cyfanswm Arbedion 2019/20	<u>-5,435,030</u>
Cyllideb 2019/20	<u>247,797,900</u>
I'w ariannu drwy -	
Incwm Grant	176,551,790
Treth Cyngor (cynnyrch ar ôl codi 5.5%)	<u>71,246,110</u>
Cyllideb 2019/20	<u>247,797,900</u>

- 6.4 Bydd hyn yn golygu gosod cyllideb net o £247,797,900. Rhoddir ddadansoddiad o'r gyllideb fesul gwasanaeth yn Atodiad 1. Unwaith eto, pe bai penderfyniad amgen ar y cynlluniau arbedion sy'n Atodiad 12, yna byddai'r ffigwr cyllideb yn fwy, fel nodir yn rhan 10 isod.

7. CYFALAF

- 7.1 Bwriedir sefydlu strategaeth asedau newydd 2019/20 – 2028/29 a'i gyflwyno i'w gymeradwyo'n fuan. Mae manylion yn Atodiad 4.
- 7.2 Am y tro, argymhellir ychwanegu £18,316,130 at y rhaglen gyfalaf i'w wario yn 2019/20, er mwyn sefydlu rhaglen gyfan gwerth £34,991,250 i'w ariannu o'r ffynonellau a nodir yn Atodiad 4.

8. STRATEGAETH TYMOR HIRACH

- 8.1 Mae Strategaeth Ariannol Tymor Canolig diwygiedig wedi'i gynnwys yma'n Atodiad 8. Eleni, mae mwy o ansicrwydd am y dyfodol oherwydd Adolygiad Gwariant 2019 Llywodraeth San Steffan.
- 8.2 Ar sail ein rhagdybiaethau, mae'n debygol bydd angen adnabod ychwaneg o arbedion erbyn 2020/21 a 2021/22, a gall hynny fod cymaint â £10m dros y ddwy flynedd. Os bydd y senario canolog i'n tafluniadau ni yn digwydd, byddai angen £5.6m mwy o arbedion dros y ddwy flynedd 2020/21 a 2021/22, ond bydd elfen o gynnyrch arbedion 2019/20 (hyd at £4.2m) ar gael i achub y blaen wrth gyfarch rhan o'r arbedion fydd angen.
- 8.3 Felly, bydd angen ystyried strategaeth arbedion i'r dyfodol, tra'n pwysu ar Lywodraeth Cymru i ariannu awdurdodau lleol yn briodol.

9. YSTYRIAETHAU ERAILL AC AMRYWIOL ASESIAU

- 9.1 Ystyrir fod y lefel gyfredol o falansau cyffredinol, sef £6m, yn briodol ac nid yw'r gyllideb yma'n argymhell defnydd o'r balansau sydd yno ar gyfer llif arian ymarferol a gwariant annisgwyl. Cyflwynir wybodaeth manwl am y balansau a chronfeydd wrth gefn yn Atodiad 7.
- 9.2 Mae Atodiad 5 yn egluro sefyllfa teg iawn cyllideb ysgolion Gwynedd yn fanwl.
- 9.3 Wrth benderfynu ar gyllideb, ac yn arbennig ynglŷn â chynlluniau arbedion, rhaid i'r Cabinet a'r Cyngor ystyried effaith eu penderfyniadau o safbwynt cydraddoldeb yn unol â'r dyletswyddau statudol sydd ar y Cyngor drwy Ddeddf Cydraddoldeb 2010. O ganlyniad, mae asesiadau manwl wedi eu paratoi ar gyfer y cynlluniau arbedion unigol ac hefyd ar gyfer y Gyllideb. Mae Atodiad 9 yn ymdrin yn benodol â'r ddyletswydd, ac mae canlyniadau'r asesiadau yn cael eu crynhoi yn Atodiad 3. Mae'r asesiadau cyflawn ar gael fel dogfennau cefndir drwy ddilyn y lincs yn Atodiad 3.
- 9.4 Mae'r Cyngor yn gweithredu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ac mae'r argymhellion yn yr adroddiad yn seiliedig ac wedi eu datblygu yn unol â'r ddyletswydd statudol sydd ar y Cyngor dan Adran 3 i ymgymryd â datblygiad cynaliadwy yn ei holl weithgareddau. Rhoddir gwybodaeth fanylach am y Ddeddf Llesiant a chasgliadau perthnasol yn Atodiad 10.
- 9.5 Mae rhaid i'r swyddog cyllid statudol fynegi barn am gadernid yr amcangyfrifon. Cyflwynir asesiad o risgiau a chadarnhad priodol yn Atodiad 13.

10. PENDERFYNIADAU AMGEN

- 10.1 Ar 5 Chwefror 2019 mewn Gweithdy Mawr Arbedion, detholwyd 5 cynllun arbediad am sylw pellach. Mae'r rhain wedi'u gosod allan yn Atodiad 12.
- 10.2 Pe bai penderfyniad i beidio gweithredu'r 5 cynllun yma, byddai'n newid y ffigyrau yn yr argymhellion uchod fel a ganlyn –

2019/20	Adroddiad Uchod	Addasiad	Wedi Newid
Cyllideb	247,797,900	+71,720	247,869,620
Incwm o'r Dreth	71,246,110	+71,720	71,317,830
Cyfanswm Arbedion	5,435,030	-71,720	5,363,310
Cynnydd Treth	5.5%	0.1%	5.6%

Barn yr aelod lleol

Dim yn fater lleol

Barn y swyddogion statudol

Swyddog Monitro:

Mae'n amlwg fod nifer o ystyriaethau i'r Cabinet roi sylw iddynt wrth ffurfio argymhelliad i'r Cyngor ar gyfer y Gyllideb ond hefyd wrth benderfynu ar y rhaglen o arbedion i gyfarch y bwlch ariannol. Darperir gwybodaeth fanwl yn yr adroddiad ynglŷn â'r ystyriaethau perthnasol. Mae'n bwysig fod y Cabinet yn rhoi sylw priodol i'r oll o'r materion yma wrth ddod i gasgliad. Adroddir mewn manylder hefyd ar ganlyniadau'r ymarfer ymgynghoriad cyhoeddus a gynhaliwyd a rhaid rhoi sylw priodol i'r ymatebion a dderbyniwyd wrth ddod i gasgliad. Gallaf roi arweiniad pellach ar unrhyw agwedd yn y cyfarfod.

Pennaeth Cyllid:

Rwyf wedi cydweithio gyda'r Aelod Cabinet i baratoi'r adroddiad yma ac yn cadarnhau'r cynnwys. Wedi ystyried yr holl risgiau amlinellir yn Atodiad 13 i'r adroddiad, a'r camau lliniaru, rwyf o'r farn fod Cyllideb y Cyngor am 2019/20 yn gadarn, yn ddigonol, ac yn gyraeddadwy.

ATODIADAU

- 1 Crynodeb Cyllideb
- 2 Bidiau
- 3 Arbedion
- 4 Cyfalaf
- 5 Ymdrin â'r Gyllideb Ysgolion yn 2019/20
- 6 Treth Cyngor
- 7 Balansau
- 8 Strategaeth Ariannol Tymor Canolig
- 9 Aseiad Effaith o Safbwynt Cydraddoldeb
- 10 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol
- 11 Canlyniadau'r Ymgynghoriad
- 12 Penderfyniadau Amgen
- 13 Cadernid yr Amcangyfrifon

ATODIAD 1 - CRYNODEB CYLLIDEB

CYLLIDEBAU ARFAETHDIG 2019/20 FESUL GWASANAETH											
	Cyllideb	Trosglwyddiad	Chwyddiant	Chwyddiant	Demograffi	Addasiadau	Pwysau ar	Addasu	Defnyddio	Arbedion	Cyllideb
	Sylfaenol	i'r Setliad	Cyflogau a	Arall		Cyllideb	Wasanaethau	Cyllidebau	Grantiau	a	Sylfaenol
	2018/19		Phensiynau			Armywiol		Incwm	Penodol	Thoriadau	2019/20
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
ADRANNAU											
Tim Rheoli Corfforaethol a Chyfreithiol	2,046		28	19		0				(201)	1,892
Cefnogaeth Gorfforaethol	7,741		150	42		(9)				(363)	7,561
Cyllid	6,613		157	25		(15)	98	97		(559)	6,416
Priffyrdd a Bwrdeistrefol	23,790		532	367		89	36			(260)	24,554
Amgylchedd	5,130		184	3		34	(25)	5		(367)	4,964
Ymgynghoriaeth Gwynedd	229		91	(98)		(15)		(100)		(127)	(20)
Addysg Canolog	14,431	234	250	182		265	93			(104)	15,351
Cyllideb Ysgolion	70,043	0	3,745	264	418	(257)	(68)	66	(1,932)	(248)	72,031
Economi a Chymuned	4,165		298	(105)		(434)		30		(338)	3,616
Oedolion, Iechyd a Llesiant	50,426	312	1,166	976	471	245	1,180	(199)	(1,200)	(1,465)	51,912
Plant a Chefnogi Theuluoedd	13,842		285	124	(11)	98	631		(500)	(293)	14,176
Cyfanswm Adrannau	198,456	546	6,886	1,799	878	1	1,945	(101)	(3,632)	(4,325)	202,453
Materion Corfforaethol a chyfalaf	44,942		6	453		600				(1,111)	44,890
CYFANSWM GROS	243,398	546	6,892	2,252	878	601	1,945	(101)	(3,632)	(5,436)	247,343
Llai Praesept Cynghorau Cymuned	(2,207)										(2,207)
CYFANSWM GWARIANT GROS	241,191	546	6,892	2,252	878	601	1,945	(101)	(3,632)	(5,436)	245,136
Ariannwyd Drwy: Balansau a Reserfau Penodol	1,672					420	570			0	2,662
CYFANSWM GWARIANT NET =	242,863	546	6,892	2,252	878	1,021	2,515	(101)	(3,632)	(5,436)	247,798
Ariannwyd Drwy:-											
Grant	175,127										176,552
Treth Cyngor	67,736										71,246
Cyfanswm Incwm	242,863										247,798

Cyf	Teitl y Bid	Parhaol (£)	Un tro (£)	Setliad (£)	Cyfalaf (£)
Adran Addysg					
Bid 1	Cludiant Tacsis Ysgolion	400,000			
Bid 2	Integreiddio – Datganiadau / Cynllun Datblygu Unigol	193,000			
Adran Cyllid					
Bid 3	Cynnydd ym mhrisiau Meddalwedd Microsoft	97,890			
Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant					
Bid 4	Atal Digartrefedd	35,000			
Bid 5	Anabledd Dysgu - Oed Trosglwyddo	286,800			
Bid 6	Therapydd Galwedigaethol – Anabledd Dysgu	23,000			
Bid 7	Gweithwyr Cymdeithasol – Anabledd Dysgu	45,500			
Bid 8	Cofrestru Gweithwyr Gofal		38,280		
Bid 9	Hwb Diogelu	51,000			
Bid 10	Adnoddau Parhaol i staffio Unedau Dementia newydd	808,000			
Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd					
Bid 11	Gweithiwr Cymdeithasol x2	100,000			
Bid 12	Capasiti ychwanegol Therapi Galwedigaethol	23,000			
Bid 13	Cyfweliadau dychwelyd adref	20,000			
Bid 14	Lleoliadau Plant	657,000			
Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol					
Bid 15	Materion Gwastraff	36,150			
Adran Addysg					
Set 1	Prydau Ysgol am ddim – Effaith Gwasanaeth Llawn Credyd Cynhwysol (GLCC)			234,150	
Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant					
Set 2	Newid Trothwy Cyfalaf sydd yn Sail i Hunan Ariannu Gwasanaeth Gofal o £40,000 i £50,000			312,490	
Adran Economi a Chymuned					
Cyf 1	Adnewyddu Traciau System Silffoedd Symudol – Storfa Llyfrgell Caernarfon				57,350
Cyf 2	Cronfa Datblygu Gwirfoddol (CIST Gwynedd)				50,000
Cyf 3	Addasu Ystafelloedd Newid yng Nghanolffannau Hamdden Glaslyn a Dwyfor				12,800
Cyf 4	Gwaith Adfer Brys Strwythurau Parc Glynllifon				48,000

Manylion y Bid
ADRAN ADDYSG (G.T.)
<p><u>Bid 1 Cludiant Tacsis Ysgolion - £400,000 Parhaol</u></p> <p>Rhagwelir gorwariant o £721,130 yn 2019/20 yn seiliedig ar gyllideb o £2,100,340 o'i gymharu ag ymrwymadau o £2,821,470:-</p> <ul style="list-style-type: none"> • Tacsis ysgolion a weithredir gan yr Uned Cludiant Integredig £2,596,620 • Tacsis rhieni a weithredir gan yr Uned Cludiant Integredig £101,340 • Eraill - yn cynnwys cytundebau gyda Rheilffordd Cambrian a chytundebau tacsis "Pecyn 25" a weithredir gan yr Adran Addysg a Chludiant All Sirol a weithredir gan Awdurdodau eraill £123,510 <p><u>Sut</u> – byddai'r bid yn lleihau'r gorwariant yng nghyllideb refeniw'r Adran.</p> <p><u>Risgiau</u> - peidio cwrdd â gofynion "Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008".</p> <p><u>Sylwadau</u> – Argymhellir cefnogi'r cais, ond mae'r Adran dan gyfarwyddyd i ddod â swm y gorwariant o dan reolaeth.</p>
<p><u>Bid 2 Integreiddio – Datganiadau / Cynllun Datblygu Unigol (CDU) - £193,000 Parhaol</u></p> <p>Ers 2016/17, mae yna gynnydd sylweddol blynyddol yng nghost Datganiadau/CDU, sydd yn bennaf wedi'i ariannu trwy leihau dyraniad 'Integreiddio Arall'. Ond bellach mae'r 'Adolygiad Strategol Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad' yn tynnu o'r pennawd yma, ac felly gwneir bid am y diffyg parhaol o £193,000.</p> <p>Os fydd y patrwm o gynnydd cost sylweddol rhwng 2016/17 a 2018/19 yn parhau yn 2019/20, bydd diffyg o £400,000 ychwanegol yn y pennawd yma. Mae Adolygiad Annibynnol yn cael ei gynnal ar hyn o bryd sy'n edrych i mewn i'r gweithdrefnau, meini prawf, a thueddiadau dros y 3-5 mlynedd diwethaf i ddarganfod a oes tueddiadau, ardrawiad mewnlifiad a phlant mewn gofal yn dod i mewn i'r sir; cefnogaeth trawsadrannol i deuluoedd bregus a baich hyn i'r Adran Addysg; effaith cychwyn y defnydd o Gynlluniau Datblygu Unigol yn hytrach Asesiadau Statudol.</p> <p><u>Sut</u> – byddai'r cyllid ychwanegol yn ariannu'r diffyg yn sgil colli cyfraniad y gyllideb 'Integreiddio Arall'.</p> <p><u>Risgiau</u> - petai'r bid yn cael ei wrthod byddai rhaid torri cwantwm ysgolion yn 2019/20.</p> <p><u>Sylwadau</u> - Argymhellir cefnogi'r cais, ond mae'r Adran dan gyfarwyddyd i gadw'r gyllideb o dan reolaeth.</p>

ADRAN CYLLID (P.J.)**Bid 3 Cynnydd ym mhrisiau Meddalwedd Microsoft - £97,890 Parhaol**

Mae'r cytundeb am feddalwedd Windows ac Office (cynnwys e-bost, Skype a Sharepoint) ar y pris cyfredol yn dod i ben 30 Mehefin 2019, ac mae'r meddalwedd yma'n greiddiol i'n defnydd o gyfrifiaduron a does dim opsiwn ymarferol ond parhau i ddefnyddio'r meddalwedd hyn.

Sut - Byddai ariannu'r gofyn ychwanegol yn ein galluogi i barhau i ddefnyddio meddalwedd sy'n greiddiol i waith dydd i ddydd unrhyw swyddog sy'n defnyddio cyfrifiaduron.

Risgiau - Pe na fyddai cefnogaeth ariannol ychwanegol, byddwn yn wynebu cwtogi'r nifer o ddefnyddwyr cyfrifiaduron o 2,182 i 1,524. Byddai'n effaith llai andwyol na pheidio defnyddio meddalwedd Windows ac Office o gwbl. Mi fyddai'r newid yma yn ei dro yn cael effaith ar ein gallu i gefnogi a darparu gwasanaethau i drigolion y Sir.

Sylwadau – Argymhellir cefnogi'r cais.

BIDIAU REFENIW 2019/20**ADRAN OEDOLION, IECHYD A LLESIANT (G.R.)****Bid 4 Atal Digartrefedd - £35,000 Parhaol**

Mae'r Ddeddf Tai (Cymru) 2014 yn gosod dyletswyddau statudol ar y Cyngor, i gynorthwyo i atal digartrefedd neu ddod o hyd i rywle arall i fyw ar gyfer pawb sy'n cyflwyno eu bod o dan fygythiad o ddigartrefedd. Ers i'r Ddeddf yma ddod i rym yn Ebrill 2015, mae cynnydd sylweddol wedi bod yn y nifer yr achosion sydd yn cael eu cyflwyno i'r gwasanaeth digartrefedd ynghyd â chynnydd yn y nifer pobl sy'n mynd i fewn i lety dros-dro.

Tra yn ymdopi â'r cynnydd sylweddol mae'r gwasanaeth wedi colli staff yn y cylch arbedion yn 2015/16. Mae hyn yn golygu fod y nifer o achosion fesul staff wedi cynyddu yn sylweddol sydd wedi arwain at llai o amser i wneud gwaith atal digartrefedd a gwaith symud pobl ymlaen ac allan o lety dros dro. Mae cynnydd hefyd yn y nifer yr achosion cymhleth sydd yn golygu bod angen treulio mwy o amser fesul achos i ddod o hyd i ddatrysiaidau.

Mae adolygiad diweddar o'r gwasanaeth gan ymgynghorydd annibynnol (Arc4, Medi 2018) yn rhagweld y bydd y cynnydd yn y galw ar y gwasanaeth yn parhau. Mae hyn yn gyffredinol ar draws Awdurdodau Lleol eraill a gwyddom fod Cyngor Conwy a Dinbych wedi buddsoddi i ymateb i'r her.

Sut - cyllido 1 Gweithiwr Achos Atebion Tai. Byddai hyn yn galluogi'r Tîm i wneud mwy o waith ymyrraeth gynnar er mwyn atal digartrefedd drwy osgoi gorfod lleoli pobl mewn llety dros dro ac yn ei dro yn lleihau'r baich ariannol a'r angen i ddefnyddio trefniadau tymor byr.

Risgiau - methiant i gyflawni cyfrifoldebau statudol i atal digartrefedd yn unol â Deddf Tai (Cymru) 2014; cynyddu'r amser a gymerir i gyflawni'r hyn sy'n bwysig i'r cleient; nifer o bobl yn cael eu lletya mewn llety dros-dro yn cynyddu a all ansefydlogi unigolion bregus ynghyd â chynyddu'r costau.

Sylwadau - Argymhellir cefnogi'r cais.

Bid 5 Anabledd Dysgu - Oed Trosglwyddo - £286,800 Parhaol

Ariannu pecynnau gofal 11 unigolyn sydd yn trosglwyddo o'r Adran Plant a Theuluoedd i'r Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant (Anabledd Dysgu). Bydd hyn yn cynnwys Taliadau Uniongyrchol, Llety Cefnogol neu Gwasanaeth Dydd i gwrdd ag anghenion yr unigolion a'u teuluoedd.

Sut - galluogi teuluoedd/gofalwyr i barhau i ofalu am unigolion sydd ag anghenion sylweddol, gan roi cyfle i'r unigolion ddatblygu sgiliau pellach gyda'r bwriad o hybu annibyniaeth.

Risgiau - peidio cwrdd â chyfrifoldebau statudol y gwasanaeth yn unol â'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, a'r posibilrwydd bydd y sefyllfa gartref yn torri lawr a allai arwain at orfod lleoli'r unigolion mewn lleoliadau drytach.

Sylwadau - Argymhellir cefnogi'r cais.

Bid 6 Therapydd Galwedigaethol – Anabledd Dysgu - £23,000 Parhaol

(Bid am un therapydd i'w rannu rhwng yr adran yma a'r Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd).

Nid oes arbenigedd Therapi Galwedigaethol wedi bod yn y Gwasanaeth Anableddau Dysgu ers rhai blynnyddoedd bellach, ac mae effaith hynny i'w weld yn eu gallu i weithio fel tîm amlddisgyblaethol, a hefyd wrth ymdrin ag achosion cymhleth (e.e. achosion llys ble mae angen adroddiadau arbenigol). Mewn cyfnod ble rydym yn trawsffurfio gwasanaethau, mae datblygu'r rôl yma yn ein gwasanaethau yn hanfodol ar sawl lefel:-

Strategol: Er mwyn ein cynghori ar ddatblygiadau newydd, yn enwedig ar ddyluniad yr adeiladau rydym yn eu trawsffurfio i fod yn hybiau a hefyd o ran ein datblygiadau adeiladau newydd.

Gweithredol: Rydym angen y rôl yma ar lefel ataliol a hefyd i gyd-weithio gyda rhai o'r achosion dwys a chymhleth. Bydd modd i'r rôl yma gyd-weithio gyda'r tîm amlddisgyblaethol i gynghori gweithwyr eraill a'r teuluoedd o ran ymdrin ag ymddygiad heriol. Byddai modd i'r rôl yma gyd-weithio gyda'r achosion dwys a chymhleth er mwyn ceisio llunio cynllun chefnogaeth mewn modd creadigol i ddiwallu anghenion mewn dull person canolog.

Sut - Mae elfen o'r bid yn angenrheidiol i gwrdd â chyfrifoldebau statudol y gwasanaeth yn unol â'r ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Yn bresennol, y gwasanaeth oedolion sydd yn cynnig y gwasanaeth, nid yw'n ddigon arbenigol i gyfarch anghenion oedolion gydag anableddau dysgu gan ganolbwyntio yn benodol ar asesiadau o ran offer. Y nod yw datblygu gwasanaeth sydd yn canolbwyntio ar ymdrin ag ymddygiad heriol ac addasu'r amgylchedd er mwyn lleihau ymddygiad anodd a heriol. Byddai hefyd lle i'r swyddogaeth yma gynghori ein staff/gweithiwr cefnogol sydd yn aml yn ymdrin ag ymddygiadau heriol ac angen y gefnogaeth a chyngor arbenigol yma.

Risgiau - peidio cwrdd â chyfrifoldebau statudol y gwasanaeth yn unol â'r ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a diffyg arbenigedd Therapi Galwedigaethol yn y maes Anabledd Dysgu.

Sylwadau - Argymhellir cefnogi'r cais.

Bid 7 Gweithwyr Cymdeithasol – Anabledd Dysgu - £45,500 Parhaol

Ers 2013, mae dwy swydd Gweithiwr Cymdeithasol Anableddau Dysgu wedi bod yn cael eu hariannu dros-dro o Gynllun y Cyngor. Mae nifer o fuddion i'r ddwy swydd gan gynnwys, craffu ansawdd gwasanaeth, adolygu pecynnau, asesiadau a chynlluniau gofal; casglu gwybodaeth i broffilio gwasanaeth a bwydo i mewn i'r drefn gomisiynu ar gyfer cynllunio darpariaeth gwasanaeth i'r dyfodol; rhyddhau amser pob gweithiwr i reoli fwy o achosion a chynllunio ymlaen yn fwy manwl; mwy o gapasiti i adolygu pecynnau; drwy adolygu yn rheolaidd, gallu adnabod arbedion yn syth ac addasu cynlluniau gofal yn unol â'r asesiad anghenion; datblygu pwysigrwydd adolygu ac arbedion ymhellach yn y gwasanaeth; darparu gweithwyr gyda'r hygreddedd proffesiynol i ddatblygu a newid gwasanaethau mewn dull creadigol yn sgil adolygiadau manwl; gwella ansawdd gwasanaeth a chraffu darparwyr.

Sut - Mae elfen o'r bid yn angenrheidiol i gwrdd â chyfrifoldebau statudol y gwasanaeth yn unol â'r ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Yn hanesyddol, roedd gan y Gwasanaeth Anableddau lai o Weithwyr Cymdeithasol na thimoedd eraill. Ers 2013, pan ddatblygwyd y capasiti yma fel rhan o'r gwasanaeth, mae wedi cael effaith sylweddol, yn cynnwys eu gallu i ddiwallu anghenion mewn modd creadigol, adolygu anghenion yn amserol, cyfarch dros £600k o arbedion, ac adennill symiau sylweddol drwy herio'r drefn Gofal Iechyd Parhaus a'r lleihad mewn niferoedd o oedolion yn derbyn gwasanaethau yn all-sirol i Wynedd.

Yn bresennol, mae dwy swydd ar sail dros dro. Mae'r tîm yn sefydlog ac yn gweithio yn dda. Byddai'r bid yma yn creu un swydd barhaol ar y strwythur. Mae buddsoddiad sylweddol wedi bod mewn datblygiad staff a'r tîm i gyd (mewn cyfnod positif o drawsffurfio).

Risgiau – peidio cwrdd â chyfrifoldebau statudol y gwasanaeth yn unol â'r ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a risg o golli aelodau staff allweddol.

Sylwadau - Argymhellir cefnogi'r cais.

BIDIAU REFENIW 2019/20**Bid 8 Cofrestru Gweithwyr Gofal - £38,280 Un Tro**

Mae'r Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol Cymru 2016 yn nodi fod rhaid cadw cofrestr o weithwyr y maes gofal. Mae Uwch-weithwyr eisoes yn cofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru, ond bellach mae disgwyliad i staff gofal rheng flaen e.e. Gofalwyr Cartref a Staff mewn Cartrefi Preswyl gofrestru yn flynyddol.

Mae angen buddsoddi amser yn hyfforddi a sicrhau fod staff rheng flaen yn gwybod sut i gofrestru a'r hyn sy'n ofynnol arnynt o ran hynny. Cyflwynwyd bid yn wreiddiol yn 2018/19, ac mae swyddog wedi ei phenodi i'r swydd yma o Awst 2018 hyd at ddiwedd mis Mawrth 2019. Mae hwn yn gais pellach am adnodd dros-dro i barhau gyda'r gwaith yma yn 2019/20 a 2020/21. Mae staff gofal cartref wedi dechrau cael eu hyfforddi, a rhagwelir y bydd yn cefnogi i gofrestru hyd at 30 aelod o staff y mis. Rhagwelir y byddai'r adnodd ychwanegol yma yn parhau gyda'r gwaith o gofrestru gweithlu gofal cartref yn ystod 2019/20 yn bennaf, gyda gweithwyr cartrefi preswyl yn cael sylw yn 2020/21.

Sut – er ymateb yn llawn i ofynion statudol a chefnogi'r gweithlu.

Risgiau - methu cyflogi staff ar gyfer cynnal ein gwasanaethau statudol o ran gofalu am drigolion mwyaf bregus.

Sylwadau - Argymhellir cefnogi'r cais.

BIDIAU REFENIW 2019/20**Bid 9 Hwb Diogelu - £51,000 Parhaol**

Sefydlu Hwb Diogelu o fewn y Tîm Diogelu a Sicrwydd Ansawdd drwy ariannu swydd arweiniol i sicrhau fod yr Awdurdod yn cwrdd â'u dyletswyddau cyfreithiol mewn perthynas â materion diogelu fel sydd yn cael ei nodi yn rhan 7, Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Bydd cyfrifoldeb am ddatblygu'r Hwb Diogelu i dderbyn pob ymholiad diogelu'r Adran Oedolion ynghyd â phenderfynu a chytuno ar sut i reoli'r ymholiadau/ cyfeiriadau er mwyn sicrhau bod trigolion yn ddiogel. Bydd yn sicrhau fod cyfrifoldebau cyfreithiol a pholisïau adrannol yn y maes Diogelu yn cael eu cwrdd.

Bydd yn rhoi un pwynt cyswllt i holl gyfeiriadau ac ymholiadau diogelwch fydd yn sicrhau ymateb amserol ac addas gan atal oedi a dyblygu.

Mae Arolygaeth Gofal Cymru wedi nodi'r angen i gryfhau trefniadau mewn perthynas â materion diogelu.

Sut – bydd cael un pwynt cyswllt ar gyfer materion diogelu yn sicrhau cysondeb yn yr ymateb ar draws ardaloedd a gwasanaethau; swyddog yn datblygu arbenigedd yn y maes ac yn rhoi cyngor ac arweiniad penodol i'r gwasanaeth, ac yn gweithio yn agos iawn gyda'r timau ardal a datblygu perthynas agos gyda phartneriaid; yn cefnogi'r Adran i sicrhau fod asesiadau Lles Gorau DOLS yn cael eu cwblhau yn unol â gofynion cyfreithiol.

Risgiau - anghysondebau o ran ymateb i ymholiadau a chyfeiriadau diogelu ar draws ardaloedd a gwasanaethau; heb un un pwynt cyswllt, nid yw'r gwasanaeth yn rhwydd i unigolion gysylltu felly risg o oedi wrth ymateb; dyblygu neu ddiffyg gweithredu gan nad oes neb yn cymryd rôl arweiniol; pwysigrwydd y gwaith ddim yn cael ei amlygu wrth ychwanegu dyletswyddau i rolau arweinwyr; diffyg arbenigedd yn cynyddu risg i ddiogelwch a llesiant; heb unigolyn dynodedig, bydd yn anodd datblygu perthynas gyda phartneriaid megis swyddogion diogelu y Bwrdd Iechyd.

Sylwadau - Argymhellir cefnogi'r cais.

Bid 10 Adnoddau Parhaol i staffio Unedau Dementia newydd - £808,000 Parhaol

Cais am adnoddau parhaol i staffio Unedau Dementia newydd yn Llys Cadfan, Plas Hafan, Plas Hedd a Bryn Blodau i gefnogi gweithrediad y flaenoriaeth Ail-ddylunio Gwasanaethau Gofal o fewn Cynllun y Cyngor ac i gyfarfod gofynion Arolygaeth Gofal Cymru o ran staffio rotas cartrefi preswyl.

Sut – Bydd pob un o'r unedau dementia yn gartref i 7 neu 8 o unigolion.

Risgiau – Heb y buddsoddiad yma, bydd cyfraniad y pedwar cartref at amcan Cynllun y Cyngor i gynnig gofal dementia a gofal diwedd oes / mwy dwys yn agosach at adref yn cael ei gyfyngu.

Sylwadau – Mae penderfyniad Cabinet 27 Tachwedd 2018 i'w gymeradwyo wedi rhagfarnu penderfyniad ar 'bid' parhaol.

ADRAN PLANT A CHEFNOGI TEULUOEDD (D.M.)**Bid 11 Gweithiwr Cymdeithasol x2 - £100,000 Parhaol**

Er mwyn rheoli'r cynnydd yn y galw am wasanaeth yn sgil y cynnydd yn nifer yr achosion llys, cynnydd yn nifer y plant sy'n derbyn gofal a phlant sydd yn byw adref yn dilyn achos llys, mae'r Adran wedi gorfod sicrhau bod gan dîm plant Arfon ddigon o weithwyr cymdeithasol er mwyn dygymod gyda'r llwyth gwaith a sicrhau nad yw llwyth gwaith yn afresymol. Mae cynnal lleoliadau hefo'r rhiant yn fwy heriol na chefnogi lleoliadau maeth a phreswyl oherwydd bod y cynlluniau yn parhau i fod gyda lefel o risg yn dilyn achos llys.

Er mwyn sicrhau bod gan bob plentyn mewn gofal weithiwr cymdeithasol penodedig, mae'r adran wedi bod yn adrodd gorwariant ar swyddi gwaith cymdeithasol dros y 5 mlynedd diwethaf, gyda 2.5 swyddog yn cael eu cyflogi yn ychwanegol.

Sut – bydd yn galluogi'r tîm i barhau i weithredu fel y mae ar hyn o bryd, ond bydd yn creu dwy swydd barhaol ar y strwythur.

Risg – bydd yr Adran yn parhau i orwario ar gyfer staffio yn nhîm plant Arfon.

Sylwadau - Argymhellir cefnogi'r cais.

Bid 12 Capasiti ychwanegol Therapi Galwedigaethol - £23,000 Parhaol

(Bid am un therapydd i'w rannu rhwng yr adran yma a'r Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant).

Mae gwasanaeth Derwen i blant anabl yn integredig gyda'r gwasanaeth iechyd. Mae'r cyfrifoldeb i asesu addasiadau ar gyfer plant anabl yn disgyn ar Therapydd Galwedigaethol y Cyngor. Yn ogystal mae'r Therapydd yn darparu hyfforddiant ar offer symud a thrin cyn i staff allu defnyddio cyfarpar wrth weithio efo'r plant.

Mae rhestr aros am asesiadau gan y Therapydd Galwedigaethol a dim ond un Therapydd Galwedigaethol sydd ar draws y Sir. Mae achosion cymhleth hefyd yn golygu na ellir rhoi sylw i achosion llai cymhleth ddigon buan.

Mae'r llwyth gwaith yn ormod i un swyddog llawn amser ac yn absenoldeb y Therapydd Galwedigaethol, nid oes posibil gweithredu.

Sut – cynyddu capasiti Therapi Galwedigaethol a fyddai'n lleihau rhestr aros, lleihau amser disgwyl am asesiad ac felly'n darparu gwasanaeth neu addasiad yn llawer cynt.

Risg – defnydd anghywir o offer ac felly risg o niwed i blentyn ac/neu aelod staff, cwynion oherwydd methiant gan y Cyngor i ddarparu gwasanaeth ac o bosib camau gweithredu / bygythiad i gofrestriad y Gwasanaeth Cefnogol gan CSSIW.

Sylwadau - Argymhellir cefnogi'r cais.

BIDIAU REFENIW 2019/20**Bid 13 Cyfweiliadau dychwelyd adref - £20,000 Parhaol**

Mae ecsploetiaeth plant yn rhywiol yn un o flaenoriaethau diogelu ar gyfer y Cyngor a'r Bwrdd Rhanbarthol Diogelu Plant. Yn y gorffennol mewn sefyllfaoedd lle bo plant mewn gofal yn mynd ar goll o ofal ac yna yn dychwelyd, byddai'r heddlu yn cynnal 'cyfweiliad dychwelyd adref' i gael gwybodaeth am y cyfnod y buont ar goll a sicrhau dim niwed. Ychydig o flynyddoedd yn ôl bu i'r heddlu sicrhau grant, a chomisiynwyd Barnardos Cymru i gynnal y cyfweiliadau yma ar gyfer plant a phobl ifanc mewn gofal awdurdodau lleol Gogledd. Pan ddaeth cyfnod y grant i ben, datganwyd disgwyliad i'r awdurdodau lleol fod yn cynnal y cyfweiliadau yma, ac fe gymeradwywyd hyn gan y Bwrdd Gweithredol Rhanbarthol a gan y Prif Weithredwyr ar draws y Gogledd.

Mae'r cyfweiliadau dychwelyd adref i blant Gwynedd sydd yn mynd ar goll yn cael eu cynnal gan y gweithiwr cymdeithasol, a'r wybodaeth yn cael ei drosglwyddo i'r heddlu. Niferoedd bychan iawn yw'r rhain o'u cymharu â'r niferoedd nad ydynt yn blant mewn gofal i Wynedd, ond wedi eu lleoli yma mewn darpariaethau preswyl preifat. Nid oes adnoddau yn y gwasanaeth i gyfarfod y gofyn yma heb adnoddau ychwanegol.

Sut - bydd yn darparu adnodd ychwanegol i'r sefydliad ar lefel gweithiwr allweddol fydd yn cael ei leoli yn y gwasanaeth cyfiawnder ieuencid a bydd yn sicrhau y byddem yn cydymffurfio gyda disgwyliadau diogelu rhanbarthol.

Risg – dim yn cydymffurfio gyda gofynion diogelu plant a phobl ifanc fel sydd wedi ei benderfynu gan y Bwrdd Gweithredol Rhanbarthol. Yn ychwanegol, byddai diffyg cydymffurfiaeth yn y maes yma yn risg o feirniadaeth gan yr Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)

Sylwadau - Argymhellir cefnogi'r cais.

Bid 14 Lleoliadau Plant - £657,000 Parhaol

Er bod strategaethau mewn lle i ddefnyddio lleoliadau'n effeithlon ac i graffu'r trefniadau'n rheolaidd, nid oes rheolaeth ar natur a nifer y ceisiadau. Mae nifer o geisiadau eleni am achosion dwys a chymhleth sy'n gwneud lleoliad preswyl allsirol yn anorfod. Mae'r adran wedi ymdrechu i leihau'r nifer o leoliadau preswyl fel rhan o gynllun dechrau i'r diwedd, ond mae'r gofyn eleni am y math yma o leoliad yn llawer uwch na'r disgwyl.

Sut - mae'r lleoliadau cyfredol yn ymrwmo'r gyllideb bresennol, ac felly nid yw'n bosib lleoli yn ychwanegol heb orwario yn erbyn y gyllideb. Mae'r bid wedi ei selio ar amcan gwariant 2019/20.

Risg - gall peidio â lleoli arwain at sefyllfa lle na fyddwn yn gweithredu'n gyfreithiol lle mae asesiad risg yn dangos nad ydyw'n ddiogel iddynt barhau i fod adref. Hefyd bydd peidio ymateb yn arwain at orwariant.

Sylwadau - Argymhellir cefnogi'r cais.

BIDIAU REFENIW 2019/20**ADRAN PRIFFYRDD A BWRDEISTREFOL (G.W.G.)****Bid 15 Materion Gwastraff - £36,150 Parhaol**

Ymdrin â deunyddiau Ailgylchu – Mae costau cynyddol o ganlyniad i fwy o ddeunyddiau ailgylchu megis rwbél, gwastraff peryglus, coed yn y Canolfannau Ailgylchu ynghyd â chostau cynyddol i'w cludo.

Sut - byddai'r bid yn sicrhau bod y gwasanaeth yn gallu cadw fyny â'r gofyn ac ymdrin â deunyddiau ailgylchu.

Risgiau – methu â chyrraedd a chadw at dargedau statudol Llywodraeth Cymru a methu darparu gwasanaeth i drigolion Gwynedd.

Sylwadau - Argymhellir cefnogi'r cais.

SETLIAD 2019/20 (TROSGLWYDDIAD MEWN / CYFRIFOLDEB NEWYDD)**Manylion y Setliad****ADRAN ADDYSG (G.T.)****Set 1 Prydau Ysgol am ddim – Effaith Gwasanaeth Llawn Credyd Cynhwysol (GLCC) - £234,150 Parhaol**

Mae Gwasanaeth Llawn Credyd Cynhwysol (GLCC) yn fudd-dal newydd sy'n cefnogi pobl ar incwm isel neu yn ddi-waith. Bydd yn disodli 6 budd-dal sef, Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar incwm; Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn seiliedig ar incwm; Cymhorthdal Incwm; Credyd Treth Gwaith; Credyd Treth Plant a Budd-dal Tai.

Erbyn 12 Rhagfyr 2018 bydd Gwynedd yn mynd yn fyw efo'r GLCC ac o ganlyniad, bydd disgwyl cynnydd yn niferoedd plant fydd yn derbyn cinio am ddim.

Mae Llywodraeth Cymru wedi clustnodi £7miliwn i Awdurdodau Cymru ar gyfer cyfarch effaith y GLCC ar y gwasanaeth Prydau Ysgol gan y bydd y niferoedd fydd â hawl i ginio am ddim yn cynyddu. O ganlyniad, disgwylir gostyngiad yn yr incwm prydau ysgol, a chynnydd yng nghostau prydau ysgol am ddim.

Gwneir cais am £234,150, sef elfen Gwynedd yn y trosglwyddiadau i mewn i'r setliad.

Sut – ni fydd gorwariant i gyllideb refeniw'r Adran gan fydd addasiad i gyllideb incwm prydau ysgol a'r gyllideb gwariant prydau ysgol am ddim.

Risgiau – petai'r cais yn cael ei wrthod byddai gorwariant yng nghyllideb refeniw'r Adran o 2019/20 ymlaen.

Sylwadau - Argymhellir cefnogi'r cais.

ADRAN OEDOLION, IECHYD A LLESIANT (G.R.)**Set 2 Newid Trothwy Cyfalaf sydd yn Sail i Hunan Ariannu Gwasanaeth Gofal o £40,000 i £50,000 - £312,490 Parhaol**

Cais i ymateb i ddatganiad Llywodraeth Cymru eu bod yn cynyddu'r trothwy cyfalaf a ddefnyddir i benderfynu os yw person yn hunan ariannu eu lleoliad preswyl/nyrsio o £40k i £50k, sydd yn dod i rym yn Ebrill 2019.

Gwneir cais am £312,490, sef yr elfen cyfrifoldeb newydd o'r setliad.

Sut – Bydd cynyddu'r terfyn cyfalaf yn golygu bod pobl yn cyrraedd y trothwy sy'n eu gwneud yn gymwys i dderbyn cymorth ariannol gan y Cyngor yn gynharach.

Risgiau - heb y cyllid ychwanegol bydd y gyllideb bresennol yn annigonol a'r Adran yn debygol o orwario.

Sylwadau – Argymhellir cefnogi'r cais.

Manylion y Bid**ADRAN ECONOMI A CHYMUNED (I.T.)****Cyf 1 Adnewyddu Traciau System Silffoedd Symudol – Storfa Llyfrgell Caernarfon £57,350**

Mae'r system Silffoedd Symudol bellach yn 36 oed ac mae'r traciau erbyn hyn wedi gwisgo'n sylweddol, gan achosi i'r silffoedd ddod oddi ar y traciau yn aml. Mae hyn yn sefyllfa sy'n beryglus o ran diogelwch ac iechyd i staff. Mewn un rhan o'r system, mae'r silffoedd wedi cloi yn llwyr ac ni ellir eu symud o gwbl, yn ôl nac ymlaen ac felly, ni ellir nôl llyfrau i gyflenwi archebion gan ddefnyddwyr.

Mae'r Storfa yn cyflawni rôl hanfodol i'r gwasanaeth. Allan o 36,000 cais am lyfrau bob blwyddyn, mae 21% yn cael eu cyflenwi o'r Storfa.

Sut - datrysiad tymor hir i sicrhau fod yr adnodd Storfa yn cyflawni ei llawn swyddogaeth, gan ddarparu offer silffoedd symudol yn y man gwaith ac yn atal risg o ran iechyd a diogelwch.

Sicrhau fod y gwasanaeth Llyfrgell yn medru cyflawni ar gyfer anghenion pobl Gwynedd.

Risgiau - Nid oes modd defnyddio 1 o'r 5 system bellach, gyda risg bydd gweddill rannau o'r system yn mynd yn anweithredol. Mae risg i iechyd a diogelwch pob aelod o staff sy'n defnyddio'r silffoedd, yn arbennig felly o ran straen cefn neu anaf sylweddol os oes silff gyfan yn cwmpo.

Y risg o beidio ymateb yw cyfyngu'n sylweddol ar y gwasanaeth llyfrgell i ddarparu gwasanaeth llyfrgell lawn i drigolion Gwynedd a defnyddwyr eraill gan y byddwn yn methu a chyflenwi ceisiadau. Mae hyn eisoes yn digwydd gyda cheisiadau am lyfrau Cymraeg, ac oherwydd natur y casgliad, yn effeithio ar y sawl sy'n gwneud astudiaethau ymchwil neu addysgol yn benodol. Ni fyddem yn gallu pwrcasu ar y lefel yma o alw am lyfrau ar gais hyd yn oed pe bai'r holl lyfrau sydd eu hangen mewn print ac ar gael.

Os yw'r Storfa yn mynd yn anweithredol, bydd oblygiadau ar gyflogaeth un aelod o staff.

BIDIAU CYFALAF 2019/20**Cyf 2 Cronfa Datblygu Gwirfoddol (CIST Gwynedd) - £50,000**

Mae cymunedau yn wynebu heriau a chyfleoedd wrth ymateb i newidiadau cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd sy'n effeithio arnynt. Mae nifer o grwpiau gwirfoddol yn ymateb i'r heriau hyn drwy gynnal asedau a gweithgareddau lleol. Mae nifer o grwpiau gwirfoddol hefyd yn ymateb i'r cyfleoedd hyn drwy ddatblygu cynlluniau o'r newydd - yn benodol ar hyn o bryd yn y cyd-destun o drosglwyddo asedau o wasanaeth cyhoeddus i reolaeth gymunedol.

Dros y blynyddoedd diwethaf mae'r cyngor, drwy y Gronfa Datblygu Gwirfoddol Cyfalaf wedi cefnogi rhai cymunedau i ddatblygu cynlluniau sydd wedi ymateb i effeithiau y cynlluniau arbedion, a'r cynllun strategol.

Sut – drwy ddarparu grantiau i grwpiau gwirfoddol ar draws y sir i ddatblygu a gwireddu prosiectau cymunedol. Yn benodol, cefnogi prosiectau sy'n ymwneud â'r agenda trosglwyddo asedau a buddsoddi mewn asedau cymunedol lleol.

Risgiau – ni fyddai gan y Cyngor adnodd ar gyfer cyfeirio grwpiau sy'n ymateb i'r agenda arbedion / toriadau.

Cyf 3 Addasu Ystafelloedd Newid yng Nghanolfannau Hamdden Glaslyn a Dwyfor - £12,800

Mae nifer o gwynion wedi eu derbyn gan ddefnyddwyr anabl dros y flwyddyn ddiwethaf ynglŷn â'r ystafelloedd newid yn y ddwy ganolfan uchod. Mae trefniant presennol y gofod yn golygu nad yw wastad yn bosib i ddefnyddwyr anabl cael defnydd o ofod newid sydd yn addas ar gyfer eu hanghenion.

Yng Nghanolfan Glaslyn mae un gofod cyfyng yn cael ei rannu gan deuluoedd a chwsmeriaid anabl. Bydd teuluoedd weithiau'n llenwi'r 3 ciwbicl, fel nad oes modd i gwsmeriaid anabl eu defnyddio.

Yng Nghanolfan Dwyfor mae'r gofod newid i gwsmeriaid anabl hefyd yn goridor ar gyfer teuluoedd i gyrraedd y pwll nofio. Mae hyn wedi arwain at sefyllfaoedd ble mae tadau yn anfwriadol, wedi tarfu ar breifatrwydd cwsmeriaid anabl benywaidd wrth iddyn nhw newid.

Mi fydda'r trefniadau newydd, gyda mwy o ofod newid mewn ciwbicl ar wahân hefyd yn welliant o ran ein trefniadau i deuluoedd a phobl drawsrywiol fydda'n dymuno defnyddio gofod newid preifat.

Sut - bydd addasiadau i'r ystafelloedd newid yn y ddwy ganolfan yn creu gofod fwy, yn un pwrpasol ac ar wahân ar gyfer cwsmeriaid anabl a'u gofalwyr.

Risgiau - mae risg bydd y cyngor yn cael ei herio ar sail Deddf Cydraddoldeb 2010 oherwydd ei fod yn anodd i bobl anabl cael mynediad llawn i'r cyfleusterau hamdden.

Bydd y cyfrifoldebau uchod yn parhau o dan y trefniadau newydd gyda Chwmni Byw'n Iach.cyf, oherwydd ni ellir dirprwyo cyfrifoldeb dros y ddyletswydd cydraddoldeb cyffredinol i sefydliadau allanol sy'n ymwneud â swyddogaethau ar ran y cyngor.

Mae rhesymau iechyd penodol gan rhai cwsmeriaid anabl ac mae methu a chael mynediad yn gallu arwain at broblemau iechyd ychwanegol.

Pryderon o ran diogelu plant ac oedolion bregus a'r bid yn cynnig gwelliant o ran pobl drawsrywiol a mwy na un grŵp sydd â nodweddion gwarchodedig.

BIDIAU CYFALAF 2019/20**Cyf 4 Gwaith Adfer Brys Strwythurau Parc Glynllifon - £48,000**

Mae maint y safle yn sylweddol iawn gyda rhan helaeth o'r safle yn agored i'r cyhoedd sydd yn denu miloedd o ddefnyddwyr i'r Parc Gwledig bob blwyddyn.

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf mae nifer o newidiadau wedi eu gweithredu er mwyn gwireddu arbedion effeithiolrwydd. Mae'n fwiad gan yr Adran adolygu trefniadau rheoli Glynllifon i'r tymor hir. Ystyrir mai trefniant interim sydd mewn lle ar hyn o bryd yn hytrach na model cynaliadwy i'r dyfodol.

Mae materion wedi codi yn ystod y 12 mis diwethaf sydd wedi amlygu'r angen am waith adfer brys o fewn y Parc Gwledig. Mae'r rhain yn cynnwys :

- Gwaith atgyweirio brys i strwythurau megis pontydd a llwybrau sydd yn cael eu defnyddio gan ddefnyddwyr y Parc
- Gwaith atgyweirio strwythurau hanesyddol (mae'r Parc wedi ei ddynodi yn Dirlun Rhestredig Gradd 1) rhaedrau a ffosydd
- Adfer llwybrau er mwyn gwella diogelwch a mynediad
- Gwaith tocio coed er mwyn gwarchod diogelwch defnyddwyr y Parc

Prif nod y gwaith yma fyddai cwblhau gwaith adfer brys er mwyn sicrhau nad oes dirywiad pellach yn yr adnoddau hanesyddol dros y blynyddoedd nesaf.

Sut - bydd y gwariant ychwanegol yn darparu adnoddau penodol i ymateb i'r risgiau sydd wedi eu hadnabod sef, gwaith brys i bontydd £16k; mesurau brys i warchod strwythurau hanesyddol £18k; adfer llwybrau £9k; tocio coed £5k.

Rhagwelir y bydd modd cyfeirio adnoddau craidd y Gwasanaeth tuag at weithredu'r mesurau brys.

Risgiau - oblygiadau posib o beidio ymateb :

- Methiant i ymateb i beryglon rhagweladwy
- Tebygolrwydd nad yw'r Cyngor yn gwireddu dyletswydd i ofalu i'r sawl sydd yn cerdded ar y safle
- Risg o ddamwain ar y safle
- Adnoddau annigonol yn arwain at ddirywiad pellach yng nghyflwr asedau hanesyddol
- Cyngor yn agored i gyhuddiadau nad yw gerddi hanesyddol Gradd 1 yn cael eu rheoli a'u gwarchod.

ATODIAD 3

ARBEDION

1. Yr arbedion sydd yn cael yr ardrawiad lleiaf ar bobl Gwynedd yw arbedion effeithlonrwydd, ac yn arbennig rheiny gellir gweithredu yn y swyddfa gefn. Fodd bynnag mae'r cyfleoedd ar gyfer darganfod y fath arbedion wedi lleihau'n sylweddol dros y 10 mlynedd diwethaf, wrth i ni eu gwireddu er mwyn darganfod yr arbedion sylweddol y bu'n rhaid i ni eu darganfod dros y cyfnod.
2. Serch hynny, mae'r amrywiol adrannau wedi canfod cyfleoedd i gyflawni mwy o arbedion drwy edrych ar drefniadau neu leihau cyllidebau swyddfa gefn. Nodir y cynlluniau yma yng nghyfeirnodau 1.1 i 1.43 yn y tablau isod.
3. Mae yna arbedion effeithlonrwydd pellach i'w gwneud drwy ddarganfod ffyrdd gwahanol o gyflawni gwasanaethau, ac fe nodir y rhain yng nghyfeirnodau 2.1 i 2.19 isod.
4. Mae yna gyfleoedd hefyd wedi cael eu hadnabod i greu arbedion drwy fuddsoddi ac mae'r rhain yn cael eu hadnabod yng nghyfeirnodau 3.1 i 3.6.
5. Wedi hynny, mae yna wasanaethau eraill lle mae angen i ni ystyried y cyfleoedd codi incwm er mwyn gwarchod gwasanaethau hanfodol y Cyngor. Mae'r rhain i'w gweld yng nghyfeirnodau 4.1 i 4.28.
6. Yn y diwedd fodd bynnag, mae'n rhaid i ni ddarganfod arbedion mewn manau sy'n mynd i gael effaith ar bobl Gwynedd ac fe fydd yr effaith hwnnw yn amrywio o gynllun i gynllun.
7. Y ffordd orau o isafu'r effaith yw darbwylo eraill i gymryd y swyddogaeth drosodd, ac mae yna ddau gynllun o'r fath sy'n ymddangos yng nghyfeirnodau 5.1 i 5.2 isod.
8. Yng nghyfeirnodau 6.1 i 6.27, nodir cynlluniau eraill gallwn eu gwireddu, gan dderbyn fod yna effaith am fod ar ein trigolion, ond gan dderbyn mai rhain yw'r rhai lle bydd yr effaith leiaf yn cael ei weld.
9. Mae'n bwysig nodi fod y rhestr yma wedi cael ei lunio gan ddwyn i gof yr hyn sy'n ymddangos yn yr ymgynghoriad cyhoeddus.
10. Yn amlwg, mae Addysg o ansawdd, agweddau sylweddol o'r maes gofal, a dwy agwedd o faes Bwrdeistrefol (sef casglu gwastraff ac ail-gylchu, ynghyd â chanolfannau ail-gychu) yn ymddangos yn y 10 maes mwyaf pwysig i bobl Gwynedd.
11. Wedi dweud hynny fe welir fod popeth yr ydym yn ei wneud yn bwysig i rywun. Hyd yn oed gyda'r gweithgaredd ddaeth allan fel yr un lleiaf pwysig ar gyfartaledd o'r holl wasanaethau yr ydym yn eu cyflawni, fe welir o dudalen 17 yr adroddiad fod tua 100 o ymatebwyr wedi dweud ei fod o'n un o'r pethau mwyaf pwysig iddynt hwy.

12. Gan fod y meysydd Gofal ac Addysg yn gyfrifol am 62% o wariant y Cyngor mae'n amhosibl eu hepgor o unrhyw gyfraniad at yr arbedion, ond fe welir o'r rhestr nad oes bwriad gofyn i ysgolion gyfrannu at y cynlluniau cyflwynir yma er penderfyniad ar gyfer 2019/20. Ymhellach, mae'r elfennau y mae gofyn i'r meysydd Gofal ac Addysg gyfrannu yn cael eu cyfyngu i arbedion effeithlonrwydd, neu arbedion sydd yn cael effaith ar yr ymylon.
13. O ran y grwpiau a nodweddion gwarchoddedig, fe welwyd fod trafndiaeth gyhoeddus yn cael lle amlwg yn eu blaenoriaethau hwy. Felly, mae'r rhestr isod yn fwriadol yn ceisio gwarchod y maes hwnnw rhag unrhyw ostyngiadau cyllidol, er ein bod yn ymwybodol fod costau yn cynyddu'n sylweddol a bydd yn sialens cadw pob gwasanaeth cyfredol i fynd yng nghyd-destun y gyllideb sydd ganddynt.
14. Fe welir hefyd yn y ddogfen fod y sector fusnes yn naturiol yn cymryd agwedd dra wahanol i drigolion Gwynedd, ac yn nodi fod nifer o'r meysydd sydd yn ymwneud â'r sector fusnes yn naturiol yn fwy pwysig iddynt. Wrth lunio'r cynigion, rydym wedi ceisio osgoi effeithiau mwyaf andwyol unrhyw ostyngiadau yn y maes, gan geisio cyfyngu hynny i'r lleiafswm posibl, ond nid oes modd osgoi elfen o leihad yn ein gweithgareddau. Mae'r warchodaeth y byddem yn ei roddi yn debygol o olygu Treth Cyngor uwch na fyddem yn reddfol yn dymuno ei weld, ond mae'n bwysig ein bod yn parhau i fuddsoddi elfen o'n cyllideb yn y meysydd yma.
15. Yn ei gyfarfod ar 18 Rhagfyr 2018, penderfynodd y Cabinet gynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar y cynlluniau arbedion a restrir yng nghyfeirnodau 3.1 i 6.27 isod. Daeth yr ymgynghoriad i ben ar 31 Ionawr 2019, a cyflwynir dadansoddiad o'r canlyniadau yn Atodiad 11.
16. Cafwyd cyfle i drafod yr ymatebion a'r dadansoddiad ynghyd â'r effeithiau posib mewn gweithdy anffurfiol o'r holl aelodau'r Cyngor ar 5 Chwefror.
17. Er mwyn sefydlu cydsyniad o'r ffordd orau ymlaen, trafodwyd canlyniadau penodol o'r ymgynghoriad i ystyried os dylid lleihau'r cynnydd 5.5% arfaethedig yn y Dreth Cyngor drwy weithredu rhagor o doriadau. Dengys yr ymgynghoriad fod dros hanner yr ymatebwyr o blaid cynnig y Cabinet, neu'r opsiwn i godi'r Dreth Cyngor o fwy na 5.5% er mwyn peidio gorfod gwneud cymaint o arbedion. Roedd consensws yn y gweithdy Aelodau ar 5 Chwefror y byddai effaith y toriadau pellach yn annerbyniol.
18. Rhoddwyd ystyriaeth hefyd i gynigion i atal rhag gweithredu rhai cynlluniau arbedion penodol, gan felly gynyddu'r Dreth Cyngor o fwy na 5.5%. Ddaru'r gweithdy bwyso a mesur effaith posib y cynigion a rhesymau'r ymatebwyr dros eu cyflwyno. Detholwyd 5 cynllun ar gyfer ystyriaeth bellach, ar sail yr ardrawiad posib, a gellir gweld y cynlluniau rheini yn Atodiad 12. Mae'r cyfiawnhad cyflwynwyd mewn ymateb i'r ymgynghoriad wedi ei gynnwys yn Atodiad 11, yn ôl y nifer o sylwadau a dderbyniwyd.

19. Gall gweithredu rhai o'r arbedion, wrth gwrs, orfod dilyn prosesau statudol a byddent yn ddarostyngedig i ganlyniadau prosesau o'r fath. Yn amlwg mae'r argymhelliad ac unrhyw benderfyniad yn cydnabod hyn ac nid yw yn rhagfarnu eu deilliannau.
20. Mae'r cynigion a nodir yn y rhestr ganlynol yn cynhyrchu'r arbedion isod yn 2019/20. Mae yna nifer o'r cynlluniau yma'n gwireddu arbedion mewn blynyddoedd dilynol hefyd sy'n ein helpu i gynllunio ymlaen –

		£
Rhan 1	Effeithlonrwydd Swyddfa gefn	1,272,980
Rhan 2	Effeithlonrwydd pellach	269,370
Rhan 3	Buddsoddi i arbed	21,500
Rhan 4	Cynyddu incwm	481,590
Rhan 5	Atal ond gofyn i eraill gymryd drosodd (arbediad yn cael ei gyflawni mewn blynyddoedd dilynol)	-
Rhan 6	Arbedion ag effaith (i wahanol raddau)	406,490
	Cyfanswm 2019/20	2,451,930

Atodiad 3

Tud. 86

Cyf.	Cynllun	2019/20	2020/21 ymlaen	Eglurhad	Crynodeb o'r effaith cydraddoldeb	Linc i'r asesiad effaith cydraddoldeb
1.1	Cyflawni arbedion drwy brynu'n rhatach (e.e offer swyddfa a TG)	£20,000	£40,000	Mae'r Adran Amgylchedd yn arwain ar waith o reoli pryniant categorïau corfforaethol ac yn adnabod cyfleoedd i brynu'n rhatach. Enghreifftiau o hyn yw rheoli a phrynu'n deunydd fel offer swyddfa, dodrefn swyddfa, dillad diogelwch, Technoleg Gwybodaeth, Printio ayyb. yn well.	Ni ragwelir effaith cydraddoldeb	
1.2	Gosod costau yn erbyn cyllidebau cyfalaf	£22,500	£22,500	Mae'r swyddogion sy'n gweithio llawn amser ar y rhaglen Ysgolion G21 ar hyn o bryd yn cael eu hariannu allan o refeniw'r Gwasanaeth. Bwriedir gosod rhai costau yn erbyn y grant Ysgolion G21. Bydd rhaid gwneud achos busnes ar gyfer pob cynllun unigol. Effaith niwtral ar drigolion Gwynedd.	Ni ragwelir effaith cydraddoldeb	
1.3	Lleihau costau swyddfeydd drwy osod gofod gwag	£70,000	£0	Ystyrir fod yna gyfleoedd i wneud gwell defnydd o ofod swyddfa drwy gywasgu ychydig a chreu gofod gwag i'w osod i denantiaid ar rent masnachol. Angen gwaith marchnata, addasu gofod a negodi gyda darpar denantiaid. Effaith niwtral ar drigolion Gwynedd.	Ni ragwelir effaith cydraddoldeb	
1.4	Rhesymoli ac Integreiddio'r Swyddfa gefn Adran Amgylchedd	£11,880	£23,120	Gan fod swyddfa gefn dau Wasanaeth wedi uno i greu un Uned, mae posibiliadau o welliannau effeithlonrwydd a rhesymoli'r defnydd o systemau cyfrifiadurol swyddfa gefn. Mae'r gwaith yn cefnogi dyletswyddau statudol y gwasanaeth, a hynny'n aml iawn o gychwyn hyd at ddiwedd y dyletswyddau amrywiol. Gall fod effaith o ran oedi ar drigolion Gwynedd wrth ymdrin â mater cynllunio, gwarchod y cyhoedd a pridiannau tir. Anodd yw rhagweld beth yn union fydd lefel yr oedi, ond bydd yna lai o gapasiti er y bydd swmp y gwaith yr un fath. Y cwestiwn yw a fydd modd gwneud yn iawn am y llai o gapasiti	Asesiad cryno wedi ei wneud i weld os oedd effaith. Dim effaith wedi ei adnabod ond bydd yr Adran yn monitro effaith yn enwedig ym maes anabledde a'r iaith Gymraeg	www.gwynedd.llyw.cymru/Asesiad1

Atodiad 3

Tud. 87

				drwy wella effeithlonrwydd. Ni fyddwn yn gwybod hyd nes y byddwn yn ceisio ei gyflawni.		
1.5	Dileu swydd o'r Gwasanaeth Diogelwch Eiddo	£0	£30,000	Mae'r uned hon wedi bod drwy ymarferiad 'Ffordd Gwynedd' arweiniodd at drefniadau gweithio newydd a lleihad mewn costau refeniw blynyddol oddeutu £55,000. Mae'r perfformiad ar y dyletswyddau craidd yn foddhaol. Fodd bynnag, mae'r maes yn un lle mae gwaith uwchlaw'r dyletswyddau craidd yn codi ar hap/byr rybudd yn dilyn digwyddiadau iechyd a diogelwch sylweddol mewn llefydd eraill e.e. Grenfell, wal fewnol yn disgyn ar blentyn mewn ysgol yn yr Alban, pryderon newydd am Radon, gofynion archwilio newydd osodir gan y cwmni yswiriant, ymateb canlyniadau gwael profion dwr yfed ar fanddaliadau ayb. O leihau'r gyllideb hon ni fyddai adnodd o fewn y tîm i ymdopi a'r math yma o waith sydd uwchlaw'r dyletswyddau craidd	Wedi ystyried yr effaith yn ofalus, mae'r Adran wedi adnabod ffyrdd amgen o gyflawni'r yr un gwaith a fydd yn golygu fod pob safle yn cael ei archwilio fel ag y mae heddiw ac felly yn osgoi effaith ar y defnyddwyr.eddion oedran ac anabled. Angen asesiad pellach	
1.6	Arbedion ailstrwythuro blaenorol o fewn Adran Cefnogaeth Gorfforaethol	£30,000	£0	Mae'r arbedion yma sy'n deillio o weddillion nifer o ail-strwythuriadau o fewn yr Adran dros y 3 blynedd diwethaf wedi eu gweithredu eisoes ac nid oes unrhyw oblygiadau pellach iddynt.	Ni ragwelir effaith cydraddoldeb	
1.7	Lleihau cyllidebau costau teithio a chyflenwadau Adran Cefnogarth Gorfforaethol oddeutu 10%	£40,000	£0	Mae'r arbedion yma mewn costau teithio a chyflenwadau swyddfa wedi cael eu gweithredu eisoes fel rhan o'r gwaith o baratoi ar gyfer arbedion pellach ac felly ni fydd effaith ar bobl Gwynedd.	Ni ragwelir effaith cydraddoldeb	

Atodiad 3

Tud. 88

1.8	Terfynu cytundeb meddalwedd	£10,000	£0	Mae'r Uned Ymchwil a Dadansoddeg yn defnyddio sustem feddalwedd arbenigol yn ôl y gofyn ond edrychir i ddefnyddio ffynonellau amgen rhatach heb lesteirio gormod ar waith yr Uned.	Ni ragwelir effaith cydraddoldeb	
1.9	Dileu swydd reolaethol o fewn y Gwasanaeth Datblygu Sefydliad ac uno'r Gwasanaeth hefo'r Gwasanaeth Dysgu a Datblygu	£44,000	£0	Mae yna dair swydd o fewn y Gwasanaeth. Dileuwyd swydd Rheolwr y Gwasanaeth ddiwedd Mehefin eleni gan uno'r cyn-wasanaeth hefo'r Gwasanaeth Dysgu a Datblygu oddi ar y 1af o Orffennaf. Rhagwelir y gellir parhau i gyflawni'r gwaith hwn heb effaith ar y ddarpariaeth bresennol ond o ystyried y cyfnod byr a fu ers uno'r ddau Wasanaeth, byddai'n gynamserol i ddatgan na fydd yna unrhyw effaith ar y gwasanaeth a ddarperir.	Ni ragwelir effaith cydraddoldeb	
1.10	Adolygu'r gefnogaeth i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus	£15,000	£0	Lleihau o swydd a hanner i un swydd (swydd eisoes yn wag). Gwaith gweinyddol yw hwn sy'n ofynnol i ni ei wneud ar ran y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a bydd angen i'r Bwrdd fod yn fwy miniog o ran yr hyn y gofynnir i'r tîm cefnogol ei wneud yn ogystal â sicrhau cyfraniadau o adnodd a chapasiti gan y partneriaid eraill.	Ni ragwelir effaith cydraddoldeb	
1.11	Ail raddio dwy swydd o fewn yr Adran Gefnogaeth Gorfforaethol sy'n cefnogi gwaith y Cyngor	£15,000	£0	Mae'r Gwasanaeth Cefnogi Busnes yn Wasanaeth a sefydlwyd o'r newydd ym Mehefin, 2017 ac mae'n gyfuniad o sawl cyn-wasanaeth bychan. Mae angen moderneiddio'r strwythur a etifeddwyd yn sgil y newidiadau sydd wedi digwydd yn y ffordd o weithio o fewn y Cyngor e.e. perchnogaeth a chyfrifoldeb am berfformiad yn ganolog i'r disgwyliadau o'n rheolwyr yn hytrach na bod yn gyfrifoldeb penodol i'r gwasanaethau corfforaethol. Mae adolygiad o gyfrifoldebau dwy swydd wedi arwain at swydd ddisgrifiadau diwygiedig sy'n cyfarch gofynion ar gyfer y dyfodol ac mae hyn wedi arwain at	Ni ragwelir effaith cydraddoldeb	

Atodiad 3

Tud. 89

				arfarniadau swyddi sydd yn dyfarnu lefelau cyflog is.		
1.12	Trosglwyddo i sistem swyddfa gefn cyswllt cwsmer newydd (Ffos)	£0	£23,000	Mae'r gwasanaeth wedi penderfynu newid y sistem swyddfa gefn o un a ddarparwyd gan gyflenwr allanol i sistem a ddyluniwyd yn fewnol. Bydd hyn yn arbed costau refeniw wrth osgoi talu am drwydded flynyddol i gwmni allanol. Anelir i gwblhau'r gwaith o drosglwyddo'n llwyr i'r sistem fewnol erbyn Ebrill, 2020.	Ni ragwelir effaith cydraddoldeb	
1.13	Lleihau cefnogaeth weinyddol o fewn y Gwasanaeth Cefnogol drwy gyflwyno systemau TG	£65,000	£39,000	Lleihau'r adnodd gweinyddol wrth gyflwyno rhagor o fodiwlau Hunan Wasanaeth Staff (Technoleg Gwybodaeth) ar gyfer rheolwyr a staff. Rhagwelir y gellid rhesymoli'r strwythur yn dilyn cyflwyno'r modiwlau hyn gan ddileu'r angen i fewnbynnu data mwy nag unwaith o fewn llif gwaith yn y meysydd recriwtio a phenodi, prosesu amserlenni a chofnodi absenoldebau staff. Pwysleisir bod angen i'r modiwlau hyn fod wedi'u datblygu a'u cyflwyno yn llawn cyn y gellid gwireddu'r arbedion pellach o fewn y Gwasanaeth.	Ni ragwelir effaith cydraddoldeb	
1.14	Dileu swydd o'r Gwasanaeth Gwybodaeth yn sgil cyflwyno system electronig	£30,000	£0	Rhan o swyddogaeth y Gwasanaeth yw cefnogi adrannau gyda'r gwaith o gadw cofnodion a dogfennau. Gyda'r lleihad disgwylidig yn y gofyn am gefnogaeth yn sgil cyflwyno sistem electronig 'iGwynedd', mae'r Gwasanaeth yn credu y gellir ymdopi gyda'r gostyngiad mewn adnodd, heb effeithio yn ormodol ar wasanaethau'r Cyngor. Nid yw igwynedd wedi dwyn llawn ffrwyth eto ond credir y gellid lleddfu unrhyw effaith tymor byr o ddileu'r swydd hon	Ni ragwelir effaith cydraddoldeb	

Atodiad 3

Tud. 90

				trwy'r buddsoddiad presennol mewn swyddi dros-dro a gyllidir yn gorfforaethol er mwyn cyflwyno 'iGwynedd' yn llawn ar draws y Cyngor.		
1.15	Dileu un swydd swyddog adnoddau dynol ac un swydd ymgynghorydd adnoddau dynol. (Lleihad staffio o 20%) drwy newid ein model gweithredu.	£0	£80,000	Rydym yn ceisio newid i fodel gweithredu lle mae llai o ddibyniaeth ar y gwasanaeth ymgynghorol adnoddau dynol. Byddai hyn yn golygu trosglwyddo sgiliau i reolwyr fedru cyflawni eu rôl yn effeithiol ac fe fyddai hyn yn galluogi i ni leihau'r nifer o swyddogion o 2 swydd allan o 10.5. Y risg yw nad yw'r baich gwaith yn lleihau oherwydd nad yw rheolwyr yn gallu dygymod. Bydd hefyd angen sicrhau fod y gefnogaeth briodol ar gael mewn ffyrdd amgen.	Ni ragwelir effaith cydraddoldeb	
1.16	Lleihau'r gefnogaeth i'r Tîm Rheoli ac i gefnogi rheolaeth project.	£68,750	£41,250	Byddai un rhan o'r arbediad hwn yn golygu lleihau'r gefnogaeth uniongyrchol dydd i ddydd i'r Tîm Rheoli tra byddai'r ail ran yn golygu lleihau'r arbenigedd o fewn y Cyngor ym maes rheolaeth prosiect ac yn cyfyngu rhyw gymaint ar yr hyblygrwydd i ymateb i ofynion ar y Gwasanaeth. Credir y byddai modd dygymod hefo'r gofynion arferol gyda pheth newid yn y modd o weithio, ond efallai y byddai'r ddisgyblaeth o reoli prosiect felly yn dirywio dros amser.	Ni ragwelir effaith cydraddoldeb	
1.17	Dileu'r Gwasanaeth Datblygu Sefydliad	£0	£54,000	Byddai dileu'r gwasanaeth yma yn golygu na fyddai'r adnodd presennol ar gael i roi sylw i fuddiannau staff, i gynnal arolygon, i hyrwyddo'r diwylliant a chynnig cefnogaeth i reolwyr er mwyn gwreiddio egwyddorion 'Ffordd Gwynedd' nac ychwaith i weithredu fel y pwynt cyswllt gyda phobl Gwynedd ar gyfer ymdrin â chwynion ffurfiol. Mae'r uned yma wedi bod yn llwyddiannus iawn yn datblygu buddion i staff	Ni ragwelir effaith cydraddoldeb	

Atodiad 3

Tud. 91

				gan gynnwys negodi disgownts mewn siopau lleol ac annog siopau lleol i'w cynnig er mwyn cael staff i brynu'n lleol. Ni fyddai modd cynnal y gweithgaredd hwnnw gan olygu y byddai'n dirywio dros amser tra byddai'r agweddau eraill o'r gwaith, o anghenraid, yn derbyn llawer llai o sylw yn sgil y gofynion eraill ar y Gwasanaeth Dysgu a Datblygu'r Sefydliad.		
1.18	Lleihau costau llinellau ffon drwy ddefnyddio mwy ar VOIP	£38,000	£38,000	Rydym eisoes wedi trosglwyddo nifer o linellau ffon y Cyngor i fod yn defnyddio VOIP : hynny yw, defnyddio llinellau cyfrifiadurol i wneud galwadau ffôn yn hytrach na thalu am linellau ffon draddodiadol. Byddai modd ymestyn y cysyniad tu hwnt i brif swyddfeydd y Cyngor i sefydliadau eraill, ysgolion, cartrefi gofal, ac unrhyw adeilad sydd â chyswllt rhwydwaith addas sy'n cael ei ddarparu gan y Gwasanaeth TG gan arbed arian. Ni fyddai'n cael effaith ar drigolion Gwynedd.	Ni ragwelir effaith cydraddoldeb	
1.19	Negodi ffioedd Archwilio Allanol	£40,000	£0	Dengys ein proffil risg y dylem fedru ail negodi prisiau. Ni fydd yna oblygiadau ar wasanaethau'r Cyngor nac ar bobl Gwynedd. Mae yna risg y byddent yn gwrthod, ond bu peth lwyddiant mewn blynyddoedd diweddar.	Ni ragwelir effaith cydraddoldeb	
1.20	Newid dull ariannu Caffael Systemau	£35,000	£0	Lleihau cyllideb darparu meddalwedd gyda'r bwriad o isafu'r gefnogaeth ymgynghorol ar ein systemau. Ni fyddai unrhyw oblygiadau i bobl Gwynedd nac effaith ar wasanaethau yn y tymor-byr. Gall fod angen ariannu datblygiad yn y tymor-hir.	Ni ragwelir effaith cydraddoldeb	
1.21	Lleihau teithio o fewn yr Adran Gyllid o 30%	£5,750	£0	Lleihau'r gyllideb teithio ar gyfer yr adran drwy ddefnyddio dulliau cyfathrebu electronig, megis Skype for Business, cynllunio siwrneiau, ayb. Felly, ni ddylai gael effaith ar bobl Gwynedd.	Ni ragwelir effaith cydraddoldeb	

Atodiad 3

Tud. 92

1.22	Lleihau Staffio Gwasanaeth Incwm (Lleihau staffio o 8%)	£11,380	£0	Yn dilyn ail-strwythuro staff, mae rhan o swydd yn wag o fewn y gwasanaeth. Mae ein perfformiad presennol yn adlewyrchu hynny ac felly, mae effaith dileu'r swydd wedi ei weld eisoes ar yr adrannau perthnasol. Gellir gwneud hyn yn barhaol.	Ni ragwelir effaith cydraddoldeb	
1.23	Lleihau Staffio Gwasanaeth Cyflogau o 9%	£19,500	£0	Yn dilyn ail-strwythuro staff, mae un swydd yn wag o fewn y gwasanaeth. Mae ein perfformiad presennol yn adlewyrchu hynny ac felly, mae effaith dileu'r swydd wedi ei weld eisoes ar yr adrannau perthnasol. Gellir gwneud hyn yn barhaol.	Ni ragwelir effaith cydraddoldeb	
1.24	Lleihau staffio yn y maes cyfrifeg	£49,130	£0	Yn dilyn trosiant staff, mae un swydd yn wag o fewn y gwasanaeth. Mae ein perfformiad presennol yn adlewyrchu hynny ac felly, mae effaith dileu'r swydd wedi ei weld eisoes ar yr adrannau perthnasol. Gellir gwneud hyn yn barhaol.	Ni ragwelir effaith cydraddoldeb	
1.25	Defnydd tanwariant un tro i ariannu hyfforddiant	£34,400	£0	Lleihau'r gyllideb barhaol i ariannu hyfforddiant gyda'r bwriad o ddefnyddio tanwariant un-tro i'w ariannu i'r dyfodol, sydd yn golygu fod unrhyw hyfforddiant proffesiynol yn y maes Cyllid a Thechnoleg Gwybodaeth yn ddibynnol ar fod arian un-tro (tanwariant neu gronfa adrannol) ar gael i'w ariannu. Dim effaith ar gefnogaeth ariannol i'r adrannau / pobl Gwynedd, cyn belled bod y lefel o hyfforddiant yn cael ei gynnal. Risg yn y tymor hir fod staff ddim efo'r sgiliau angenrheidiol os na fydd y tanwariant ar gael, a byddai gwasanaeth Cyllid heb swyddogion wedi eu hyfforddi a'u cymhwyso'n briodol yn risg sylweddol i allu'r Cyngor i wneud y defnydd gorau o'i adnoddau ar ran pobl Gwynedd.	Ni ragwelir effaith cydraddoldeb	

Atodiad 3

1.26	Ail negodi cytundeb rhwydwaith y Cyngor	£170,000	£0	Mae hwn wedi ei gytuno gyda Llywodraeth Cymru a'n darparwr, gyda chostau'n gostwng £200,000 y flwyddyn. Byddwn angen buddsoddi £30,000 y flwyddyn er mwyn cryfhau ein cyswllt i'r rhyngrwyd oherwydd cynnydd naturiol yn nefnydd y cyfryngau digidol. Bydd angen tynnu cyllidebau i'r canol (o bob adran o'r Cyngor ac o gyllidebau datganoledig yr ysgolion) er mwyn gwireddu lleihad yn y costau fel arbedion. Ni fydd effaith ar wasanaethau cefnogol i'r adrannau na phobl Gwynedd. Mae'n gyfle i wneud arbedion a chryfhau ein darpariaeth.	Ni ragwelir effaith cydraddoldeb	
1.27	Lleihau costau cyflenwadau o 2.5%	£16,330	£0	Ystyrir fod modd lleihau'r gyllideb cyflenwadau drwy uchafu'r defnydd o ddulliau gweithio electronig ac osgoi cost papur, argraffu, ayb. Heb gael unrhyw effaith ar bobl Gwynedd.	Ni ragwelir effaith cydraddoldeb	
1.28	Dileu swydd o'r Gwasanaeth Incwm	£5,850	£17,550	Ar hyn o bryd mae yna swydd sydd yn wag, ond a lenwyd ar sail dros dro ar hyn o bryd yn y Tîm Adennill dyledion cyffredinol. Byddai modd dileu'r swydd hon heb ddiswyddo aelod o staff parhaol, ond mae'n debyg y byddai yna effaith ar ein gallu i adennill dyledion. Ni wyddom yn union beth fyddai'r effaith hwnnw heb arbrofi i weld. Byddai colli un person sy'n adennill dyledion yn golygu llai o ymdrech yn ceisio adennill gyda'r risg y byddem yn colli mwy na fyddem yn ei arbed. Pe ddigwyddith hynny byddai angen i ni ystyried adfer yr arbediad.	Ni ragwelir effaith cydraddoldeb	

1.29	Ymestyn egwyddorion Cynllun Peilot Alltwn ar draws y gwasanaeth	£133,500	£400,500	<p>Yn seiliedig ar dystiolaeth cynllun peilot Alltwn a thystiolaeth o siroedd eraill megis Torfaen, mae rhyddhau amser staff i gael sgysiau cychwynnol addas er cael datrysiadau cywir y tro cyntaf ynghyd ag integreiddio gyda chydweithwyr iechyd a trydydd sector, yn gallu arwain at well canlyniadau a hynny ar lai o gost. Yn aml iawn, mae hyn yn golygu datrysiadau ataliol eu natur o fewn eu rhwydweithiau a'u cymunedau lleol, yn hytrach na dibynnu'n unig ar becynnau gofal traddodiadol neu 'fwydlen' o wasanaethau Gofal Cymdeithasol. O ran hyn felly, rhagwelir y bydd yna effaith cadarnhaol ar yr unigolyn trwy allu cwrdd â'r hyn sy'n bwysig iddynt yn amserol ac mewn ffurf integredig gyda phartneriaid allweddol megis y Gwasanaeth Iechyd a'r 3ydd sector.</p> <p>Ond, er y dystiolaeth ddechreuol sydd gennym, mae'n amhosib rhagweld beth yw lefel yr arbedion effeithlonrwydd sydd yn bosib trwy ymestyn egwyddorion Ffordd Gwynedd ar draws y gwasanaeth. Y prif resymau am hyn yw bod y galw ar ein gwasanaethau yn parhau i gynyddu a chyflyrau y rhai sydd yn derbyn cefnogaeth yn dwysau, a'r ffaith fod llwyddiant newid y ffordd rydym yn gweithio yn gwbl ddibynnol ar ein gallu i greu cymunedau mwy gwydn ac integreiddio ein gwaith gyda phartneriaid allweddol i'r dyfodol. Rhaid disgwyl nes gweld profiad y tranche cyntaf cyn dibynnu ar y swm arbedion yma.</p>	<p>Dylai y newid yma yn y dull o weithio gael effaith gadarnhaol ar bob unigolyn fydd yn derbyn gwybodaeth, cyngor neu gymorth gan y gwasanaethau gofal. Bydd anghenion pob achos yn cael ei asesu yn unigol a darpariaeth addas a phriodol yn cael ei gynnis.</p>	<p>www.gwynedd.llyw.cymru/Asesiad2</p>
1.30	Gwella prosesau gwaith drwy gynnal adolygiad Ffordd Gwynedd a defnyddio modiwlau cyllid y system TG newydd o fewn yr Adran Oedolion	£40,000	£40,000	<p>Mae adolygiad 'Ffordd Gwynedd' a modiwlau cyllid y system TG newydd yn cynnig cyfleoedd i newid a gwella prosesau gwaith cyfredol.</p> <p>Rhagwelir y bydd newidiadau hyn yn arwain at allstrwythuro i dimau o fewn y gwasanaeth busnes.</p>	<p>Mae'r gwasanaethau a ddarperir gan yr Uned Busnes yn cefnogi pawb sydd yn derbyn cefnogaeth gan yr Adran Ni ddylai'r unigolion weld unrhyw effaith ond bydd rhaid i'r Cyngor gadw golwg ar unrhyw effaith</p>	<p>www.gwynedd.llyw.cymru/Asesiad3</p>

				<p>Rhagwelir y bydd y cynllun yn arwain at arbedion effeithlonrwydd ac felly ddim effaith negyddol ar drigolion. Er hynny mae risg ynghlwm na fydd y cynllun y cyflawni'r arbediad yn llawn ac na fydd y rhagdybiaethau cynnar yn gyraeddadwy</p>	<p>a gwneud y newidiadau gam wrth gam. Rhagwelir y bydd addasu dulliau gwaith yn ddi-effaith hyd at drothwy ond y byddai effaith ar y gefnogaeth a gynigir os yn camu dros y trothwy hwnnw. Bydd angen monitro parhaus i sicrhau na fydd hynny yn digwydd.</p>	
1.31	Adolygu'r trefniadau gweithredu o fewn yr Adran Oedolion	£0	£135,000	<p>Byddwn yn parhau i adolygu ein prosesau gwaith i adnabod unrhyw gyfleoedd effeithlonrwydd pellach sy'n bodoli o fewn yr Adran. O ystyried y gwaith sy'n mynd rhagddo ar hyn o bryd allai arwain at hyd at 8 swydd FTE yn llai, a'r arbedion effeithlonrwydd sydd wedi eu canfod dros y blynyddoedd diweddar, y tebygrwydd ydi na fydd posib cyflawni'r swm dan sylw trwy arbedion effeithlonrwydd yn unig.</p> <p>Er hyn tybir y bydd yr ymarferiad o adolygu ein prosesau gwaith yn ein helpu i adnabod y toriadau fyddai'n cael yr effaith lleiaf ar bobl Gwynedd. Rhagwelwn y gallai'r toriadau yma gynnwys cynigion i dderbyn gostyngiad cyffredinol mewn safon cyflawni rhai tasgau sy'n angenrheidiol eu natur o ran gofynion cyfreithiol, yn ogystal hefyd a pheidio gwneud rhai tasgau sydd o bosib o natur fwy datblygol.</p> <p>Yn benodol o ran yr adolygiad cyfredol o roi strwythur newydd cefnogol yn ei le, tybiwn y bydd hyn yn rhoi'r balans cywir i ni i'r dyfodol o ran sicrhau ein bod yn gwneud y defnydd gorau o amser staff rheng flaen. Y risg sydd ynghlwm a gwneud toriadau i'r gefnogaeth fusnes yw'r ffaith y byddai'n rhaid i weithwyr rheng flaen ymgymryd â thasgau ychwanegol ac arbenigol sy'n annhebygol o fod yn gryfder ganddynt, gan</p>	<p>Mae'r cynllun yn ymwneud â gwasanaethau sydd yn cefnogi gwasanaethau llinell flaen yr Adran. Ni ddylai unigolion sy'n derbyn gwasanaeth weld unrhyw effaith ond bydd rhaid i'r Cyngor gadw golwg ar hyn gam wrth gam. Os yw monitro parhaus yn dangos bod y newidiadau mewnol yn cael effaith ar ddarpariaeth gwasanaethau llinell flaen yna bydd angen addasu neu gyfyngu unrhyw newidiadau pellach.</p>	<p>www.gwynedd.llyw.cymru/Asesiad4</p>

Atodiad 3

Tud. 96

				arwain at sefyllfa ble byddent wrth reswm wedyn yn treulio llai o amser gyda thrigolion. Rhagwelir felly y byddai gweithredu'r elfen 'toriadau' fel rhan o'r cynllun hwn yn debygol o gael effaith negyddol ar allu ein staff rheng flaen i gyflawni'r hyn sy'n bwysig i drigolion, deall anghenion ein poblogaeth ar lefel lleol, yn ogystal â gallu'r Timau Gwaith Cymdeithasol i fod yn rheoli'r galw yn effeithiol. Mae'r gefnogaeth fusnes yn gosod sylfaen gwaith gwbl allweddol os am lwyddo gyda'r sialens o reoli'r galw ar ein gwasanaethau.		
1.32	Adolygiad o drefniadau gweithredu o fewn y maes Priffyrdd	£37,500	£12,500	O gynnal adolygiad 'Ffordd Gwynedd' rydym wedi adnabod ffyrdd o ddiddymu dyblygu gwaith rhwng yr elfen gomisiynu a'r gweithlu priffyrdd. Mae'n annhebygol y byddai trigolion Gwynedd yn sylwi ar y gwahaniaeth er y gallasai arwain at lai o staff i ymateb i ymholiadau ar brydiau.	Ni ragwelir effaith cydraddoldeb	
1.33	Rhesymoli Gweithdai Fflyd o 3 i 2 yn y Sir	£0	£130,000	Gellir rhesymoli'r nifer gweithdai sydd gennym i arbed arian. Nid yw'n debygol y bydd yna unrhyw effaith ar drigolion Gwynedd ond yn amlwg fe allasem weld colli swyddi mechanics yn lleol hyd at 6 (F.T.E). Nid yw'r Gwasanaeth Fflyd wedi cynnal cynllun busnes llawn gogyfer y cynllun arbedion yma nac asesiad risg o ddod lawr o dri safle i ddau. Byddai cau un gweithdy yn golygu y byddai'n rhaid i gerbydau deithio o un ardal i'r llall er cael eu gwasanaethu. Byddai'n ofynnol hefyd buddsoddi o fewn y gweithdai eraill er ymgorffori gwaith o'r gweithdy fyddai'n cau. Fe allasai hyn effeithio'r achos busnes gan ddod a maint yr arbediad net i lawr.	Ni ragwelir effaith cydraddoldeb	

Atodiad 3

Tud. 97

1.34	Lleihau'r gyllideb ffioedd proffesiynol/ cyfreithiol	£7,260	£0	Mae 4 llinell gyllideb yn cyfrannu at y cyfanswm yma sydd yn cynnwys cyllideb i brynu gwasanaethau proffesiynol drwy asesiadau yn annibynnol o'r gwasanaeth mewn achosion llys neu cyn cychwyn achos llys a ffioedd cychwyn achosion llys. Mae'r cyllidebau yma yn eistedd gyda'r gwasanaeth plant ac mae tanwariant bychan wedi bod ar y penawdau cyllideb yn hanesyddol. Rhagwelir fod modd lleihau ychydig ar bob un o'r penawdau hyn heb gael ardrawiad ar blant a theluoedd gan barhau i gyfarfod a'r gofynion llys.	Ni ragwelir effaith cydraddoldeb	
1.35	Lleihau'r gyllideb hyfforddiant o fewn y Gwasanaeth Plant	£8,980	£0	Byddai dileu yr elfen hyfforddiant arbenigol o'r gyllideb yn canatau i ni arbed 3% o'r gyllideb IFSS. Ni fyddai hyn yn cael effaith ar blant, teuluoedd nac ar staff. Roedd yr elfen hon yn rhan o'r cyllid oedd ar gael i osod y gwasanaeth newydd statudol yma yn ei le ac roedd trefniadau 'train the trainer' yn bodoli o fewn y gwasanaeth. Nid yw hyn yn hanfodol bellach. 'Roedd yna hefyd anghenion hyfforddi arbenigol a oedd yn ofynol wrth sefydlu'r tim trothwy o'r newydd. Erbyn hyn mae'r gofyn hwnnw wedi lleihau yn sylweddol a staff yn ymgymryd a darpariaeth hyfforddiant cyffredinol i weithwyr proffesiynol. Ni fyddai effaith ar ddarparu gwasanaeth uniongyrchol i blant a theluoedd.	Ni ragwelir effaith cydraddoldeb	
1.36	Lleihad yng nghyllideb gefnogol yr Adran Plant a Theluoedd	£14,960	£0	Lleihad fyddai hwn yn y gyllideb offer ar gyfer y gwasanaeth fyddai yn cael dim effaith ar blant a theluoedd a lleihad hefyd yn yr opsiynau i fynychu cyrsiau hyfforddi proffesiynol allan o'r Sir sydd yn gostus o ran prynu a theithio.	Ni ragwelir effaith cydraddoldeb	
1.37	Dileu swydd Swyddog Cefnogol	£29,210	£0	Wrth i'r ddau gyn Brif Swyddog roddi'r gorau i'w gwaith ni fydd angen swyddog cefnogol. Mae'r cynllun yma eisoes wedi cael ei weithredu ac ni fydd effaith ar drigolion Gwynedd.	Ni ragwelir effaith cydraddoldeb	

Atodiad 3

Tud. 98

1.38	Dileu cyllideb gweithfeydd corfforaethol	£46,340	£0	Rhoddwyd y swm yma o'r neilltu i ariannu cynlluniau corfforaethol wrth ad-drefnu Uwch reolaeth ddiwethaf yn 2014. Yn yr hinsawdd bresennol gellir ei hepgor heb gael effaith ar bobl Gwynedd gan ystyried unrhyw angen i'r dyfodol o unrhyw danwariant neu fid unwaith ac am byth.	Ni ragwelir effaith cydraddoldeb	
1.39	Creu arbedion effeithlonrwydd o fewn y Gwasanaeth Crwner	£5,000	£0	Er bod y gwasanaeth yn un statudol ac nad oes gennym lawer o ddewis ynglŷn â faint yr ydym yn ei dalu (gan fod yn rhaid i ni ddigolledu'r crwner am ei gostau). Ystyrir fodd bynnag fod modd edrych am rywfaent o arbedion effeithlonrwydd a bydd adolygiad i adnabod posibiliadau heb effeithio ar bobl Gwynedd.	Ni ragwelir effaith cydraddoldeb	
1.40	Lleihau 2 ddiwrnod ar gefnogaeth weinyddol etholiadau a chyfreithiol (lleihad o 7% yn y gefnogaeth weinyddol)	£6,225	£6,225	Ystyrir y byddai modd lleihau'r gefnogaeth weinyddol heb gael llawer o effaith ar drigolion Gwynedd ond mae yna siawns fechan y gallasai effeithio ychydig ar rai elfennau o'r gwaith.	Ni ragwelir effaith cydraddoldeb	
1.41	Dileu'r holl gyllideb cefnogi adolygiadau Ffordd Gwynedd.	£56,030	£5,340	Tra bod modd gostwng y gyllideb heb ardrawiad sylweddol byddai'r cynllun yma efallai yn arafu adolygiadau oherwydd methiant i ddatrus y cymorth ariannol sydd ei angen. Byddai'n rhaid i adrannau gyfarch yr angen hynny eu hunain. Wedi dweud hynny nid yw hynny yn afresymol.	Ni ragwelir effaith cydraddoldeb	
1.42	Cyfyngu amser staff i fynd ar gyrsiau addysgiadol e.e. cyrsiau BTEC, HNC a gradd.	£9,000	£0	Mae'r Adran yn rhoi cyfleoedd i staff fynd ar hyfforddiant tra'n gweithio i'r Cyngor. Drwy cyfyngu'r amser yn ystod oriau gwaith byddai hyn yn golygu fod yna fwy o amser ar gael i ennill ffi drwy gynyddu oriau cynhyrchiol yr adran.	Ni ragwelir effaith cydraddoldeb	
1.43	Ail strwythuro rheolaeth yr Adran Ymgynghoriaeth	£11,500	£11,500	Mae newid yn ein patrwm gwaith yn golygu fod angen i uwch swyddogion yr adran ennill fwy o ffioedd sydd rŵan yn bosib drwy i YGC wneud mwy o waith tu hwnt i Wynedd e.e. i NMWTRA, Llywodraeth Cymru, y sector breifat a llywodraethau lleol eraill. Golyga hyn felly ofyn i Uwch Swyddogion yr Adran wneud mwy o waith cynhyrchu ffi yn hytrach na gwaith "rheolaethol".	Ni ragwelir effaith cydraddoldeb	

Atodiad 3

2.1	Lleihau'r adnodd o fewn y Gwasanaeth Cefn Gwlad	£5,000	£15,000	Mae yna adolygiad ('Ffordd Gwynedd') ar y gweill yn yr Uned yma. Rhagdybir ar sail ein gwybodaeth o beth sy'n digwydd ar hyn o bryd y bydd cyfleoedd yn codi i ryddhau arbedion drwy'r gwaith hwnnw ond os na fydd hynny yn dwyn ffrwyth mae modd lleihau'r gyllideb drwy leihau rhywfaint ar y gwaith a wneir.	Mae'n bosib y bydd mynediad at hawliau tramwy yn hyd yn oed mwy cyfyngedig i deuluoedd, pobl hŷn a phobl anabl pe na fyddai'r Uned yn gallu cwblhau ei raglen gwaith yn llawn.	www.gwynedd.llyw.cymru/Asesiad5
2.2	Gostyngiad yn y nifer o Gynghorwyr	£0	£100,000	Mae'r Comisiwn Ffiniau Llywodraeth leol eisoes wedi nodi eu bod am leihau nifer yr aelodau etholedig. Er na fydd yr arbediad ar gael tan ar ôl etholiad Mai 2022, dylid ei gymryd i ystyriaeth rŵan er mwyn osgoi toriadau diangen i wasanaethau.	Ni ragwelir effaith cydraddoldeb	
2.3	Addasu trefn gwirio DBS	£0	£50,000	Mae adolygiad yn cael ei gynnal ar hyn o bryd yng nghyswllt polisi presennol y Cyngor i ail-wirio cofnod troseddol pob swyddog sy'n cyflawni gwaith ple mae angen gwiriad DBS. Mae pob gwiriad yn costio £44 sy'n golygu bod y Cyngor yn talu'r ffi yma ar ddechrau cyflogaeth swyddog perthnasol ac yna pob 3 blynedd wedi hynny. Mae'n ofyn cyfreithiol i gynnal gwiriad DBS ar bob swyddog a gyflogir o'r newydd yn y meysydd perthnasol ond dewis y Cyngor yw'r ffaith ein bod yn bresennol yn ail-wirio cofnod pob 3 blynedd (er bod cefnogaeth i hynny gan sefydliadau megis yr Arolygaeth Gofal a.y.b.). Byddai peidio cynnal ail-wiriad pob 3 blynedd yn gwireddu arbediad blynyddol o £50,000 i'r Cyngor ac mae adolygiad yn cael ei gynnal er mwyn ystyried sut y byddai modd gwneud hyn heb beryglu diogelwch plant ac oedolion bregus h.y. prin iawn yw derbyn unrhyw ddadleniad o gofnod troseddol ar ôl cynnal ail-wiriad sy'n tynnu sylw at drosedd ymysg gweithlu'r Cyngor, a phan fo trosedd wedi'i chyflawni, byddai hynny yn hysbys i'r cyflogwr cyn cynnal yr ail-wiriad. Mae opsiynau eraill fyddai'n gwireddu arbediad	Ni ragwelir effaith cydraddoldeb	

				llai yn rhan o'r ystyriaeth hefyd ond mae angen gwaith pellach ar y posibiladau hynny cyn eu cyflwyno.		
2.4	Dileu 1 swydd o'r Gwasanaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu	£0	£26,000	Mae'r Gwasanaeth hwn yn darparu cefnogaeth i'r holl waith a wneir ym meysydd ymgysylltu, gwefan y Cyngor, swyddfa'r wasg, cyfathrebu mewnol, cyfathrebu hefo cynghorwyr a chyfathrebu mewn argyfwng. Byddai lleihad o 1 swydd yn golygu ein bod yn rhagweld y byddai modd parhau i ddarparu gwasanaeth lle byddai ei angen yn ôl blaenoriaethau corfforaethol.	Ni ragwelir effaith cydraddoldeb	
2.5	Ail-strwythuro'r gefnogaeth ar gyfer Craffu	£25,000	£0	Mae angen sicrhau strwythur sydd hefo'r capasiti i gefnogi gofynion cynyddol trefniadau craffu'r Cyngor. Mae dwy swydd wedi dod yn wag o fewn y Gwasanaeth Democraataidd ac edrychir i ail-gyfeirio adnodd ariannol i bwrpas cefnogi craffu wrth wireddu arbediad ariannol ar yr un pryd. Gellir gwneud hyn yn wyneb adolygiad o drefniadau gwaith sy'n cael ei gynnal o fewn y Gwasanaeth Democratiaeth yn bresennol h.y. dyma sy'n caniatáu'r arbediad a'r gallu i ail-gyfeirio adnodd.	Ni ragwelir effaith cydraddoldeb	
2.6	Lleihau Staffio Gwasanaeth Trethi a Budd-daliadau o 4%	£40,440	£0	Mae'r swydd a hanner yma eisoes yn wag o fewn yr uned ac mae ein perfformiad presennol yn adlewyrchu hynny. Byddai peidio â'u llenwi'n barhaol yn golygu y dylem fedru cynnal y perfformiad presennol ond fe fydd yna lai o allu i ddygymod gyda sefyllfaoedd anarferol yn y dyfodol. Tra na ddylid gweld effaith ar drigolion ar adegau o bwysau arferol, bydd effaith o oedi cyn ymateb ar gyfnodau mwy prysur, neu mewn cyfnod o newid trefniadau.	Mae pobl anabl a phobl o leiafrif ethnig yn fwy tebygol fod yn anactif yn economaidd ac felly yn fwy tebygol of dderbyn budd-daliadau. Yn y mwyafrif o achosion, caiff Budd-dal Tai a Gostyngiad Treth Cyngor eu talu i unigolion sydd ag anabledd tymor hir yn syth heb wneud cais i'r Cyngor, gan eu bod yn derbyn budd-daliadau a weinyddir gan y DWP hefyd. Felly mae llai o debygolrwydd y byddai oedi mewn delio gyda'u ceisiadau i'w cymharu ag eraill.	www.gwynedd.llyw.cymru/Asesiad6

Atodiad 3

Tud. 101

2.7	Trefn slipiau electronig cyflog i bawb	£3,750	£11,250	Byddai atal slipiau cyflog papur yn llwyr yn amhoblogaidd ymysg nifer o staff sydd ar hyn o bryd yn ei dderbyn ar bapur. Mae yna berygl y gallai gynyddu'r nifer ymholiadau. Fodd bynnag, ni fyddai'n cael effaith ar y cyhoedd.	Ni ragwelir effaith cydraddoldeb	
2.8	Arbedion dros ben o ail-strwythuro diweddar i'r Gwasanaeth Llyfrgell	£15,000	£0	Dros y 4 blynedd diwethaf mae'r Gwasanaeth Llyfrgelloedd wedi cyflwyno cyfres o newidiadau i'w model darparu ac wedi cyflawni arbedion i'r Cyngor yn eu sgil. Mae £15k o arbedion wedi cael eu cynhyrchu uwchlaw y targed a osodwyd i'r gwasanaeth gan y Cyngor ac yn ystod 2018/19 mae'r gyllideb yma yn cael ei defnyddio i helpu gwreiddio'r gwasanaeth newydd.	Ni ragwelir effaith cydraddoldeb	
2.9	Cydweithio â'r trydydd sector i sicrhau darparwr newydd i gymryd drosodd y ddarpariaeth gofal dydd yng Nghriccieth a Blaenau Ffestiniog	£25,000	£75,000	<p>Mae yna ddwy ganolfan dydd sef Encil Y Coed, Criccieth (18 yn mynychu ar hyn o bryd gyda'r ganolfan yn agored 3 diwrnod yr wythnos) a Blaenau Ffestiniog (15 yn mynychu ar hyn o bryd gan agor 4 diwrnod yr wythnos) lle mae gan gyrrff fel Age Cymru bresenoldeb yn ardaloedd eisoes. Mae datblygiadau Hafod Y Gest a Chanolfan Goffa Ffestiniog yn gyfleon i gydweithio.</p> <p>Er y bydd parhad gwasanaeth i'r unigolion gall newid darparwr fod yn fater sensitif i fynychwyr a'u teuluoedd. Mae nifer o fynychwyr y ddwy ganolfan eisoes wedi mynd trwy newidiadau rhai blynyddoedd yn ôl wrth gau canolfan dydd Noddfa Madog ym Mhorthmadog lle bu i nifer fawr o fynychwyr y ganolfan symud i Encil y Coed a Blaenau Ffestiniog.</p> <p>Mae risg hefyd i unigolion ddewis peidio mynychu'r ddarpariaeth newydd yn yr ardal fyddai yn golygu cynnydd yn y galw am ofal cartref mewn ardaloedd lle mae'n sialens cael gofalwyr i gyflawni pecynnau gofal.</p>	Mae'r cynllun hwn yn ymwneud â newid y ddarpariaeth trwy weithio mewn partneriaeth. Bydd anghenion pob unigolyn yn parhau i gael ei asesu ar wahân. Nid yw yn gynllun sydd yn dileu gwasanaeth. Bydd yn cael ei ddarparu mewn modd amgen mwy effeithlon.	<p>www.gwynedd.llyw.cymru/Asesiad7</p>

				Mae arbedion i'w cael drwy ystyried cynnal y ganolfan mewn lleoliad arall yn yr ardal. Mae canolfan ddydd Blaenau Ffestiniog yn cael ei chynnal yn y ganolfan gymunedol. Rydym yn talu rhent blynyddol i'r ganolfan ac maent wedi nod pryder na fydd yn gallu cynnal ei hun heb y rhent.		
2.10	Gwell cydgordio gwasanaeth gyda'r Adran Plant a theuluoedd ar adeg oed trosglwyddo	£0	£60,000	Ar hyn o bryd mae'r gwasanaeth Plant a Theuluoedd yn darparu gwasanaeth i blant sydd ag anableddau dysgu hyd y maent yn cyrraedd 18 oed ac yna mae'r gwasanaeth oedolion yn comisiynu gwasanaeth iddynt o hynny ymlaen. Mae cyfle i wella cydweithio a manteisio ar yr effeithlonrwydd allasai godi o fod yn cyd-gynllunio'n well. Bydd angen newid diwylliant i ddatblygu gwasanaethau ar sail egwyddorion cyd-weithio gydol oes a bydd angen datblygu trefn cyd-weithio newydd gydag lechyd ar draws y ddau wasanaeth. Yn gychwynnol, bydd modd i ni graffu'r ffordd orau o gyd-weithio wrth adolygu achosion CHC oed trosglwyddo yn gynt, gan gydweithio gyda'r Adran Plant a Theuluoedd i gynllunio'r gefnogaeth.	Dylai'r cynllun hwyluso a gwella'r gefnogaeth y mae unigolion a'u teuluoedd yn ei gael yn ystod y cyfnod y mae darpariaeth y gwasanaeth yn trosglwyddo rhwng adrannau y Cyngor.	www.gwynedd.llyw.cymru/Asesiad8
2.11	Adolygu pecynnau gofal anableddau dysgu all-sirol er mwyn adnabod lleoliadau mwy lleol i unigolion	£50,000	£50,000	Mae angen parhau gyda'r gwaith pwysig yma o adolygu pecynnau all sirol er mwyn cyd fynd gyda'r strategaeth o ddarparu cefnogaeth ar sail egwyddorion cefnogaeth actif yn y maes anableddau dysgu a'r model adfer (recovery mode) yn y maes iechyd meddwl a rhoi'r cyfle (pan yn addas) i'r sawl sydd eisiau ac angen derbyn cefnogaeth yn lleol. Fel y byddwn yn mynd trwy'r achosion ac yn edrych am ddatblygu cyfleoedd lleol i unigolion rydym yn hyderus o fedru darganfod rhai arbedion ond fe allasai cyrraedd lefel £100k fod yn her, yn enwedig wrth gyrraedd yr achosion hefo anghenion dwys a rheoli ymddygiad dwys.	Mae'r cynllun yn ymwneud â lleihau y ddibyniaeth ar leoliadau all-sirol drud a chryfhau y ddarpariaeth ar lefel lleol. Bydd pob lleoliad neu wasanaeth i gefnogi unigolion yn parhau i gael ei seilio ar asesiad unigol. Ni fydd y gwasanaeth yn newid os na ellir tystiolaethu bod y gwasanaeth sydd ei angen ar gael yn lleol. Dylai lleihau y defnydd o wasanaethau all-sirol hybu datblygiad gwasanaethau lleol a hwyluso cyswllt unigolion gyda'u teuluoedd.	www.gwynedd.llyw.cymru/Asesiad9

Atodiad 3

Tud. 103

2.12	Hurio Cerbydau Codi yn y Canolfannau Ailgylchu yn hytrach na' prynu	£15,000	£5,000	Ar hyn o bryd rydym yn prynu cerbydau codi yn y canolfannau ailgylchu ond dengys adolygiad y byddai modd arbed drwy eu hurio. Ni fyddai unrhyw effaith ar drigolion Gwynedd.	Ni ragwelir effaith cydraddoldeb	
2.13	Rhesymoli Trefn ar ddyletswydd/ Ar alwad Priffyrdd	£7,500	£7,500	Ar hyn o bryd mae gennym drefniadau ar alwad yn y gwasanaeth Priffyrdd sydd yn derbyn a gweithredu ar alwadau gan y cyhoedd; yr heddlu ac asiantaethau eraill am faterion yn ymwneud a chynnal priffyrdd. Ar hyn o bryd trefnir y gwasanaeth ar sail ardaloedd / rhaniad uned gwaith / comisiynu. Byddai modd symud i sefyllfa o gyfuno rhai agweddau o'r drefn neu weithredu ar sail dwy ardal.	Ni ragwelir effaith cydraddoldeb	
2.14	Defnyddio deunydd rhatach ar gyfer cynnal ffyrdd	£45,000	£0	O fod yn defnyddio 'non premium binder' wrth gynnal ffyrdd ystyrir y gellir arbed arian. Ni chredir y byddai trigolion Gwynedd yn sylwi ar y gwahaniaeth. Yn wir rydym yn ei ddefnyddio yn barod mewn rhai lleoedd.	Ni ragwelir effaith cydraddoldeb	
2.15	Newid Teledu Cylch Cyfyng sydd gyda gofalwyr yn monitro i gyfundrefn 'heb ofalwyr'.	£0	£210,000	Gyda chytundeb y Cabinet, mae'r gwaith yma eisoes ar waith gan fod ein offer wedi cyrraedd diwedd ei oes. Mae yna bosibilrwydd wrth gwrs y bydd trigolion perthnasol yn dod i ganfyddiad nad yw'r gwasanaeth cystal â'r presennol heb oruchwyliaeth ond o ddefnyddio offer modern mae modd chwyddo lluniau camera sy'n edrych dros ardal ehangach a chael yn agos at yr un effaith.	Gan y bydd y system a ddefnyddir yn well bydd effaith positif ond ar y llaw arall ni fydd yn cael ei wyllo drwy'r amser. Felly bydd effaith bositif a negyddol ar bob nodwedd cydraddoldeb.	www.gwynedd.llyw.cymru/Asesiad10
2.16	Newid trefniadau gwaith casglu gwastraff i shifftiau a chylchdeithiau llai (sydd o bosib yn golygu newid i ddiwrnod casglu i drigolion)	£0	£150,000	Mae ein profiad yn amlgu fod yna ddatl dros newid ein trefn shifftiau o ran casglu gwastraff. Tra na fyddai hyn yn golygu newid i amllder ein casgliadau, byddai'n golygu newid diwrnodau casglu i rai. Fe allasai helpu fodd bynnag gyda'r gwyn ein bod yn methu rhai casgliadau oherwydd bod rhai ar y lori yn anghyfarwydd a'r rownd gan mai'r un rhai fyddai wedyn ar y rownd yn barhaus. Fe allasai hyn helpu hefyd i greu "perchnogaeth" o'r rownd ymysg y gweithlu.	Positif - Hyrwyddo cyfleoedd cyfartal. Effaith debygol wrth weld llai o ruthro i gyflawni gwaith. Perchnogaeth criw i'r un gylchdaith yn golygu y byddent yn gallu adnabod pobl sy'n derbyn cymorth ychwanegol.	www.gwynedd.llyw.cymru/Asesiad11

Atodiad 3

Tud. 104

				Bydd newid diwrnod casglu i nifer o drigolion yn achosi peth dryswch ar y cychwyn. Angen trefn amgen i sicrhau cwblhau'r dasg (cylchdaith) i roddi sicrwydd i'r trigolion bod y casglu yn cael ei wneud ar y diwrnod.		
2.17	Cefnogi a hyfforddi gwarchodwyr plant a meithrinfeydd ein hunain	£24,980	£0	Lleihad yn y gallu i ddarparu pecynnau hyfforddi a grantiau 'set up' i warchodwyr plant ac i feithrinfeydd. Ni fyddai effaith sylweddol ar blant a theuluoedd gan y byddai modd i'r gwasanaeth ddarparu'r hyfforddiant yn fewnol heb yr angen i gomisiynu yn allanol.	Bydd unrhyw effaith ar blant yn gyfyngedig	www.gwynedd.llyw.cymru/Asesiad12
2.18	Lleihau'r gyllideb Lwfans Cynllun Cynnal	£0	£30,900	Mae hon yn gyllideb fydd yn lleihau mewn gwariant dros y blynyddoedd nesaf gan ei bod yn gwireddu pecynnau cefnogi teuluoedd o dan gynllun hanesyddol. Nid oes unrhyw wariant yn cael ei gymeradwyo o'r newydd o'r gyllideb hon ers nifer o flynyddoedd ac fe fydd yn dod i ben pan mae'r bobl ifanc sydd yn parhau i dderbyn y lwfans yn troi yn 18oed. Ni fydd defnydd pellach ohoni ar ôl y 3 mlynedd nesaf ac felly ni fydd effaith ar blant a theuluoedd. Nid oes modd bellach i gymeradwyo cynlluniau o dan y trefniant yma oherwydd newid deddfwriaethol.	Ni ragwelir effaith cydraddoldeb	
2.19	Gwireddu mwy o arbedion effeithlonrwydd o fewn y Gwasanaeth Cynllunio Argyfwng	£12,700	£0	Darperir y gwasanaeth yma gan Uned ar y cyd ar gyfer Gogledd Cymru. Dengys sgwrs gyda rheolwr yr uned y dylem fedru weld arbediad effeithlonrwydd pellach o'r maint yma dros y 3 blynedd nesaf. Mae £10,000 o hwn eisoes wedi ei gyflawni ac ni ddylai gael effaith o unrhyw sylwedd ar drigolion Gwynedd.	Ni ragwelir effaith cydraddoldeb	

Atodiad 3

3.1	Darparu pwyntiau gwefru ceir trydan mewn meysydd parcio	£0	£50,000	<p>Mae defnydd ceir trydan yn cynyddu'n yn sydyn a galw cynyddol am bwyntiau gwefru mewn meysydd parcio. Mae manylion y grantiau sydd ar gael ar gyfer ariannu'r offer wrthi'n cael eu cyhoeddi. O'i wireddu byddai yna effaith bositif ar drigolion Gwynedd gan fod diffyg pwyntiau gwefru yn broblem i unrhyw un sy'n ystyried prynu car trydan yng Ngwynedd ar hyn o bryd. Mae angen gwaith manwl ar y cynllun hwn cyn gallu datgan sicrwydd o allu ei wireddu, a phwysleisiwn mai amcan yn unig ydi'r ffigwr cychwynnol yma.</p>	Ni ragwelir effaith cydraddoldeb	
3.2	Buddsoddi mewn gwelliannau byddai yn gwneud y Neuadd Dwyfor yn fwy effeithlon gan baratoi i edrych am fodel amgen i'r dyfodol	£0	£100,000	<p>Mae'r Adran wedi derbyn adolygiad busnes o'r Neuadd sy'n amlygu o wneud newidiadau a chyda buddsoddiad cyfalaf modest, y gallai arwain at wneud y neuadd £100,000 yn rhatach i'w redeg ymhen 3 blynedd o wireddu'r cynllun. Pan drafodwyd sefyllfa Neuadd Dwyfor yn ystod ymarferiad Her Gwynedd fe benderfynodd y Cyngor na ddylid torri'r gyllideb yma bryd hynny , ond fod hynny yn amodol ar drafod opsiynau gydag unrhyw fudiad lleol gyda golwg ar iddynt gymryd cyfrifoldeb amdano gyda'r nod o leihau'r costau sy'n syrthio ar drethdalwyr Gwynedd, ac y dylid cynnwys unrhyw arbedion yn yr arbedion effeithlonrwydd.</p> <p>Nid oes diddordeb lleol wedi bod mewn rhedeg y Neuadd ond o wireddu'r cynllun yma byddai cost yr adnodd yn syrthio i £48,000 y flwyddyn. Wedi dweud hynny nid ydym yn rhedeg y fath gyfleuster mewn unrhyw leoliad arall.</p>	Bydd peidio â buddsoddi yn arwain yn y pen draw at orfod cau a pheidio darparu gwasanaethau celfyddydol o'r Neuadd. Byddai hyn yn effeithio'n uniongyrchol ar fwrlwm a gweithgareddau yn y Gymraeg. Mae nifer o weithgareddau celfyddydol yn targedu oedrannau penodol e.e. plant a phobl ifanc, pobl hŷn, bobl anabl a byddai cau neu gael prisiau rhy uchel yn effeithio'n uniongyrchol arnynt.	<p>www.gwynedd.llyw.cymru/Asesiad13</p>

3.3	Creu Uned Gofal Ysbaid newydd yn Tan Y Marian a fydd yn lleihau costau talu am leoliadau allanol	£21,500	£21,500	<p>Mae angen creu Uned Gofal Ysbaid 'bespoke' newydd yn Tan Y Marian i ganolbwyntio ar anghenion dwys a chymhleth. Mae'r angen yma wedi amlygu ei hun am sawl rheswm:-</p> <ol style="list-style-type: none"> 1. Newid mewn anghenion dwys a chymhleth yr oedolion rydym yn gefnogi 2. Newid yn anghenion oed trosiannol (ifanc, canol oed, oedolion hyn) 3. Llai o achosion yn all-sirol a fwy o oedolion yn derbyn cefnogaeth ddwys yn lleol 4. Mwy o oedolion gydag anghenion dwys a chymhleth yn byw gartref 5. Angen ail edrych ar y 'block booking' o wythnosau ofal ysbaid mewn dau leoliad yng Ngwynedd. Y gwasanaethau yma bellach yn methu cyfarch anghenion yr oedolion gydag anghenion corfforol ac ymddygiad mwy dwys. <p>Hefyd, rydym angen gosod fframwaith sirol gofal ysbaid gyda 'menu' o ddewis ar sail galw, anghenion a lleoliad er mwyn darparu dewis ac ystod eang o wasanaethau ar draws y sir. Hynny ar sail y rhesymau uchod a hefyd er mwyn gosod trefn ar gyfer y ffordd rydym yn comisiynu gofal ysbaid. Bydd hynny yn fwy cost effeithiol yn hytrach na dilyn trefn 'spot purchase' o gyfleoedd ofal ysbaid ychwanegol. O wneud hyn oll rhagwelir y byddwn yn creu arbedion drwy leihau'r contract 'block booking, lleihau defnydd o'r drefn 'spot purchase' a chau y cyfleon 'block booking' sydd yn bodoli ar hyn o bryd.</p>	<p>Mae'r gwasanaethau a gynigir yn y safle yma yn benodol ar gyfer unigolion anableded a'u teuluoedd/gofalwyr. Bydd anghenion pob achos yn cael ei asesu yn unigol a darpariaeth addas a phriodol yn cael ei gynnig. Hyderir y bydd y cynllun hwn yn cryfhau y ddarpariaeth gwasanaeth gofal ysbaid yn y Sir.</p>	<p>www.gwynedd.llyw.cymru/Asesiad14</p>
-----	--	---------	---------	--	---	---

Atodiad 3

3.4	Datblygu 3 prosiect Tai Gofal Ychwanegol arall yng Ngwynedd (Ardal Pwllheli, Ffestiniog, De Meirionnydd).	£0	£300,000	<p>Mae'r Cyngor wedi datblygu dau gynllun Tai Gofal Ychwanegol eisoes yng Ngwynedd - Bala (Awel y Coleg) a Bangor (Cae Garnedd) a'r 3ydd yn y broses o gael ei gwblhau ym Mhorthmadog (Hafod y Gest) gyda tharged arbedion ynghlwm. Yn seiliedig ar ein profiadau hyd yma, amcangyfrif y gellir gwneud arbediad o £200,000 gyda phob datblygiad newydd o gael y rhaniad a'r cydbwysedd cywir anghenion gofal ymhob datblygiad. Byddai angen buddsoddiad ariannol sylweddol i adeiladu 3 safle tai gofal ychwanegol arall yng Ngwynedd, ond yn ogystal â chreu arbedion byddai'n cwrdd â gwir anghenion bobl hyn yn well.</p> <p>Yn naturiol, byddai'n gynllun hir dymor. Byddai asiantaeth dai yn gyfrifol am adeilad. Y costau gofal fyddai'n gyfrifoldeb ar yr adran. Mae yna bosibilrwydd o ehangu'r ddarpariaeth i unigolion ac anabledau dysgu, anabledau corff a chyflyrau iechyd meddwl yn ogystal â darpariaeth i bobl hyn yn unig. Y ddarpariaeth yn golygu fod unigolion yn cael eu tenantiaeth eu hunain ac yn gallu derbyn cefnogaeth amserol petai angen i'w galluogi i barhau yn annibynnol am gyhyd ac sy'n bosib yn eu cymunedau lleol. Tystiolaeth fod yn bosib darparu gofal i unigolion ac anghenion gofal dwys iawn o fewn y cynlluniau. Y cynlluniau yn galluogi i gyplau allu aros gyda'i gilydd a derbyn cefnogaeth ac yn galluogi teuluoedd i barhau i ddarparu elfennau o gefnogaeth petaent yn dymuno.</p>	<p>Dylai y buddsoddiad a'r newid yn y ffordd bydd gwasanaethau gofal yn cael eu darparu gael effaith cadarnhaol i bawb sydd yn derbyn gwasanaeth.</p>	<p>www.gwynedd.llyw.cymru/Asesiad15</p>
-----	---	----	----------	--	---	---

Atodiad 3

Tud. 108

3.5	Lleihau dibyniaeth ar lety dros-dro trwy fuddsoddi mewn llety pwrpasol	£0	£100,000	Mae cyfrifoldeb ar yr Adran i ddarparu llety dros dro i unigolion sy'n ddigartref. Mae'r Adran yn sicrhau llety mewn gwahanol ffyrdd ond yn cael anhawster adnabod llety addas ar gyfer rhai unigolion gan fod prinder darpariaeth ar gael ac yn gorfod cyfrannu at gost y ddarpariaeth. Byddai cyflenwad o eiddo ychwanegol pwrpasol o gymorth i leihau dibyniaeth ar ffurfiau mwy costus. Pe gellid sicrhau buddsoddiad cyfalaf gan y Cyngor i sicrhau bod unedau llai a llety amgen ar gael gellid lleihau dibyniaeth ar lety dros dro. Rhaid sicrhau rheolaeth o'r unedau a bod gennym fynediad uniongyrchol iddynt a chyllid cynnal i osgoi heriau rheolaethol.	Mae'r cynllun wedi ei seilio ar gyfarch anghenion unigolion. Bydd hynny wedi ei seilio ar asesiad penodol o'u hamgylchiadau. Gan fod y cynllun yn ymwneud â gwella adroddiadau a chyfleusterau, dylai arwain at ddim newid neu newid cadarnhaol i'r rhai sydd yn cael eu cefnogi.	www.gwynedd.llyw.cymru/Asesiad16
3.6	Gosod lampau LED i weddill goleuadau stryd y Sir	£0	£45,900	Rydym eisoes wedi newid 10,264 o unedau goleuo stryd i LED. Rydym wedi derbyn cymeradwyaeth am £1.389m trwy gynllun benthyciadau'r Llywodraeth er mwyn cyflawni gwaith fyddai'n cychwyn yn Ebrill 2019 a chwblhau ym Mawrth 2022 i newid 7000 o lampau ffyrdd 'mwyaf' i rai mwy effeithiol. £184,000 fydd y swm ar gael ar ddiwedd y cyfnod y byddwn wedi ad-dalu'r benthyciad yn ôl ond dim ond 45,900 yn y blynyddoedd cychwynnol. Bydd trigolion yn sylwi ar y cychwyn cyn dod i arfer gyda'r goleuadau newydd.	Ni ragwelir effaith cydraddoldeb	
4.1	Cynyddu'r ffi am y clwb gofal cyn ysgol o £0.80 i £1	£43,000	£0	Ar hyn o bryd rydym yn codi 80c am yr elfen gwarchod cyn ysgol yn ein hysgolion ac mae oddeutu 2000 o blant yn manteisio ar y gwasanaeth. O gynyddu'r ffi i £1 byddai'n rhaid i deuluoedd dalu mwy am y gwasanaeth gyda'r perygl y byddai rhai yn dewis peidio parhau a gorfod newid eu patrymau gwaith er mwyn dygymod. Gallai hefyd olygu llai o blant yn dod i gael brecwast am ddim.	Ni ragwelir y bydd yn cael effaith sylweddol negatif ar unrhyw un o'r nodweddion cydraddoldeb gan fod y codiad yn y ffi yn gymharol fychan er fod effaith ar blant tlotach wedi ei adnabod (e.e. rhai sy'n dod o deuluoedd hefo aelod anabl neu o leiafrif ethnig)	www.gwynedd.llyw.cymru/Asesiad17

Atodiad 3

Tud. 109

4.2	Cynyddu'r ffi ar gyfer asesu ansawdd dwr er mwyn adlewyrchu'r gost o ddarparu'r gwasanaeth.	£12,500	£12,500	Mae'n ofynnol i'r Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd archwilio a samplo dyfroedd dwr yfed preifat er mwyn sicrhau eu bod yn ddiogel. Mae'r ystod gwaith sydd ei angen i wneud hynny wedi newid dros y blynnyddoedd ac fe ddylai'r ffi a godir adlewyrchu hynny. Yn naturiol o'i godi bydd yn rhaid i ddefnyddwyr ffynonellau dwr preifat dalu mwy am y gwasanaeth ond dim ond i'r graddau y mae'n cwrdd â'r gwir gostau o wneud y gwaith.	Ni ragwelir effaith cydraddoldeb	
4.3	Cynyddu incwm drwy wella'r drefn o godi cosb ar ymgymeryddwr lle nad ydynt yn cydymffurfio gyda deddfwriaeth wrth weithio ar ein lonydd.	£15,000	£0	Mae modd defnyddio system dechnoleg yn fwy effeithiol i gael gwell rheolaeth ar weithiau ymgymeryddwr statudol . Mae trefniant cosb ariannol mewn lle ar gyfer peidio â chydymffurfio a'r deddfwriaeth. Byddai cael gwell rheolaeth ar y gweithiau yn arwain at adnabod unrhyw anghysondebau gan ddenu hysbysiadau cosb. Effaith niwtral ar drigolion Gwynedd.	Ni ragwelir effaith cydraddoldeb	
4.4	Cynyddu incwm drwy ddileu parcio am ddim o Nadolig 2019 ymlaen; cynyddu'r nifer meysydd parcio sy'n rai talu ac arddangos a chynyddu ffioedd parcio gan ystyried sut y gellir yr un pryd a oes modd cadw cost parcio i drigolion yr un fath neu ei leihau hyd yn oed.	£82,500	£97,500	Mae Parcio am ddim dros gyfnod Nadolig yn gollod incwm o oddeutu £45,000. Byddai newid criteria ar gyfer meysydd parcio talu ac arddangos yn golygu y byddwn yn codi mewn mannau sy'n ddi-dâl ar hyn o bryd, yn ogystal â chynyddu ffioedd mewn rhai lleoliadau. Byddai codi ffioedd parcio oddeutu 10% yn amlwg yn cynhyrchu fwy o incwm ond yn taro ymwelwyr a thrigolion Gwynedd yr un fath . Yn y rhan fwyaf o feysydd parcio tymor byr byddai cost parcio am awr yn cynyddu wedyn o £1 i £1.10. Yn y rhan fwyaf o feysydd parcio tymor hir byddai cost parcio am 4 awr yn cynyddu o £2 i £2.20. Yr hyn y byddai'r Cyngor yn dymuno ei wneud yw ystyried a ellid osgoi'r cynnydd yma ar gyfer trigolion Gwynedd neu hyd yn oed ei leihau drwy	Mae'r polisi'n debygol o gael effaith ar bobl sy'n fwy tlawd e.e. teuluoedd hefo pobl anabl, pobl o leiafrif ethnig neu deulu hefo aelod anabl. Mae maint yr effaith yn ddibynnol ar faint y ffi.	www.gwynedd.llyw.cymru/Asesiad18

				leihau pris tocyn tymor i drigolion dyweder. Byddai angen cryn dipyn o waith i sefydlu'r cynllun terfynol yn amlwg.		
4.5	Codi ffioedd difa pla er mwyn dod yn agosach at brisiau'r farchnad	£5,000	£5,000	Mae gwaith diweddar i gynyddu incwm drwy godi ffioedd a denu cwsmeriaid newydd wedi bod yn llwyddiannus. Rydym yn parhau i fod yn rhatach na chwmnïau eraill ac ymddengys felly fod yna gyfle i godi ffioedd. Byddai yna effaith fechan ar drigolion Gwynedd yn sgil cynnydd bychan mewn ffioedd e.e. triniaeth llygod mawr mewn tŷ yn codi o £40 i £45 sydd yn parhau yn gystadleuol wrth gymharu gydag oddeutu £60 gan gwmnïau preifat. Yn naturiol fe fydd angen monitro'r sefyllfa yn ofalus i sicrhau ein bod yn parhau i gynnig pris cystadleuol o gymharu ag eraill.	Asesiad cryno wedi ei wneud i weld os oedd effaith. Dim effaith sylweddol wedi ei adnabod oherwydd nad yw'r gwasanaeth sy'n cael ei ddefnyddio'n rheolaidd.	www.gwynedd.llyw.cymru/Asesiad19
4.6	Cynyddu'r ffioedd a godir ar Ymgymerywyr Statudol ayb am gau ffyrdd / gorchmynion traffig yn sylweddol uwch.	£12,500	£17,500	Mae'r cynllun yma yn golygu cynyddu ffioedd a godir ar ymgymerywyr statudol ac eraill am gau ffyrdd neu i baratoi gorchmynion traffig yn sylweddol uwch. Byddai'r effaith ar ein trigolion yn gallu cynyddu, h.y. drwy i gostau cynnal digwyddiadau gynyddu gan effeithio budd i gymunedau (rhai sydd ddim yn fasnachol eu natur). Fe allasai hyn wrth gwrs arwain ar ddigwyddiadau un ai yn cael eu cynnal heb adael i ni wybod, allasai gynyddu risg i'r cyhoedd, neu fod digwyddiadau ddim yn cael eu cynnal a lleihau'r budd cymunedol.	Mae'r Uned yn aml yn ymgymryd â chamau yn benodol mewn ymateb i geisiadau gan bobl anabl a theuluoedd er mwyn ymdrin â sefyllfaoedd sy'n peri risg iddynt. Pe bai'r gyllideb yn cael ei leihau, mae'n bosib na all yr Uned ymgymryd â'i holl gynlluniau diogelwch gan gynyddu'r perygl i bobl anabl a theuluoedd.	www.gwynedd.llyw.cymru/Asesiad20
4.7	Cynyddu incwm yr Uned Iechyd Galwedigaethol drwy werthu mwy o wasanaeth	£20,000	£0	Mae'r Uned yn cynhyrchu incwm drwy werthu gwasanaeth iechyd galwedigaethol i sefydliadau cyhoeddus eraill. Mae'r cynnydd yn y targed incwm yn seiliedig ar berfformiad y Gwasanaeth dros y tair blynedd diwethaf.	Ni ragwelir effaith cydraddoldeb	

Atodiad 3

Tud. 111

4.8	Denu incwm ychwanegol drwy wneud gwaith i gyrff cyhoeddus eraill	£46,340	£10,000	Rydym wedi bod yn trafod yr hyn a ddarperir i gyrff allanol i adlewyrchu'n well y ddarpariaeth a roddir iddynt.	Ni ragwelir effaith cydraddoldeb	
4.9	Creu incwm drwy werthu system tracio fflyd	£0	£20,000	Mae system tracio fflyd fewnol wedi'i ddatblygu yma yng Ngwynedd, sy'n dod ag arbedion o tua £100,000 i'r Adran Priffyrdd. Mae cryn ddiddordeb gan awdurdodau eraill, wedi ymdrech i werthu'r system iddynt. Bydd ein gallu i gynhaeafu'r arbediad yn dibynnu ar y partïon eraill yn cytundebu, ond gwelir cyfle i godi incwm ychwanegol.	Ni ragwelir effaith cydraddoldeb	
4.10	Cynhyrchu incwm drwy atal twyll	£0	£40,000	Byddem yn sefydlu'r gwasanaeth er mwyn ceisio adnabod mwy o achosion twyll na'r hyn a wneir eisoes. Yn amlwg, mae'r swm a nodir yn warged sydd angen i'r gwasanaeth ei gynhyrchu ar ôl ystyried costau ei sefydlu a'i redeg. Mae yna risg na fyddai'r swm yn gwireddu ei hun, ond ni fyddwn yn gwybod heb ymgeisio. Yn sgil Deddf Diwygio Lles 2012, sefydlwyd gwasanaeth atal twyll 'SFIS' gan y DWP, yn cynnwys trosglwyddo cyn staff atal twyll y Cyngor i'r DWP yn 2015/16, cyn gweld canlyniad gweithrediad SFIS, nid oedd modd amcangyfrif maint y twyll gweddilliol tebygol. Wrth gwrs, mae'n anochel bydd elfen o dwyll sydd heb ei adnabod, a bron yn amhosib amcangyfrif faint. Mae yna risg go iawn o ddibynnu ar y swm yma felly.	Ni ragwelir effaith cydraddoldeb	
4.11	Denu incwm ychwanegol drwy Asiantaeth Casglu Fewnol	£0	£100,000	Yn hytrach na dibynnu ar asiantaethau allanol i fynd ar ôl dyledion, byddai modd sefydlu uned ein hunain. Byddai'r symiau y byddai'n rhaid i ddyledwyr eu talu (ar ben y ddyled) yn parhau i fod yr un fath ond byddai elw sy'n cael ei wneud gan asiantaethau masnachol yn dod i'r Cyngor yn hytrach nag i gwmni preifat. Mae llwyddiant mentrau o'r fath ar draws gogledd Cymru wedi bod yn amrywiol. Byddai yna gostau ynghlwm â	Ni ragwelir effaith cydraddoldeb	

Atodiad 3

Tud. 112

				chyflwyno'r gwasanaeth. Hefyd, mae risg arwyddocaol o fethu denu'r incwm ychwanegol, a phosibilrwydd o ddirywiad yn y cyfraddau casglu trethi.		
4.12	Cysoni trefniadau parcio drwy gyflwyno ffioedd parcio i safleoedd (e.e. ardal Y Glyn)	£20,000	£20,000	Mae ffioedd parcio eisoes yn daladwy mewn rhai meysydd parcio ym Mharc Padarn. Bwriedir cyflwyno ffioedd parcio cyffelyb mewn mannau ychwanegol (e.e. ardal Y Glyn) a fyddai yn cysoni'r trefniadau. Mae'n bwysig nodi mai trigolion Gwynedd ydi canran uchel o'r ymwelwyr sydd yn defnyddio'r safle ar gyfer pwrpasau hamdden. Byddai hefyd yn amcan i geisio cael cyrff eraill i gymryd cyfrifoldeb dros ein parciau gwledig gan leihau'r gost i ni o'u darparu. Byddai angen buddsoddiad i'w weithredu.	Mae'r polisi'n debygol o gael effaith ar bobl sy'n fwy tlawd e.e. teuluoedd hefo pobl anabl, pobl o leiafrif ethnig neu deulu hefo aelod anabl. Mae maint yr effaith yn ddibynnol ar faint y ffi.	www.gwynedd.llyw.cymru/Asesiad18
4.13	Sefydlu ffioedd parcio ar draeth Dinas Dinlle	£15,000	£35,000	Mae ffioedd parcio eisoes yn daladwy mewn rhai meysydd parcio ger prif draethau. Bwriedir cyflwyno ffioedd parcio cyffelyb mewn lleoliadau ychwanegol lle nad ydym yn codi ar hyn o bryd a fyddai yn gyson gyda mannau eraill e.e. traeth Dinas Dinlle. Dylid nodi fod canran uchel o ymwelwyr i'r traethau (yn enwedig allan o dymor) yn drigolion Gwynedd a gall arwain at gynnydd mewn parcio ar y ffordd.	Mae'r polisi'n debygol o gael effaith ar bobl sy'n fwy tlawd e.e. teuluoedd hefo pobl anabl, pobl o leiafrif ethnig neu deulu hefo aelod anabl. Mae maint yr effaith yn ddibynnol ar faint y ffi.	www.gwynedd.llyw.cymru/Asesiad18
4.14	Cynyddu ffioedd lansio ar draws traethau Gwynedd o £10 i £15.		£10,000	Mae modd cynyddu ffioedd lansio cychod o lithrfeydd y Cyngor o £10 i £15. Byddai angen buddsoddiad i'w weithredu.	Ni ragwelir effaith cydraddoldeb	

Atodiad 3

Tud. 113

4.15	Cynyddu'r ffi i ysgolion am y gwasanaeth archifau	£5,000	£5,000	Mae yna 70 o ysgolion wedi ymrwymo i ddefnyddio'r gwasanaeth archifau eleni ac maent yn talu 50% o gost y gwasanaeth drwy dalu ffi o £254 yr ysgol. Byddai'r cynnig yn arwain at gynnydd yn ffi ysgolion i £397 yr ysgol, sef cynnydd o bron i £150 yr ysgol (yn ddiabynnol ar nifer ysgolion fydd wedi ymrwymo).	<p>Os nad yw'r Gwasanaeth yn parhau pe bai Penaethiaid ysgol ddim yn gallu sicrhau y gyllideb ychwanegol gallai effeithio'n sylweddol ar y nodweddion cydraddoldeb canlynol:</p> <p>Cenedligrwydd – Mae'r deunyddiau'n cyfleu hanes y cymunedau gan adlewyrchu Cymreictod y Sir. Ymwybyddiaeth o gyd-destun ehangach eu cymunedau i ddisgyblion gan gryfhau hunaniaeth ac ymdeimlad o le.</p> <p>Yr iaith Gymraeg – Fel uchod Mae disgyblion drwy ddeall mwy am wreiddiau eu cymunedau yn gallu ymfalchïo yn hanes eu bro a chryfhau eu hunaniaeth bersonol a chymunedol.</p> <p>Oedran – effeithio ar gyfleoedd plant i feithrin a datblygu sgiliau ac yn lleihau eu profiadau.</p>	<p>www.gwynedd.llyw.cymru/Asesiad21</p>
4.16	Cynyddu ffioedd archwilio a thrwyddedu tai mewn amlddeiliadaeth o £140 i £180 yr ystafell	£0	£20,380	Rydym yn codi tal am archwilio a thrwyddedu eiddo amlddeiliadaeth gyda thrwydded wedyn yn parhau am gyfnod o 5 mlynedd. Mae'r tal yn cyfrannu at gost y gwasanaeth a gellid codi'r ffi wrth aros o fewn canllawiau'r llywodraeth. Ar hyn o bryd, codir £140 fesul ystafell a rhagwelir byddai modd codi'r ffi i tua £180 yr ystafell. Mae yna berygl y byddai yna gynnydd posibl mewn lefel rhenti i rai tenantiaid bregus wrth i'r gost gael ei throsglwyddo.	Asesiad cryno wedi ei wneud i weld os oedd effaith. Dim effaith wedi ei adnabod.	<p>www.gwynedd.llyw.cymru/Asesiad22</p>

Atodiad 3

Tud. 114

4.17	Cynyddu incwm gorfodaeth stryd drwy ddirwyo mwy o unigolion sy'n gollwng sbwriel	£10,000	£10,000	Rydym ar hyn o bryd yn edrych ar gydweithio rhanbarthol neu ymestyn pwerau gweithredu i eraill o fewn y Cyngor er mwyn gweithredu ar hwn.	Asesiad cryno wedi ei wneud i weld os oedd effaith. Dim effaith wedi ei adnabod	www.gwynedd.llyw.cymru/Asesiad23
4.18	Gwastraff Gardd: cynhyrchu mwy o incwm neu leihau costau	£25,000	£75,000	Mae yna nifer o opsiynau i arbed arian yn y maes gwastraff gardd. Byddai modd codi ar y ffi flynyddol a neu leihau'r gwasanaeth i 9 mis yn bosibl ond efallai yn creu elfen o anniddigrwydd ymysg tua traean o'n trigolion. Byddai angen ymgynghori ar y dull ffafredig o gael yr arbediad gyda'r trigolion.	Bydd yn effeithio pobl sydd ar incwm isel, sydd ddim yn gallu gwaredu eu gwastraff gardd am ddim yn y Canolfannau Ailgylchu. Y gallai hyn gynnwys grwpiau o bobl fel rhai sydd ar fudd-daliadau mewn perthynas ag anabled neu bensiynwyr ar incwm isel. Byddwn yn edrych ar ffyrdd i liniaru'r effeithiau hyn.	www.gwynedd.llyw.cymru/Asesiad24
4.19	Codi ffi am ailgyflenwi biniau sydd wedi'u difrodi gan drigolion	£6,250	£18,750	Mewn blwyddyn mae gofyn i ni ail gyflenwi 12,000 o gynhwysyddion gwastraff ac amcangyfrifir bod tua 75% o'r achosion yma oherwydd difrod gan drigolion. Gallwn ofyn iddynt dalu am ailgyflenwi. Fel cam cyntaf byddem yn codi am ail gyflenwi bin gweddilliol yn unig.	Asesiad cryno wedi ei wneud i weld os oedd effaith. Dim effaith sylweddol wedi ei adnabod	www.gwynedd.llyw.cymru/Asesiad25
4.20	Codi ffi ychwanegol am amlosgi ar yr un diwrnod a'r gwasanaeth	£10,000	£10,000	Mae modd symud trefniadau'r amlogfa i un lle rydym ond yn amlosgi ar yr un diwrnod os bydd taliad ffi ychwanegol.	Asesiad cryno wedi ei wneud i weld os oedd effaith. Dim effaith wedi ei adnabod	www.gwynedd.llyw.cymru/Asesiad26
4.21	Codi ffi amlosgi yr Amlogfa o £520 i £550	£7,500	£22,500	Codi ffi amlosgi o £520 i £550.	Ni ragwelir effaith cydraddoldeb	
4.22	Canolfannau Ailgylchu: codi ffi ar fasnachwyr	£5,000	£15,000	Ar hyn o bryd ni chaniateir i fasnachwyr fynd a deunydd i'r canolfannau ailgylchu. Drwy drwyddedu masnachwyr i gael gwneud hynny gallwn gynyddu incwm. Ni fydd effaith ar drigolion.	Ni ragwelir effaith cydraddoldeb	

Atodiad 3

Tud. 115

4.23	Codi ffi ar waredu deunyddiau DIY (e.e. Rwbwl £3 y bag neu £30 lond trelar)	£25,000	£75,000	Mae rhai cyngorau cyfagos yn codi ar drigolion am fynd a deunydd DIY i'r canolfannau ailgylchu. Mae'r deunydd yma yn ddrud i'w ailgylchu ac mae gennym bryderon fod masnachwyr yn dod a deunydd i'r safleoedd gan honni mai unigolion preifat ydynt. Rhagwelir codi ffi ar nwyddau megis rwbwl, teiars, asbestos ac eraill. Er enghraifft Rwbwl £3 y bag neu £30 lond trelar, teiar £4 yr un asbestos £12 y bag.	Ni ragwelir effaith cydraddoldeb	
4.24	Cynyddu ffioedd am gasglu gwastraff gan fusnesau	£0	£100,000	Er nad oes rhaid i ni ddarparu'r gwasanaeth 'rydym yn casglu gwastraff gan fusnesau ac mae o'n talu am ei hun. Mae yna ddarparwyr preifat wrth gwrs ac i raddau mae'r ffaith fod y cyngor yn darparu gwasanaeth yn helpu i gymedroli'r farchnad ac yn helpu i dalu am ein costau gorbenion. Byddai modd codi mwy ond gyda'r perygl y byddem wedyn yn colli busnes ac yn gwneud y gweddill yn aneffeithlon. Ni fyddai yna effaith ar drigolion ond bydd effaith ar 2001 o fusnesau yn y Sir.	Ni ragwelir effaith cydraddoldeb	
4.25	Cynyddu incwm drwy wneud gwaith cyfreithiol i sefydliadau cyhoeddus eraill	£33,000	£0	Fel rhan o waith o geisio annog mwy o incwm mae'r Uned wedi llwyddo i greu mwy o incwm drwy wneud gwaith i eraill . Mae'r incwm yma eisoes mewn llaw ac felly ni fyddai yna oblygiadau ar bobl Gwynedd.	Ni ragwelir effaith cydraddoldeb	
4.26	Codi ffioedd YGC yn y maes gwaith ymgynghorol peirianeg sifil.	£40,000	£0	Codi ffioedd d er mwyn adlewyrchu symudiad o fewn y farchnad sector breifat. Byddai costau i gleientiaid yn codi wrth gwrs ond ystyrir fod hyn yn gynaliadwy o ystyried y farchnad bresennol.	Ni ragwelir effaith cydraddoldeb	
4.27	Cynyddu Incwm ar gyfer y maes atal llifogydd	£25,500	£25,500	Oherwydd yr her o newid hinsawdd mae'r Gwasanaeth wedi llwyddo i ennill gwaith fydd yn cyfrannu mwy o incwm o leiaf am y 5 mlynedd nesaf. Bydd angen cyflogi 3 swyddog ychwanegol er mwyn medru cyflawni'r gwaith hwnnw gyda risg isel i'r gwaith hwnnw leihau ar ôl 5 mlynedd.	Ni ragwelir effaith cydraddoldeb	

Atodiad 3

Tud. 116

4.28	Cynyddu incwm drwy gynnig cefnogaeth dechnegol, wyddonol a pheirianyddol i gynlluniau lliniaru risg llifogydd i Gynghorau ledled Cymru.	£7,500	£22,500	Mae'r adran yn datblygu arbenigedd yn y maes o atal llifogydd nad yw ar gael mewn nifer o gynghorau ac ystyrir y gellir gwerthu rhywfaint o'r arbenigedd yma i gynghorau eraill yng Nghymru. Byddai angen cyflogi 2 swyddog ychwanegol er mwyn gwneud hynny ond am y 5 mlynedd gyntaf byddai'r incwm yn ddigonol i gwrdd â'r gost a chreu elw uwch. Byddai yna risg bychan y gallasai'r gwaith leihau ar ôl y cyfnod 5 mlynedd gyntaf.	Ni ragwelir effaith cydraddoldeb	
4.29	Cynyddu incwm drwy gynnig fwy o gefnogaeth rheoli prosiect i Lywodraeth Cymru ar gynlluniau mawr.	£10,000	£0	Mae yna gyfleoedd pellach i'r Adran gynnig swyddogaeth rheoli prosiect i Lywodraeth Cymru ac er nad oes sicrwydd y gellir ei ennill, dengys profiad fod y cyfle yno a dylid anelu i ymestyn gorwelion yr adran i geisio ennill y fath waith.	Ni ragwelir effaith cydraddoldeb	
5.1	Trosglwyddo rhai toiledau cyhoeddus i eraill	£0	£50,000	Y bwriad yma yw trosglwyddo rhai asedau i'r Cyngor Cymuned / Cyngor Tref neu o bosibl i Grŵp Cymunedol. Os am gyrraedd y ffigwr byddai angen trosglwyddo rhwng 6 a 10 toiled. Byddai cyrraedd y swm yn ddibynol ar ddarganfod cyrff fyddai'n fodlon eu cymryd a'u rhedeg.	Yn gyffredinol am gael effaith positif ar nodweddion anabled, oedran (pobl hŷn a theuluoedd) a beichiogrwydd a mamolaeth. Bwriad y cynnig yw nid yn unig cyflawni arbedion ariannol, ond i geisio gwella'r modd y caiff y ddarpariaeth o doiledau ei ddarparu. Wrth ddatblygu'r cynnig, mae'r Cyngor wedi asesu anghenion eu cymuned er mwyn ceisio diwallu'r angen hwnnw yn y modd gorau posibl, a ble mae'n briodol.	www.gwynedd.llyw.cymru/Asesiad27
5.2	Trosglwyddo Meysydd chwarae i eraill	£0	£210,000	Mae yna gostau sylweddol ynghlwm a rhedeg meysydd chwarae ond mewn rhai lleoliadau mae yna gymdeithasau neu gynghorau lleol yn eu rhedeg. Yn wyneb hyn rhaid gofyn bellach yn yr hinsawdd bresennol a all y Cyngor barhau i wario ar y cyfleusterau yma. Y bwriad yma yw cynnig i gymdeithasau neu gynghorau eu derbyn a'u	Effaith posib os na fyddent yn llwyddiannus yn trosglwyddo'r asedau i'w rhedeg gan eraill. Gall y canlynid o beidio eu cynnal gael effaith negyddol o ran cyfleoedd i blant a theuluoedd cael rhywle i chwarae tu allan sydd yn bwysig iddynt gadw'n iach a heini. Yn yr	www.gwynedd.llyw.cymru/Asesiad28

Atodiad 3

Tud. 117

				rhedeg neu stopio eu cynnal yn gyfan gwbl ar ôl amser penodol.	achos yna byddai angen gwneud asesiad effaith cydraddoldeb llawn.	
6.1	Lleihau cyfraniad y Cyngor i Gwasanaeth Gwe o 1%	£6,410	£0	Mae'r Cyngor yn cyfrannu £640,000 i Gwe ar gyfer gwasanaeth gwella ysgolion. Byddai lleihau'r cyfraniad yn lleihau'r adnodd fyddai ar gael i'w gynnig i ysgolion ond mae'n anodd meintio yn union beth fyddai goblygiadau gan mai lleihau rhywfaint ar y gefnogaeth i'r ysgolion fyddai'r effaith ymarferol ac anodd yw darogan pa bryd y byddai hynny yn cael effaith. Y tebygolrwydd yw, gan mai canran fechan ydyw mai prin fyddai'r effaith ac y gellid canolbwyntio'r gostyngiad ar yr ysgolion hynny sydd angen llai o ymdrech.	Ni ragwelir effaith cydraddoldeb	
6.2	Dileu'r gwasanaeth Llyfrgelloedd i Ysgolion	£36,780	£36,780	Mae'r gwasanaeth llyfrgelloedd yn cefnogi llythrennedd a darllen yn yr ysgolion cynradd drwy Lori-Ni sy'n ymweld â'r ysgolion o leiaf dwywaith y flwyddyn er mwyn cyfoethogi profiadau darllen plant. Mae'r gwasanaeth llyfrgelloedd hefyd yn darparu adnoddau i gefnogi'r cwricwlwm ar gais athrawon, mae'r adnoddau yn cynnwys llyfrau, sachau stori, deunyddiau rhyngweithiol ar gyfer y bwrdd gwyn, a setiau darllen grŵp sydd yn cyfoethogi natur y deunyddiau a'r profiad cwricwlaidd sydd ar gael i blant. Heb yr adnodd yma byddai plant â llai o fynediad at lyfrau a phrofiadau darllen hamdden, a byddai'r ysgolion a llai o adnoddau cwricwlaidd i'w galluogi i sicrhau profiadau addysg o ansawdd i blant.	Cydnabyddir y bydd y cynnig yn cael effaith ar blant, ond ni ragwelir i'r effaith hwnnw fod yn sylweddol negyddol. Mae hyn oherwydd disgwylir i ysgolion ddarparu llyfrau addas sy'n adlewyrchu gwahanol nodweddion cydraddoldeb drwy ffyrdd amgen.	www.gwynedd.llyw.cymru/Asesiad29

6.3	Lleihau amllder glanhau rhai ardaloedd mewn Ysgolion drwy gwtogi oriau o 1.7%	£17,560	£17,560	Ar hyn o bryd rydym yn glanhau ysgolion drwy fanyleb sy'n gyffredinol yn glanhau lloriau'r ysgol gyfan yn cynnwys toiledau a sychu dodrefn a chelfi yn ddyddiol, mopio tamp a sgwrio lloriau amryw o ardaloedd ond nid i gyd yn ddyddiol a 1 wythnos o lanhau dwfn (spring clean). Mae hyn oll yn costio £2,045,320. O leihau'r gyllideb o £35,120 byddai'n rhaid cwtogi amllder glanhau rhai ardaloedd o fewn yr ysgol, yr unig ffordd o wneud hyn fyddai cwtogi oriau staff. Golyga hyn, ostyngiad o 1.7% yn oriau glanhau pob safle a all olygu, er enghraifft, na fyddai modd sychu dodrefn a chelfi yn ddyddiol. Byddai hyn yn arwain at ddirywiad yn safonau hylendid ysgolion oni bai fod ysgolion yn dewis atgyfnerthu'r gyllideb o'u cyllideb craidd.	Ni ragwelir effaith sylweddol negatiff ar unrhyw un o'r nodweddion cydraddoldeb gan fod maint y toriad oriau yn gymharol fychan o'i ddosrannu ar draws pob ysgol.	www.gwynedd.llyw.cymru/Asesiad30
6.4	Lleihau'r adnodd o fewn yr Uned Diogelwch Ffyrdd	£7,500	£2,500	Tîm bach o 1.5 swyddog yw hwn sy'n cyflwyno'r agwedd addysgu, hysbysebu a hyfforddi ar faterion diogelwch y ffyrdd ar draws pob oedran. Mae modd gostwng faint o ddeunyddiau hyrwyddo diogelwch y ffyrdd mae'r Uned yn bresennol yn eu dosbarthu i ddisgyblion ysgol. Ni fyddai hyn yn cael effaith niweidiol sylweddol ar y gwasanaeth o addysgu pobl fregus. Yn ogystal, mae modd rhesymoli'r nifer o groeswyr plant sydd yn cael eu cyflogi yn bresennol trwy adolygu amgylchiadau safleoedd unigol yn erbyn y meini prawf cyfredol ar gyfer sefydlu darpariaethau croesi. Fyddai hyn yn sicrhau mai ond y safleoedd sy'n peri risg isel i groeswyr fyddai'n cael eu heffeithio.	Mae potensial y byddai gostwng y nifer o groeswyr plant tu allan i'r ysgolion yn cynyddu'r risg diogelwch y ffyrdd i ddisgyblion a rhieni anabl a dim yn anabl h.y. Y byddai'r tebygolrwydd o wrthdrawiad rhwng y disgyblion a rhieni a cherbydau yn cynyddu heb groeswr yno i'w cynorthwyo i groesi'r ffordd.	www.gwynedd.llyw.cymru/Asesiad31
6.5	Lleihau'r gyllideb ar gyfer cynnal y llwybrau cyhoeddus	£5,000	£5,000	Mae'r arian cynnal a chadw llwybrau cyhoeddus (Cyllideb o £177,160) yn mynd tuag at gynnal thua 1700 cilomedr o lwybrau categori 1 a 2 yn ogystal â thua 2200 cilomedr o lwybrau categori 3, 4 a di-gategori. Yn unol â Chynllun Gwella Hawliau Tramwy'r Cyngor, rydym yn	Mae'n bosib y bydd mynediad at hawliau tramwy yn hyd yn oed mwy cyfyngedig i deuluoedd, pobl hŷn a phobl anabl pe na fyddai'r Uned yn gallu cwblhau ei raglen gwaith yn llawn.	www.gwynedd.llyw.cymru/Asesiad5

				<p>blaenoriaethu gwaith ar lwybrau categori 1 a 2, felly mae rhan helaeth o'r cyllid yn cael ei ganolbwyntio ar y rhain. Mae llwybrau categori 1 a 2 yn rhai sydd yn brif lwybrau rhwng canolfannau a'r rhai sy'n cael eu defnyddio yn bennaf er pleser e.e. llwybrau o amgylch cymunedau, llwybrau cerdded cylchol, mynediad i draethau ayyb.</p> <p>Mae'r gwaith yn golygu ymgymryd â gwaith adweithiol yn dilyn cwynion, e.e. trwsio'r wyneb, trwsio strwythurau ac ymateb i dywydd eithafol e.e. coed wedi syrthio yn ystod stormydd ac ailosod arwyddion ayyb yn cael ei ymgymryd gan y Cyngor yma. Fodd bynnag, mae hefyd yn golygu rheoli tyfiant, sydd yn cael ei wneud drwy drefniant gydag ambell i Gyngor Cymuned.</p> <p>Fe fyddai effaith toriad o £10,000 yn golygu y bydd llai o'r rhwydwaith yn cael sylw, ac yn rhoi straen cynyddol ar ein gallu i annog Cyngorau Cymuned i reoli tyfiant.</p> <p>.</p>		
6.6	Lleihau'r adnodd o fewn y Gwasanaeth Polisi Cynllunio	£2,500	£2,500	<p>Mae'n bosibl rhesymoli rhywfaint ar yr uned drwy newid dyletswyddau a chanfod arbediad ond nodir fod toriad o dros 30% mewn staff wedi bod eisoes dros y 7 mlynedd diwethaf. Fe fydd effaith o leihau arbenigedd a gwydnwch ynghyd a chynnydd mewn oedi mewn cyflawni dyletswyddau statudol ar ran trigolion Gwynedd ac Ynys Môn. Bydd hefyd arafwch gyda chynghori'r Unedau Cynllunio (Rheolaeth Datblygu) y ddau gyngor ar geisiadau / cyngor cynllunio. Mae angen rhannu'r arbediad gyda Môn 50/50.</p>	Asesiad cryno wedi ei wneud i weld os oedd effaith. Dim effaith wedi ei adnabod gan mai lleihad mewn arbenigedd yn hytrach na capasiti sydd yma	www.gwynedd.llyw.cymru/Asesiad32

6.7	Lleihau'r gyllideb ar gyfer yr Uned Gorchmynion Traffig o 33%	£2,500	£7,500	<p>Byddai modd leihau rhywfaint ar gyllideb yr Uned sy'n ymwneud a gorchmynion traffig fyddai'n cyfyngu ar allu'r Gwasanaeth i ymateb i sylwadau'r cyhoedd, heddlu ayyb ar sefyllfaoedd diogelwch e.e. goryrru a pharcio anystyriol. Y gyllideb bresennol o £30,000 sy'n galluogi'r Gwasanaeth i osod gorchmynion ar ein ffyrdd a chario allan gweithiau ffisegol fel gosod llinellau dwbl melyn, cyflwyno parthau gyrru a chyflwyno mesurau tawelu traffig.</p> <p>Byddai hyn, o bosib, yn gorfodi'r Gwasanaeth i ystyried gweithredu trefniant cwota i sicrhau nad yw'r gwariant yn mynd yn fwy na'r gyllideb sydd ar gael. Byddai'n rhaid i'r math yma o drefniant fod ar sail y cyntaf i'r felin gan na fyddai'n ymarferol casglu rhestr o sefyllfaoedd er mwyn eu blaenoriaethu yn chwarter olaf unrhyw flwyddyn ariannol. Byddai gorfod ystyried y math yma o drefniant yn golygu y byddai llai o orchmynion yn cael eu prosesu.</p>	<p>Mae'r Uned yn aml yn ymgymryd â champau yn benodol mewn ymateb i geisiadau gan bobl anabl, teuluoedd a phobl hŷn er mwyn ymdrin â sefyllfaoedd sy'n peri risg iddynt. Fyddai lleihau'r gyllideb ar gyfer gosod y mesurau ffisegol ar y ffyrdd o bosib yn cynyddu'r risg i'r grwpiau yma gan y byddai angen blaenoriaethu pa weithiau sy'n cymryd lle.</p>	<p>www.gwynedd.llyw.cymru/Asesiad33</p>
6.8	Lleihau adnodd cyflogaeth dymhorol o 50% o fewn y Gwasanaeth Trethi a Budd-daliadau	£42,780	£0	<p>Bu'n rhaid gwneud defnydd helaeth o oramser yn sgil "backlog" o 2,000 eitem ar ôl haf 2017 a haf 2018. Ar adegau prysur fel Medi/Hydref neu droad y flwyddyn ariannol, heb y gyllideb yma mi fydd oedi cyn rhoi cymorth i bobl Gwynedd i dalu eu rhent, neu wneud addasiad angenrheidiol i'w cyfrifon Treth Cyngor. Mae'n anodd meintoli beth yn union fyddai'r effaith heb adael iddo ddigwydd i weld, ond gellir rhagweld y byddai'n cymryd yn hirach i glirio unrhyw "backlog" gwaith.</p>	<p>Mewn blynyddoedd arferol, bydd y gyllideb sy'n weddill yn ddigonol i ymdopi â phwysau gwaith tymhorol. Mewn blynyddoedd o bwysau anarferol gall prinder cyllideb goramser arwain at oedi mewn deilio â materion trethi neu ymdrin â cheisiadau budd-dal neu Ostyngiad Treth Cyngor. Mae pobl anabl ac unigolion o leiafrif ethnig yn fwy tebygol o fod yn dlawd yn ystadegol a gallai ymdrin â hawliadau budd-dâl, felly, effeithio ar bobl anabl a pobl o leiafrifoedd ethnig yn fwy na'r boblogaeth yn gyffredinol. Wedi dweud hynny, gan nad oes disgwyl i'r</p>	<p>www.gwynedd.llyw.cymru/Asesiad34</p>

					toriad yma achosi unrhyw oedi, mae'r risg yn fychan iawn.	
6.9	Dileu swydd wag o fewn y Gwasanaeth Cefnogi Busnes (Ileihad o 25% yn y nifer o staff)	£23,000	£0	Mae un swydd (allan o 4 yn yr Uned) eisoes yn wag a thra ei fod yn amlwg yn amharu ar allu'r Cyngor i ddelio gyda ymholiadau gan fusnesau unigol, mae'r lefel perfformiad presennol yn adlewyrchu beth sydd modd ei wneud heb y swydd. Yn seiliedig ar ffigurau 2016/7 roedd natur yr ymholiadau yn cynnwys Ymholiadau Tir ac Eiddo (51%); Grantiau a chymorth ariannol (31%); Cymorth datblygu busnes (10%); Gwybodaeth Busnes (6%) a mewnfuddsoddi (2%). Effaith torri'r swydd hon ydi fod oedi yn yr ymateb ymholiadau busnes o gymharu â phe bydda'r swydd yn bodoli, risg na fydda'r Cyngor yn gallu rhoi cymaint o gymorth i bob ymholiad ac na fyddai'r Cyngor yn gallu bod mor rhagweithiol yn codi ymwybyddiaeth busnesau Gwynedd o gyfleoedd.	Ni ragwelir effaith cydraddoldeb	
6.10	Adolygu ffioedd parcio a trefniadau gweithredu Storiel	£10,000	£10,000	Mae Storiel wedi ei sefydlu fel amgueddfa ac oriel ym Mangor gydag arddangosfeydd yn cael eu trefnu mewn lloerennau cymunedol ar draws y sir er mwyn ehangu mynediad. Mae'r cynnig yma'n ymwneud ag edrych ar drefniadau gweithredu Storiel o ran cynyddu incwm, gan gynnwys adolygu ffioedd parcio.	Fe all godi targedau incwm effeithio ar ffioedd ac fe all hyn gael effaith sylweddol ar y rhai all gymryd rhan ac at ein hethos o gyfrannu at gefnogi ein cymunedau. Byddai'n rhoi rhwystr i fynediad at weithgareddau treftadol/celfyddydol penodol ar gyfer rhai hiliau, y Cymry, rhai o bob oedran, pobl anabl. Gall arwain at golli cyfle cydweithio i ddarparu cyfleoedd dysgu, hyrwyddo ein diwylliant unigryw, magu hyder, cysylltu â grwpiau lleiafrifol a hyrwyddo cynhwysiad cymdeithasol.	www.gwynedd.llyw.cymru/Asesiad35

6.11	Lleihau'r gwasanaeth llyfrgell deithiol - ymweld â llai o aros fannau ac yn llai aml	£7,500	£2,500	<p>Mae 3 cerbyd teithiol cymunedol gan y Gwasanaeth Llyfrgelloedd, sef, Llyfrgell Deithiol Arfon - Gwasanaeth Teithiol a Chartref Llyfrgell Deithiol Dwyfor - Gwasanaeth Teithiol a Chartref Llyfrgell Deithiol Meirionnydd - Gwasanaeth Teithiol a Chartref</p> <p>Mae'r llyfrgelloedd teithiol yn ymweld â phentrefi a stadau tai led led y sir (140 arosfan) ac yn cyflawni'r gwasanaeth misol 10 gwaith y flwyddyn. Yn ogystal i'r gwasanaeth llyfrgelloedd teithiol, mae'r cerbydau hefyd yn darparu gwasanaeth danfon i'r cartref i'r defnyddwyr hynny sydd yn gaeth i'w cartrefi neu sy'n cael trafferthion ymweld â'u llyfrgell leol am resymau gwahanol.</p> <p>Nifer y defnyddwyr 2016-17 Arfon - 103 oedolyn, 0 plentyn, 54 caeth i'r tŷ Dwyfor - 156 oedolyn, 1 plentyn, 36 caeth i'r tŷ Meirionnydd - 208 oedolyn, 10 plentyn, 84 caeth i'r tŷ</p> <p>Mae'n debyg byddai nifer o'r defnyddwyr sy'n ymweld â'r Gwasanaeth teithiol mewn arosfan pentref yn gymwys i dderbyn Gwasanaeth i'r Cartref ond eu bod yn dewis defnyddio'r arosfan teithiol er mwyn dibenion cymdeithasol.</p> <p>Drwy leihau cyllideb y gwasanaeth, byddai'r llyfrgell deithiol yn ymweld â llai o arosfannau ar draws y sir ac/neu yn ymweld â'r arosfannau yn llai aml.</p>	<p>Y defnyddwyr sydd mewn risg o gael eu heffeithio yw defnyddwyr hŷn a/neu anabl, a fydd yn colli gwasanaeth yn gyfangwbl, neu yn gorfod aros am gyfnod hirach ar ôl gwneud cais am wasanaeth llyfrgell i'r cartref. Gallai'r defnyddwyr hyn fod yn ynysig yn gymdeithasol, ac yn wynebu trafferthion mynediad at lyfrgell gyhoeddus oherwydd problemau symudedd neu anawsterau o ran trafndiaeth cyhoeddus.</p>	<p>www.gwynedd.llyw.cymru/Asesiad36</p>
------	--	--------	--------	--	---	---

6.12	Dileu 1 swydd o'r Gwasanaeth Datblygu'r Economi (lleihau staffio o 33%)	£20,000	£20,000	<p>Byddem yn anelu i gael grantiau i ariannu 1 swydd o fewn yr Uned ond pe na fyddem yn llwyddo byddai'n rhaid dileu'r swydd honno. Byddai hyn yn lleihau ein gallu i ddatblygu prosiectau strategol gan y byddai'r adnodd yn lleihau o 3 swyddog i 2.</p> <p>Y math o gynlluniau y bu'r swyddogion yma yn eu cyflawni dros y blynyddoedd diweddar yw targedu £9m i ddatblygu Plas Heli Pwllheli, targedu £13m i gefnogi datblygiad mentrau Glannau Caernarfon (Galeri, Castell, Hen Ynys a Rheilffordd Eryri), targedu £4.5m i gefnogi datblygiad mentrau Awyr Agored Meirionnydd (Coed y Brenin, Deorfa Bysgota Llyn Trawsfynydd, Antur Stiniog, Glanllyn Bala), Sefydlu Rhaglen Siopa Lleol a Rhaglen Trethi Gwella Busnes (BIDS Caernarfon a Bangor), cefnogi menter adfywio Harlech, datblygu achos busnes Safle Treftadaeth Byd i'r dyffrynnoedd llechi a thargedu cronfa Loteri £450k i'r cymunedau ynghyd a sefydlu cronfa i uwchraddio adeiladau gwag.</p> <p>Rydym yn y broses o dargedu £25m i uwchraddio safle a mynediad i faes awyr Llanbedr a thargedu £4m i adfywio canol dinas Bangor . Gyda llai o adnoddau staff, byddai llai o brosiectau yn cael eu datblygu a'u gweithredu, gan arwain o lai o fuddsoddiad mewn cymunedau i greu'r amodau fyddai'n diogelu a chreu swyddi newydd i'r dyfodol.</p>	Ni ragwelir effaith cydraddoldeb	
------	---	---------	---------	---	----------------------------------	--

6.13	Dileu swydd a newid trefniadau rheoli y Gwasanaeth Adfywio Cymunedol (Ileihad o 20%)	£37,500	£12,500	Byddai dileu 1 swydd a newid trefniadau rheoli yn golygu fod llai o gefnogaeth gan Cyngor Gwynedd i gefnogi mentrau a grwpiau cymunedol. Mae 5 swyddog o fewn yr uned ac fe nodir isod y math o gynlluniau sydd ar hyn o bryd yn derbyn cefnogaeth - cefnogi o Ddrws i Ddrws i baratoi cais grant am fws mini newydd; Tafarn yr Heliwr Nefyn i baratoi cais grant i adnewyddu'r dafarn; caffi Noddfa a Cegin Cofi i dargedu cronfeydd grant amrywiol; Fic Penygroes i sefydlu achos busnes cadarn i dargedu grant; Cwmni Nod Glas Dinas Mawddwy i dargedu arian cyfatebol; cefnogi Cylch Meithrin Maesywaun i ail-leoli i safle Ysgol Bro Tryweryn; cefnogi partneriaeth Abermaw i adolygu adnoddau cymunedol a pharatoi achos busnes i drosglwyddo asedau; cynghori a chefnogi Partneriaeth Maesgeirchen gyda phecyn o brosiectau cymunedol; cefnogi Partneriaeth Ogwen gyda phecyn o brosiectau yn amrywio o sefydlu ymddiriedolaeth tir, ynni adeiladau cymunedol ac opsiynau ar gyfer safle'r llyfrgell.	Asesiad cryno wedi ei wneud. Dim effaith wedi ei adnabod	www.gwynedd.llyw.cymru/Asesiad37
------	--	---------	---------	--	--	--

6.14	Dileu 1 swydd o'r Gwasanaeth Twristiaeth a Marchnata (lleihau staffio o 25%)	£12,500	£12,500	<p>Mae'r Uned yma yn Uned o 4 sydd yn cydgordio ymdrechion rhwng partneriaid lleol; rhanbarthol a chenedlaethol ynghyd a'r diwydiant twristiaeth ei hun yn y sir er mwyn ceisio gwella a hyrwyddo Gwynedd fel cyrchfan dwristiaeth a'i farchnata drwy gyfryngau cymdeithasol a safle We Eryri Mynyddoedd a'r Môr.</p> <p>O ddileu 1 swydd byddai'n rhaid blaenoriaethu gweithgaredd allasai olygu -</p> <ul style="list-style-type: none"> - Leihau gweithgaredd marchnata - gwefan Eryri Mynyddoedd a Môr, cyfryngau cymdeithasol, taflenni a llyfrynnau ayb; - Leihau gweithgaredd datblygu'r sector e.e. ceisiadau grant i Croeso Cymru i wella'r cynnyrch a'r cynnig yma (Gwelwyd derbyn grantiau o dros £600,000 dros y 3 blynedd diwethaf i wella'r cynnig yma yng Ngwynedd); - Leihau cefnogaeth i'r bartneriaeth dwristiaeth sirol; - Leihau cyfraniad amser ac adnodd swyddogion i waith a phartneriaethau strategol gyda Chroeso Cymru a Gogledd Cymru - Dileu capasiti i weinyddu ceisiadau arwyddion brown a gwyn; <p>Yn dilyn penderfyniad y Cyngor i gau rhwydwaith Canolfannau Croeso Gwynedd, mae ymholiadau gan ymwelwyr a diwydiant yn parhau i gael eu cyfeirio at y Cyngor ac ymlaen i'r gwasanaeth. Byddai dileu 1 swydd yn cael effaith ar allu'r Cyngor i ymateb i ymholiadau gan fusnesau Gwynedd, ymwelwyr a phartneriaid sector gyhoeddus a hynny ar gyfnod lle mae cynnydd sylweddol wedi ei weld mewn nifer ymwelwyr i Wynedd.</p>	Ni ragwelir effaith cydraddoldeb	
------	--	---------	---------	--	----------------------------------	--

Atodiad 3

Tud. 126

6.15	Yn yr hir dymor, anelu i leihau'r sybsidi i'r Cwmni Hamdden newydd fydd yn cael ei sefydlu o 20%	£0	£155,000	Rydym ar fin sefydlu cwmni masnachol fydd yn ein helpu i wireddu arbedion sylweddol (£435,000). Bydd hyn yn seiliedig ar y Cyngor yn ymrwymo i dalu sybsidi o £741,000 i'r cwmni yn y tymor byr o leiaf. Y gobaith yn yr hir dymor yw y bydd y cwmni yn gallu lleihau'r sybsidi y bydd yn rhaid i'r cyngor ei dalu un ai drwy ddarganfod marchnadoedd eraill neu leihau'r costau rhedeg ymhellach. Er na fydd modd gwneud hynny yn syth mae'n rhesymol i ddisgwyl i hynny ddigwydd yn yr hir dymor.	Bydd asesiad yn cael ei wneud wrth i'r Cwmni ddatblygu ei gynigion ar gyfer gwireddu'r arbediad	www.gwynedd.llyw.cymru/Asesiad38
6.16	Lleihau cyllideb y grantiau strategol i'r celfyddydau o 20%	£0	£18,000	Fe hanerwyd y gyllideb yma yn ystod proses arbedion Her Gwynedd. Byddai gweithredu'r cynllun yma yn golygu y byddai'r Cyngor yn gorfod ystyried lefel y cymorth y gellid ei roi i'r 11 prif gwmni celfyddydol yng Ngwynedd. Nifer ohonynt yn arwain ar brosiectau sy'n cael effaith yn genedlaethol o ran y Gymraeg a diwylliant Cymru. Y cwmnïau sy'n derbyn cymorth yw - Bara caws; Cerddoriaeth mewn Ysbytai; Canolfan Gerdd William Mathias; Cofis Bach; Dawns i Bawb; Galeri Caernarfon; Fran Wen; Plas Glyn y Weddw; Llenyddiaeth Cymru; Pontio; Theatr Ardudwy; Theatr y Ddraig Nifer o'r cwmnïau hyn yn nodi bod derbyn elfen o gefnogaeth gan y Cyngor yn sicrhau eu bod yn denu arian gan Gyngor Celfyddydau Cymru ac yn sicrhau buddsoddiadau uwch yn y Celfyddydau yng Ngwynedd.	Risg o golli dylanwad ar fudiadau i fabwysiadu polisiau cyfleoedd cyfartal ac iaith Gymraeg. Gall effeithio'n uniongyrchol ar fwrllwm yn y Gymraeg a gweithgareddau'n yr iaith Mae nifer o'r rhai sy'n derbyn grantiau yn gweithio gyda grwpiau neu oedran penodol o'r gymdeithas e.e. unigolion bregus, ieuencid, pobl hŷn gyda phroblemau iechyd/iechyd meddwl neu sy'n unig, plant a phobl ifanc, mamau a babanod ayyb. Colli cyfle cydweithio i ddarparu cyfleoedd dysgu, hyrwyddo ein diwylliant unigryw, magu hyder, cysylltu â grwpiau lleiafrifol a hyrwyddo cynhwysiad cymdeithasol. Gall gael effaith ar wasanaethau a mudiadau eraill os bydd lleihad yn y cyfleoedd i gyfranogi e.e. iechyd a lles, gweithgareddau i bobl ifanc. H.y.	www.gwynedd.llyw.cymru/Asesiad39

Atodiad 3

Tud. 127

					galw ar fwy o angen gwasanaeth gofal cymdeithasol, ysbytai, heddlu.	
6.17	Lleihau cyllideb cronfa lyfrau'r llyfrgelloedd o 10%	£19,500	£0	Mae'r gyllideb Gronfa Lyfrau wedi cael ei lleihau o 25% yn ystod ymarferiad Her Gwynedd. O'i leihau 10% ymhellach yn amlwg byddai'r dewis sydd ar gael i drigolion Gwynedd gymaint yn llai ac amseroedd aros am lyfrau yn cynyddu gan ei wneud yn llai deniadol i drigolion.	Bydd y toriad yn effeithio ar y grwpiau nodweddion cydraddoldeb yma: laith Gymraeg, Anabledd, Oedran – plant a phobl hŷn, Cyfeiriadedd Rhywiol, yn ogystal a nifer fawr o ddefnyddwyr o'r grwpiau yma sydd yn byw ar incwm isel.	www.gwynedd.llyw.cymru/Asesiad40
6.18	Adolygu pecynnau gofal anableddau corff gan gwrdd ag amcanion mewn ffordd amgen	£25,000	£75,000	<p>Mae gennym achosion sy'n costio dros £1000 yr wythnos i'r Adran sef lleoliadau all-sirol a phecynnau gofal sydd wedi eu hetifeddu o siroedd eraill o dan reolau 'ordinary residen't. O adolygu'r pecynnau yma ystyrir y gellir cwrdd ag anghenion mewn ffyrdd amgen. Mae'r arbediad yn seiliedig ar waith tebyg sydd eisoes wedi ei gyflawni yn y maes Anabledd Dysgu a bydd yna elfen allweddol o fuddsoddi i arbed drwy fuddsoddi mewn cartrefi addas, a datblygiadau tai gofal ychwanegol.</p> <p>Bydd angen penodi gweithiwr cymdeithasol am gyfnod o 18 mis i weithio ar y cynllun i adolygu'r holl achosion all-sirol a chwblhau dadansoddiad o'r angen sydd yn bodoli rŵan ac i'r dyfodol.</p> <p>Bydd hefyd angen buddsoddiad amser staff i gydweithio gyda'r unigolion ac adnabod datrysiadau cywir. Effaith gadarnhaol os ydi'n bosib i unigolion ddychwelyd i gael gofal yn lleol. Rhaid cofio fod rhai o'r unigolion wedi derbyn gofal am nifer fawr o flynyddoedd, felly mae rheoli unrhyw newid a disgwyladau am fod yn allweddol. Mae elfen o or-wasanaethu yn y pecynnau 'ordinary residence' a bydd yn broses o newid dros amser i ddod i ddygymod a</p>	<p>Mae'r cynllun yn ymwneud a chefnogi a darparu gwasanaethau ar sail angen. Yn sgil hynny, gall y dull o gefnogi fod yn wahanol ac yn fwy lleol neu gyda darparwr gwahanol. Ni ddylai y cynllun gael effaith negyddol ar unrhyw unigolyn/grwp. Bydd anghenion pob unigolyn yn cael ei asesu ar wahân.</p>	www.gwynedd.llyw.cymru/Asesiad41

				chefnogaeth sy'n cael ei ddarparu mewn modd amgen.		
6.19	Adolygiad pecynnau Gofal Iechyd Parhaus	£50,000	£150,000	<p>Wrth adolygu pecynnau gofal iechyd parhaus 'rydym yn ceisio sicrhau fod lechyd yn talu cyfraniad teg tuag at y pecynnau gofal a roddir i unigolion yn unol â'r rheolau a sefydlwyd. Mae angen parhau gyda'r gwaith pwysig yma o ran egwyddor 'gwerth gorau', ond hefyd o ran cyfrifoldeb am y pecyn cefnogaeth/gofal. Rydym yn adolygu'r drefn CHC/DST ar y cyd gydag lechyd ac yn anelu i dderbyn rhagor o fuddiannau o'r gwaith yma.</p> <p>Y bwriad yma yw mynd ar ôl yr achosion mwyaf dwys a thra byddwn yn eithaf hyderus o fedru cyflawni oddeutu £100k bydd cyflawni'r holl £200k yn fwy o her o lawer. Mae'r Gwasanaeth Anableddau Dysgu eisoes wedi gweithredu'r achosion mwy rhwydd a llai dadleuol wrth gyflawni arbedion 600k o ran adolygu pecynnau, cyflawni egwyddorion gwasanaeth gwerth gorau am arian ac wedi herio iechyd am eu cyfraniad. Nid oes modd herio pecynnau mwy nag unwaith.</p> <p>Mae yna oblygiadau capasiti staffio i wneud y gwaith a risg o gael her gyfreithiol a chwynion. Mae angen capasiti ychwanegol i graffu'r asesiad anghenion a'r DST ac i fynychu cyfarfodydd "disputes" gydag iechyd pan nad ydi'r asiantaeth yn cytuno ar benderfyniad o ran lefel CHC.</p>	<p>Mae'r cynllun hwn yn ymwneud â rhesymoli a gwella trefniadau gwaith rhwng yr Awdurdod Lleol a'r Bwrdd Iechyd. Mae'n ymwneud â'r systemau a'r berthynas tu ôl i raglen i gefnogi unigolion ac nid ar y gefnogaeth ei hun. Ar y sail hynny, ni ragwelir effaith uniongyrchol ar unrhyw unigolion, gan nad yw yn ychwanegu at y trefniadau asesu ar y cyd sydd eisoes yn bodoli.</p>	<p>www.gwynedd.llyw.cymru/Asesiad42</p>

Atodiad 3

Tud. 129

6.20	Calendrau casglu gwastraff electronig yn unig	£22,500	£7,500	Ar hyn o bryd rydym yn dosbarthu calendrau casglu gwastraff ar bapur i bob un o'r 62500 o dai yn y sir. Byddai symud i'w darparu ar lein neu drwy gais yn unig yn creu arbediad sylweddol i ni. Mae gan 34,382 unigolyn gyfrif hunan wasanaeth ar lein ac rydym eisoes yn gohebu gyda rhain drwy'r ffurf yma mewn perthynas â gwasanaeth gwastraff gardd.	Asesiad cryno wedi ei wneud i weld os oedd effaith. Dim effaith sylweddol wedi ei adnabod	www.gwynedd.llyw.cymru/Asesiad43
6.21	Pont Abermaw – peidio talu Network Rail am yr hawl tramwy dros y bont	£0	£35,000	Roedd y cynllun yma yn un a ddaeth i'r amlwg yn ystod ymarferiad Her Gwynedd ond fe benderfynwyd bryd hynny na ddylid torri'r cyllidebau yma yr adeg hynny, ond fod hynny yn amodol ar gyrraedd targed o leihau'n sylweddol y gost i'r Cyngor o gyfrannu tuag at ei ddyfodol. Rydym yn parhau i dalu £35,000 i Network Rail gan na fu modd leihau'r gost i ni. O beidio talu cyfraniad i Network Rail, mater iddynt hwy yw a ydynt am ei gau at ddefnydd Llwybr yr Arfordir a'r Llwybr Beicio Cenedlaethol. Bydd adwaith negyddol yn lleol ac o safbwynt atyniad twristiaeth pe na fydd Network Rail yn ei gadw'n agored.	Dim effaith gwahaniaethol oherwydd Network Rail sydd berchen y bont	www.gwynedd.llyw.cymru/Asesiad44
6.22	Lleihau cyllideb Cymorth i ferched o 20%	£8,080	£2,690	Byddai modd lleihau 20% ar y gyllideb Cymorth i Ferched drwy ddileu'r gweithiwr plant o fewn Cymorth i Ferched a Trais yn y Cartref De Gwynedd. Mae'r cyfraniad yn ddewisol ac ar gael i unrhyw deulu sydd wedi dioddef neu yn byw mewn sefyllfa trais yn y cartref, nid dim ond i deuluoedd sydd yn adnabyddus i wasanaethau'r Cyngor. Gwynedd yw'r unig awdurdod yn y Gogledd sydd yn cynnal cytundeb lefel gwasanaeth gyda Cymorth i Ferched. Nid yw lleihad gan y Cyngor yn golygu na fydd modd i'r mudiad barhau i ddarparu gan fod ganddynt fynediad at ffynonellau ariannu eraill. Mae Cymorth i Ferched yn nodi eu bod yn gwneud defnydd o'r cytundeb gyda'r Cyngor i ddenu arian	Dim effaith sylweddol wedi ei adnabod ar blant a phobl ifanc gan fod gobaith y bydd y mudiad yn gallu defnyddio ffynhonnell amgen o arian	www.gwynedd.llyw.cymru/Asesiad45

				a grantiau eraill i'r mudiad, ond mae yn anodd derbyn cadarnhad o hynny. Bydd gweddill cyfraniad y Cyngor yn parhau a bydd adnoddau'r Cyngor hefyd ar gael i ddarparu gwasanaeth statudol i Ferched sydd ei angen.		
6.23	Lleihau 6% ar y gyllideb eiriolaeth	£1,570	£520	Mae darparu eiriolaeth i blant a phobl ifanc sydd mewn gofal, yn anabl neu yn derbyn cynllun gofal a chefnogaeth yn ofyn statudol yn Neddf 2014. Ni fyddai lleihad o 6% yn cael ardrawiad sylweddol ar y niferoedd o blant a phobl ifanc sydd yn cael eu cyfeirio at y gwasanaeth gan fod y 'take-up' o wasanaeth eiriolaeth gan y plant a'r bobl ifanc cymwys yn isel o gymharu â'r capasiti o fewn y gyllideb sydd yn cael ei glustnodi. Mae yna gytundeb rhanbarthol ac ar ôl 3 mlynedd o weithredu, mae yn amlwg y gellid lleihau 6% heb ardrawiad ar wasanaeth uniongyrchol i blant ar sail data 3 mlynedd. Mae'r cytundeb yn un rhanbarthol gyda chyfraniadau gan y 5 awdurdod arall yn y Gogledd. Mae tebygolrwydd y byddai awdurdodau eraill yn lleihau eu cyfraniadau mewn amser.	Dim disgwyliad y bydd newid yn y ffordd y bydd plant a pobl ifanc yn cael mynediad i'r Gwasanaeth gan fod y niferoedd sy'n manteisio yn isel	www.gwynedd.llyw.cymru/Asesiad46
6.24	Haneru cyllideb recriwtio a hyfforddi rhieni maeth	£5,420	£0	Mae gweithgaredd recriwtio a marchnata yn gostus, ond mae modd uchafu ein gweithgaredd ar wefannau cymdeithasol a chyfryngau cost isel a gwneud mwy o ddefnydd o adnoddau cyfathrebu'r Cyngor. Rhagwelir felly mai effaith isel ar blant a theuluoedd fyddai hyn yn ei olygu a hynny oherwydd bod yna risg fechan na fyddai trefniadau newydd mor effeithiol.	Mae'n bosib torri'r gyllideb drwy ddefnyddio dulliau amgen fel fforymau cymdeithasol sy'n rhatach na dulliau traddodiadol felly ni ragwelir effaith	www.gwynedd.llyw.cymru/Asesiad47
6.25	Lleihau cyfraniad y Cyngor o 7% Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuencid	£12,390	£1,770	Byddai angen colli 0.4 staff FTE gan rannu'r lleihad ar draws secondiadau ac arian yn y tîm Cyfiawnder adferol (anstatudol), a byddai peth effaith ar blant a theuluoedd drwy leihad yn y gallu i wneud gwaith iawn gyda dioddefwyr; cynnal llai o brosiectau cymunedol a lleihau oriau cyswllt gyda phlant a phobl ifanc.	Nid yw'n effaith sylweddol ar bobl ifanc, ond bydd angen i ni fonitro effaith llai o gapasiti o fewn ein prosiectau cefnogi (Iechyd a Lles a Chymorth Llety). Mae'r gostyngiad flwyddyn ar flwyddyn o blant a phobl ifanc sy'n manteisio ar y gwasanaeth	www.gwynedd.llyw.cymru/Asesiad48

Atodiad 3

					yn helpu i liniaru effeithiau'r gostyngiadau hyn.	
6.26	Lleihau adnodd o fewn yr Uned Gyfreithiol i gefnogi gwaith adrannau eraill	£7,500	£7,500	Dengys ymchwil yn y gorffennol na ellir cael y gwaith wedi ei wneud ar gost is yn allanol. Serch hynny, ystyrir y byddai modd gwasgu mwy o effeithlonrwydd allan o'r sustem gan dderbyn y byddai yna risg o weld mwy o faterion yn wynebu oedi - heb ei wireddu mae'n anodd gallu dweud faint. Byddai hefyd angen darganfod adnodd i lenwi mewn pan mae yna etholiadau.	Ni ragwelir effaith cydraddoldeb	
6.27	Ail Strwythuro'r Uned Rheolaeth Adeiladu gan leihau'r nifer o arweinyddion tîm	£23,000	£0	Byddai ail strwythuro yn lleihau nifer staff yr Uned o un a thrwy hynny mae yna berygl y gallasai'r amser i wirio cais cynlluniau llawn gynyddu o 13 diwrnod i 15 diwrnod. Mae sgôr arolwg boddhad cwsmeriaid wedi mynd i lawr o 9.6 eleni i 9.0. Mi fydd pob ymdrech yn cael ei weithredu i leihau'r effaith ar foddhad cwsmeriaid gan yr Uned.	Ni ragwelir effaith cydraddoldeb	

ATODIAD 4

CYFALAF

1. Tra bod cyllidebau refeniw awdurdodau lleol yn wynebu cyfyngiadau, mae cyllidebau cyfalaf hefyd dan bwysau, ac mae ymhlygiadau refeniw i wariant cyfalaf sydd heb ei ariannu drwy grant penodol.
2. Yn wyneb y cyfyngiadau ariannol refeniw sydd yn ein hwynebu a'r ffaith fod ein Strategaeth Asedau blaenorol wedi cynnwys elfen sylweddol o fenthyca darbodus (sy'n golygu pwysau ar y gyllideb refeniw i dalu am y costau benthyca), mae adolygiad trylwyr o'r Strategaeth Asedau nesaf ar droed.
3. Gosodaf isod raglen arfaethedig ar gyfer y cynlluniau am y dair mlynedd nesaf:

RHAGLEN GYFALAF			
	2019/20	2020/21	2021/22
	£'000	£'000	£'000
Cynlluniau Newydd			
Cynllun Rheoli Asedau i'w Ddyrannu	11,728	7,535	6,610
Atgyweirio Priffyrdd	2,650	1,325	0
Gofal Plant	1,238	1,113	0
Strategaeth Dai	2,700	2,700	2,700
	18,316	12,673	9,310
Cynlluniau Wedi eu Cymeradwyo - Eisoës ar y Rhaglen	16,675	6,129	0
CYFANSWM Y RHAGLEN	34,991	18,802	9,310

4. Byddwn yn ariannu'r rhaglen fel a ganlyn:

ARIANNU'R RHAGLEN GYFALAF			
	2019/20	2020/21	2021/22
	£'000	£'000	£'000
Cynlluniau Newydd			
Darpariaeth Cyfalaf yn y Setliad	7,995	7,535	6,610
Grantiau a Chyfraniadau	2,563	2,438	0
Cronfeydd Adnewyddu ac Eraill	7,758	2,700	2,700
	18,316	12,673	9,310
Cynlluniau Wedi eu Cymeradwyo - Eisoës ar y Rhaglen			
Benthyca Arall	1,393	777	0
Grantiau a Chyfraniadau	8,753	525	0
Derbyniadau Cyfalaf	98	750	0
Refeniw Adrannol a Chorfforaethol	265	0	0
Cronfa Cyfalaf	1,435	0	0
Cronfeydd Adnewyddu ac Eraill	4,731	4,077	0
	16,675	6,129	0
CYFANSWM ARIANNU'R RHAGLEN	34,991	18,802	9,310

5. Bwriedir sefydlu strategaeth asedau newydd o 2019/20 ymlaen, yn unol â'r adroddiad a gyflwynir i'r Cabinet yn fuan yn 2019. Bydd y strategaeth asedau newydd yn weithredol am y cyfnod 2019/20 hyd at 2028/29.
6. Cymeradwywyd y drefn er mwyn sefydlu'r strategaeth nesaf gan y Cabinet ar 16 Ionawr 2018 ac yn ystod y misoedd yn dilyn gofynnwyd i holl aelodau'r Cyngor i flaenoriaethu'r cynlluniau a roddwyd ymlaen gan adrannau. Bydd adroddiad ar y cynlluniau manwl yn dod gerbron am gymeradwyaeth yn ddigon buan am y flwyddyn ariannol 2019/20.
7. Mae'r tabl uchod felly yn adlewyrchu'n fras y gofynion cyfalaf (ynghyd â'r ariannu) ar gyfer gosod cyllideb 2019/20 i 2021/22, tra bydd y manylder ar y cynlluniau unigol yn cael ei sefydlu gan y Cyngor yn y strategaeth asedau 10 mlynedd newydd.
8. Felly, gofynnir i'r Cyngor llawn ychwanegu £18,316,130 at y rhaglen gyfalaf i'w wario yn 2019/20, er mwyn sefydlu rhaglen gyfan gwerth £34,991,250 erbyn 2019/20, i'w ariannu o'r ffynonellau a nodir yn y tabl o dan rhan 4 uchod.

ATODIAD 5

YMDRIN Â'R GYLLIDEB YSGOLION YN 2019/20

1. Wrth ddatblygu strategaeth arbedion a chyllideb drafft ar gyfer 2019/20, cytunwyd ffordd ymlaen er mwyn osgoi trosglwyddo targed arbedion pellach i ysgolion Gwynedd eto eleni.
2. Bydd y gyllideb ysgolion yn cynyddu eleni oherwydd yr addasiadau "demograffi" arferol, sy'n deillio o newidiadau yn niferoedd disgyblion. Defnyddir gwir nifer disgyblion Medi 2018 i gyfrifo dyraniadau 2019/20. Mae'r sefyllfa yn gwahaniaethu o ysgol i ysgol, ond ar y cyfan mae effaith cynnydd niferoedd disgyblion yn golygu y byddai'r gyllideb ysgolion yn ei gyfanrwydd yn codi £418k, sy'n cynnwys lleihad -£260k cynradd a cynnydd +£617k uwchradd a +£61k i'r ysgolion arbennig. Yn erbyn y cynnydd £617k eleni, mae'r sector uwchradd yn cyflawni arbediad £299k yn 2019/20, yn dilyn penderfyniad i'w ohirio am ddwy flynedd o 2017/18, pryd roedd y demograffi uwchradd yn negyddol.
3. Gwelir yn y rhan bidiau (Atodiad 2) o'r adroddiad hwn fod argymhelliad i gytuno i ariannu bidiau gwerth £593k i'r Adran Addysg, tuag at y cyllidebau cludiant (£400k) ac integreiddio (£193k), sy'n golygu y bydd cost 'Addysg' yn cynyddu'n sylweddol rhwng 2018/19 a 2019/20. Fodd bynnag, mae lleihad £247k yn dyraniadau ysgolion yn unol â'r Adolygiad Strategol Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad. Yn sicr, wedi cymryd chwyddiant dros £4m i ystyriaeth, bydd y gyllideb ysgolion dipyn uwch yn 2019/20 na lefel 2018/19.
4. Hefyd, mae yna nifer o grantiau penodol gan Lywodraeth Cymru ym maes Addysg. Tra mae'n ymddangos na fydd toriad "cash" i'r grantiau hyn eleni, mae'n debyg fod y Llywodraeth ddim yn ychwanegu chwyddiant i'w grantiau. Felly, gyda costau (chwyddiant cyflog a phensiwn athrawon) yn cynyddu 5%, bydd ysgolion yn canfod sefyllfa rhai o grantiau'r Llywodraeth fel toriad mewn termau "real". Fodd bynnag, bydd ein ysgolion yn derbyn grant newydd gan y Llywodraeth ar gyfer hyfforddi athrawon.
5. Mae Llywodraeth San Steffan wedi codi cyfradd cyfrannu cyflogwyr i'r Cynllun Pensiwn Athrawon o 16.5% i 23.6% o Fedi 2019. Bydd cost hyn yn £1.6m am y 7 mis yn 2019/20, a bydd effaith blwyddyn llawn yn £2.8m erbyn 2020/21. Mae'n 7% o gost cyflogau athrawon, ond yn gynydd 40% mewn cyfraniadau pensiwn cyflogwr.

Wrth lunio'r gyllideb hon, rhagdybiwyd bydd Llywodraeth Cymru yn ariannu'r cynnydd pensiynau athrawon 2019/20 trwy grant penodol. Yn Ionawr 2019, mae'r 'Department for Education', wedi ymgynghori gyda'r sector addysg yn sôn am ariannu'r gost (£910m) yn llawn i ysgolion Lloegr. Disgwylir dyraniad dilynol i Lywodraeth Cymru, a bydd hwnnw yn cael ei basio yn ei dro i'r awdurdodau lleol, ac wedyn i'r ysgolion.

Os bydd dim ariannu trwy grant penodol, neu os bydd y grant yn bell o fod yn ddigonol, adeg hynny bydd y Cyngor yn ail ymweld â hyn a thrafod ag ysgolion sut i ddelio gyda'r pwysau un-tro yn 2019/20.

ATODIAD 6

TRETH CYNGOR

1. Mae'n benderfyniad allweddol i aelodau'r Cyngor llawn wneud, yn sgil yr ystyriaethau cyflwynir yma, i sefydlu union lefel y cynnydd Treth Cyngor ar gyfer 2019/20. Yr allwedd i hyn yw cael y balans yn briodol rhwng yr angen i wario ar wasanaethau i'r rhai mwyaf bregus yn ein cymdeithas, a'r cynnydd treth sydd yn addas i'w godi ar drigolion Gwynedd.
2. Yn y tybiaethau hanesyddol a wnaed yn ein strategaeth ariannol tymor canolig, defnyddiwyd ffigwr o 3.5%, fel amcangyfrif o'r cynnydd cyfartalog yng Nghymru. Erbyn 2016/17, penderfynwyd codi'r dreth 3.97%, er mwyn osgoi gweithredu rhai toriadau. Erbyn 2017/18, gan fod sawl mater wedi mynd o'n plaid, roedd modd i fantoli cyllideb 2017/18 gyda chynnydd 2.8% yn lefel y dreth. Erbyn 2018/19, roedd setliad grant Llywodraeth Cymru yn siomedig, ac roedd raid codi'r dreth 4.8%.
3. Eleni, erbyn 2019/20 argymhellir codi'r dreth 5.5%, fydd yn cynhyrchu £71.2m o dreth, yn cynnwys £2.7m o gynnyrch Premiwm a £2.84m o incwm ychwanegol tuag at y bwllch. Byddai hynny'n gyfystyr i gynnydd yn y Dreth Cyngor o £71.53 i eiddo mewn Band D, neu £1.37 yr wythnos. Bydd y dreth a godir gan y cynghorau cymuned a'r Awdurdod Heddlu yn ychwanegol i hyn wrth gwrs.
4. Mae dros 16.4% o dai sy'n atebol i dalu treth yng Ngwynedd yn derbyn rhyw elfen o gymorth tuag at eu Treth Cyngor, ac mae dros 60% o eiddo Gwynedd mewn bandiau is na band D. Byddai pob 0.1% ychwanegol o dreth yn addasu'r bwllch ariannol y byddem angen ei ddarganfod o tua £71,246. Felly, byddai 0.5% yn golygu addasu'r bwllch ariannol tua £356,230 tra byddai 1% yn golygu addasu'r bwllch ariannol o tua £712,461.
5. Nodir isod y cynnydd a welwyd yn Nhreth Cyngor Gwynedd, a'r cynnydd a welwyd ar gyfartaledd ar draws Cymru, ers 2014/15:

Blwyddyn	Gwynedd	Cymru
2018/19	4.8%	5.0%
2017/18	2.8%	3.1%
2016/17	4.0%	3.7%
2015/16	4.5%	4.3%
2014/15	3.9%	4.2%
Cyfanswm 2014-19	20.0%	20.3%
Cyfartaledd 2014-19	4.0%	4.1%

Yn 2018/19 roedd lefel Treth Cyngor Band D Cyngor Gwynedd yn £1,301, tra roedd lefel treth cyfartalog siroedd Cymru yn £1,219.

<https://gov.wales/docs/statistics/2018/180322-council-tax-levels-2018-19-en.pdf>

6. Ni wyddom yn union eto beth fydd y cyfartaledd cynnydd ar draws Cymru yn 2019/20, ond yr wybodaeth ddiweddaraf sydd gennyf yw bydd y cyfartaledd ar draws Cymru tua 5.5%. Felly, mae'r cynnig gerbron am fod yn agos iawn at lefel cyfartaledd Cymru erbyn 2019/20, ac felly yn cadw at y polisi hir-dymor.
7. Mae'r dewis rhwng cynnal gwasanaethau a threthu o hyd yn un anodd, wrth gwrs, a mater i'r holl aelodau yw pwyso a mesur a dod i'r balans y maent yn ystyried sy'n briodol. Fodd bynnag, ymhellach i sawl sgwrs anffurfiol mewn dau gyfres o weithdai aelodau, ac wedi ystyried ymateb pobl Gwynedd i'r ymgynghoriad cyhoeddus, **argymhellir cynnydd Treth Cyngor o 5.5%, fyddai'n gynnydd wythnosol o £1.37, neu £71.53 yn flynyddol, gyda threth 'Band D' o £1,372.06 am 2019/20.**

CYNNYRCH PREMIWM TRETH CYNGOR AR EIDDO GWAG AC AIL GARTREFI

8. Yng nghyfarfod y Cyngor llawn ar 6 Rhagfyr 2018, penderfynwyd parhau gyda'r premiwm o 50% ar ail gartrefi ac ar eiddo sydd wedi bod yn wag am 12 mis neu fwy am 2019/20. Amcangyfrifir bydd y Cyngor yn derbyn £2.7m o incwm ychwanegol yn 2019/20 trwy godi'r premiwm, a bwriedir neilltuo'r arian mewn cronfa er mwyn gweithredu'r Strategaeth Tai, fydd yn anelu i ddarparu tai ar gyfer pobl ifanc yn ein cymunedau.
9. Rhaid ymgorffori'r holl incwm a cyfarch gwariant perthnasol yng nghyllideb 2019/20.

ATODIAD 7

BALANSAU

1. Mae awdurdodau lleol angen lefel darbodus o 'gyfalaf gweithio' i gynnal llif arian digonol ac i gyfarch gwariant annisgwyl. Rhagwelir bydd gan y Cyngor falansau cyffredinol o £6m ar ddiwedd y flwyddyn ariannol hon, yn cynrychioli tua 1.5% o wariant refeniw gros y Cyngor.
2. 'Rydym wedi nodi, ar fwy nag un achlysur, oherwydd yr amgylchiadau tymhestlog y byddwn yn eu hwynebu dros y blynyddoedd i ddod, ei fod yn briodol cadw symiau wrth gefn er mwyn medru ymdrin gyda phroblemau allasai godi.
3. Nid oes unrhyw beth wedi digwydd yn y cyfamser i newid y farn yma, ac mae cynlluniau arbedion mwy heriol yn wyneb setliad grant siomedig Llywodraeth Cymru ar gyfer llywodraeth leol yn 2019/20 yn golygu fod y risg yn parhau (os nad yw'n dwysau). Felly, mae'r angen i sicrhau fod gennym falansau priodol i fedru dygymod gydag unrhyw sioc ariannol dal yn berthnasol (gweler Atodiad 8 am Strategaeth Ariannol tymor canolog).
4. Wedi neilltuo arian yn y Gronfa Cynorthwyo'r Strategaeth Ariannol er mwyn delio gyda gorwariant posib rhai gwasanaethau yn ystod 2018/19, ac ar ôl ymrwymo £38k o gronfa penodol er mwyn ariannu'r bidiau un-tro, **argymhellir peidio defnyddio balansau cyffredinol yn 2019/20.**
5. **Mae gan y Cyngor nifer o reserfau penodol** sydd wedi eu sefydlu i gwrdd ag anghenion gwariant penodol. Mae'r rhain hefyd yn rhan o gyllideb y Cyngor, wrth gwrs, ac wedi'u craffu yn flynyddol. Rhoddwyd sylw i'r reserfau penodol gan y Cabinet ar 22 Mai 2018 a'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu hefyd ar 28 Mehefin 2018, pryd cymeradwywyd trosglwyddo £2.75m o gronfeydd a darpariaethau tuag at flaenoriaethau / anghenion corfforaethol. Rwy'n adolygu lefel y reserfau yma'n barhaus, a **bwriedir cynnal adolygiad trylwyr eto erbyn Mai/Mehefin 2019**, i ystyried faint o le fydd yna i'r Cyngor newid ei flaenoriaethau tu mewn i'r reserfau yma.
6. Yn ei adroddiad "Ymdrin â'r Heriau Ariannol sy'n wynebu Llywodraeth Leol yng Nghymru", mae Swyddfa Archwilio Cymru wedi datgan (ym mharagraff 1.8):

"Gall cynghorau ddefnyddio cronfeydd wrth gefn i'w helpu i gydbwysu eu cyllidebau lle nad yw cynlluniau arbedion yn cyflawni'r canlyniadau disgwylidig neu lle mae'r incwm yn llai na'r disgwyl. Fodd bynnag, ni fyddai fel arfer yn briodol cyllido gwariant rheolaidd o gronfeydd wrth gefn. Mae lefel synhwyrol o gronfeydd wrth gefn y gellir eu defnyddio yn elfen allweddol o sefydlogrwydd ariannol; bydd isafswm y lefel briodol yn amrywio gan ddibynnu ar rwymedigaethau hysbys a phosibl awdurdod a'i gynlluniau gwariant. Ceir arwyddion bod ambell gyngor yn dibynnu gormod ar gronfeydd wrth gefn cyffredinol i ymdrin â diffyg yn y gyllideb, yn hytrach na cheisio mabwysiadu dulliau mwy cynaliadwy, sy'n aml yn golygu gwneud penderfyniadau amhoblogaidd."
7. Hefyd, ar 14 Tachwedd 2018, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ddatganiad am gronfeydd wrth gefn awdurdodau lleol, sy'n rhoi cyd-destun defnyddiol i'n sefyllfa ac yn dangos Cyngor Gwynedd ar lefel rhesymol yn ganol amrediad o gronfeydd defnyddiadwy awdurdodau Cymru.

<https://gov.wales/topics/localgovernment/finandfunding/whole-government-accounts/publications/whole-government-accounts-reserves/?skip=1&lang=cy>
8. Rwy'n argyhoeddedig fod defnydd y Cyngor o gronfeydd penodol i ariannu gofynion un-tro yn weithred cwbl briodol, a ni argymhellir unrhyw ddefnydd o falansau'r Cyngor i fantoli cyllideb 2019/20.

ATODIAD 8

CYNLLUN TYMOR CANOLIG I DDYGYMOD Â'R BWLCH ARIANNU 2019/20 - 2021/22

1. Ers nifer o flynyddoedd bellach mae Cyngor Gwynedd wedi bod yn cynllunio ymlaen llaw gan fod yn fyw i'r hyn sydd ar y gorwel bob tro wrth sefydlu ein cyllideb. Mae hyn wedi talu ar ei ganfed, a hyn mewn gwirionedd sy'n golygu ein bod wedi medru defnyddio £2.48m o arbedion 'Her Gwynedd' i fantoli cyllideb 2019/20. Nid pob Cyngor sydd mewn sefyllfa i fedru osgoi torri cyllidebau'r ysgolion, codi treth 9%, ayb, eleni.
2. Er mwyn parhau ar y trywydd yma, ar ben sefydlu cyllideb 2019/20, gwnaed ymdrech i daflunio sefyllfa ariannol ar gyfer y ddwy flynedd ganlynol hefyd, fel ein bod yn gallu gosod sefyllfa 2019/20 yn ei gyd-destun ehangach a chynllunio sut yr ydym am fedru cwrdd â'r sialens o'n blaenau.
3. Ers penderfynu ar Strategaeth Ariannol 2018/19 - 2020/21 yn Chwefror / Mawrth 2018, bu gwaith manwl i ail-asesu ymrwymadau cyllidebol tebygol ac asesu amrediad o bosibiliadau. Er mwyn adnabod yr her ariannol i'r Cyngor, ymhellach i ymchwil trylwyr, nodwyd amrediad o ragdybiaethau am lefel 'setliad' grant y Llywodraeth a gofynion gwario gwasanaethau'r Cyngor, er mwyn darparu senarios ariannol tebygol ar gyfer 2019/20 - 2021/22. Cyflwynir y senarios ariannol yma i'r Cabinet / Cyngor ar ffurf y siart ffan ("twmffat tebygolrwydd") er mwyn adnabod yr angen tebygol am arbedion (neu'r 'bwlch ariannu') hyd at 2021/22.

Tybiaethau Grant Llywodraeth am 2020/21 a tu hwnt

4. Wrth daflunio, y ffigur sydd fwyaf ansicr yw'r ffigur grant y byddwn yn ei dderbyn gan Lywodraeth Cymru o 2020/21 ymlaen. Gan mai 'setliad' grant canolog sy'n ariannu 72% o gyllideb net y Cyngor, mae'r elfen yma yn allweddol wrth geisio taflunio'r sefyllfa ariannol.
5. Mae cyfuniad o ffactorau economaidd a gwleidyddol yn penderfynu faint o grant fyddwn yn ei dderbyn - cyflwr yr economi, polisiau gwario a threthu, a dewisiadau blaenoriaethu Llywodraethau'r DU a Chymru. Er mwyn diweddarau'r tafluniad o'r hyn allai ddigwydd, rydym wedi defnyddio'r wybodaeth ddiweddaraf sydd ar gael i ni rwan, yn cynnwys y rhagolygon ar gyfer cyfanswm gwariant cyhoeddus y DU yng Nghyllideb diweddaraf y Canghellor.
6. Mae Llywodraeth y DU yn mynd i gynnal Adolygiad Gwariant yn ystod 2019, sy'n ffactor sylfaenol allasai newid y sefyllfa'n arwyddocaol. Hwn fydd yn penderfynu sut caiff cyfanswm gwariant cyhoeddus y DU ei rannu rhwng gwahanol feysydd (a drwy hynny, faint fydd Llywodraeth Cymru yn ei dderbyn drwy weithrediad "fformiwla Barnett"). Tebyg nad oes angen ychwanegu 'chwaith bod yna haen ychwanegol o ansicrwydd am yr effaith gaiff 'Brexit' ar yr economi a, drwy hynny, faint o arian fydd ar gael i'w wario ar wasanaethau cyhoeddus.

7. Er gwaetha'r ffaith bod cymaint o ffactorau economaidd a gwleidyddol yn ansicr, mae rhaid i'r Cyngor gynllunio'n ddarbodus yn y cyfamser ar gyfer amrediad o sefyllfaoedd posibl. Er mwyn modelu faint fydd o bosib yn cael ei ddyrannu i lywodraeth leol yng Nghymru, ar gyfer y rhagolygon yn yr adroddiad yma rydym wedi gwneud rhagdybiaethau rhesymol am sefyllfa adrannau perthnasol o Lywodraeth y DU, effaith fformiwla Barnett, yr incwm gaiff Llywodraeth Cymru o'r trethi datganoledig newydd, a dewisiadau Llywodraeth Cymru (faint o 'warchodaeth' a roddir i Iechyd a phrosiectau eraill).
8. O ran y ffactor olaf yma, gan nad oes gennym unrhyw wybodaeth bendant am fwriadau Llywodraeth Cymru rydym wedi gorfod rhagdybio y byddant yn parhau â'r un math o drywydd cyllido ag a welwyd dros y blynyddoedd diwethaf (h.y. rhoi llai o gynnydd i lywodraeth leol o'i gymharu â'r Gwasanaeth Iechyd ac amryw feysydd gwario eraill dan ofal y Llywodraeth). Pe baent yn newid y polisi yma fel bod gwasanaethau'n cael eu hariannu'n fwy cyfartal, byddem angen llawer llai o arbedion pellach yn 2020/21 a 2021/22.


Gofynion Gwario'r Cyngor

9. Paratowyd y wybodaeth ariannol mwyaf diweddar am ofynion gwario'r Cyngor ar gyfer cyllideb 2019/20, yn seiliedig ar wir 'chwyddiant' (lefel benodol o chwyddiant ar gyflogau a chyllidebau eraill) a thueddiadau perthnasol, ynghyd â'r 'pwysau ar wasanaethau', gan gynnwys demograffeg (ystadegau nifer disgyblion a nifer pobl hŷn) a bidiau am dŵf anorfod mewn gwariant, net o addasiadau posib er mwyn isafu'r gofyniad ar y gyllideb.
10. Rydym wedi adolygu ein rhagolygon chwyddiant tâl a chwyddiant arall, ac wedi adolygu'r rhagolygon o ran galw am wasanaethau. Wrth gwrs, mae sail y rhagolygon hyn yn llai dibynadwy wrth ddarogan ymhellach i'r dyfodol.

Senarios Tebygol – angen am arbedion


11. Mae ffigyrau terfynol mewn llaw ar gyfer 2019/20, ac ymddengys gellid mantoli'r gyllideb drwy gynhaeafu £5.4m o arbedion ynghyd â chynnydd o 5.5% yn lefel y Dreth Cyngor - fydd oddeutu lefel cynnydd cyfartalog awdurdodau lleol Cymru, fel crybwyllwyd yn tybiaethau'r cynllun ariannol tymor canolog blaenorol.
12. Cyflwynir siart ffan isod ar gyfer y dair blynedd i ddod (2019/20 - 2021/22) sy'n gosod darlun realistig a darbodus o'r hyn allasai ein taro. Mae'r siart ffan "twmffat tebygolrwydd" yn dangos cyfuniad o'r senarios posibl, gan ddangos canlyniadau mewn bandiau 10%.
13. Mae awdurdodau lleol yn tueddu i ddatgan ei 'bwllch ariannu' gros, cyn codi'r gyfradd Treth Cyngor. Mae'r 'bwllch ariannu' a gyfrifir yma gyntaf yn fwlch net, sy'n dangos faint o arbedion fydd angen i'r Cyngor gyflawni er mwyn mantoli'r gyllideb ar ôl codi'r Dreth tua'r cynnydd cyfartalog. Wedyn, mae'r ail siart ffan yn dangos y bwllch gros i bwrpas cymharu ag awdurdodau lleol eraill.

Bwlch ariannol posibl Cyngor Gwynedd hyd at 2021/22



Bwlch ariannol posibl Cyngor Gwynedd hyd at 2021/22

Tud. 141



Strategaeth Arbedion 2020/21 a 2021/22

14. Gallasai fod her sylweddol o flaen y Cyngor dros y 2 flynedd 2020/21 a 2021/22. Gweler o'r siart ffan bwllch net mae'n bosib y bydd angen strategaeth i ganfod cyfanswm posibl hyd at £10m o arbedion ychwanegol erbyn 2020/21 a 2021/22.
15. Gydag ansicrwydd yn deillio o Adolygiad Gwariant Llywodraeth San Steffan, mae'n bosib i'r canlyniad fod tu allan i'n 'senarios gorau / gwaethaf' ni ar y siart. Fodd bynnag, os bydd y senario 'canolog' yn digwydd, byddai angen £3.4m o arbedion ychwanegol erbyn 2020/21 a £2.2m pellach erbyn 2021/22 (cyfanswm o £5.6m), a bydd elfen o gynnyrch arbedion 2019/20 (o bosib hyd at £4.2m) ar gael erbyn 2020/21 a 2021/22. Wrth ddiystyru 10% o'r canlyniadau mwyaf ymylol, gall cyfanswm y bwllch am y ddwy flynedd amrywio rhwng £1.1m a £10m.
16. Tra dylai'n trefniadau ni anelu i fod yn ddigon hyblyg er mwyn gallu gwireddu hyd at £10m o arbedion, wedi profiad strategaeth arbedion 2019/20, gwyddom pa mor heriol oedd adnabod llai na hanner y swm yna o arbedion. Mae aelodau'r Cabinet wedi ystyried yr effaith ar wasanaethau i bobl Gwynedd a gweld fod y llinell lle na ellid torri ymhellach yn agosau.
17. Rydym wedi casglu fod y darlun cyffredinol yn ymddangos yn un difrifol iawn i sawl awdurdod lleol yng Nghymru, sy'n wynebu cryn bwysau eleni, a'u sefyllfa ariannol yn mynd yn fwy bregus. Mae rhai cynghorau wedi mentro a profi llynedd bod dim cyfyngiad 5% ar y codiad treth Cyngor erbyn hyn, ond cofier byddai codiad treth o 5% ychwanegol yn golygu dim ond tua £3.7m ychwanegol i goffrau'r Cyngor. Byddai'r swm hynny ddim yn cwrdd â chwyddiant y Cyngor, tra byddai codiad treth yn rhoi pwysau ar bobl Gwynedd.
18. Yn ddelfrydol, byddai'r Cyngor awydd gweithredu strategaeth ariannol dros 4 neu 5 mlynedd. Yn anffodus, mae hynny'n gwbl anymarferol, gan fod Llywodraeth Cymru wedi darparu setliad am un flwyddyn heb ffigwr mynegol am y flwyddyn ddilynol (yn ddealladwy efallai, yn wyneb ansicrwydd ariannol cenedlaethol oherwydd Adolygiad Gwariant Llywodraeth y DU yn ystod 2019, ayb).

Cynllun Ariannol Tymor Canolig am 3 blynedd

19. Felly, mae'n synhwyrol i ddelio gyda chyllideb 2019/20 rŵan, a parhau gyda'r strategaeth arbedion i ymateb yn fwy manwl erbyn y ddwy flynedd ddilynol (2020/21 a 2021/22) pryd byddwn wedi adnabod y bwllch ariannu perthnasol gyda mwy o sicrwydd.
20. Yn y cyfamser, tra'n **anelu i fod yn ddigon hyblyg er mwyn gallu gwireddu hyd at £5.6m o arbedion pellach** (achos ganolog y rhagolygon) **dros y ddwy flynedd 2020/21 a 2021/22, gan sicrhau fod pob opsiwn effeithiolrwydd yn cael ei ganfod**, rhaid cydnabod bydd hynny'n hynod heriol a dylid **pwysu ar Lywodraeth Cymru i ddarparu setliad grant briodol** am 2020/21 a thu hwnt.
21. O fewn y gyfundrefn hyn, byddwn yn parhau i weithredu **egwyddorion cyson o ran ystyried cynnydd yn y Dreth Cyngor yn agos i gynnydd gyfartalog awdurdodau lleol Cymru, uchafu'r arbedion effeithlonrwydd y gellir eu gwireddu** (er mwyn osgoi toriadau pellach), **a gweithredu toriadau ddim ond fel bydd rhaid**, er mwyn diwallu'r balans fydd ar ôl o'r bwllch ariannu.

ATODIAD 9

ASESIAD EFFAITH O SAFBWyNT CYDRADDOLDEB

1. Mae'r gyllideb a amlinellir yma'n ceisio parhau i ddarparu'r deilliannau priodol i holl drigolion y sir, ond gan fu cynnydd annigonol yn ein incwm i gwrdd â chwyddiant, ayb, mae'n rhaid gweithredu'r cynlluniau arbedion roedd wedi'u cymeradwyo eisoes ynghyd â'r pecyn o gynlluniau ychwanegol sy'n Atodiad 3.
2. Gydag arbedion, mae posibilrwydd i ni gael ardrawiad fyddai'n effeithio'n anghymesur ar rai gyda nodweddion gwarchodedig, ond mae'r adrannau sy'n berchen ar y cynlluniau arbedion unigol wedi cynnal asesiadau effaith priodol ynghylch y penderfyniadau ariannol ar arbedion a thoriadau gerbron yma. Lle'n briodol, yn Atodiad 3, gwelir sylwadau gyferbyn â'r cynlluniau unigol, neu linc i asesiadau manwl.
3. Ein nod oedd sicrhau fod ein penderfyniadau ariannol yn cydymffurfio â dyletswyddau'r Ddeddf Cydraddoldeb, sef:
 - Diddymu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth anghyfreithiol, ac unrhyw ymddygiad arall sydd wedi ei wahardd dan y Ddeddf.
 - Hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a'r rhai nad ydynt.
 - Meithrin perthynas dda rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r rhai nad ydynt.Wrth asesu, roedd yr adrannau perthnasol wedi ceisio canfod sut i wneud y gorau o bob cyfle i wella cydraddoldeb yn ogystal â cheisio osgoi neu liniaru unrhyw effaith negyddol hyd orau eu gallu.
4. Wrth gynllunio ein cyllidebau, ar gyfer parhad gwasanaethau'r Cyngor mae ein cyfrifwyr wedi rhoi ystyriaeth i gydraddoldeb ar bob lefel, gan ddefnyddio data a thystiolaeth am ddemograffi a thueddiadau wrth gynllunio ar lefel strategol. Yn yr un modd (ond yn fwy penodol) wrth ddod i benderfyniad ar gynlluniau arbedion unigol mae penaethiaid adrannau'r Cyngor wedi casglu data, dadansoddi effaith cynlluniau a monitro'n briodol.
5. Mae gennym gyfundrefnau clir ar gyfer darganfod arbedion, sydd yn cynnwys asesiad llawn o effaith yr arbedion o safbwynt cydraddoldeb. Mae'r adran berthnasol wedi dadansoddi pob cynnig unigol, gan nodi os oes angen cynnal asesiad effaith wrth ddatblygu'r prosiect. Dyma fydd y drefn gyda'r arbedion effeithlonrwydd pellach erbyn 2019/20.
6. Mae'r gyllideb a argymhellir yn gwneud mwy na chwrdd â chostau chwyddiant. Mae o hefyd yn ceisio sicrhau fod pwysau cyllidebol anorfod sy'n disgyn ar wasanaethau (oherwydd galwadau uwch a roddir arnynt, yn sgil nifer uwch o gleientau, disgyblion, a.y.b.) hefyd yn cael eu cyfarch trwy wneud penderfyniadau cyllidebol cydwybodol a rhesymol (gweler y gofynion gwario ychwanegol, gan gynnwys 'demograffi', yn rhan 3 o'r adroddiad).
7. Mae gan bob gwasanaeth yr hawl i gyflwyno cais am adnodd os yw'n ystyried fod angen cyllideb ychwanegol i sicrhau fod gwasanaethau'n parhau. Mae'r symiau a welir o dan y pennawd "pwysau ar wasanaethau" yn gydnabyddiaeth fod y Cyngor yn darparu cyllid digonol er mwyn sicrhau nad yw ein trefniadau ariannol yn cael effaith andwyol ar lefel y gwasanaethau a ddarperir. Fe geir manylion llawn yn Atodiad 2 ac fe welir fod rhan sylweddol (£1,786,350) o'r cyfanswm bidiau refeniw parhaol (£3,060,030) yn mynd i'r maes gofal cymdeithasol, a bod mwyafrif y gweddill (£1,139,640) ohono'n mynd at anghenion arbennig disgyblion ysgolion.

Dyma gyflwyniad am Aseidiadau Effaith Cydraddoldeb gan y Swyddog Polisi a Cydraddoldeb arbenigol, ynghyd a'i sylwadau yn benodol am effaith yr arbedion (nid yw wedi sylwebu ar agweddau eraill bositif o'r gyllideb crybwyllir uchod, megis 'bidiau' gofal).

Beth yw asesiad effaith cydraddoldeb?

Mae'n bwysig iawn fod ystyriaeth yn cael ei roi i bobl hefo'r 9 nodwedd cydraddoldeb sy'n cael eu gwarchod dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 wrth wneud penderfyniadau ynglŷn ag arbedion. Y naw nodwedd yma yw - oedran, rhyw, hil, crefydd neu gred, cyfeiriadedd rhywiol, anabledd, ailbennu rhywedd, beichiogrwydd a mamolaeth, a phriodas a phartneriaeth sifil. Mae nifer o'r nodweddion hyn yn gyffredin i holl bobl Gwynedd e.e. nid oes unrhyw un o'n trigolion sydd heb oedran neu hil. Mae'r lleill yn nodweddion sy'n effeithio canran o bobl Gwynedd ond mae'n bwysig cofio fod pobl sydd â pherthynas hefo'r unigolyn hefyd yn cael eu diogelu e.e. teulu, ffrindiau, gofaluwr (yn achos anabledd) ayb. Heb ystyried yr effaith ar y nodweddion yma nid yw'n bosib inni sicrhau tegwch i bobl Gwynedd.

Mae'r Ddeddf hefyd yn rhoi dyletswydd gyffredinol arnom ni fel Cyngor i roi sylw dyledus i'r angen i:

1. Diddymu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth anghyfreithiol ac ymddygiad arall sydd wedi ei wahardd gan y ddeddf
2. Hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchoddedig berthnasol a'r rhai nad ydynt
3. Meithrin perthynas dda rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchoddedig a'r rhai nad ydynt

Dylid nodi fod y ddyletswydd gyffredinol ond yn berthnasol i 8 allan o'r naw nodwedd (nid yw'n cynnwys priodas a phartneriaeth sifil).

Mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi dyletswyddau pellach ar fudiadau cyhoeddus yng Nghymru, sef dyletswyddau penodol. Un o'r dyletswyddau hynny yw gwneud asesiad effaith cydraddoldeb wrth ystyried cyflwyno polisi newydd neu wneud newidiadau neu doriadau i wasanaeth. Mae angen tystiolaeth ddigonol i ystyried a fyddai'r penderfyniad yn effeithio'n anghymesur ar bobl yn rhannu un nodwedd warchoddedig neu fwy. Mae angen hefyd asesu effaith ar ei allu i gydymffurfio a'r ddyletswydd gyffredinol. Gofynnir i ni sicrhau fod tystiolaeth berthnasol er mwyn deall effaith debygol neu wirioneddol polisiau, gan gynnwys barn pobl hefo nodweddion gwarchoddedig.

Faint o bwyslais a ddylid ei roi ar asesiad effaith cydraddoldeb?

Ar ôl ystyried hyn, rhaid i'r penderfynwyr roi sylw dyledus (hy pwysau priodol) i ganlyniadau aseidiadau o'r fath. Mae hyn yn ei gwneud yn ofynnol ystyried gweithredu i ymdrin ag unrhyw broblemau a nodwyd, fel ymdrin ag effeithiau negyddol, lle bo hynny'n bosib. Nid yw'r ffaith fod asesiad yn dangos effaith felly'n eich atal rhag torri lefel gwasanaeth, ond mae'n angenrheidiol i'r Cyngor feddwl am bob ffordd posib i atal neu leddfu unrhyw effeithiau negyddol.

Asesu effaith yr arbedion

Mae'r Aseidiadau Effaith Cydraddoldeb i'w cael wrth glicio ar linc wrth ymyl y cynnig ar y tabl. Mi wnewch chi sylwi nad oes asesiad effaith cydraddoldeb wedi ei wneud ar bob cynnig. Roedd cyfrifoldeb ar bob un o'r gwasanaethau, wrth gwrs, i edrych a oedd effaith wrth baratoi i gynnig eu cynigion. Os nad oes effaith ar bobl hefo nodweddion gwarchoddedig yn cael ei amlygu nid oes angen gwneud asesiad effaith cydraddoldeb. Weithiau roedd yn dod yn glir nad oedd effaith wrth wneud yr asesiad ac mae rhai aseidiadau yma wedi eu cyflwyno mewn ffurf gryno. Er bod y Swyddog Cydraddoldeb a Pholisi wedi rhoi mewnbyn, cyfrifoldeb yr Adran oedd penderfynu os oedd angen gwneud asesiad effaith cydraddoldeb. Mae crynodeb ar gael ar yr tabl hefyd ond

mae'n hynod bwysig fod pawb yn darllen yr asesiadau llawn er mwyn cael darlun cyflawn o'r effaith ar wahanol garfannau o bobl.

Canlyniadau'r Aseidiadau Effaith Cydraddoldeb

O edrych ar yr asesiadau effaith cydraddoldeb mi fyddwch chi'n sylwi fod y cynigion yn cael mwy o effaith ar rai nodweddion gwarchoddedig na'i gilydd. Rhaid pob tro ystyried yr effaith gronnu ar bobl mewn sefyllfa o'r fath. Mae rhai o'r asesiadau'n dangos mai ar bobl anabl, pobl hŷn a phlant mae'r effaith fwyaf, boed hwnnw'n negyddol neu bositif. O gofio fod pobl hefo perthynas hefo person â nodwedd warchoddedig hefyd yn cael eu diogelu, dylid nodi'r effaith felly ar ofalwyr a rhieni yn ogystal. Wedi dweud hyn, mae angen cofio fod y Cyngor wedi ystyried nifer fawr o arbedion eraill ac wedi ceisio dewis y rhai oedd a lleiaf o effaith ar y boblogaeth yn gyffredinol ynghyd a pobl hefo nodweddion cydraddoldeb. Mae'r asesiadau hefyd yn dangos y mesurau fydd yn cael eu cymryd, os yn bosib, i leddfu unrhyw effaith negyddol a amlygir.

Ffactor arall i'w ystyried yw tlodi. Er nad yw'n nodwedd warchoddedig mae ystadegau'n dangos fod pobl hefo rhai nodweddion cydraddoldeb yn fwy tebygol o fod yn dlawd na gweddill y gymdeithas. Mae hyn yn cynnwys teuluoedd hefo person anabl ynddynt, rhai pobl o leiafrifoedd ethnig a theuluoedd hefo plant. Bydd rhai o'r cynigion yn cael effaith anghymesur ar rai o'r bobl hyn.

Rhaid hefyd ystyried lleoliad wrth edrych ar yr effaith. Mae rhai o'r cynigion yn effeithio ardaloedd penodol ond nid oes unrhyw effaith cronnu amlwg wedi ei adnabod ar hyn o bryd. Bydd angen asesu hyn ymhellach wrth ddatblygu'r asesiadau fel mae'r cynigion yn aeddfedu.

Mae'n bwysig hefyd ystyried yr effaith mae'r arbedion yma'n eu cael ar aelodau staff. Bydd rhai aelodau staff yn colli eu swyddi neu'n gorfod newid eu gwaith. Gan fod oddeutu 70% o weithlu'r Cyngor yn ferched mae'n anorfod y bydd yr arbedion yn cael mwy o effaith ar ferched.

ATODIAD 10

DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL (CYMRU) 2015

1. Mae'r gwaith o gynllunio a pharatoi'r argymhellion wedi digwydd o fewn cyd-destun gofynion y Ddeddf. Er bod yr argymhellion yn deillio o sefyllfa ariannol anodd, mae'r Cyngor wedi gweithredu ar seiliau'r egwyddor o weithredu mewn modd sydd yn cyfarch y ddyletswydd statudol yn Adran 3 i ymgymryd â datblygu cynaliadwy a chyflawni Amcanion Llesiant y Cyngor. Mae hyn yn cael ei gyfarch wrth adnabod a chloriannu'r dewisiadau o ran arbedion, ond hefyd wrth benderfyniadau a dewisiadau o safbwynt cynnal buddsoddi mewn gwasanaethau.
2. Prif gasgliadau am gyllideb 2019/20 ynglŷn â'r 7 nod llesiant:
 - Llewyrchus – Niwtral
 - Cydnerth - Positif (agwedd darbodus, hir-dymor at ariannu gwasanaethau)
 - Iachach – Positif (ariannu Unedau Dementia, a gofynion eraill 'Gofal')
 - Mwy Cyfartal – Positif (trethu er mwyn ariannu gwasanaethau 'lles')
 - Cymunedau Cydlynus – Niwtral
 - Diwylliant a'r Gymraeg – Positif (drwy ariannu gwasanaethau dwy-ieithog)
 - Byd-eang Gyfrifol – Niwtral
3. Mae'r gyllideb hon yn adlewyrchu'r pum ffordd o weithio canlynol y mae'r Cyngor yn ystyried wrth gymhwyso datblygu cynaliadwy.
 - Edrych i'r tymor hir – Mae gyllideb yn cynllunio ar gyfer y dyfodol, gan adnabod anghenion a galw am wasanaethau yn y dyfodol, a chymryd agwedd strategol i sicrhau bod gwasanaethau'n gynaliadwy.
 - Cymryd agwedd integredig - Mae'r cynigion cyllideb yn annog ffyrdd o weithio gyda phartneriaid, lle mae hynny'n fwy cynaliadwy.
 - Cynnwys y boblogaeth mewn penderfyniadau - Mae rhan o'r broses gyllidebu a'r strategaeth arbedion wedi cynnwys ymgysylltu â thrigolion, cwsmeriaid a phartneriaid.
 - Gweithio gydag eraill mewn ffordd gydweithredol - Lle gellir darparu gwasanaethau gwell trwy gydweithredu, mae'r broses gyllidebol a'r strategaeth arbedion yn annog hyn.
 - Deall problemau a'u hatal - Mae'r broses gyllidebu yn hwyluso dealltwriaeth o'r sefyllfa ariannol, fel y gellir mynd i'r afael â gwreiddiau materion. Hefyd, mae'r ymgynghoriad cyhoeddus a'r 2 gyfres o Weithdai Aelodau wedi hwyluso dealltwriaeth o'r strategaeth arbedion ariannol.
4. Ynglŷn â chynlluniau arbedion ariannol penodol, fel rhan o'r gyfundrefn arbedion gorfforaethol ac adrannol, lle'n briodol bu asesiad llesiant penodol fesul cynllun unigol, ac ystyriaeth o hynny yn y gweithdai trefnwyd i'w craffu ac i flaenoriaethu arbedion i'w gweithredu.
5. Yn gyffredinol, wedi'i gyplysu gyda Chynllun y Cyngor a'r Amcanion Llesiant, mae'r gyllideb yma'n cefnogi'r Cyngor i wireddu amcanion strategol.



Canlyniadau ymgynghoriad cyhoeddus Strategaeth Ariannol Cyngor Gwynedd

Ionawr 2019

www.gwynedd.llyw.cymru/strategaethariannol

Tudalen Gynnwys

1. Cefndir	3
2. Cynnal yr arolwg	5
3. Trosolwg o'r ymatebwyr i'r arolwg	6
4. Methodoleg dadansoddi'r canlyniadau	10
5. Prif negeseuon	11
6. Canlyniadau'r arolwg yn ei gyfanrwydd	12
7. Cwestiwn Treth Cyngor: Cymhariaeth o ganlyniadau'r gwahanol grwpiau (oedran, rhyw ayyb.)	16
8. Ymatebion gan sefydliadau / busnesau	21
Atodiad A: Sylwadau ar y cynigion gan ymatebwyr oedd am godi'r Dreth Cyngor o fwy na 5.5%	22
Atodiad B: Sylwadau ar <u>gynigion penodol</u> gan yr holl ymatebwyr	33
Atodiad C: <u>Sylwadau cyffredinol</u> gan yr holl ymatebwyr	40
Atodiad Ch: Sylwadau gan fusnesau / sefydliadau	44
Atodiad D: Gohebiaeth Cyngor Cymuned Arthog	50

1. Cefndir

1.1 Mae'r sefyllfa ariannol fydd yn wynebu Cyngor Gwynedd dros y blynyddoedd nesaf yn fwy heriol nag erioed.

1.2 Yn ystod 2019/20 yn unig, bydd y Cyngor yn wynebu bwlch ariannol o bron i **£13 miliwn**. Mae hyn oherwydd:

	£m
Chwyddiant	9.5
Mwy o blant a phobl hŷn angen help	3.0
Gostyngiad eto yn yr arian yr ydym yn ei gael gan y Llywodraeth	0.5
Cyfanswm	13.0

1.3 Gan fod Gwynedd wedi bod yn torri ar wariant ers dros ddegawd, mae'r Cyngor bellach yn cyrraedd pendraw'r hyn sy'n bosib heb orfod gweithredu toriadau dwfn. Er mwyn ymdopi â'r sefyllfa heriol, mae adrannau'r Cyngor wedi bod yn chwilio am ffyrdd o leihau eu gwariant neu greu incwm ychwanegol.

1.4 Mae Cyngor Gwynedd eisoes wedi holi barn pobl Gwynedd ynglŷn â pha wasanaethau lleol sydd bwysicaf iddyn nhw yn ystod ymarferiad '**Pa wasanaethau sy'n bwysig i chi?**' a gynhaliwyd rhwng **Medi - Tachwedd 2018**.

1.5 Mae canlyniadau'r ymarferiad '**Pa wasanaethau sy'n bwysig i chi?**' yn dangos yn glir fod y gwasanaethau mae'r Cyngor yn ei ddarparu yn bwysig neu'n hanfodol bwysig i bobl Gwynedd neu i garfan neu gymuned benodol o fewn y sir. Mewn ymateb i'r hyn mae pobl Gwynedd wedi ei ddweud, mae'r Cyngor yn bwriadu:

- **gwarchod gwasanaethau rheng flaen** drwy arbed £2 miliwn pellach o wariant ar wasanaethau canolog a gwasanaethau "swyddfa gefn" a drwy ddarganfod ffyrdd newydd o ddarparu gwasanaethau fydd ddim yn effeithio ar y cyhoedd;
- **gwarchod Gofal ac Addysg** (y ddau faes sy'n gyfrifol am bron i 2/3 o wariant y Cyngor) yn benodol drwy beidio gofyn i ysgolion gyfrannu at arbedion pellach yn 2019/2020 a drwy gyfyngu cyfraniad y ddau faes yma i arbedion effeithlonrwydd neu arbedion fydd yn cael effaith ymylol yn unig;
- **gwarchod y gyllideb Trafnidiaeth Gyhoeddus** fel maes sy'n flaenoriaeth i grwpiau sydd â nodweddion gwarchodedig (pobl dan 25 oed, pobl dros 65 oed a phobl anabl yn benodol);
- **cyfyngu'r toriadau sy'n effeithio ar y Sector Busnes** i'r lleiafswm posib.

1.6 Mae'r Cyngor eisoes wedi bod yn cynllunio arbedion dros y blynyddoedd a fu, a drwy fynd ar ôl grantiau pellach mae modd lleihau'r bwlch o **£13 miliwn** i **£6.8 miliwn**.

1.7 Mae'r Cyngor hefyd wedi adnabod cyfleoedd ar gyfer lleihau costau swyddfa gefn ymhellach ac yn obeithiol y bydd modd darganfod arbedion eraill fydd yn arbed swm o **£2 miliwn**.

1.8 Dim ond dwy ffordd sy'n agored wedyn i'r Cyngor gwrdd â'r bwlch o **£4.8 miliwn** sy'n weddill ar gyfer 2019/20 – **sef arbed mwy a/neu gynyddu'r Dreth Gyngor**:

- **Arbed mwy** – mae'r Cyngor o'r farn bod modd cyflawni arbedion pellach fyddai'n cynhyrchu £1 miliwn yn 2019/20.
- **Cynyddu'r Dreth Gyngor** – byddai arbed £1 miliwn yn fwy drwy wireddu'r cynigion yn gadael £3.8 miliwn i'w ddarganfod o Dreth Gyngor. Byddai hyn yn golygu cynnydd o **5.5%** yn y Dreth Gyngor.

1.9 Pwrpas ymgynghoriad **Strategaeth Ariannol Cyngor Gwynedd** oedd:

- egluro'r sefyllfa ariannol sy'n wynebu'r Cyngor i bobl a sefydliadau Gwynedd;
- cyflwyno'r ddau opsiwn oedd ar gael i'r Cyngor – sef cyflawni mwy o arbedion a/neu gynyddu'r Dreth Gyngor;
- cynnig cyfle i bobl a sefydliadau Gwynedd ddweud eu dweud ar y 65 o gynigion sy'n cael eu hystyried gan y Cyngor;
- darparu cyfleoedd priodol i unigolion, grwpiau cymunedol, grwpiau diddordeb a sefydliadau nodi unrhyw effaith bosib ar un o'r grwpiau nodwedd warchodedig.

1.10 Fel cyflwyniad i'r holiadur eglurwyd:

- y bydd y Cyngor yn wynebu sefyllfa ariannol hynod heriol dros y blynyddoedd nesaf;
- y bydd canlyniadau'r ymgynghoriad yn cael eu cyflwyno i gynghorwyr Gwynedd fel gwybodaeth fydd yn ddefnyddiol iddynt wrth ystyried sut orau i ddyrannu'r symiau annigonol o arian fydd ar gael i gyllido gwasanaethau lleol rhwng 2019/20 a 2022/23;
- mai cyfrifoldeb cynghorwyr Gwynedd fydd pwysu a mesur yr holl wybodaeth a thystiolaeth a ddaw i law.

2. Cynnal yr arolwg

2.1 Cynhaliwyd yr ymgynghoriad dros gyfnod o **4 wythnos** rhwng 4 - 31 Ionawr, 2019.

2.2 Roedd cyfle i drigolion a sefydliadau gymryd rhan **mewn dwy ffordd**:

i) Cwblhau holiadur '**Strategaeth Ariannol Cyngor Gwynedd**' mewn un o ddwy ffordd:

- Ar-lein drwy ymweld â gwefan **www.gwynedd.llyw.cymru/strategaethariannol**;
- Llyfryn a **holiadur papur** a oedd ar gael drwy Siop Gwynedd, llyfrgelloedd a chanolfannau hamdden y Cyngor.

ii) Anfon llythyr neu e-bost gydag unrhyw adborth neu sylwadau.

2.3 Defnyddiwyd ystod eang o ddulliau i hyrwyddo a chodi ymwybyddiaeth o'r cyfleoedd i gymryd rhan yn yr arolwg gan gynnwys:

- cyhoeddi cyfres o **ddatganiadau i'r wasg** a ddefnyddiwyd fel sail i erthyglau yn y papurau newydd lleol a rhanbarthol (Daily Post, Cambrian News, North Wales Chronicle);
- ymgyrch ragweithiol ar y **cyfryngau cymdeithasol** a oedd yn cynnwys cyfres gyson o negeseuon a chlipiau fideo a hyrwyddwyd drwy gyfrifon **Twitter, Facebook a Instagram** y Cyngor a drwy sawl partner;
- cylchredeg manylion yr ymgynghoriad i Gynghorau Cymuned;
- cylchredeg neges sy'n codi ymwybyddiaeth o'r ymarferiad i sawl corff ei raeadru i'w haelodau gan gynnwys aelodau:
 - **Grŵp Cyswllt y Trydydd Sector yng Ngwynedd**;
 - **Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn**;
 - **Rhwydwaith Busnes Gwynedd**;
 - **Ffermwyr Ifanc Eryri a Meirionnydd**;
 - **Undeb Myfyrwyr Prifysgol Bangor**;
 - **Yr Urdd**;
 - **Age Cymru Gwynedd a Môn**;
 - **sefydliadau celfyddydol**;
 - **grwpiau amgylcheddol** ayyb);
- cysylltu'n uniongyrchol â grwpiau a sefydliadau oedd yn cael eu heffeithio gan un neu fwy o'r 65 cynnig.

3. Trosolwg o'r ymatebwyr i'r arolwg


3.1 Dros gyfnod yr ymarferiad fe wnaeth **588** o bobl Gwynedd a **21** o sefydliadau / busnesau lleol fanteisio ar y cyfle i lenwi holiadur.

3.2 Rhyw

3.2.1 O'r unigolion wnaeth lenwi'r holiadur roedd:


- **279** yn ferched;
- **259** yn ddynion;
- **2** yn nodi 'Arall';

3.2.2 Yn ychwanegol i hyn, fe wnaeth **48** o unigolion ddatgan **fod well gennynt beidio dweud neu ddewis peidio ateb y cwestiwn**.



3.3 Oedran

3.3.1 Mae'r graff isod yn dangos nifer a chanran yr ymatebwyr fesul grŵp oedran. Dewisodd **33** unigolyn i **beidio ateb y cwestiwn**.




3.4 Iaith

3.4.1 O'r unigolion wnaeth ymateb, nododd:

- **310** (52.7%) mai'r **Gymraeg** yw eu hiaith gyntaf;
- **206** (35.0%) mai **Saesneg** yw eu hiaith gyntaf;
- **6** (1.0%) eu bod yn **ddwyieithog yn y Gymraeg a'r Saesneg**;
- **5** (0.9%) eu bod yn siarad iaith gyntaf '**Arall**';
- **61** (10.4%) bod gwell **ganddynt beidio â dweud / heb ateb y cwestiwn**.


3.4.2 Mae'r graffiau isod yn dangos nifer a chanran yr ymatebwyr yn ôl iaith gyntaf a chanran cefndir ieithyddol pobl Gwynedd.

Graff 4: Iaith gyntaf yr ymatebwyr*



**Nid yw'r graff uchod yn cymryd i ystyriaeth y nifer wnaeth ateb 'gwell gennyf beidio â dweud' na'r rhai a ddewisiodd i beidio ateb y cwestiwn.*

Graff 5: Canran o boblogaeth Gwynedd 3 oed a throsodd sydd wedi nodi eu bod yn gallu siarad Cymraeg**




***Ffynhonnell: Cyfrifiad 2011*

3.5 Anabledd


3.5.1 Mae **graff 6** yn dangos nifer a chanran o ymatebwyr a nododd eu bod yn ystyried eu hunain yn anabl. Dewisodd **83** o unigolion beidio ateb y cwestiwn neu ddewis yr opsiwn 'gwell gennyf beidio â dweud'. Er nad oes modd gwneud cymhariaeth uniongyrchol, mae **graff 7** yn dangos fod **9.7%** o bobl Gwynedd wedi datgan fod ganddynt gyflwr sy'n "cyfyngu'n sylweddol ar eu gweithgareddau dydd i ddydd" sy'n cymharu gyda **9.5%** o ymatebwyr yr arolwg a nododd eu bod yn ystyried eu hunain yn anabl.

Graff 6: Nifer a chanran o ymatebwyr a nododd eu bod yn ystyried eu hunain yn anabl*



**Nid yw'r graff uchod yn cymryd i ystyriaeth y nifer wnaeth ateb 'gwell gennyf beidio â dweud' na'r rhai a ddewisiodd i beidio ateb y cwestiwn.*

Graff 7: Canran o bobl Gwynedd wnaeth ddatgan fod ganddynt gyflwr sy'n "cyfyngu'n sylweddol ar eu gweithgareddau o ddydd i ddydd" **




***Ffynhonnell: Cyfrifiad 2011*

3.6 Ardal Leol

3.6.1 Mae'r tabl a'r graff isod yn dangos nifer a chanran yr ymatebwyr yn ôl ardal leol. Dewisodd **138** unigolyn i beidio rhoi cod post a rhoddodd **11** unigolyn god post oedd tu allan i Wynedd .

Graff 8: Ymatebwyr yn ôl y 10 Ardal Leol



Ardal Lleol	Nifer wedi ateb	Canran o'r holl ymatebwyr	Canran poblogaeth 11+ Gwynedd sy'n byw yn yr ardal
Bangor	40	9.1%	17.9%
Caernarfon	105	23.8%	20.0%
Dolgellau	60	13.7%	8.6%
Dyffryn Nantlle	30	6.8%	6.2%
Dyffryn Ogwen	20	4.6%	6.7%
Ffestiniog	20	4.6%	5.2%
Llŷn	56	12.8%	15.7%
Penllyn	14	3.2%	3.7%
Porthmadog	52	11.8%	10.0%
Tywyn	42	9.6%	6.1%
Heb roi cod post	138	N/A	N/A
Cyfanswm	577*	100.0%	100.0%

* Nid yw'r cyfanswm yma yn cynnwys y 11 unigolyn oedd wedi rhoi cod post tu allan i Wynedd.

4. Methodoleg dadansoddi'r canlyniadau

4.1 Cwestiwn Treth Cyngor

4.2 Roedd yr ymatebwyr a oedd wedi dewis yr opsiwn **“Dylai Cyngor Gwynedd godi'r Dreth Cyngor o fwy na 5.5% ar gyfer 2019/20 er mwyn lleihau nifer y 65 o gynigion a nodir yn Nhabl 1”** yn cael eu hannog i nodi'r cynnig/ion yr oeddent yn teimlo y dylai'r Cyngor **beidio** gweithredu arnynt.

4.3 Roedd cyfle i'r ymatebwyr a ddewisodd un o'r opsiynau isod nodi unrhyw sylwadau am y Strategaeth Ariannol neu nodi'r effaith posib ar un neu fwy o'r grwpiau nodwedd cydraddoldeb:

- *“Dwi'n cytuno fod y cynigion a nodir yn Nhabl 1 yn rhai rhesymol i'r Cyngor gyflawni a bod **cynnydd yn y Dreth Cyngor o 5.5% ar gyfer 2019/20 yn taro'r balans priodol** rhwng yr angen i warchod gwasanaethau a lefel y Dreth Cyngor”*
- *“Dylai Cyngor Gwynedd **gynyddu'r Dreth Cyngor o lai na 5.5% ar gyfer 2019/20 a gweithredu mwy o doriadau i wasanaethau** na'r 65 o gynigion a nodir yn Nhabl 1 gan dderbyn y gallasai olygu lleihad mewn gwasanaethau sy'n hollol bwysig i mi”*
- *“**Nid wyf eisiau datgan barn am y Dreth Cyngor, ond rwyf eisiau rhoi sylw ar y cynigion a nodir yn Nhabl 1”***

5. Prif negeseuon

- 5.1 Roedd tua hanner (48.6%) o'r ymatebwyr o'r farn y dylai'r Cyngor godi'r Dreth Cyngor o **lai na 5.5%** yn 2019/20 **a gweithredu mwy o doriadau i wasanaethau** na'r rhai a nodwyd ymhlith y 65 cynnig a gyflwynwyd iddynt er gwaetha'r posibilrwydd y gallai hynny olygu lleihad mewn gwasanaethau sy'n holl bwysig iddynt.
- 5.2 Roedd yr hanner arall (51.4%) naill ai o blaid cynnig y Cabinet i godi 5.5% ar y Dreth Gyngor (34.3% o'r ymatebwyr yn cefnogi hyn), neu o blaid yr opsiwn i gynyddu'r dreth fwy na hynny er mwyn peidio gorfod gwneud cymaint o arbedion.
- 5.3 Lleiafrif bychan (17.1%) oedd o'r farn y dylai'r Cyngor godi'r Dreth Cyngor **o fwy na 5.5%** yn 2019/20 er **mwyn lleihau nifer y 65 o gynigion** a gyflwynwyd iddynt. Nid oedd unrhyw gynnig yn sefyll allan fel un y dylid ei warchod gan y garfan yma gyda 43 o'r 65 cynnig yn derbyn rhwng 1 a 11 sylwad a dim un cynnig yn derbyn mwy na hynny.
- 5.4 Roedd canran uwch o ymatebwyr anabl (30%) yn nodi y dylai Cyngor Gwynedd godi'r Dreth Cyngor **o fwy na 5.5%**, o'i gymharu â'r ymatebion yn eu cyfanrwydd ond dylid cofio mai dim ond 48 o bobl anabl wnaeth ymateb.
- 5.5 Derbyniwyd 149 o sylwadau penodol am y cynigion gan y 79 unigolyn oedd yn dymuno codi'r Dreth Cyngor **o fwy na 5.5%**. Gweler **Atodiad A**.
- 5.6 Roedd cyfle ar ddiwedd yr holiadur i bawb wnaeth ymateb gynnis sylwadau. Mae'r sylwadau oedd yn cyfeirio at gynigion penodol yn **Atodiad B** a rhai cyffredinol yn **Atodiad C**.

6. Canlyniadau'r arolwg yn ei gyfanrwydd

6.1 Mae **Graff 9** yn dangos canlyniadau'r cwestiwn Treth Cyngor. Dewisodd **461** o unigolion roi eu barn ar y Dreth Cyngor.

6.2 Mae **Graff 10** yn dangos y cynigion oedd yr ymatebwyr oedd wedi dewis "*Dylai Cyngor Gwynedd godi'r Dreth Cyngor o fwy na 5.5% ar gyfer 2019/20 er mwyn lleihau nifer y 65 o gynigion a nodir yn Nhabl 1*" yn teimlo y dylai'r Cyngor **beidio** gweithredu arnynt mewn trefn poblogrwydd. Mae'r tabl yma hefyd yn nodi unrhyw sylwadau a'r effaith posib ar un neu fwy o'r grwpiau â nodweddion cydraddoldeb. Mae'r sylwadau yma i'w gweld yn llawn yn **Atodiad A**.

6.3 Roedd cyfle i bob ymatebwr gynnig sylwadau ychwanegol ar y Strategaeth Ariannol gan nodi unrhyw effaith posib ar un neu fwy o'r grwpiau a warchodir o dan y Ddeddf Cydraddoldeb 2010:

- pobl anabl;
- pobl o wahanol oedran;
- pobl o wahanol ryw;
- pobl o unrhyw hil;
- pobl hefo / heb ddaliad crefyddol neu gred;
- pobl sydd ag unrhyw gyfeiriadedd rhywiol;
- pobl sy'n drawsrywiol;
- merched beichiog neu newydd roi genedigaeth.

6.4 Derbyniwyd **134** o sylwadau ar **gynigion penodol** a **248** o **sylwadau cyffredinol** am y Strategaeth Ariannol.


6.5 Mae unrhyw **gynnig penodol** sydd wedi cael derbyn sylwad i'w gweld mewn trefn poblogrwydd yn **Atodiad B**. Mae'n bwysig nodi yma nad yw'r sylwadau o reidrwydd yn rai sy'n cefnogi arbed y cynnig, maent yn amrywio o sylwadau yn cefnogi, gwrthwynebu torri a rhai niwtral hefyd.

6.6 Mae'r **sylwadau cyffredinol** wedi cael eu categoreiddio yn ôl thema ac mae unrhyw thema sydd wedi derbyn 5 sylwad neu fwy i'w gweld yn **graif 11**. I weld rhestr lawn o'r sylwadau cyffredinol ewch i **Atodiad C**.

Graff 9: Canlyniadau'r cwestiwn Treth Cyngor*

I ud. 159

“Dylai Cyngor Gwynedd gynyddu'r Dreth Cyngor o lai na 5.5% ar gyfer 2019/20 a gweithredu mwy o doriadau i wasanaethau na'r 65 o gynigion a nodir yn Nhabl 1 gan dderbyn y gallasai olygu lleihad mewn gwasanaethau sy'n hollol bwysig i mi.”




“Dwi'n cytuno fod y cynigion a nodir yn Nhabl 1 yn rhai rhesymol i'r Cyngor gyflawni a bod cynnydd yn y Dreth Cyngor o 5.5% ar gyfer 2019/20 yn taro'r balans priodol rhwng yr angen i warchod gwasanaethau a lefel y Dreth Cyngor.”

“Dylai Cyngor Gwynedd godi'r Dreth Cyngor o fwy na 5.5% ar gyfer 2019/20 er mwyn lleihau nifer y 65 o gynigion a nodir yn Nhabl 1.”


* Roedd 127 o ymatebwyr wedi ticio'r blwch "Nid wyf eisiau datgan barn am y Dreth Cyngor, ond rwyf eisiau rhoi sylw ar y cynigion a nodir yn Nhabl 1" neu heb ateb y cwestiwn.

Graff 10: Nifer yr ymatebwyr oedd eisiau peidio â gweithredu cynigion penodol

Tud. 160




Graff 11: Y sylwadau cyffredinol ble mae 5 neu fwy o ymatebwyr wedi nodi'r sylw



7. Cwestiwn Treth Cyngor: Cymhariaeth o ganlyniadau'r gwahanol grwpiau (oedran, rhyw ayyb.)

7.1 Canlyniadau yn ôl rhyw


7.1.1 Mae **graiff 12** a **graiff 13** yn dangos canlyniadau'r cwestiwn Treth yn ôl rhyw. Roedd canran uwch o ddynion (22.5%) yn nodi y dylai'r Cyngor **godi'r dreth o fwy na 5.5%** er mwyn lleihau'r nifer o gynigion, o'i gymharu â merched (12.2%).



7.2 Canlyniadau yn ôl oedran


7.2.1 Mae **graffiau 14-17** yn dangos canlyniadau yn ôl grŵp oedran. Er bod canran uwch o bobl ifanc wedi nodi bod **cynnydd yn y Dreth Cyngor o 5.5% ar gyfer 2019/20 yn taro'r balans priodol**, dylid cofio mai dim ond 20 o unigolion o dan 25 oed wnaeth ymateb.

**Graff 14: Ymatebwyr o dan 25
(20 o ymatebwyr)**




* 9 ddim eisiau datgan barn.

**Graff 15: Ymatebwyr 25-44 oed
(192 o ymatebwyr)**




* 35 ddim eisiau datgan barn.

**Graff 16: Ymatebwyr 45-64 oed
(221 o ymatebwyr)**



* 39 ddim eisiau datgan barn.

**Graff 17: Ymatebwyr 65+ oed
(122 o ymatebwyr)**




* 29 ddim eisiau datgan barn.

- "Dwi'n cytuno fod y cynigion a nodir yn Nhabl 1 yn rhai rhesymol i'r Cyngor gyflawni a bod **cynnydd yn y Dreth Cyngor o 5.5% ar gyfer 2019/20 yn taro'r balans priodol** rhwng yr angen i warchod gwasanaethau a lefel y Dreth Gyngor."
- "Dylai Cyngor Gwynedd **gynyddu'r Dreth Cyngor o lai na 5.5% ar gyfer 2019/20 a gweithredu mwy o doriadau i wasanaethau** na'r 65 o gynigion a nodir yn Nhabl 1 gan dderbyn y gallasai olygu lleihad mewn gwasanaethau sy'n hollol bwysig i mi."
- "Dylai Cyngor Gwynedd **godi'r Dreth Cyngor o fwy na 5.5% ar gyfer 2019/20** er mwyn lleihau nifer y 65 o gynigion a nodir yn Nhabl 1."

7.3 Canlyniadau ymatebwyr anabl


7.3.1 Mae **graff 18** yn dangos y canlyniadau'r unigolion sydd wedi nodi fod ganddynt anabledd. Er bod y sampl yn fach, roedd canran uwch o bobl anabl (30%) yn nodi y dylai Cyngor Gwynedd **godi'r dreth o fwy na 5.5%**, o'i gymharu â'r ymatebion yn eu cyfanrwydd.



7.4 Canlyniadau yn ôl iaith gyntaf


7.4.1 Mae **graff 19 a graff 20** yn dangos y canlyniadau yn ôl iaith gyntaf. Nid oedd unrhyw wahaniaeth arwyddocaol rhwng yr ymatebwyr oedd wedi nodi eu bod yn Gymraeg / dwyieithog a'r rhai oedd wedi nodi Saesneg fel iaith gyntaf.

**Graff 19: Cymraeg / dwyieithog
iaith gyntaf
(316 o ymatebwyr)**



* 52 ddim eisiau datgan barn.

**Graff 20: Saesneg
iaith gyntaf
(206 o ymatebwyr)**



* 52 ddim eisiau datgan barn.



“Dwi'n cytuno fod y cynigion a nodir yn Nhabl 1 yn rhai rhesymol i'r Cyngor gyflawni a bod **cynnydd yn y Dreth Cyngor o 5.5% ar gyfer 2019/20 yn taro'r balans priodol** rhwng yr angen i warchod gwasanaethau a lefel y Dreth Gyngor.”



“Dylai Cyngor Gwynedd **gynyddu'r Dreth Cyngor o lai na 5.5% ar gyfer 2019/20 a gweithredu mwy o doriadau i wasanaethau** na'r 65 o gynigion a nodir yn Nhabl 1 gan dderbyn y gallasai olygu lleihad mewn gwasanaethau sy'n hollol bwysig i mi.”



“Dylai Cyngor Gwynedd **godi'r Dreth Cyngor o fwy na 5.5% ar gyfer 2019/20** er mwyn lleihau nifer y 65 o gynigion a nodir yn Nhabl 1.”

7.5 Canlyniadau yn ôl 10 Ardal Leol

7.5.1 Mae **Tabl 1** yn dangos y canlyniadau yn ôl y 10 Ardal Leol.

Tabl 1: Canlyniadau yn ôl 10 Ardal Leol

Ticiwch y frawddeg sy'n adlewyrchu eich barn orau	Ymatebwyr yn eu cyfanrwydd	Bangor	Caernarfon	Dolgellau	Dyffryn Nantlle	Dyffryn Ogwen	Ffestiniog	Llŷn	Penllyn	Porthmadog	Tywyn
"Dwi'n cytuno fod y cynigion a nodir yn Nhabl 1 yn rhai rhesymol i'r Cyngor gyflawni a bod cynnydd yn y Dreth Cyngor o 5.5% ar gyfer 2019/20 yn taro'r balans priodol rhwng yr angen i warchod gwasanaethau a lefel y Dreth Cyngor."	158 (34.3%)	10 (32.3%)	31 (34.0%)	16 (33.3%)	11 (42.3%)	5 (27.8%)	8 (47.1%)	18 (38.3%)	4 (33.4%)	16 (38.1%)	15 (45.5%)
"Dylai Cyngor Gwynedd godi'r Dreth Cyngor o fwy na 5.5% ar gyfer 2019/20 er mwyn lleihau nifer y 65 o gynigion a nodir yn Nhabl 1."	79 (17.1%)	7 (22.6%)	16 (17.6%)	6 (12.5%)	4 (15.4%)	6 (33.3%)	4 (23.5%)	3 (6.4%)	4 (33.3%)	9 (19.0%)	6 (18.1%)
"Dylai Cyngor Gwynedd gynyddu'r Dreth Cyngor o lai na 5.5% ar gyfer 2019/20 a gweithredu mwy o doriadau i wasanaethau na'r 65 o gynigion a nodir yn Nhabl 1 gan dderbyn y gallasai olygu lleihad mewn gwasanaethau sy'n hollol bwysig i mi."	224 (48.6%)	14 (45.1%)	44 (48.4%)	26 (54.2%)	11 (42.3%)	7 (38.9%)	5 (29.4%)	26 (55.3%)	4 (33.3%)	18 (42.9%)	12 (36.4%)
	461	31	91	48	26	18	17	47	12	42	33
"Nid wyf eisiau datgan barn am y Dreth Cyngor, ond rwyf eisiau rhoi sylw ar y cynigion a nodir yn Nhabl 1."	127	9	14	12	4	2	3	9	2	10	9
Cyfanswm	588	40	105	60	30	20	20	56	14	52	42

Lud. 166

8. Ymatebion gan sefydliadau / busnesau

8.1 Cafwyd **21** ymateb ar ran sefydliad neu fusnes i'r arolwg.

8.2 Nid oeddem yn gofyn i fusnesau / sefydliadau i ateb y cwestiwn Treth Cyngor ond roedd cyfle iddyn nhw roi sylwad ar unrhyw un o'r 65 cynigion gan nodi unrhyw effaith ar un neu fwy o'r grwpiau a warchodir o dan y Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

8.3 Mae rhestr lawn o enwau'r sefydliadau / fusnesau a gymrodd a'u sylwadau i'w gweld yn **Atodiad Ch.**

8.4 Derbyniwyd gohebiaeth gan 1 cyngor cymuned (gweler **Atodiad D**)

Atodiad A: Sylwadau ar y cynnigion gan ymatebwyr oedd am godi'r Dreth Cyngor o fwy na 5.5%

Cyfeirnod y cynnig arbediad	Nifer o ymatebwyr oedd eisiau peidio â gweithredu'r cynnig	Rhesymau roddwyd dros beidio gweithredu'r cynnig	Sylwad am effaith ar grwpiau nodwedd
54 - Lleihau cyllideb y grantiau strategol i'r celfyddydau o 20%.	11	<ul style="list-style-type: none"> • Mae'r celfyddydau wedi derbyn digon o doriadau yn barod. (2) • Byddai cwtogi'r Grantiau Strategol hyn yn cael effaith andwyol ar ystod o'r Celfyddydau o fewn y Sir i'r dyfodol. • Byddai'r golled ddiwylliannol yn llawer mwy na'r swm pitw a arbedir • Ni ddylid dorri'r gyllideb. • Mentrau bach lleol fydd yn dioddef - y rhai sy'n ceisio bod yn gynhwysol o bawb megis Cofis Bach a Dawns i Bawb. • Mae grantiau strategol yn hollbwysig i gynnal sefydliadau celfyddydol. • Mae buddsoddiad yn y celfyddydau yn sicr yn fuddsoddiad i'r dyfodol. • Mae'r celfyddydau yn sector holl bwysig yng Ngwynedd ac yn un sydd yn cyflogi unigolion ifanc na fyddai yn gallu aros yn y gymuned leol fel arall. • Daw'r arian gan y Cyngor â chyllid ychwanegol i'r ardal yn ogystal a grantiau. • Dylai fod gan bawb yr hawl i brofi gweithgarwch celfyddydol a byddai'n anodd, os nad amhosib, gwneud hynny heb gyllid gan y Cyngor. • Mae'r celfyddydau yng Ngwynedd yn gwneud gwaith gwych o ran llesiant plant a phobl ifanc. (2) • Mae'r ffaith fod yna alwad mawr am waith y cwmnïau theatr sydd a'u cartref yng Ngwynedd yn profi fod gwaith arbennig yn cael ei wneud gan y cwmnïau rheiny - ac mae hyn yn codi proffil y sir Gymru gyfan. • Mae gen i ofnau ehangach am y cynnig. 	<ul style="list-style-type: none"> - Pobl anabl. - Pobl ifanc. - Byddai effaith ar pob grŵp nodwedd.

Tud. 168

Atodiad A: Sylwadau ar y cynigion gan ymatebwyr oedd am godi'r Dreth Cyngor o fwy na 5.5%

Cyfeirnod y cynnig arbediad	Nifer o ymatebwyr oedd eisiau peidio â gweithredu'r cynnig	Rhesymau roddwyd dros beidio gweithredu'r cynnig	Sylwad am effaith ar grwpiau nodwedd
<p>49 - Lleihau'r gwasanaeth llyfrgell deithiol - ymweld â llai o aros fannau ac yn llai aml.</p>	<p>9</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Lleihau'r amlder yn unig ac nid y lleoliadau mae'r llyfrgell deithiol yn ymweld â hwy. • Y gwasanaeth yma yn hanfodol i bobl hŷn er mwyn cymdeithasu, lleihau unigrwydd sydd yn ei dro yn atal cost i'r Gwasanaeth Iechyd. (3) • Ni ddylid gael ei dorri os ydyw yn cael defnydd da. • Effaith negyddol ar ddefnyddwyr yn llawer uwch na gwerth yr arbediad. • Llyfrau yn helpu pobl gyda'u lles meddyliol. • Trwy ddarllen mae plant yn dysgu. • Byddai lleihau y gwasanaeth hwn yn gam arall yn y tuedd o leihau ansawdd bywyd yng nghefn gwlad - dim trafnidiaeth gyhoeddus i gyrraedd llyfrgelloedd. (2) 	<ul style="list-style-type: none"> - Pobl Hŷn. - Pobl Anabl. - Byddai effaith ar pob grŵp nodwedd.
<p>55 - Lleihau cyllideb cronfa lyfrau'r llyfrgelloedd o 10%</p>	<p>9</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Bydd poblogaeth wedi'i haddysgu yn arwain at dwf economaidd. • Ni ddylai llyfrgelloedd gael eu rhedeg gan wirfoddolwyr - mae'n broffesiwn. • Mae'r celfyddydau wedi derbyn digon o doriadau yn barod. • Byddai toriad arall i'r gwasanaeth yma yn annheg ac anghyfiawndwy. • Dylid sicrhau dewis eang a chyfredol o lyfrau yn enwedig i'r plant ieuengaf. • Dibynnu ar y llyfrgell i gael llyfrau i helpu fi ddysgu ac ennill sgiliau. • Byddai lleihau dewis o lyfrau yn cael effaith negyddol ar y llyfrgelloedd - llai o ddefnydd yn y pen draw. • Dylai'r Cyngor sicrhau gwariant ar lyfrau sydd yn cyfateb i ddisgwyliadau y Safonau Llyfrgell Cenedlaethol sydd yn diffinio oblygiadau statudol yr awdurdod i ddarparu gwasanaeth cynhwysfawr ac effeithiol. • Mae safon y gwasanaeth eisoes wedi dirywio a thrist byddai ei weld yn dirywio'n mhellach, mae'r toriad wedi bod yn sylweddol yn barod. 	<ul style="list-style-type: none"> - Plant – llai o gyfleon addysgiadol. - Pobl anabl -methu derbyn gwybodaeth. - Byddai effaith ar pob grŵp nodwedd. - Pobl anabl, plant a phobl hŷn yn arbennig y rhai hynny mewn grwpiau incwm isel nad ydynt yn gallu prynu eu llyfrau eu hunain.

Tud. 169

Atodiad A: Sylwadau ar y cynigion gan ymatebwyr oedd am godi'r Dreth Cyngor o fwy na 5.5%

Cyfeirnod y cynnig arbediad	Nifer o ymatebwyr oedd eisiau peidio â gweithredu'r cynnig	Rhesymau roddwyd dros beidio gweithredu'r cynnig	Sylwad am effaith ar grwpiau nodwedd
59 - Pont Abermaw – peidio talu Network Rail am yr hawl tramwy dros y bont	8	<ul style="list-style-type: none"> Oes modd codi toll yn hytrach na chymryd y risg gall y Bont gau. Gwerth hwn yn fwy i'r gymuned na gwerth y toriad. Bydd llai o dwristiaid yn ymweld â'r ardal. (4) Effaith ar llwybr yr arfordir a Llwybr Beicio Cenedlaethol. (2) Mae'n anghyfrifol o'r Cyngor ddibynnu ar Network Rail i gadw'r llwybr yn agored os bydd y toriad yn cael ei wneud. 	<ul style="list-style-type: none"> - Pobl Anabl. - Pobl hŷn. - Plant.
60 - Lleihau cyllideb Cymorth i Ferched o 20%	7	<ul style="list-style-type: none"> Ni ddylid torri ar wasanaeth mor bwysig i blant sydd â phlentyndod anodd. Oes unrhyw drafodaeth wedi bod gyda'r mudiad i weld faint o effaith fyddai'r toriad yma yn gael arnynt? Gwasanaeth yma yn amhrisiadwy - helpu gyda problemau trais yn y cartref yn erbyn plant, lleihau baich ar y gwasanaeth iechyd a'r heddlu. Mae'r gwasanaeth yna wir yn achub bywydau. Ddim yr amser i dorri ar y gwasanaeth gan fod achosion cam-drin yn y cartref yn codi. Dwi'n gwybod am y budd mae gwasanaeth Cymorth i Ferched yn ei roi. Toriad hollol greulon a di-deimlad. 	<ul style="list-style-type: none"> - Merched beichiog. - Mamau newydd. - Pobl Anabl. - Pobl o unrhyw hil, rhyw, oedran. - Effaith ar ferched, plant ac ar rai crefyddau.
1 - Darparu pwyntiau gwefru ceir trydan mewn meysydd parcio	6	<ul style="list-style-type: none"> Dim digon o geir trydan mewn defnydd eto - dylid aros i weld beth fydd yr angen ymhellach ymlaen. (4) Angen denu grantiau allanol i wireddu hyn. Ni ddylai hwn fod yn gyfrifoldeb y Cyngor. Cynllun yma ddim ond yn mynd i elwa'r rhai sydd gyda digon o arian i brynu ceir trydan. 	
10 - Dileu parcio am ddim dros gyfnod y Nadolig o 2019 a cynyddu ffioedd parcio	6	<ul style="list-style-type: none"> Mae'n helpu i gynnal busnesau dros fisoedd y gaeaf. (4) Ffioedd parcio yn rhy uchel yn barod i bobl leol. Rhain y dri cynllun gwahanol – dylent gael eu cysidro ar wahân. 	

Tud. 170

Atodiad A: Sylwadau ar y cynigion gan ymatebwyr oedd am godi'r Dreth Cyngor o fwy na 5.5%

Cyfeirnod y cynnig arbediad	Nifer o ymatebwyr oedd eisiau peidio â gweithredu'r cynnig	Rhesymau roddwyd dros beidio gweithredu'r cynnig	Sylwad am effaith ar grwpiau nodwedd
40 - Dileu elfen Gwasanaeth Cefnogi Athrawon y Gwasanaeth Llyfrgelloedd i Ysgolion	6	<ul style="list-style-type: none"> • Gwasanaeth yma yn bwysig i addysg plant. • Effaith negyddol ar lythrennedd plant. • Effaith negyddol ar blant ddi-freintiedig. • Gwerth y gwasanaeth yma yn llawer mwy gwerthfawr i'r ysgolion na gwerth yr arbediad. • Llyfrau'n helpu pobl gyda'u lles meddyliol. • Toriad deublyg i ysgolion. 	<ul style="list-style-type: none"> - Effaith ar blant. - Byddai effaith ar pob grŵp nodwedd.
50 - Dileu 1 swydd o'r Gwasanaeth Datblygu'r Economi (Ileihau staffio o 33%)	6	<ul style="list-style-type: none"> • Nid oes angen torri'r swydd yma gan bod modd ychwanegu costau'r swyddog i geisiadau grant allanol. • Effaith negyddol ar economi'r sir. • Ni ddylid cael gwared ar y swydd - dod a budd i'r economi leol. (2) • Achub y swydd ond peidio â pharhau gyda gwario ar faes awyr Llanbedr. • Mae'r gwasanaeth yn hanfodol i ddatblygu prosiectau strategol. 	<ul style="list-style-type: none"> - Byddai effaith ar pob grŵp nodwedd.
51 - Dileu swydd a newid trefniadau rheoli y Gwasanaeth Adfywio Cymunedol (Ileihad o 20%)	6	<ul style="list-style-type: none"> • Dylid chwilio am ffordd amgen o gynnal y swydd yma drwy drafodaethau gyda Mantell Gwynedd. • Yn y cyfnod ansicr yma gyda Brexit byddai'n annoeth iawn dileu'r swydd gan ei bod yn hanfodol i ddatblygu grwpiau cymunedol ac i gysylltu adrannau gwahanol y Cyngor i gydweithio fyddai yn y pen draw yn lleihau costau i'r Cyngor. • Effaith negyddol ar economi'r sir. • Criw y gellid dibynnu arnynt i roi cymorth beth bynnag yw'r her ac yn cyfrannu at yr economi leol drwy ddenu grantiau sydd yn eu tro yn cael eu gwario yn lleol. • Ni fyddai cael gwared ar y swydd yma yn gwneud dim synnwyr os ydi'r Cyngor am i gymunedau gymryd mwy o rôl mewn cynnal gwasanaethau yn y gymuned. (2) 	<ul style="list-style-type: none"> - Llai o gefnogaeth i gymunedau/gwirfoddolwyr.

Atodiad A: Sylwadau ar y cynigion gan ymatebwyr oedd am godi'r Dreth Cyngor o fwy na 5.5%

Cyfeirnod y cynnig arbediad	Nifer o ymatebwyr oedd eisiau peidio â gweithredu'r cynnig	Rhesymau roddwyd dros beidio gweithredu'r cynnig	Sylwad am effaith ar grwpiau nodweddd
63 - Lleihau cyfraniad y Cyngor o 7% Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid	6	<ul style="list-style-type: none"> • Dylid edrych ar ffyrdd i osgoi plant ddod mewn i'r system cyfiawnder ieuenctid i gychwyn - byddai hyn yn arbed arian yn yr hir dymor. • Dylid gwarchod y gwasanaeth hwn i gefnogi pobl ifanc bregus. (2) • Mae lleihau yr oriau cyswllt a llai o brosiectau cymunedol yn bryder - pobl ifanc bregus fydd yn dioddef. • Wrth dorri'r gyllideb bydd mwy o blant yn ail droseddu - felly costau ychwanegol yn y pen draw i'r heddlu, addysg a gwasanaeth iechyd. • Toriad hollol greulon a di-deimlad. 	<ul style="list-style-type: none"> - Byddai effaith ar pob grŵp nodweddd. - Pobl ifanc a phlant.
39 - Dileu elfen o'r Gwasanaeth Teithiol i Blant y Gwasanaeth Llyfrgelloedd i Ysgolion	5	<ul style="list-style-type: none"> • Gwasanaeth yma yn bwysig i addysg plant. • Effaith negyddol ar lythrennedd plant. • Effaith negyddol ar blant ddi-freintiedig. • Mae cytundeb mewn lle i gadw hwn tan Mawrth 2020. • Mae ymweld â'r llyfrgell deithiol yn gyfle na fydd rhai yn gael fel arall ac yn ddi-os yn cyfrannu at addysg a datblygiad plant. 	<ul style="list-style-type: none"> - Effaith ar blant. - Plant Anabl.
21 - Cynyddu'r ffi i ysgolion am y gwasanaeth archifau	4	<ul style="list-style-type: none"> • Cytuno gyda'r toriad ond dylid ei weithredu mewn ffordd fwy effeithiol. • Ni ddylid torri cyllidebau ysgolion. • Arbediad bychan ydi o o ran cyllideb ond bydd y golled yn fawr i'r ysgolion. (2) 	<ul style="list-style-type: none"> - Effaith ar blant mewn ysgolion sydd heb lawer o arian i'w wario.

Tud. 172

Atodiad A: Sylwadau ar y cynigion gan ymatebwyr oedd am godi'r Dreth Cyngor o fwy na 5.5%

Cyfeirnod y cynnig arbediad	Nifer o ymatebwyr oedd eisiau peidio â gweithredu'r cynnig	Rhesymau roddwyd dros beidio gweithredu'r cynnig	Sylwad am effaith ar grwpiau nodwedd
29 - Codi ffi ar waredu deunyddiau DIY (e.e. rwbel £3 y bag neu £30 lond trelar)	4	<ul style="list-style-type: none"> • Bydd hyn yn arwain at "dipio slei bach" a'r Cyngor yn gwario mwy ar glirio'r llanast. (4) • Rhaid gwneud yn siŵr bod troseddwy'r yn cael eu erlyn a'u haddysgu. • Angen sicrhau mai pobl Gwynedd yn unig sy'n defnyddio'r canolfannau ailgylchu. • Anodd credu byddai'r incwm yn uwch na chost o weinyddu'r ffi. • Dylid yn hytrach gael ffordd o drwyddedu masnachwyr i allu defnyddio'r safleoedd a chodi incwm fel yma. 	<ul style="list-style-type: none"> - Byddai effaith ar pob grŵp nodwedd. - Yn gyffredinol mae gan bobl anabl lai o incwm – felly bydd ffi ychwanegol yn mynd i gael effaith arnynt yn ariannol.
36 - Trosglwyddo rhai toiledau cyhoeddus i eraill.	4	<ul style="list-style-type: none"> • Diwydiant twristiaeth yn dibynnu ar doiledau cyhoeddus (2) • Effaith negyddol ar blant, pobl hŷn a'r anabl os ydyn nhw yn cau. • Nid oes gan gyrff eraill yr adnoddau i gymryd cyfrifoldeb am y toiledau cyhoeddus. 	<ul style="list-style-type: none"> - Effaith ar bobl/plant gyda problemau iechyd sy'n dibynnu ar y cyfleusterau - Gallai olygu rhoi plant mewn clytiau pan nad oes angen er mwyn cael mynd "allan".
43 - Lleihau'r gyllideb ar gyfer cynnal llwybrau cyhoeddus	4	<ul style="list-style-type: none"> • Risg o her gyfreithiol fyddai o bosib yn uwch na unrhyw arbediad. • Mae llwybrau cyhoeddus eisoes mewn cyflwr truenus a'r diffyg arwyddion yn anghyfreithlon. • Pwysig cadw ardaloedd cyhoeddus yn daclus a glân. • Llwybrau cerdded yn hanfodol i dwristiaeth. 	<ul style="list-style-type: none"> - Ddim yn hygyrch i bobl gyda anabledau, plant a merched.
19 - Sefydlu ffioedd parcio ar draeth Dinas Dinlle	3	<ul style="list-style-type: none"> • Cosbi trigolion Gwynedd i ddefnyddio atyniad lleol. (2) • Difetha atyniad poblogaidd ac yn y pen draw denu llai o ymwelwyr. • Peryg i bobl barcio ar hyd y ffordd - peryglus. • Wedi ei gofrestru fel tir comin. 	<ul style="list-style-type: none"> - Pobl anabl a phobl hŷn yn llai tebygol o fod isio ymweld oherwydd y gost parcio.

Tud. 173

Atodiad A: Sylwadau ar y cynigion gan ymatebwyr oedd am godi'r Dreth Cyngor o fwy na 5.5%

Cyfeirnod y cynnig arbediad	Nifer o ymatebwyr oedd eisiau peidio â gweithredu'r cynnig	Rhesymau roddwyd dros beidio gweithredu'r cynnig	Sylwad am effaith ar grwpiau nodwedd
25 - Codi ffi am ailgyflenwi biniau sydd wedi'u difrodi gan drigolion	3	<ul style="list-style-type: none"> • Mynd i fod yn anodd iawn profi pwy fyddai wedi difrodi'r biniau. (3) • Bydd rhai yn cael hi yn anodd talu ac felly cyfraddau ailgylchu yn lleihau. 	
42 - Lleihau'r adnodd o fewn yr Uned Diogelwch Ffyrdd.	3	<ul style="list-style-type: none"> • Effaith negyddol ar blant ddi-freintiedig. • Mae'r tîm yn rhy fach yn barod – methu dygymod a toriad pellach. • Risg i ddiogelwch plant wrth iddynt groesi'r ffordd. 	- Effaith ar blant anabl yn benodol.
52 - Dileu 1 swydd o'r Gwasanaeth Twristiaeth a Marchnata (Ileihau staffio o 25%).	3	<ul style="list-style-type: none"> • Effaith negyddol ar economi'r sir. • Byddai torri'r gwasanaeth yn enwedig efo ansicrwydd Brexit yn beth annoeth i wneud. • Mewn cyfnod ble mae twristiaeth yn cynyddu yng Ngwynedd mae'n ffol i dorri ar y gyllideb. Angen sicrhau ein bod yn cefnogi'r tŵf yma er budd ein economi a chymunedau. 	- Byddai effaith ar pob grŵp nodwedd.
56 - Adolygu pecynnau gofal anabledau corfforol gan gwrdd ag amcanion mewn ffordd amgen.	3	<ul style="list-style-type: none"> • Byddai gofynion mwy dwys yn golygu costau uwch yn y pen draw. • Angen asesiad effaith llawn cyn cysidro'r toriad yma. • Y peryg wrth dorri ac addasu bod tro, yn enwedig gyda mater mor gymhleth a hwn, ydi y gallai unigolion ddiodef. 	- Pobl anabl- byddai torri ar y gwasanaeth yn gallu cael effaith ar safon eu bywydau.
57 - Adolygiad pecynnau Gofal lechyd Parhaus	3	<ul style="list-style-type: none"> • Byddai gofynion mwy dwys yn golygu costau uwch yn y pen draw. • Effaith ormodol ar oedolion bregus am arbediad o'r swm yma. • Toriad hollol greulon a di-deimlad. 	- Effaith enfawr ar rhai o'r grwpiau.

Tud. 174

Atodiad A: Sylwadau ar y cynigion gan ymatebwyr oedd am godi'r Dreth Cyngor o fwy na 5.5%

Cyfeirnod y cynnig arbediad	Nifer o ymatebwyr oedd eisiau peidio â gweithredu'r cynnig	Rhesymau roddwyd dros beidio gweithredu'r cynnig	Sylwad am effaith ar grwpiau nodwedd
61 - Lleihau 6% ar y gyllideb eiriolaeth	3	<ul style="list-style-type: none"> Mi fydd Deddf Llesiant Gwasanaethau Cymdeithasol yn cynyddu'r niferoedd fydd yn gymwys am y gwasanaeth eiriolaeth ac felly mae'n gynamserol i dorri'r gyllideb yma a chael effaith negyddol ar brofiadau plant a phobl ifanc. Byddai gofynion mwy dwys yn golygu costau uwch yn y pen draw. Gwerth y toriad yma rhy fach i gyfiawnhau. 	<ul style="list-style-type: none"> Byddai effaith ar pob grŵp nodwedd. Effaith ar blant / pobl ifanc anabl.
62 - Haneru cyllideb recriwtio a hyfforddi rhieni maeth	3	<ul style="list-style-type: none"> Mae diffyg rhieni maeth yn barod yng Ngwynedd - hyn am wneud y sefyllfa yn waeth. (2) Hynod o bwysig recriwtio gofalmwyr maeth da, ond bod angen 'pŵlio' yr adnoddau cyfathrebu sydd gan y Cyngor yn barod. Byddai lleihau'r gyllideb yma'n golygu llai o recriwtio ac felly costau uwch o leoli tu allan i'r sir neu mewn llefydd preswyl, ynghyd ag effaith niweidiol ar y plant yn cael eu symud yn fwy aml. 	<ul style="list-style-type: none"> Byddai effaith ar pob grŵp nodwedd.
2 - Buddsoddi mewn gwelliannau a fyddai'n gwneud Neuadd Dwyfor ym Mhwlheli yn fwy effeithlon gan baratoi i edrych am fodel amgen i reoli'r neuadd yn y dyfodol	2	<ul style="list-style-type: none"> Hwn ydi'r unig fenter gelfyddydol gan y Cyngor - dylid ei warchod a'i ehangu. Cynllun yma yn gwneud dim synnwyr ariannol – peidiwch a buddsoddi. 	
26 - Codi ffi ychwanegol am amlosgi ar yr un diwrnod a'r gwasanaeth.	2	<ul style="list-style-type: none"> Cynnig ansensitif iawn - all beri pryder i'r teulu. Dylai'r Cyngor ystyried gofynion gwahanol grefyddau cyn mynd ymlaen i godi ffioedd. 	<ul style="list-style-type: none"> Byddai effaith ar pob grŵp nodwedd. Grwpiau crefyddol.

Tud. 175

Atodiad A: Sylwadau ar y cynigion gan ymatebwyr oedd am godi'r Dreth Cyngor o fwy na 5.5%

Cyfeirnod y cynnig arbediad	Nifer o ymatebwyr oedd eisiau peidio â gweithredu'r cynnig	Rhesymau roddwyd dros beidio gweithredu'r cynnig	Sylwad am effaith ar grwpiau nodwedd
34 – Cynyddu incwm drwy gynnig cefnogaeth dechnegol, wyddonol a pheirianyddol i gynlluniau lliniaru risg llifogydd i Gynghorau ledled Cymru	2	<ul style="list-style-type: none"> • Dylid ail asesu'r cynllun yma mewn 3 mlynedd. • Mae rhagdybiaethau Cyfoeth Naturiol Cymru ar leoliadau llifogydd yn ddiwerth 	
37 - Trosglwyddo meysydd chwarae i eraill.	2	<ul style="list-style-type: none"> • Gwerth y meysydd chwarae i'r gymuned yn fwy na gwerth toriad. • Byddai safonau lechyd a Diogelwch yn dirywio dros amser os fydd y meysydd chwarae yn cael eu trosglwyddo o ofal y Cyngor. 	- Effeithio ar bobl o bob oedran.
53 - Yn yr hir dymor, anelu i leihau'r sybsidi o 20% i'r Cwmni Hamdden newydd fydd yn cael ei sefydlu	2	<ul style="list-style-type: none"> • Ni ddylid gweithredu'r toriad nes bydd y cwmni newydd wedi cael ei sefydlu ac yn rhedeg yn llwyddiannus. • Hwn ddim yn syniad wnaiff weithio. 	
16 - Cynhyrchu incwm drwy atal twyll	1	<ul style="list-style-type: none"> • Sut ydych yn gwybod faint o incwm fyddwch yn gallu godi? 	
24 - Gwastraff Gardd: cynhyrchu mwy o incwm neu leihau costau	1	<ul style="list-style-type: none"> • Byddai lleihau y casgliadau dros y gaeaf yn gwneud synnwyr, ond dim i stopio yn gyfan gwbl. 	

Tud. 176

Atodiad A: Sylwadau ar y cynigion gan ymatebwyr oedd am godi'r Dreth Cyngor o fwy na 5.5%

Cyfeirnod y cynnig arbediad	Nifer o ymatebwyr oedd eisiau peidio â gweithredu'r cynnig	Rhesymau roddwyd dros beidio gweithredu'r cynnig	Sylwad am effaith ar grwpiau nodwedd
41 - Lleihau amlder glanhau rhai ardaloedd mewn ysgolion drwy gwtogi oriau o 1.7%.	1	<ul style="list-style-type: none"> Ni ddylid rhoi iechyd plant mewn perygl drwy dorri ar y gyllideb glanhau. 	
45 - Lleihau'r gyllideb ar gyfer yr Uned Gorchmynion Traffig o 33%.	1	<ul style="list-style-type: none"> Byddai unrhyw doriad i gyllideb yr uned yn cael effaith ar reoli traffig. 	
46 - Lleihau adnodd Cyflogaeth dymhorol o 50% o fewn y Gwasanaeth Trethi a Budd-daliadau	1	<ul style="list-style-type: none"> Toriad yma yn mynd i olygu bydd oedi cyn rhoi cymorth i bobl Gwynedd i dalu eu rhent, neu wneud addasiad angenrheidiol i'w cyfrifon Treth Cyngor. 	
47 - Dileu swydd wag o fewn y Gwasanaeth Cefnogi Busnes (Lleihad o 25% yn y nifer o staff)	1	<ul style="list-style-type: none"> Angen mwy o gefnogaeth ar fusnesau ac i ddenu busnesau newydd nid llai er mwyn cryfhau'r economi. 	

Tud. 177

Atodiad A: Sylwadau ar y cynigion gan ymatebwyr oedd am godi'r Dreth Cyngor o fwy na 5.5%

Cyfeirnod y cynnig arbediad	Nifer o ymatebwyr oedd eisiau peidio â gweithredu'r cynnig	Rhesymau roddwyd dros beidio gweithredu'r cynnig	Sylwad am effaith ar grwpiau nodwedd
48 - Adolygu ffioedd parcio a threfniadau gweithredu Storiel	1	<ul style="list-style-type: none"> Arbediad rhy fychan i'w gyfiawnhau yng nghyd-destun y golled i'r cyhoedd. 	
58 - Calendrau casglu gwastraff electronig yn unig	1	<ul style="list-style-type: none"> Nid pawb sydd gan/isio mynediad at y we - yn enwedig pobl hŷn. 	
64 - Lleihau adnodd o fewn yr Uned Gyfreithiol i gefnogi gwaith adrannau eraill	1	<ul style="list-style-type: none"> Mae hyn siŵr o fod ar draul gwaith cyfreithiol y Cyngor. 	

Tud. 178

Atodiad B: Sylwadau ar gynigion penodol gan yr holl ymatebwyr

Cyfeirnod y cynnig arbediad	Sylwadau am y cynnig	Nifer o sylwadau ar y cynnig
Cynnig 10 : Dileu parcio am ddim dros gyfnod y Nadolig o 2019 a cynyddu ffioedd parcio	<ul style="list-style-type: none"> Ni ddylid stopio cynnig parcio am ddim dros y Nadolig - denu pobl i'r strydoedd. (8) Ni ddylid codi ffioedd parcio o gwbl. (5) Angen ail edrych ar ffioedd parcio e.e. Codi £1 hyd at barcio am ddwy awr. (3) 	19
	<ul style="list-style-type: none"> Cytuno na ddylid cynnig parcio am ddim dros y Nadolig. (3) 	
Cynnig 59 : Pont Abermaw – peidio talu Network Rail am yr hawl tramwy dros y bont	<ul style="list-style-type: none"> Ni ddylid ystyried peidio talu Network Rail am yr hawl tramwy dros bont Abermaw - hanfodol ar gyfer twristiaeth a llesiant pobl leol. (9) Byddai codi toll i groesi Pont Abermaw yn gwneud mwy o synnwyr. (1) 	11
	<ul style="list-style-type: none"> Ni ddylid gwrando ar leiafrif - ni ddylid talu Network Rail. (1) 	
Cynnig 25 : Codi ffi am ail gyflenwi biniau sydd wedi'u difrodi gan drigolion	<ul style="list-style-type: none"> Sut fyddwch chi'n gallu profi pwy sydd wedi difrodi'r biniau brown. Mae'r biniau o wneuthuriad gwael ac yn torri yn hawdd. (10) 	10
Cynnig 24 : Gwastraff Gardd: cynhyrchu mwy o incwm neu leihau costau	<ul style="list-style-type: none"> Ni ddylid gweithredu toriad yn y gwasanaeth gwastraff gardd gan all godi problemau megis- llosgi'r gwastraff, y Cyngor i fethu targedau ailgylchu. (5) 	9
	<ul style="list-style-type: none"> Byddai lleihau casglu gwastraff bin brown i 9 mis yn syniad da. (4) 	

Tud. 179

Atodiad B: Sylwadau ar gynigion penodol gan yr holl ymatebwyr

Cyfeirnod y cynnig arbediad	Sylwadau am y cynnig	Nifer o sylwadau ar y cynnig
Cynnig 54 : Lleihau cyllideb y grantiau strategol i'r celfyddydau o 20%	<ul style="list-style-type: none"> • Maes celfyddydau wedi cael digon o doriadau yn barod - effaith negyddol ar ddatblygiad plant a phobl ifanc a busnesau lleol. (8) 	8
Cynnig 1 : Darparu pwyntiau gwefru ceir trydan mewn meysydd parcio	<ul style="list-style-type: none"> • Angen edrych fwy hirdymor ar bwyntiau gwefru fel ffordd o gynhyrchu incwm. (2) • Nid oes angen darparu pwyntiau gwefru ceir trydan - dim digon o ofyn amdano yng Ngwynedd. (2) • Cytuno bod angen pwyntiau gwefru - ond ddim yn credu mai lle'r Cyngor ydy eu darparu. (1) • Fydd y pwyntiau gwefru ar gael ar draws y sir? (1) 	7
	<ul style="list-style-type: none"> • Buddion i bobl wrth i geir trydan ddod yn fwy poblogaidd - y rhai sydd ddim yn medru gyrru car heb fod yn awtomatig / llai o allyriadau carbon. (1) 	
Cynnig 36 : Trosglwyddo rhai toiledau cyhoeddus i eraill	<ul style="list-style-type: none"> • Bydd lleihau toiledau cyhoeddus yn cael effaith ar y genhedlaeth hŷn sy'n dibynnu arnynt i gael mynd allan. (6) 	7
	<ul style="list-style-type: none"> • Cytuno bod trosglwyddo toiledau i'r rhai sydd yn barod ac yn gallu yn syniad da. (1) 	
Cynnig 2: Buddsoddi mewn gwelliannau a fyddai'n gwneud Neuadd Dwyfor ym Mhwllheli yn fwy effeithlon gan baratoi i edrych am fodel amgen i reoli'r neuadd yn y dyfodol	<ul style="list-style-type: none"> • Ni ddylid parhau i redeg Neuadd Dwyfor gan nad ydynt yn rhedeg neuadd yn unman arall yn y sir. (4) • Hoffi mynd i Neuadd Dwyfor ond does dim digon o ddefnydd o'r lle. (1) 	6
	<ul style="list-style-type: none"> • Byddai cau Neuadd Dwyfor yn golygu llai o gyfleon i ysgolion/colegau lleol berfformio. (1) 	
Cynnig 7 : Cynyddu'r ffi am y clwb gofal cyn ysgol o £.8 i £1	<ul style="list-style-type: none"> • Ni ddylid cynnig brechwast am ddim yn yr ysgolion. (3) • Dylid codi mwy byth o ffi am y gwasanaeth brechwast am ddim yn yr ysgolion. (3) 	6

Tud. 180

Atodiad B: Sylwadau ar gynigion penodol gan yr holl ymatebwyr

Cyfeirnod y cynnig arbediad	Sylwadau am y cynnig	Nifer o sylwad ar y cynnig
Cynnig 43 : Lleihau'r gyllideb ar gyfer cynnal llwybrau cyhoeddus	<ul style="list-style-type: none"> • Bydd llai o bobl hŷn yn defnyddio'r llwybrau cyhoeddus os na fyddant yn cael eu cynnal mor aml. (5) • Llwybrau Cyhoeddus - cwestiynu gwerth yr arbediad o'i gymharu â gwerth i'r economi. (1) 	6
Cynnig 49 : Lleihau'r gwasanaeth llyfrgell deithiol - ymweld â llai o aros fannau ac yn llai aml	<ul style="list-style-type: none"> • Poeni am effaith negyddol ar blant/pobl anabl neu fregus os bydd y gwasanaeth llyfrgell teithiol yn stopio. (5) 	6
	<ul style="list-style-type: none"> • Dylid cael gwared ar y gwasanaeth llyfrgell deithiol. (1) 	
Cynnig 21 : Cynyddu'r ffi i ysgolion am y gwasanaeth archifau	<ul style="list-style-type: none"> • Ni ddylid codi ffioedd ar ysgolion - effeithio ar addysg y plant yn y pen draw. (3) 	3
Cynnig 37 : Trosglwyddo meysydd chwarae i eraill	<ul style="list-style-type: none"> • Poeni am feysydd chwarae i blant yn cau - ydi hyn yn groes i'r Strategaeth Chwarae? (3) 	3
Cynnig 41 : Lleihau amllder glanhau rhai ardaloedd mewn ysgolion drwy gwtogi oriau o 1.7%	<ul style="list-style-type: none"> • Ddim yn cytuno gyda'r toriad i oriau glanhawyr yn yr ysgolion - dylai plant gael eu haddysgu mewn awyrgylch lân. (3) 	3
Cynnig 58 : Calendrau casglu gwastraff electronig yn unig	<ul style="list-style-type: none"> • Dim pawb sydd efo mynediad at gyfrifiadur/y we er mwyn derbyn calendr casglu gwastraff yn electronig. (3) 	3

Tud. 181

Atodiad B: Sylwadau ar gynigion penodol gan yr holl ymatebwyr

Cyfeirnod y cynnig arbediad	Sylwadau am y cynnig	Nifer o sylwadau ar y cynnig
Cynnig 6 : Gosod lampau LED i weddill goleuadau stryd y Sir	<ul style="list-style-type: none"> Nid oes digon o olau gan oleuadau stryd LED - methu gweld yn y nos gyda nhw. (2) 	2
Cynnig 19 : Sefydlu ffioedd parcio ar draeth Dinas Dinlle	<ul style="list-style-type: none"> Bydd codi tâl am barcio yn Ninas Dinlle a Llanberis yn cael effaith ar nifer ymwelwyr i'r ardal. (2) 	2
Cynnig 20 : Cynyddu ffioedd lansio ar draws traethau Gwynedd o £1 i £15	<ul style="list-style-type: none"> Cynyddu ffioedd lansio ar draethau - ella byddai modd codi mwy o ffi hyd yn oed. (2) 	2
Cynnig 23 : Cynyddu incwm gorfodaeth stryd drwy ddirwyo mwy o unigolion sy'n gollwng sbwriel	<ul style="list-style-type: none"> Cytuno bod angen rhoi dirwy i unigolion sy'n gollwng sbwriel - ond angen hyn yn gyson ar draws y sir. (2) 	2
Cynnig 29 : Codi ffi ar waredu deunyddiau DIY (e.e. rwbel £3 y bag neu £3 lond trelar)	<ul style="list-style-type: none"> Mae codi am fynd a gwastraff i ganolfannau ailgylchu yn syniad gwirion - bydd yn golygu mwy o dipio "slei bach". (1) 	2
	<ul style="list-style-type: none"> Cytuno bod angen codi ffi ar waredu deunyddiau yn y Canolfannau Ailgylchu. (1) 	

Tud. 182

Atodiad B: Sylwadau ar gynigion penodol gan yr holl ymatebwyr

Cyfeirnod y cynnig arbediad	Sylwadau am y cynnig	Nifer o sylwadau ar y cynnig
Cynnig 56 : Adolygu pecynnau gofal anableddau corfforol gan gwrdd ag amcanion mewn ffordd amgen	<ul style="list-style-type: none"> Pecynnau gofal anableddau corfforol - yr elfen cydweithio yn bwysig iawn ond anodd amcan toriad neu arbediad heb wneud y gwaith ymchwil yn gyntaf. (2) 	2
Cynnig 61 : Lleihau 6% ar y gyllideb eiriolaeth	<ul style="list-style-type: none"> Mi fydd Deddf Llesiant Gwasanaethau Cymdeithasol yn cynyddu'r niferoedd fydd yn gymwys am y gwasanaeth eiriolaeth ac felly mae'n gynamserol i dorri'r gyllideb yma a chael effaith negyddol ar brofiadau plant a phobl ifanc. (2) 	2
Cynnig 63 : Lleihau cyfraniad y Cyngor o 7% Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid	<ul style="list-style-type: none"> Byddai lleihau y gyllideb Cyfiawnder Ieuenctid yn cael effaith ar grŵp bregus o blant. (2) 	2
Cynnig 3 : Creu Uned Gofal Ysbaid newydd yn Tan Y Marian, Pwllheli a fydd yn lleihau costau talu am leoliadau allanol	<ul style="list-style-type: none"> Angen cynnal ymgynghoriad ar yr Uned Gofal Ysbaid newydd - sicrhau bod y gofal o'r un safon neu well nac yn bresennol. (1) 	1
Cynnig 4 : Datblygu 3 prosiect Tai Gofal Ychwanegol arall yn Ardaloedd Pwllheli, Ffestiniog a De Meirionnydd	<ul style="list-style-type: none"> Llawer o bobl hŷn ddim yn gallu fforddio unedau gofal ychwanegol. (1) 	1

Atodiad B: Sylwadau ar gynigion penodol gan yr holl ymatebwyr

Cyfeirnod y cynnig arbediad	Sylwadau am y cynnig	Nifer o sylwadau ar y cynnig
Cynnig 8 : Cynyddu'r ffi ar gyfer asesu ansawdd dŵr yfed preifat er mwyn adlewyrchu'r gost o ddarparu'r gwasanaeth	<ul style="list-style-type: none"> Dylai samplu dŵr gael ei drosglwyddo i Cyfoeth Naturiol Cymru. (1) 	1
Cynnig 18 : Cysoni trefniadau parcio drwy gyflwyno ffioedd parcio i safleoedd (e.e. ardal Y Glyn, Llanberis)	<ul style="list-style-type: none"> Bydd codi tâl am barcio yn Llanberis yn cael effaith ar nifer ymwelwyr i'r ardal. (1) 	1
Cynnig 40 : Dileu elfen Gwasanaeth Cefnogi Athrawon y Gwasanaeth Llyfrgelloedd i Ysgolion	<ul style="list-style-type: none"> Peidiwch a lleihau'r gefnogaeth i athrawon addysgu ein plant. (1) 	1
Cynnig 44 : Lleihau'r adnodd o fewn y Gwasanaeth Polisi Cynllunio	<ul style="list-style-type: none"> Bydd mwy o adeiladau concriid hyll yn cael eu hadeiladu os na fydd digon o swyddogion cynllunio - difetha ein hardal naturiol brydferth. (1) 	1
Cynnig 45 : Lleihau'r gyllideb ar gyfer yr Uned Gorchmynion Traffig o 33%	<ul style="list-style-type: none"> Pryderu am y toriad i gyllideb Uned Gorchmynion Traffig. (1) 	1

Tud. 184

Atodiad B: Sylwadau ar gynigion penodol gan yr holl ymatebwyr

Cyfeirnod y cynnig arbediad	Sylwadau am y cynnig	Nifer o sylwadau ar y cynnig
Cynnig 51 : Dileu swydd a newid trefniadau rheoli y Gwasanaeth Adfywio Cymunedol (Lleihad o 2%)	<ul style="list-style-type: none"> • Byddai lleihau cyllideb Adfywio Cymunedol yn groes i fwriad y Cyngor i hybu mentrau cymunedol lleol. (1) 	1
Cynnig 57 : Adolygiad pecynnau Gofal Iechyd Parhaus	<ul style="list-style-type: none"> • Pecynnau gofal lechyd parhaus - anodd amcan toriad o'r fath cyn cario allan y gwaith o ail asesu a negydu gyda'r Bwrdd Iechyd. (1) 	1
Cynnig 60 : Lleihau cyllideb Cymorth i Ferched o 20%	<ul style="list-style-type: none"> • Ni ddylid lleihau cyllideb Cymorth i Ferched - pasio problem ymlaen i rhywun arall ydi hyn. (1) 	1
Cynnig 62 : Haneru cyllideb recriwtio a hyfforddi rhieni maeth	<ul style="list-style-type: none"> • Mae diffyg rhieni maeth yn barod yng Ngwynedd - byddai lleihau'r gyllideb recriwtio a hyfforddi yn gwneud y sefyllfa yn waeth. (1) 	1

Tud. 185

Atodiad C: Sylwadau cyffredinol gan yr holl ymatebwyr

Sylwad	Nifer o ymatebwyr i nodi hyn
Ni ddylid cynyddu'r Dreth Cyngor	19
Angen lleihau cyflogau prif swyddogion y Cyngor	19
Ni ddylid torri gwasanaethau i bobl hŷn fregus	15
Treth Cyngor uchel yn anodd i'w dalu i bobl ar incwm isel	14
Angen lleihau y nifer o gynghorwyr / lwfansau cynghorwyr	13
Gormod o staff gan y Cyngor / Angen cael gwared o staff aneffeithiol	12
Angen edrych ar fwy o arbedion effeithlonrwydd cyn dechrau torri	11
Staff Cyngor yn cael telerau gwaith rhy dda - gormod o fuddion	8
Mae'r 50% ychwanegol o dreth ar berchnogion ail dai wedi golygu eu bod rwan yn talu llai o dreth drwy gofrestru fel busnes	7
Angen codi mwy o dreth ar berchnogion ail dai	7
Dim digon o wybodaeth wedi ei gyflwyno am y toriadau a'r effaith posib y gallent gael ar grwpiau gwahanol	7
Angen cwblhau asesiadau effaith trylwyr ar y cynigion yma i gyd	6
Dylai'r Cynghorau gydweithio mwy i greu arbedion	6
Angen gwneud gwell defnydd o wirfoddolwyr i ymgymryd â rhai dyletswyddau	5
Holiadur gwastraffus - Cyngor ddim yn mynd i wrando ar barn trigolion	5
Cyflogau yn yr ardal yn rhy isel	4
Cyngor Gwynedd yn rhoi gormod o bwyslais ar yr iaith Gymraeg - costau ychwanegol o fod yn ddwyieithog	4
Dylid newid casgliadau bin gwyrdd i bob 4 wythnos	3
Falch iawn o weld cynigion i godi incwm yn hytrach na thorri gwasanaethau	3
Angen cynyddu'r dreth Cyngor er mwyn arbed gwasanaethau	3
Dylid edrych ar faint sydd yn cael ei wario ar gynnal ffyrdd	3

Tud. 186

Atodiad C: Sylwadau cyffredinol gan yr holl ymatebwyr

Sylwad	Nifer o ymatebwyr i nodi hyn
Angen edrych ar dreth cyngor lleol sy'n adlewyrchu modd pobl i dalu e.e. incwm y cartref	3
Dylai'r dreth adlewyrchu safon y gwasanaethau rydym yn derbyn	3
Ni fydd canlyniadau'r holiadur yn adlewyrchu barn pobl go iawn gan nad oedd opsiwn i wrthod y toriadau a dewis peidio codi'r dreth cyngor	3
Angen ymdrechu i gael mwy o arian i Lywodraeth Leol	2
Angen diffodd goleuadau stryd rhwng 1am a 5am	2
Ni ddylid torri'r gwasanaeth hamdden	2
Dylid gwneud swyddfeydd y Cyngor yn fwy ynni effeithiol	2
Dylid cau swyddfeydd y Cyngor dros gyfnod y Nadolig	2
Cytuno bod codi ffioedd yn ffordd deg i leihau effaith y toriadau	2
Llawer gormod o arian yn cael ei wastraffu ar ymgynghorwyr allanol	2
Mae'r toriadau yma yn mynd i gael effaith negyddol ar bobl anabl	2
Mae'r toriadau yma yn mynd i gael effaith andwyol ar y cymunedau gwledig	2
Llawer gormod o gymorth i'r rhai nad ydynt yn gweithio	2
Angen codi treth ar garafanau statig	2
Sylw amherthnasol	2
Dylid ymdrechu i lenwi tai cymdeithasol sy'n dod yn wag yn gynt o lawer	1
Angen dysgu gwersi o Her Gwynedd - rhoi cyhoeddusrwydd nid yn unig i ba benderfyniadau a wnaed ond hefyd pryd fyddan nhw'n digwydd	1
Ni ddylai'r Cyngor redeg Doc Fictoria na Marina Pwllheli	1
Falch bod maes Gofal ac Addysg yn cael ei warchod	1

Atodiad C: Sylwadau cyffredinol gan yr holl ymatebwyr

Sylwad	Nifer o ymatebwyr i nodi hyn
Mae'n gywilyddus nad oes raid i chi allu siarad Cymraeg yn rhugl i fod yn heddwes yng Ngogledd Cymru - denu pobl ddi-gymraeg i'r ardal	1
Angen sicrhau bod arwyddion/gwybodaeth ar gael i dwristiaid	1
Croesawu bod y Cyngor yn buddsoddi er mwyn creu arbedion	1
Angen stopio gwario ar addysg ddewisol a cludiant ysgolion	1
Dylid sicrhau bod pob dirwy parcio yn cael ei gasglu	1
Angen lleihau nifer yr arolygwyr ffyrdd	1
Dylai perchnogion Tai Amlfeddiannaeth dalu treth o ryw fath	1
Hoffwn weld cartrefi gofal preifat yn cael eu rheoli gan y Cyngor	1
Mae angen llai o gynghorau yng Nghymru	1
Bydd toriadau rhy llym yn creu problemau yn y dyfodol	1
Dylid ystyried codi treth ar ymwelwyr	1
Gweithwyr sbwriel sy'n gollwng sbwriel ar hyd y ffyrdd wrth gasglu gwastraff	1
Dwi erioed wedi cytuno i dalu treth ar gyfer Comisiynydd yr Heddlu	1
Mae angen ail fandio tai y sir er mwyn diben treth cyngor	1
Dylai athrawon fynd ar gyrsiau yn ystod gwyliau'r ysgol - byddai hyn yn arbed talu am athrawon llanw costus	1
Does dim angen cefnogi maes celfyddydau i'r fath raddau.	1
Dylid codi ffi ychwanegol am barcio cerbydau sydd yn cymryd mwy nac un bae parcio e.e. carafanau	1
Dylid rhoi cosb ariannol i'r rhai sydd yn cael eu dal yn bwydo gwylanod / peidio clirio ar ol eu cŵn	1
Gormod o staff addysg yn cael eu denu gan GWE	1
Gormod o staff mewn ysgolion bach	1
Dylid lleihau'r Dreth Cyngor presennol	1

Tud. 188

Atodiad C: Sylwadau cyffredinol gan yr holl ymatebwyr

Sylwad	Nifer o ymatebwyr i nodi hyn
Dylai pobl ar incwm isel dderbyn cerdyn teithio ar drafnidiaeth gyhoeddus	1
Dylid mynd ar ôl y rhai sydd ddim yn talu eu treth Cyngor	1
Ni ddylid cau'r Canolfannau Iaith ar unrhyw gyfrif	1
Poeni am fynediad i fynwentydd i bobl anabl/pramiau os na fyddant yn cael eu cynnal mor aml	1
Gwneud mwy o doriadau i wasanaethau "ring fenced" megis Addysg a Gofal	1
Croesawu gonestrwydd y Cyngor am y toriadau	1
Mae gennyf bob ffydd yn noethineb ein Cyngor i wneud penderfyniadau ynglŷn â gwariant y flwyddyn sydd i ddod.	1
Pam fod angen gofyn y cwestiynau cydraddoldeb?	1
Dylid codi tâl aelodaeth ar blant mewn canolfannau hamdden	1
Mae'r 50% ychwanegol o dreth ar ail dai yn anheg iawn - talu mwy am lai o wasanaeth gan nad ydym yn byw yma am ran helaeth o'r flwyddyn	1
Byddai cael gwared ar Newyddion Gwynedd yn creu arbediad	1
Dylai mwy o ohebiaeth / ffurflenni fod ar gael yn electroneg	1
Dylid ystyried yr effaith fydd y toriadau yma yn gael ar yr Iaith Gymraeg	1
Gall toriadau gael effaith negyddol ar bobl drawsrywiol	1
Gall toriadau gael effaith negyddol ar ferched beichiog	1

Tud. 189

Atodiad Ch: Sylwadau gan fusnesau / sefydliadau

Enw'r busnes / sefydliad	Sylwadau ar y Strategaeth Ariannol	Effaith ar un neu fwy o'r nodweddion cydraddoldeb
Derwen Children's Integrated Services for Children with Disabilities	The advocacy service for Children -especially those with disabilities are depleted enough as it is. It is imperative that the voice of the child is heard as reiterated in the Social service Well being ACT 2014 and the Unite Nations 'Every Child's right to be heard'	A reduced advocacy service would mean that Children with disabilities wouldn't have the opportunity to have their voice heard!
Pontio, Prifysgol Bangor	Byddai gostwng neu ddileu arian strategol celfyddydol yn effeithio ar ansawdd bywyd a llesiant pobl anabl, o wahanol oedran ac o wahanol ryw	
Plas Glyn y Weddw	Mae torri y gyllideb celf ymhellach yn mynd i gael effaith negyddol ar y nifer o brosiectau celf yn y sir ac o ganlyniad yn mynd i effeithio ar ansawdd y gweithgareddau celf yn y dyfodol.	Pob sector o gymdeithas yn mynd i gael ei effeithio
Sustrans Cymru	Item 59 - Barmouth Bridge – stopping payment to Network Rail for the right of way over the bridge. The right of way across the bridge is an important link for local communities, the National Cycle Network (NCN) and for the Wales Coast Path. The removal of this link would effect a large number of people (over 100,000 people use the Mawddach Trail / NCN 8 each year) in terms of their accessibility, their health and well-being and also the local economy. Every effort should be made to keep this vital link open and accessible all year round.	Any closure would effect the community as a whole but could have an extra negative effect on disabled people and / or people of different age groups
BCUHB	Cyfuniad o'r ddau yn gwneud synnwyr	Effeithio pob grŵp nodwedd

Tud. 190

<p>Dawns i Bawb</p>	<p>Rydym yn deall y penderfyniadau anodd sydd yn gorfod cael eu gwneud. Mae popeth yn mynd i gael rhyw fath o effaith ar drigolion, gwasanaethau a busnesau lleol fel ein cwmni ni. Dydy Dawns i Bawb, na'r sector celfyddydau, ddim yn derbyn llawer iawn o bres gan y Cyngor. Roeddwn wedi colli 50% o'n grant blwyddyn diwethaf ac oedd rhaid gwneud tipyn o newidiadau i'n darpariaeth Gwynedd mewn ymateb i hyn. Roedd yr effaith yn heriol ond llwyddwyd i gadw'n rhaglen yn mynd. Mae 20% ar ben hwn bron yn amhosib i gynllunio. Mae DiB yn darparu rhaglen ddawns i bobl o bob oedran a gallu dros y Sir cyfan ac yn llwyddo darparu gweithgareddau dawns i dros 13,000 o bobl yng Ngwynedd pob blwyddyn. Mae'ch cyfraniad chi yn hanfodol i ni gallu gwneud hyn. A da ni'n ddim ond un esiampl. Mae na llwyth o sefydliadau a chwmnïau eraill sy'n gwneud gwaith debyg gyda'ch cefnogaeth ariannol. Rydym yn rhwydwaith cryf gydag arweiniad gan Gwynedd Greadigol ac yn y sector celfyddydol dros Gymru, mae Gwynedd yn un o'r rhai mwyaf addawol achos y ffordd mae Gwynedd Greadigol yn cyd-weithio gyda'r cwmnïau a theatrau. Mae Gwynedd Greadigol wedi derbyn llythyron gan bobl lleol ac ysgolion sy'n sôn am bwysigrwydd cwmnïau fel Dawns i Bawb a sut mae'r celfyddydau yn ymateb mewn ffordd positif i iechyd a lles pobl o bob oedran, i addysg ein plant, i'r iaith Cymraeg ac i'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae gan y celfyddydau lle pwysig yn ein byd a mae partneriaeth sydd newydd cael ei datblygu rhwng Cyngor Celfyddydau Cymru a'r NHS yn tystiolaeth o hwn. Mae'r wlad yn wynebu amser caled iawn. Mae celfyddydau'n rhoi cyfle i bobl gael llais, dweud eu dweud, teimlo'n grymus fel unigolyn a chymunedau, rhannu, cymdeithasu a theimlo'n positif. Yn yr amser ansicr hwn, da ni'n angen y celfyddydau mwy nag erioed.</p>	
<p>Ysgol Pendalar</p>	<p>Fe hanerwyd y gyllideb yma yn ystod proses arbedion Her Gwynedd.</p> <p>Byddai gweithredu'r cynllun yma yn golygu y byddai'r Cyngor yn gorfod ystyried lefel y cymorth y gellid ei roi i'r 11 prif gwmni celfyddydol yng Ngwynedd.</p> <p>Mae cyd-weithio gyda'r cwmnïau celfyddydol rhain yn cynnig gwerth aruthrol i ddisgyblion yn yr ysgol arbennig. Mae'r cyfle i weithio gyda artistiaid proffesiynol ar brosiectau arloesol yn codi dyheadau, hunan hyder a hunan ddelwedd disgyblion ac yn ennyn diddordeb a mwynhad y celfyddydau ynddynt.</p>	
<p>Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri</p>	<p>Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri yn dymuno nodi'r angen am ystyriaeth i flaenoriaethau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.</p>	

Theatr y Ddraig	<p>We depend on the small amount of money (just £3,000) we receive from the Gwynedd Arts Fund to attract more funding and to generate further business. Although we are an arts organisation we are also a business and we contribute to the economy - employing people, using local contractors and buying local produce. I think it's unfair to shave 20% off our funding - we have already been cut by 50% and have been hit hard by this. Also it is unfair that people who live near Pwllheli have £100,000 spent on their theatre/cinema but the people who live in Barmouth have nothing spent on theirs. People from remote geographical communities are being discriminated against by these cuts.</p>	
Cwmni'r Tebot	<p>Fel cwmni theatr sydd yn dechrau arni ac yn cynnig cyfleoedd i unigolion ifanc, lleol, bydd torri'r arian sydd ar gael i'r celfyddydau yn drychinebus i ni. Nid yn unig gan ein bod yn gobeithio elwa o'r gronfa ond hefyd am ein bod yn cyd-weithio gyda chwmnïau eraill yng Ngwynedd ac yn elwa o'u profiad a'u harbenigedd ac y byddant hwythau yn dioddef o dan law y toriadau hyn. Cwmni theatr cymunedol sydd a'n bryd ar wasanaethu cymunedau bychain sydd yn aml yn cael eu anghofio ydym ni a byddai toriad fel hyn, wrth i ni ddatblygu yn gnoc. Mae cyfraniad celfyddydol Gwynedd yn un sydd i'w deimlo drwy Gymru a thu hwnt ac mae o'n 'fffenest siop' dda i'r Cyngor am eu bod yn galluogi cwmnïau a mudiadau i wneud gwaith da.</p>	
Inigo Jones	<p>Mae'r cynnig i dorri un swydd yn yr adran twristiaeth yn annoeth ac yn ein arwain i fethu yn ein ymdrechion i gryfhau'r diwydiant.</p> <p>Os caiff ei weithredu ni fydd y lefelau staffio yn ddigonol i roi cynigion ymlaen i ennill cyllid o ffynonellau allanol sydd wedi bod yn y gorffennol, ag all fod eto yn y dyfodol, yn fuddiol i sicrhau incwm sydd gymaint ei angen ag all ddarparu enillion sylweddol ar fuddsoddiad.</p> <p>Byddai swyddogaethau pwysig eraill yr adran Dwristiaeth hefyd yn cael eu heffeithio yn ddifrifol.</p> <p>Mae Twristiaeth yng Ngwynedd yn gwbl bwysig i'r economi leol, ac mae gwneud toriadau mewn adran dwristiaeth sydd yn barod ar ei gliniau yn gyrru'r neges gwbl anghywir, yn enwedig pan mae'r cyngor yn gofyn i'r diwydiant dwristiaeth am gefnogaeth i ddarganfod ffyrdd gwahanol o godi cyllid ar gyfer y ddiwydiant yn y dyfodol</p>	

Canolfan Gerdd William Mathias, Galeri, Caernarfon

Mae'n destun pryder i ni bod awgrym i dorri y grantiau strategol i'r celfyddydau o 20% yn arbennig gan bod y gronfa eisoes wedi cael ei thorri yn ei hanner yn dilyn ymgynhoriad Her Gwynedd. Carwn gynnig ychydig sylwadau ar bwysigrwydd y gronfa hon :

Ers cael ein derbyn fel aelod newydd o'r portffolio grantiau strategol yn 2011, rydym ni (Canolfan Gerdd William Mathias) wedi gallu sicrhau parhad a datblygiad nifer o brosiectau pwysig megis Doniau Cudd (ein prosiect cerdd creadigol i oedolion sydd ag anableddau dysgu), Camau Cerdd (sesiynau cerdd i blant o 6mis i 7oed), cyngherddau cymunedol, gwaith gyda phobl hŷn a threfnu Gwyliau cerdd o statws rhyngwladol. Mae'r gweithgareddau rhain yn dod a budd sylweddol i Wynedd ar sawl lefel :

- Darparu profiadau celfyddydol safonol i drigolion Gwynedd o 0 – 100+ oed yn cynnwys henoed, yr anabl, plant a theluoedd gan hybu iechyd a lles.
- Darparu gwaith i gerddorion hunan-gyflogedig sy'n ymdrechu i gynnal bywoliaeth ym maes y Celfyddydau yng Ngwynedd.
- Denu pobl o'r tu allan i'r Sir a Chymru i Gaernarfon gan gyfrannu at yr economi leol.

Creu partneriaethau gyda chwmnïau eraill ac adrannau eraill o fewn y Cyngor megis y Gwasanaethau Cymdeithasol.

Mae gallu dangos cefnogaeth gan y Cyngor Sir hefyd yn gymorth mawr wrth ymgeisio am grantiau o ffynnonellau eraill o Gymru a'r tu hwnt. Enghraifft ddiweddar o hynny yw ein llwyddiant i sicrhau grant o £198,189 o Gronfa Spirit of 2012 fel rhan o'u Music Challenge Fund. Nód y Gronfa hon yw cefnogi prosiectau sy'n dod a phobl abl ac anabl ynghyd i gymryd rhan mewn cerddoriaeth gan wella iechyd meddwl a lles. Heb os roedd ein 'track record' o gynnal Doniau Cudd gan gydweithio gyda Tim Anableddau Dysgu Cyngor Gwynedd a gyda chefnogaeth ariannol y Gronfa Strategol yn gryfder mawr yn y cais ac yn gymorth i sicrhau'r buddsoddiad sylweddol yma. Bydd y prosiect yn dod a budd i drigolion Gwynedd trwy'r sesiynau rheolaidd fydd yn cael eu cynnal yn Harlech, Caernarfon a Phwllheli dros y 3 mlynedd nesaf. Bydd hefyd yn darparu gwaith i nifer o gerddorion llawrydd o'r Sir, yn cynnwys sawl un sydd wedi datblygu sgiliau ym maes iechyd a lles trwy weithio ar rai o'r prosiectau a arianwyd trwy'r grant strategol yn y blynyddoedd diwethaf. Yn ogystal mae un swydd ran amser Rheolwr Prosiect yn cael ei chreu.

Yn yr un modd mae Gwyliau Rhyngwladol a drefnir gennym yn dod a budd economaidd sylweddol i'r ardal. Daeth Gŵyl 2018 á thelynorion a'u teuluoedd o 24 gwlad i Gaernarfon am wythnos lawn o weithgareddau gan ddod a budd sylweddol i westai, bwytai, siopau ac atyniadau twristiaid lleol. Mae rhai prosiectau y bu i ni eu sefydlu gyda chymorth y gronfa bellach yn cynhyrchu incwm digonol a ddim yn dibynnu ar gyfraniad o'r gronfa strategol felly mae'r elfen o 'seed funding' yn holl bwysig hefyd.

Mae'r gronfa hefyd yn helpu i ddenu buddsoddiad pellach yn y celfyddydau gan drigolion y Sir e.e. yn ddiweddar trwy ein grant bu i ni gynnig gwers flasu un i un am ddim i hyd at 15 o bobl dros 55oed. Mae 13 wedi mynychu gwers flasu hyd yma a 8 ohonynt wedi penderfynu parhau i dderbyn gwersi ar eu costau eu hunain gan gyfrannu at gyflogaeth tiwtoriaid cerdd lleol a'n incwm ninnau.

Dim ond ambell enghraifft yw'r rhai uchod o sut mae'r gronfa nid yn unig yn cyfrannu at sicrhau profiadau celfyddydol o safon i drigolion Gwynedd ond yn cyfrannu at economi a chyflogaeth y Sir, iechyd a lles ei thrigolion ac yn hyrwyddo'r Sir i bob cwr o'r byd. Mae sawl enghraifft arall ymhlith y cwmnïau eraill sy'n elwa o'r gronfa strategol yn sicr.

Mawr obeithiwn yn dilyn y toriad sylweddol o 50% a wnaethpwyd eisoes y bydd y Cynghorwyr yn penderfynu yn erbyn gwneud unrhyw doriadau pellach.

O'n safbwynt ni fel cwmni mae'r prosiectau rydym yn gofyn am gefnogaeth ar eu cyfer yn cynnwys prosiectau sy'n darparu cyfleoedd i grwpiau sy'n amal wedi eu tangynrychioli yn cynnwys:

Doniau Cudd - sy'n darparu sesiynau cerdd i oedolion sydd ag anableddau dysgu.

Camau Cerdd sy'n darparu profiadau cerddorol i deuluoedd ifanc yn cynnwys mamau sydd ar gyfnod mamoaeth.

Cyngherddau cymunedol rhad ac am ddim mewn ardaloedd gwledig o'r Sir.

Ein cynllun Atgofion ar Gân mewn partneriaeth gyda Adran Celfyddydau Cymunedol Cyngor Gwynedd sy'n anelu at daclo unigrwydd ymhlith bobl hŷn Gwynedd.

Mae'r sefydliadau eraill sy'n elwa o'r gronfa hefyd yn darparu ar gyfer sawl un o'r grwpiau a nodir.

Er bod cwmnïau yn ymdrechu i fwyafu incwm lle bo'n bosibl o werthiant tocynnau / ffioedd cofrestru ag ati, mae'n hanfodol os am ddarparu yn eang a cheisio cyrraedd pawb bod rhai gweithgareddau yn cael eu sybsideiddio. Un o effeithiau posibl toriadau yw y bydd costau cymryd rhan yn y celfyddydau yn cynyddu gyda'r peryg o fod allan o gyrraedd rhai o'r trigolion mwyaf bregus sy'n elwa gymaint o'r ddarpariaeth. Sgil effaith posibl hynny wedyn yw dirywiad mewn lles.

Cyngor Cymdeithas Botwnnog	Cynlluniau i fuddsoddi er mwyn creu arbediad: 25 - Ni chytunwn â hyn gan fod llawer o'r biniau sydd yn cael eu difrodi yn malu wrth gael eu gwagio gan weithwyr y lorïau sbwriel 36 a 37 - yn anffodus nid yw cyfanswm yr arian sydd gennym yn ein Cyngor Cymuned yn ddigon i ni gymeryd drosodd a'u rhedeg. 51 - Byddai'n golled fawr iawn i drigolion Llyn pe byddai Cyngor Gwynedd yn methu cefnogi 'O Ddrws i Ddrws' - colled i bobl hyn a phobl anabl sy'n methu gyrru ac heb fod yn berchen ar fodur i'w cludo i'r feddygfa, i'r ysbyty ayyb.	
Cyngor Cymuned Brynchrug	Pryder ynglŷn ag effaith y toriadau ar drigolion. Dylid ceisio sicrhau nad yw'r gwasanaethau y mae'r cyhoedd yn eu defnyddio o ddydd i ddydd yn cael eu colli e.e. torri gwair, ysgubo ffyrdd	
Cyngor Cymuned Arthog	Gweler gohebiaeth yn Atodiad D.	
Heb nodi pa sefydliad – “Classified”	Having just read it, think you need to consult with local businesses first. Most proposals would lead to people (source funding) avoiding Pwllheli and local areas. Cutting down on services should be a no go. Stopping free parking at Christmas: that hasn't been thought through has it.	
Môr Wyn Guest House, Abermaw	Dim sylwad	
First Light, Abersoch	Dim sylwad	
Ysgol Bro Hedd Wyn, Trawsfynydd	Dim sylwad	
Cwmni Fran Wen	Dim sylwad	
Cimera C.B.C	Dim sylwad	

ARTHOG

CYNGOR
CYMUNED

COMMUNITY
COUNCIL

Clerc/Clerk - ANGELA THOMAS
TAIR TREM, PENRHYN DRIVE NORTH, FAIRBOURNE LL38 2DJ
Ffon/Phone 07831 697611
Email: cyngorarthogcouncil@gmail.com/angelathomas000@gmail.com

14th January 2019

Dilwyn Williams
Chief Executive
Gwynedd Council
Council Offices
Shirehall Street
Caernarfon
LL55 1SH

Dear Sir

COMMENTS REGARDING THE PROPOSED 5.5% RISE IN COUNCIL TAX AND OTHER MEASURES PROPOSED TO INCREASE REVENUE

Reference to Gwynedd Council increase in 2019 rates and cut in general services

Arthog Community Council, while understanding that Government funding has been cut to the local authority, feel honour bound on behalf of the residents within the Community Council area, to voice major concerns at proposals yet again to increase council rates to local residents.

Gwynedd Council quote that their funding has been cut repeatedly from the national government for over a decade which has put severe strain on the authority's finances with regards to future services. It has to be pointed out, that this exact same problem is being endured by local residents who repeatedly see their annual council tax rise for less and less service, but often well above national inflation.

Gwynedd has one of the lowest overall incomes per person in the UK, said to be in the bottom ten of the national UK league table. Yet, persistently, Gwynedd Council seem to think that ordinary people struggling to make ends meet on these low and often static wages, can repeatedly find more money for this declining service. This is not the case and we, as councillors, are finding local people telling us they are suffering extreme hardship as a result of this continual annual rate rise. These are often people who are in the divide line of working full-time, but not being in a position to claim benefits. Old age pensioners are also often in the same position with a negligible increase in their yearly income not proportionable to the council rate increases. Clearly, Gwynedd Council must acknowledge that pushing the problem on to the residents of Gwynedd is not a solution, in either short or long term. It might be the easy solution from the Council's viewpoint, but it is not acceptable, nor practical, to the Gwynedd residents who have to fund this and see a continual decline in their living standards.

The UK inflation rate at the time of writing falls somewhere between 2.4% and 3%, yet Gwynedd Council are quoting a possible Council Rates increase of 5.5%. With low wages and high inflation, it is clear to see that Gwynedd families will fall yet further behind financially as a result of this out of proportion increase.

Arthog Community Council sympathise with Gwynedd Council's predicament, but at the same time it is clear that the cash cow that is the public are now bled dry and alternative funding must be found, whatever that may be, to make up the shortfall of council funds. We, Arthog Community Council, would be grateful of an explanation from Gwynedd Council as to how said council expects the low earning public of Gwynedd to keep funding these extra fees?

We would also like to raise the issue of Gwynedd Council looking to charge for the repair or replacement of waste bins. It has come to our attention that the green waste bins provided, and the brown garden waste bins, have been fitted with type of wheel axle which, over time, especially in coastal communities where salt air is evident, rusts, rots and breaks down. This then requires the resident to contact the council to initiate a replacement axle. Would it not have been more financially prudent to have fitted axles that don't rot (stainless steel) to avoid this unnecessary expense in the first place? It seems whomever initiated these receptacles did not think the problem through sufficiently, thus incurring additional cost that could be put to better use.

What's more, a majority of damage to bins is caused by the bin collectors themselves who have repeatedly smashed the cantilever access lids on the recycling bins, smashed bin lids on the large waste bins, and snapped the handles off the small brown food bins used for waste food collection. It also brings in to question whether the bins are actually fit for purpose? This suggests to us that Gwynedd Council are not actually in tune with the reality of the actual situation and need to do some research before trying to apply costs to residents who probably have not damaged the bin themselves in the first place. In the majority of cases, the only contact a resident has with their bins is when filling them and taking them to the roadside pick-up point, hardly heavy-duty abuse. It's obvious, at least it is to our councillors, that the greater likelihood of damage is when the bins are being man-handled by the refuse collectors themselves and vehicle hydraulics. Our local residents often complain to us that their bins are literally thrown on the floor and often scattered loosely and are often left encroaching in to the road after the refuse collectors have been. Working people cannot be expected to be home after bin pick-up to retrieve their bins, so some common sense by both Gwynedd Council and the refuse collectors on this point is needed.

Another issue with bins is that in many areas high winds will blow even full bins over. Many residents put a weight on the bin lid to keep the bins in place. The refuse collectors do not put the weights back and the empty bins then blow off down the street. Alternatively, you would expect the refuse collectors to apply common sense and lay the bins on the floor to avoid them blowing away. It needs to be pointed out here, that residents have done what is expected of them and applied common sense to keep their bins in situ, yet the council representatives do not, and it is they that cause many of the issues associated with broken and lost bins. It appears to many residents, and rightly so, that Gwynedd Council are somewhat detached from the reality of this situation regards bin damage and this needs to be addressed.

Again, Arthog Community Council would be grateful to hear Gwynedd Councils response to the above issues regards bin and refuse collection and as to how it aims to alleviate these issues instead of simply assuming the general public are to blame.

It also has to be said that when major businesses suffer hardship, jobs are lost. It is a hard fact of life, but maybe Gwynedd Council needs to look closer to home when it comes to raising rates etc and see if cuts to office premises and even staff might be more appropriate to generate new funds.

We hope that Gwynedd Council will take these constructive comments in the spirit that they are intended. Gwynedd Council asked for comment and Arthog Community Council has replied.

Yours sincerely

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'Angela Thomas', with a stylized flourish at the end.

ANGELA THOMAS - CLERK
For and on behalf of Arthog Community Council

Cc: Dafydd Edwards
Liz Saville-Roberts

ATODIAD 12

PENDERFYNIADAU AMGEN

O'r opsiynau a godwyd yn y gweithdai bach arbedion i'r Aelodau (18 – 28 Ionawr 2019), neu a godwyd gan nifer go sylweddol o'r cyhoedd mewn ymateb i'r ymgynghoriad cyhoeddus, dyma'r pump cynllun arbediad sydd wedi eu hadnabod yn y gweithdy mawr arbedion i'r Aelodau ar 5 Chwefror 2019 am ystyriaeth bellach.

Cynllun	% Treth Cyngor	2019/20	2020/21 ymlaen	Cyfanswm Cynllun
Mwyafrif o'r Aelodau o blaid cynnyddu'r dreth er mwyn peidio gweithredu'r arbediad				
Cyf. 6.22 Lleihau cyllideb Cymorth i Ferched o 20%	0.01%	£8,080	£2,690	£10,770
Cyf. 6.25 Lleihau cyfraniad y Cyngor o 7% i'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuencid	0.02%	£12,390	£1,770	£14,160
Cyfran sylweddol o'r Aelodau o blaid cynnyddu'r dreth er mwyn peidio gweithredu'r arbediad neu wedi ymatal rhag pleidleisio				
Cyf. 4.19 Codi ffi am gyflenwi biniau sydd wedi'u difrodi gan drigolion	0.01%	£6,250	£18,750	£25,000
Cyf. 4.4 Parcio am ddim dros y Nadolig	0.07%	£45,000	£0	£45,000
Cyf. 6.16 Lleihau y grantiau strategol i'r celfyddydau 20%	0.00%	£0	£18,000	£18,000
Cyfanswm y 5 Cynllun	0.11%	£71,720	£41,210	£112,930

ATODIAD 13

CADERNID YR AMCANGYFRIFON

1. Yn unol ag Adran 25 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003, mae'n ofynnol i'r Prif Swyddog Cyllid adrodd ar gadernid yr amcangyfrifon cyllidebol a digonolrwydd y cronfeydd wrth gefn arfaethedig. Mae Atodiad 7 yn amlinellu sefyllfa'r balansau a chronfeydd wrth gefn, tra mae'r atodiad yma'n cadarnhau cadernid yr amcangyfrifon cyllidebol sy'n sail i'r gyllideb.
2. Mae amcangyfrifon y gyllideb yn seiliedig ar dybiaethau ynghylch gwariant ac incwm yn y dyfodol ac mae'n anochel eu bod yn cynnwys elfen o risg yn sgil rhagdybio. Gall effaith y risg hon gael ei lliniaru drwy gynlluniau wrth gefn, cyllidebau wrth gefn a chronfeydd ariannol wrth gefn.
3. Nid yw cadernid yr amcangyfrifon cyllidebol yn gwestiwn syml os ydynt wedi'u cyfrifo yn gywir. Yn ymarferol, mae llawer o gyllidebau wedi'u seilio ar amcangyfrif neu ragolygon, a bydd elfen o risg ynghylch gwireddu cynlluniau a chyflawni targedau. Ystyrir gwahanol risgiau i'r gyllideb isod:
4. **Risg Chwyddiant** - Mae risg gall chwyddiant droi allan yn sylweddol wahanol i'r rhagdybiaeth a wnaed yn y gyllideb. Ar gyfer 2019/20, caniatawyd chwyddiant ar sail y wybodaeth ddiweddaraf am tâl a phrisiau, ond mae risg y bydd chwyddiant yn codi eto yn ystod 2019/20 ac ansicrwydd ynghylch y lefel tebygol (heblaw chwyddiant tâl a phensiynau sydd eisoes wedi'i gytuno). Gall cynnydd mewn chwyddiant ychwanegu at gostau'r Cyngor, ond gellir ei gyllido drwy ddefnyddio cronfeydd wrth gefn fel bo'r angen.
5. **Risg Cyfraddau Llog** - Gall cyfraddau llog effeithio'r gyllideb refeniw drwy'r llog a enillir - h.y. byddai cynnydd yn y gyfradd log yn golygu mwy o incwm. Yn unol â Strategaeth Rheoli Trysorlys y Cyngor, nid yw'r gyllideb yn dibynnu ar enillion uchel am fuddsoddi. Mae cyfraddau llog yn parhau i fod ar eu hisaf erioed ac nid ydynt yn debygol o godi cyn o leiaf 2020/21. Felly, ystyrir bod y risg o ran cyfraddau llog yn isel ac mae'n digolledu'r risg chwyddiant, oherwydd bod un yn debygol o gynyddu gyda'r llall.
6. **Risgiau Grantiau Penodol** - Mae'r risgiau ynghlwm â'r nifer fawr o grantiau penodol gan Lywodraeth Cymru, Ewrop, neu gyrff eraill sy'n cefnogi cyfran o wariant y Cyngor. Gall rhai o'r rhain ostwng, neu cael eu torri, ac nid oes gennym ddarlun cyflawn wrth i'r flwyddyn ariannol gychwyn. Bydd rhaid i'r gwariant cysylltiedig orffen pan daw grant i ben, ond mae'n bosibl fydd telerau contract yn golygu na all gwariant gael ei dorri mor gyflym â'r grant, neu bod costau diswyddo i'w hariannu. Ymhellach, efallai bydd gweithgaredd a ariennir mor bwysig i gyflawni blaenoriaethau'r Cyngor ei hun, a'r Cyngor yn penderfynu parhau â'r gwariant. Byddwn yn lliniaru'r risg hon drwy sicrhau bod gennym yr wybodaeth orau sydd ar gael ar grantiau, ond mae'r cyrff ariannu (Llywodraeth, ayb) yn rheoli'r sefyllfa hyn.
7. **Risgiau Incwm** - Mae'r gyllideb yn seiliedig ar sicrhau cynnydd penodol mewn incwm ffioedd sydd cyfwerth â'r cynnydd mewn costau perthnasol. Os bydd galw am wasanaethau'r Cyngor yn disgyn, ac nad yw targedau incwm yn cael eu cyflawni, gall hynny arwain at orwario ar gyllidebau adrannol. Bydd angen monitro gwir sefyllfa'r gyllideb yn ofalus yn ystod y flwyddyn ac, os oes angen, torri yn ôl ar wariant i gyfateb i'r gostyngiad mewn incwm. Bydd hynny ddim yn bosib gyda rhai cyllidebau mawr corfforaethol, lle rhaid gosod amcangyfrifon incwm ar lefel darbodus.

8. **Risg ag Arbedion** - Un risg sylweddol yn yr amgylchiadau presennol yw bod y Cyngor yn or-optimistaidd o ran gwireddu cynlluniau arbedion. Petai'r prosiectau hyn yn rhedeg i drafferthion ac yn methu cyflawni'r arbedion a gymerwyd allan o'r gyllideb, gallai hynny arwain at orwario sylweddol. Byddwn yn lliniaru'r risg drwy sicrhau fod cynlluniau arbedion ym mherchnogaeth adrannau ac aelodau'r Cabinet, a monitro'r cynnydd perthnasol yn rheolaidd.
9. **Costau Diswyddo Staff** - Mae rhai gwasanaethau yn ailstrwythuro eu staff er mwyn cyflawni arbedion, a staff yn cael eu rhyddhau drwy ddiswyddiad. Lle'n briodol, caiff costau diswyddo eu cyllido o gronfa wrth gefn ganolog, ac mae swm addas wedi cael ei neilltuo i'r perwyl hyn, sy'n lliniaru'r risg.
10. **Premiwm y Dreth Cyngor** - Wrth benderfynu ar y Sylfaen Drethiannol, aseswyd nifer yr ail gartrefi a thai gwag i'w cynnwys yn y ffigyrau yn ddarbodus. Mae risg bod nifer yr eiddo fydd yn talu wedi'i or-amcan a'r incwm a gesglir yn is na'r swm amcangyfrifwyd (oherwydd eiddo'n trosglwyddo i'r rhestr treth fusnes). Rydym yn rheoli'r risg drwy gyflogi arolygwyr sy'n gwirio'r ffeithiau, a thrwy beidio ymrwymo'r holl gynnyrch treth o'r Premiwm cyn daw'r sefyllfa'n fwy eglur.
11. **Barn y Swyddog Cyllid Statudol** - Wedi ystyried yr holl risgiau a nodir uchod a'r camau lliniaru, mae'r Pennaeth Cyllid (Swyddog Adran 151) o'r farn bod y cyllidebau yn gadarn, yn ddigonol, ac yn gyraeddadwy.

Eitem 9

CYFARFOD:	PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU
DYDDIAD:	14 CHWEFROR 2019
TEITL:	ADRODDIAD STRATEGAETH CYFALAF 2019/20
DIBEN:	EGLURO A CHRAFFU'R STRATEGAETH ARFAETHEDIG AR GYFER 2019/20
GWEITHREDU:	Derbyn gwybodaeth, ystyried unrhyw risgiau sy'n codi o'r strategaeth cyn iddi gael ei chyflwyno i'r Cyngor Llawn ei derbyn.
SWYDDOG CYSWLLT:	DAFYDD L EDWARDS, PENNAETH CYLLID
AELOD CABINET:	Y CYNGHORYDD PEREDUR JENKINS

CYFLWYNIAD

1. Mae'r strategaeth gyfalaf hon yn adroddiad newydd ar gyfer 2019/20. Mae'n rhoi trosolwg lefel uchel ar y modd y mae gwariant cyfalaf, ariannu cyfalaf a gweithgaredd rheolaeth trysorlys yn cyfrannu at ddarparu gwasanaethau cyhoeddus lleol. Mae hefyd yn rhoi trosolwg o sut rheolir y risgiau cysylltiedig, a'r goblygiadau i gynaliadwyedd ariannol yn y dyfodol. Fe'i hysgrifennwyd mewn arddull rwydd er mwyn hwyluso dealltwriaeth aelodau o'r meysydd hyn sy'n dechnegol ar brydiau.

GWARIANT CYFALAF A CHYLLIDO

2. Gwariant cyfalaf yw pan yw'r Cyngor yn gwario arian ar asedau, megis eiddo neu gerbydau, a fydd yn cael eu defnyddio am fwy na blwyddyn. Mewn llywodraeth leol mae hyn yn cynnwys gwario ar asedau sy'n eiddo i gyrff eraill, a rhoi benthyciadau a grantiau i gyrff eraill i'w galluogi nhw i brynu asedau. Mae gan y Cyngor ryddid cyfyngedig i bennu'r hyn sy'n cyfrif fel gwariant cyfalaf, ac mae rhai asedau gwerth isel yn cael eu trosglwyddo i refeniw yn ystod y flwyddyn. Asesir pob ased a chynllun yn ôl ei haeddiant ei hun, a chyfrifir amdanynt yn unol â hynny hefyd.
 - Ceir eglurhad pellach am bolisi'r Cyngor ar gyfalafu yn Nodiadau Polisi Datganiad Cyfrifon y Cyngor ar gyfer 2017/18, gweler: <https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Cyngor/Perfformiad-a-gwariant/Cyllidebau-a-gwariant/Datganiad-or-cyfrifon/Cyngor-Gwynedd.aspx>
3. Yn 2019/20, mae'r Cyngor yn bwriadu gwneud gwariant cyfalaf o £35m, fel crynhoir isod:

Tabl 1: Dangosydd Darbodus: Amcangyfrifon o Wariant Cyfalaf mewn £ miliynau

	Gwir 2017/18 £m	Amcan 2018/19 £m	Cyllideb 2019/20 £m	Cyllideb 2020/21 £m	Cyllideb 2021/22 £m
Gwasanaethau Cronfa Gyffredinol	23.4	28.5	35.0	18.8	9.3

4. Mae prif brosiectau cyfalaf y Gronfa Gyffredinol yn 2019/20 yn cynnwys:
 - Cynllun Rheoli Asedau (i'w ddyrannu) - £11.7m
 - Atgyweirio Priffyrdd - £2.7m
 - Strategaeth Tai - £2.7m
 - Ysgolion yr Unfed Ganrif ar Hugain - £8.7m

5. **Llywodraethu:** Mae gan y Cyngor Strategaeth Asedau 10 mlynedd, sef cynllun o flaenoriaethau gwariant cyfalaf y Cyngor yn seiliedig ar anghenion yr adrannau. Mae'r strategaeth yn cynnwys cyfran heb ei chlustnodi. O'r gyfran hon, mae modd i adrannau wneud cais yn flynyddol am arian ar gyfer cynlluniau cyfalaf. Yr Adran Gyllid sy'n cydlynu'r ceisiadau. Mae'r Cabinet yn gwerthuso pob cais yn seiliedig ar flaenoriaethau, ac yn gwneud argymhellion. Cyflwynir ceisiadau cyfalaf a strategaeth asedau i'r Cabinet a'r Cyngor llawn yn flynyddol.
 - Am ragor o wybodaeth am raglen gyfalaf y Cyngor, ewch i **Atodiad A**.

6. Rhaid ariannu pob gwariant cyfalaf naill ai o ffynonellau allanol (grantiau gan y llywodraeth a chyfraniadau eraill), adnoddau'r Cyngor (refeniw, cronfeydd a derbyniadau cyfalaf), neu ddyled (benthyca, prydlesu, a Menter Cyllid Preifat (MCP)). Bwriedir ariannu'r gwariant uchod fel a ganlyn:

Tabl 2: Cyllido Cyfalaf mewn £ miliynau

	Gwir 2017/18 £m	Amcan 2018/19 £m	Cyllideb 2019/20 £m	Cyllideb 2020/21 £m	Cyllideb 2021/22 £m
Ffynonellau Allanol	11.1	15.4	15.2	6.4	2.5
Adnoddau ein Hunain	4.5	7.1	14.3	7.5	2.7
Dyled	7.8	6.0	5.5	4.9	4.1
CYFANSWM	23.4	28.5	35.0	18.8	9.3

7. Cyllid dros dro yn unig yw dyled, gan fod rhaid talu benthyciadau a phrydlesau yn ôl. Mae hwn, felly, yn cael ei ddisodli mewn amser gyda mathau gwahanol

o ariannu, fel arfer o refeniw. Gelwir hyn yn ddarpariaeth lleiafswm refeniw (DLIR). Fel arall, gellir defnyddio enillion a ddaw o werthu asedau cyfalaf (a elwir yn dderbyniadau cyfalaf) i ddisodli dyled ariannol. Mae'r defnydd o'r derbyniadau cyfalaf a'r DLIR bwriedig fel a ganlyn:

Tabl 3: Disodli Dyled mewn £ miliynau

	Gwir 2017/18 £m	Amcan 2018/19 £m	Cyllideb 2019/20 £m	Cyllideb 2020/21 £m	Cyllideb 2021/22 £m
Adnoddau ein Hunain	7.8	7.7	7.6	7.7	7.7

- Ceir Datganiad Darpariaeth Lleiafswm Refeniw cyflawn y Cyngor yn **Atodiad B** y Datganiad Strategaeth Cyfalaf.
8. Mesurir cyllid sy'n ariannu dyled cronus y Cyngor yn ôl y gofyn cyllido cyfalaf (GCC). Mae hyn yn cynyddu gyda gwariant cyfalaf newydd a ariennir drwy ddyled, ac mae'n lleihau gyda DLIR a derbyniadau cyfalaf a ddefnyddir i ddisodli dyled. Disgwylir y bydd y GCC yn gostwng £2.1m yn ystod 2019/20. Yn seiliedig ar y ffigyrau gwariant ac ariannu uchod, mae GCC amcangyfrifedig y Cyngor fel a ganlyn:

Tabl 4: Dangosydd Darbodus: Amcangyfrifon o'r Gofyn Cyllido Cyfalaf mewn £ miliynau

	Gwir 31.3.2018 £m	Amcan 31.3.2019 £m	Cyllideb 31.3.2020 £m	Cyllideb 31.3.2021 £m	Cyllideb 31.3.2022 £m
Gwasanaethau Cronfa Gyffredinol	177.0	177.6	175.5	172.7	169.1

9. **Rheoli Asedau:** Er mwyn sicrhau bod asedau cyfalaf yn parhau'n ddefnyddiol yn y tymor hir, mae gan y Cyngor strategaeth rheoli asedau. Mae Strategaeth Asedau newydd ar gyfer y cyfnod 10 mlynedd o 2019/20 hyd 2028/29 wedi cael ei ddatblygu. Fel rhan o'r drefn o sefydlu'r strategaeth newydd, gofynnwyd i'r Adrannau ystyried y gofynion cyfalaf a fyddai'n eu galluogi i redeg eu gwasanaethau. Cynhaliwyd cyfres o weithdai i aelodau gael mynegi barn a blaenoriaethu cynlluniau cyfalaf. Bydd y Cabinet yn y pwyllgor ar 19/02/2019 yn cyflwyno ei argymhellion swyddogol i'r Cyngor llawn 07/03/2019 i'w gymeradwyo.

10. **Gwaredu Asedau:** Pan nad oes angen yr ased cyfalaf mwyach, gellir ei werthu er mwyn gwario'r derbyniadau cyfalaf yma ar asedau newydd neu i ad-dalu dyled. Mae ad-dalu grantiau cyfalaf, benthyciadau a buddsoddiadau hefyd yn creu derbyniadau cyfalaf. Bwriad y Cyngor yw derbyn derbyniadau cyfalaf fel a ddengys yn y tabl isod:

Tabl 5: Derbyniadau Cyfalaf mewn £ miliynau

	Gwir 2017/18 £m	Amcan 2018/19 £m	Cyllideb 2019/20 £m	Cyllideb 2020/21 £m	Cyllideb 2021/22 £m
Gwerthu Asedau	0.2	0.4	0.0	0.0	0.8

RHEOLAETH TRYSORLYS

11. Mae rheolaeth trysorlys yn ymwneud â chadw digonedd ond nid gormodedd o arian parod i ddiwallu anghenion gwariant y Cyngor, gan reoli'r risgiau cysylltiedig. Buddsoddir arian dros ben nes bydd galw amdano, ac ymdrinnir â phrinder arian drwy fenthyg, er mwyn sicrhau nad yw'r gweddill credyd na'r gorddrafft yn y cyfrif banc cyfredol yn ormod. Mae'r Cyngor fel arfer yn gyfoethog mewn arian parod yn y tymor byr gan fod incwm refeniw'n cael ei dderbyn cyn cael ei wario. Ond yn y tymor hir mae'n ariannol dlawd, gan fod gwariant cyfalaf yn digwydd cyn canfod yr arian i dalu amdano. Caiff gormodedd arian parod refeniw ei osod yn erbyn diffygion arian parod cyfalaf er mwyn lleihau faint a fenthycir yn gyffredinol.
12. Oherwydd y penderfyniadau a wnaethpwyd yn y gorffennol, ar hyn o bryd mae benthyciadau'r Cyngor yn £106m, gyda chyfradd llog cyfartalog o 5.6%, a buddsoddiadau trysorlys o £34m ar gyfradd gyfartalog o 0.67%.
13. **Y Strategaeth Fenthyca:** Prif amcanion y Cyngor wrth fenthyg yw canfod cost fenthyca sy'n isel ond sy'n benodedig, gan gynnal hyblygrwydd pe bai cynlluniau yn newid yn y dyfodol. Yn aml, mae'r amcanion hyn yn gwrthdaro. Mae'r Cyngor, felly, yn ceisio cael cydbwysedd rhwng benthyciadau rhad, tymor byr (ar gael ar hyn o bryd am ryw 0.75%) a benthyciadau tymor hir ar gyfradd sefydlog lle mae'r gost yn y dyfodol yn hysbys ond yn uwch (tua 2.0% i 3.0% ar hyn o bryd).
14. Gweler lefelau rhagamcanedig cyfanswm dyled y Cyngor sy'n weddill (sef rhwymedigaethau benthyg a MCP) isod, o'u cymharu â'r gofyn cyllido cyfalaf (gweler uchod).

Tabl 6: Dangosydd Darbodus: Dyled Gros a'r Gofyn Cyllido Cyfalaf mewn £ miliynau

	Gwir 31.3.2018 £m	Amcan 31.3.2019 £m	Cyllideb 31.3.2020 £m	Cyllideb 31.3.2021 £m	Cyllideb 31.3.2022 £m
Dyled (gan gynnwys MCP a phrydlesau)	106.4	106.4	104.4	103.1	101.8
Gofyn Cyllido Cyfalaf	177.0	177.6	175.5	172.7	169.1

15. Yn ôl y canllaw statudol, dylai dyled aros islaw'r gofyn cyllido cyfalaf, ac eithrio yn y tymor byr. Fel y gwelir yn nhabl 6, mae'r Cyngor yn disgwyl y bydd yn cydymffurfio â hyn yn y tymor canolig.
16. **Meincnod Ymrwymiad:** Er mwyn cymharu faint mae'r Cyngor wedi'i fenthgyg mewn gwirionedd yn erbyn strategaeth amgen, mae meincnod ymrwymiad wedi'i gyfrifo sy'n dangos y lefel risg isaf o fenthgyg. Mae hyn yn tybio fod balansau arian parod a buddsoddiadau yn cael eu cadw ar o leiaf £20m ar ddiwedd pob blwyddyn. £118m yw'r meincnod hwn ar hyn o bryd a rhagwelir y bydd yn syrthio i £109m dros y tair blynedd nesaf.

Tabl 7: Benthgyca a'r Meincnod Ymrwymiad mewn £ miliynau

	Gwir 31.3.2018 £m	Amcan 31.3.2019 £m	Cyllideb 31.3.2020 £m	Cyllideb 31.3.2021 £m	Cyllideb 31.3.2022 £m
Benthgyciadau sy'n Ddyledus	106.4	106.4	104.4	103.1	101.8
Meincnod Ymrwymiad	109.9	109.6	107.4	105.8	104.2

17. Mae'r tabl yn dangos fod y Cyngor yn disgwyl i'w fenthgyciadau aros islaw ei feincnod ymrwymiad. Mae hyn am fod yr allbynnau arian parod wedi bod yn is na'r disgwyl hyd yma o ganlyniad i'r sefyllfa negyddol gyda chyfalaf gweithredol. Os yw'r sefyllfa'n newid, bydd unrhyw fenthgyciadau angenrheidiol yn rhai tymor byr.

18. **Terfyn Benthg Fforddiadwy:** Mae'n ofyn cyfreithiol i'r Cyngor bennu terfyn benthg fforddiadwy (fe'i gelwir hefyd y terfyn dyled ariannol awdurdodedig) bob blwyddyn. Yn unol â chanllaw statudol, pennir "ffin gweithredol" is. Dyma'r lefel rhybudd os bydd dyled yn dynesu at y terfyn.

Tabl 8: Dangosyddion Darbodus: Y Terfyn Awdurdodedig a'r Ffin Weithredol ar gyfer Dyledion Allanol mewn £m

	Terfyn 2018/19 £m	Terfyn 2019/20 £m	Terfyn 2020/21 £m	Terfyn 2021/22 £m
Terfyn Awdurdodedig - Cyfanswm Dyledion Allanol	190	190	200	200
Ffin Gweithredol - Cyfanswm Dyledion Allanol	180	180	190	190

- Mae manylion pellach ar fenthyciadau ar gael yn Strategaeth Rheolaeth y Trysorlys yn **Atodiad C**.
19. **Y Strategaeth Fuddsoddi:** Mae buddsoddiadau'r trysorlys yn digwydd drwy dderbyn arian parod cyn iddo gael ei dalu allan eto. Fel arfer, ni ystyrir fod buddsoddiadau a wneir am resymau gwasanaeth neu er elw ariannol yn unig yn rhan o reolaeth y trysorlys.
20. Polisi'r Cyngor ar fuddsoddiadau'r trysorlys yw blaenoriaethu diogelwch a hylifedd dros gynnyrch; sef, canolbwyntio ar leihau risg yn hytrach nac uchafu deilliannau. Mae arian parod sy'n debygol o gael ei wario yn y dyfodol agos yn cael ei fuddsoddi'n ddiogel, er enghraifft gyda'r llywodraeth, awdurdodau lleol eraill, neu fanciau ansawdd uchel penodedig, er mwyn lleihau'r perygl o golled. Bydd arian a gedwir yn hwy yn cael ei fuddsoddi'n ehangach, gan gynnwys mewn bondiau, cyfrannau ac eiddo, er mwyn cydbwysu'r perygl o golled gyda'r perygl o gael deilliannau sy'n is na chwyddiant. Gellir cadw buddsoddiadau dyfodol agos a thymor hwy mewn cronfeydd wedi'u pwlio, lle mae rheolwr cronfa'n penderfynu pa fuddsoddiadau penodol i'w prynu ac fe all y Cyngor ofyn am ei bres yn ôl ar fyr rybudd.

Tabl 9: Buddsoddiadau Rheolaeth y Trysorlys mewn £ miliynau

	Gwir 31.3.2018 £m	Amcan 31.3.2019 £m	Cyllideb 31.3.2020 £m	Cyllideb 31.3.2021 £m	Cyllideb 31.3.2022 £m
Buddsoddiadau'r Dyfodol Agos	47	10	10	10	10
Buddsoddiadau'r Tymor Hwyt	0	10	10	10	10
CYFANSWM	47	20	20	20	20

- Ceir manylion pellach ar fuddsoddiadau'r trysorlys yn Strategaeth Rheolaeth y Trysorlys yn **Atodiad C**.

21. **Llywodraethu:** Gwneir penderfyniadau ar fuddsoddi a benthyg gan reolwyr y trysorlys yn ddyddiol; felly, fe'u dirprwyir i Bennaeth a staff yr Adran Gyllid, sy'n gweithredu yn unol â'r Strategaeth Rheolaeth y Trysorlys a gymeradwywyd gan y Cyngor Llawn. Cyflwynir adroddiadau hanner blwyddyn a blwyddyn gyfan ar weithgaredd rheolaeth trysorlys i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu. Y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu sy'n gyfrifol am graffu penderfyniadau rheolaeth trysorlys.

BUDDSODDIADAU ER DIBENION GWASANAETH

22. Gall y Cyngor wneud buddsoddiadau i gynorthwyo gwasanaethau cyhoeddus lleol, gan gynnwys gwneud benthygiadau i fusnesau bychain er mwyn hyrwyddo twf economaidd a chefnogi'r strategaeth dai. Yn sgil yr amcan gwasanaeth cyhoeddus, mae'r Cyngor yn fodlon cymryd mwy o risg na gyda buddsoddiadau'r trysorlys. Fodd bynnag, mae'n dal i gynllunio na fydd buddsoddiadau o'r fath yn gwneud colled hyd yn oed ar ôl talu'r holl gostau.

23. **Llywodraethu:** Gwneir penderfyniadau ar fuddsoddiadau gan y Pennaeth Gwasanaeth priodol mewn ymgynghoriaeth â Phennaeth yr Adran Gyllid. Mae mwyafrif y benthygiadau'n rhai gwariant cyfalaf a byddant hefyd yn cael eu cymeradwyo fel rhan o'r rhaglen gyfalaf.

YMRWYMIADAU

24. Yn ogystal â'r ddyled o £109m y manylir arno uchod, mae'r Cyngor wedi'i ymrwymo i wneud taliadau yn y dyfodol i unioni'r diffyg yn ei gronfa bensiynau (gwerth o £227m). Mae hefyd wedi clustnodi £8m er mwyn cyflenwi risgiau'r darpariaethau, y mae 98% ohonynt yn ymwneud â Safleoedd Gwastraff. Mae

peryl hefyd y gall y Cyngor orfod talu ymrwymadau dibynnol yn ymwneud â chapio a gofynion ôl-ofal ar gyfer Safleoedd Tirlenwi'r Cyngor, a hefyd ymrwymadau yswiriant sy'n ymwneud â threfniadau yswiriant yr awdurdodau a'i rhagflaenodd, a chau Cronfa Yswiriant Municipal Mutual (MMI). Yn unol â'r gofynion cyfrifeg, ni chlustnodwyd unrhyw arian ar gyfer ymrwymadau dibynnol o'r fath.

25. **Llywodraethu:** Penaethiaid Gwasanaethau sy'n gwneud penderfyniadau newydd ar ymrwymadau dewisol mewn ymgynghoriaeth â'r Pennaeth Cyllid. Mae'r Adran Gyllid yn monitro'r perygl y bydd ymrwymadau'n dod yn wir ac y bydd angen taliad. Adroddir ar ymrwymadau materol newydd i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu.

- Ceir manylion pellach yr ymrwymadau ar dudalen 11 Datganiad o'r Cyfrifon 2017/18 <https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Cyngor/Dogfennau-Cyngor/Perfformiad-y-Cyngor/datganiad-or-cyfrifon-17-18/Datganiad-or-Cyfrifon-2017-18.pdf>

GOBLYGIADAU CYLLIDEB REFENIW

26. Er nad yw'r gyllideb refeniw yn talu am wariant cyfalaf yn uniongyrchol, mae'r llog sy'n daladwy ar fenthyciadau a DLIR yn gost ar refeniw, a'i osod yn erbyn unrhyw incwm buddsoddi a dderbynnir. Gelwir y ffi net flynyddol yn gostau ariannu. Cymharir hyn gyda'r ffrwd refeniw net h.y. y swm a gyllidir drwy Dreth Cyngor, Trethi Annomestig Cenedlaethol a grantiau cyffredinol gan y llywodraeth.

Tabl 10: Dangosydd Darbodus: Cyfran Costau Ariannu i'r Llif Refeniw Net

	Gwir 2017/18	Amcan 2018/19	Cyllideb 2019/20	Cyllideb 2020/21	Cyllideb 2021/22
Costau Ariannu (£m)	£13.7m	£13.4m	£13.3m	£13.3m	£13.3m
Cyfran y Llif Refeniw Net (%)	5.9%	5.5%	5.4%	5.3%	5.3%

- Caiff manylion pellach goblygiadau refeniw gwariant cyfalaf eu cynnwys yng Nghyllideb 2019/20 <https://democratiaeth.cyngor.gwynedd.gov.uk/ielistdocuments.aspx?cid=136&mid=2503&ver=4&>
27. **Cynaliadwyedd:** Oherwydd natur hirdymor gwariant ac ariannu cyfalaf, bydd goblygiadau cyllideb refeniw'r gwariant a wneir yn y blynyddoedd nesaf yn

ymestyn 50 mlynedd a mwy i'r dyfodol. Mae'r Pennaeth Cyllid yn fodlon fod y rhaglen gyfalaf a gynigir yn ddarvoudus, yn fforddiadwy ac yn gynaliadwy yn y tymor hir.

GWYBODAETH A SGILIAU

28. Mae'r Cyngor yn cyflogi staff profiadol mewn swyddi uwch a chanddynt gymwysterau proffesiynol; mae ganddynt gyfrifoldeb dros wneud penderfyniadau gwariant cyfalaf, benthyca, a buddsoddi. Er enghraifft, mae'r Pennaeth Cyllid yn gyfrifydd cymwys gyda blynyddoedd o brofiad, ac mae'r Uwch Reolwr Eiddo yn syrfëwr siartredig ac yn aelod o Sefydliad Brenhinol Syrfewyr Siartredig. Mae'r Cyngor efo staff cymwysedig ac yn talu i staff i astudio tuag at gymwysterau proffesiynol perthnasol megis CIPFA, ACCA ac AAT.
29. Ar hyn o bryd, mae'r Cyngor yn talu cwmni Arlingclose Limited i fod yn ymgynghorwyr rheolaeth y trysorlys. Mae'r ffordd hon yn un fwy cost effeithiol na chyflogi staff o'r fath yn uniongyrchol, ac mae'n sicrhau bod gan y Cyngor fynediad at wybodaeth a sgiliau sy'n gymesur â'i awch am risg.
30. Mae staff perthnasol yn mynychu digwyddiadau hyfforddiant CIPFA ac Arlingclose er mwyn sicrhau ein bod yn ymwybodol o'r datblygiadau diweddaraf, a bod gwybodaeth a sgiliau yn gyfredol.

CYFALAF

1. Tra bod cyllidebau refeniw awdurdodau lleol yn wynebu cyfyngiadau, mae cyllidebau cyfalaf hefyd dan bwysau, ac mae ymhlygiadau refeniw i wariant cyfalaf sydd heb ei ariannu drwy grant penodol.
2. Yn wyneb y cyfyngiadau ariannol refeniw sydd yn ein hwynebu a'r ffaith fod ein Strategaeth Asedau blaenorol wedi cynnwys elfen sylweddol o fenthycy darbodus (sy'n golygu pwysau ar y gyllideb refeniw i dalu am y costau benthyca), mae adolygiad trylwyr o'r Strategaeth Asedau nesaf ar droed.
3. Gosodaf isod raglen arfaethedig ar gyfer y cynlluniau am y dair mlynedd nesaf:

RHAGLEN GYFALAF			
	2019/20	2020/21	2021/22
	£'000	£'000	£'000
Cynlluniau Newydd			
Cynllun Rheoli Asedau i'w Ddyrannu	11,728	7,535	6,610
Atgyweirio Priffyrdd	2,650	1,325	0
Gofal Plant	1,238	1,113	0
Strategaeth Dai	2,700	2,700	2,700
	18,316	12,673	9,310
Cynlluniau Wedi eu Cymeradwyo - Eisoës ar y Rhaglen	16,675	6,129	0
CYFANSWM Y RHAGLEN	34,991	18,802	9,310

4. Byddwn yn ariannu'r rhaglen fel a ganlyn:

ARIANNU'R RHAGLEN GYFALAF			
	2019/20	2020/21	2021/22
	£'000	£'000	£'000
Cynlluniau Newydd			
Darpariaeth Cyfalaf yn y Setliad	7,995	7,535	6,610
Grantiau a Chyfraniadau	2,563	2,438	0
Cronfeydd Adnewyddu ac Eraill	7,758	2,700	2,700
	18,316	12,673	9,310
Cynlluniau Wedi eu Cymeradwyo - Eisoës ar y Rhaglen			
Benthyca Arall	1,393	777	0
Grantiau a Chyfraniadau	8,753	525	0
Derbyniadau Cyfalaf	98	750	0
Refeniw Adrannol a Chorfforaethol	265	0	0
Cronfa Cyfalaf	1,435	0	0
Cronfeydd Adnewyddu ac Eraill	4,731	4,077	0
	16,675	6,129	0
CYFANSWM ARIANNU'R RHAGLEN	34,991	18,802	9,310

5. Bwriedir sefydlu strategaeth asedau newydd o 2019/20 ymlaen, yn unol â'r adroddiad a gyflwynir i'r Cabinet yn fuan yn 2019. Bydd y strategaeth asedau newydd yn weithredol am y cyfnod 2019/20 hyd at 2028/29.
6. Cymeradwywyd y drefn er mwyn sefydlu'r strategaeth nesaf gan y Cabinet ar 16 Ionawr 2018 ac yn ystod y misoedd yn dilyn gofynnwyd i holl aelodau'r Cyngor i flaenoriaethu'r cynlluniau a roddwyd ymlaen gan adrannau. Bydd adroddiad ar y cynlluniau manwl yn dod gerbron am gymeradwyaeth yn ddigon buan am y flwyddyn ariannol 2019/20.
7. Mae'r tabl uchod felly yn adlewyrchu'n fras y gofynion cyfalaf (ynghyd â'r ariannu) ar gyfer gosod cyllideb 2019/20 i 2021/22, tra bydd y manylder ar y cynlluniau unigol yn cael ei sefydlu gan y Cyngor yn y strategaeth asedau 10 mlynedd newydd.
8. Felly, gofynnir i'r Cyngor llawn ychwanegu £18,316,130 at y rhaglen gyfalaf i'w wario yn 2019/20, er mwyn sefydlu rhaglen gyfan gwerth £34,991,250 erbyn 2019/20, i'w ariannu o'r ffynonellau a nodir yn y tabl o dan rhan 4 uchod.

DATGANIAD DARPARIAETH LLEIAFSWM REFENIW BLYNYDDOL 2019/20

1. Pan fo'r Cyngor yn ariannu gwariant cyfalaf trwy ddyled, rhaid iddo roi adnoddau o'r neilltu er mwyn ad-dalu'r ddyled yn ddiweddarach. Mae'r swm gaiff ei godi ar y gyllideb refeniw ar gyfer ad-dalu'r ddyled yn cael ei adnabod fel y Ddarpariaeth Lleiafswm Refeniw (DLIR neu MRP), er nad oes lleiafswm statudol wedi bod ers 2008. Mae Deddf Llywodraeth Leol 2003 yn gofyn i'r Cyngor roi ystyriaeth i Ganllaw Llywodraeth Cymru *Canllaw ar y Ddarpariaeth Lleiafswm Refeniw* (Canllaw LIC) a gyhoeddwyd ddiwethaf yn 2018.
2. Nod cyffredinol Canllaw LIC yw sicrhau y caiff y ddyled ei had-dalu dros gyfnod sydd naill ai'n cyfateb yn rhesymol i'r cyfnod y mae'r gwariant cyfalaf yn darparu buddion ynddo, neu, yn achos benthyca gaiff ei gefnogi gan Grant Cynnal Refeniw'r Llywodraeth, dros gyfnod sy'n cyfateb yn rhesymol i'r cyfnod sydd dan sylw wrth bennu'r grant.
3. Mae Canllaw LIC yn gofyn i'r Cyngor gymeradwyo Datganiad DLIR yn flynyddol, ac yn argymhell nifer o opsiynau ar gyfer cyfrifo swm darbodus o DLIR. Mae'r datganiad a ganlyn yn ymgorffori opsiynau a argymhellir yn y Canllaw yn ogystal â dulliau darbodus a benderfynwyd yn lleol.
 - Ar gyfer cyfalaf a wnaed cyn 1 Ebrill 2008, ac ar gyfer gwariant cyfalaf wedi'i gefnogi a wnaed ar y dyddiad hwnnw neu wedi hynny, caiff y DLIR ei bennu yn unol â'r rheoliadau blaenorol oedd yn berthnasol ar 31 Mawrth 2008, yn ymgorffori "Addasiad A" o £1.9m.
 - Ar gyfer gwariant cyfalaf heb ei gefnogi a wnaed ar ôl 31 Mawrth 2008, caiff y DLIR ei bennu trwy godi'r gwariant dros oes ddefnyddiol ddisgwyliedig yr asedau perthnasol mewn taliadau hafal yn cychwyn yn y flwyddyn ar ôl i'r ased ddod yn weithredol. Caiff DLIR ar dir rhydd-ddaliadol a brynir ei godi dros 50 mlynedd. Caiff DLIR ar wariant nad yw'n perthyn i asedau sefydlog ond sydd yn wariant cyfalaf yn ôl rheoliadau neu gyfarwyddiadau ei godi dros 20 mlynedd.
 - Ar gyfer asedau a geir trwy brydlesau cyllidol neu'r Fenter Gyllid Preifat, pennir bod y DLIR yn hafal i'r elfen o rent neu ffi gaiff ei hysgrifennu yn erbyn yr ymrwymiad ar y fantolen.
 - Ar gyfer benthyciadau gwariant cyfalaf i drydydd parti, sy'n cael eu had-dalu mewn rhandaliadau blynyddol neu amlach, ni fydd y Cyngor yn gwneud DLIR. Yn hytrach bydd yn rhoi derbyniadau cyfalaf sy'n deillio o'r ad-daliadau prifswm o'r neilltu i leihau y Gofyn Cyllido Cyfalaf (GCC). Mewn blynyddoedd ble nad oes ad-daliadau prifswm bydd y DLIR yn cael

ei bennu yn unol â pholisi DLIR yr asedau ariennir gan y benthyciad, gan gynnwys, ble'n addas, gohirio'r DLIR hyd y flwyddyn wedi'r asedau ddod yn weithredol.

4. Ni fydd gwariant cyfalaf a wneir yn 2019/20 yn destun ffi DLIR hyd nes 2020/21.
5. Yn seiliedig ar amcangyfrif diweddaraf y Cyngor o'i Ofyn Cyllido Cyfalaf ar 31 Mawrth 2019, mae'r gyllideb ar gyfer DLIR wedi ei bennu fel a ganlyn:

	31.03.2019 Amcan GCC £m	2019/20 Amcan DLIR £m
Gwariant cyfalaf cyn 01.04.2008 a gwariant cyfalaf gyda chefnogaeth wedi 31.03.2008	134.8	5.3
Gwariant cyfalaf heb gefnogaeth wedi 31.03.2008	39.6	2.0
Prydlesau Cyllidol a Menter Cyllid Preifat	3.2	0.3
Cyfanswm Cronfa Gyffredinol	177.6	7.6

Datganiad Strategaeth Rheolaeth Trysorlys 2019/20

1. Cyflwyniad

- 1.1** Rheolaeth Trysorlys yw'r rheolaeth llif arian, benthyca a buddsoddiadau'r Cyngor a'r risgiau cysylltiol. Mae'r Cyngor wedi benthyg a buddsoddi symiau sylweddol o arian ac yn felly agored i risgiau ariannol gan gynnwys colli buddsoddiadau a'r effaith referniw o'r newidiadau mewn cyfraddau llog. Mae'r adnabyddiaeth, monitro a rheolaeth risg ariannol llwyddiannus felly yn ganolog i reolaeth ariannol bwyllog y Cyngor.
- 1.2** Mae rheolaeth risg trysorlys yn y Cyngor yn rhan o fframwaith y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifiaeth *Rheolaeth Trysorlys yn y Gwasanaethau Cyhoeddus: Cod Ymarfer Rhifyn 2017* (Cod CIPFA) sy'n gofyn i'r Cyngor gymeradwyo strategaeth rheolaeth trysorlys cyn dechrau pob blwyddyn ariannol. Yn ogystal, fe wnaeth Llywodraeth Cymru (LIC) gyhoeddi canllaw diwygiedig ym mis Mawrth 2010 sef y *Canllaw ar Fuddsoddiadau Awdurdodau Lleol* sy'n gofyn i'r Cyngor gymeradwyo strategaeth fuddsoddi cyn dechrau pob blwyddyn ariannol. Mae'r adroddiad hwn yn cyflawni cyfrifoldeb cyfreithiol y Cyngor dan *Ddeddf Llywodraeth Leol 2003* i roi ystyriaeth i'r ddau beth hyn, sef Cod CIPFA a Chanllaw LIC.
- 1.3** Yn unol ag Arweiniad LIC, gofynnir i'r Cyngor gymeradwyo Datganiad Strategaeth Rheolaeth Trysorlys diwygiedig os yw'r tybiaethau sydd yn sail i'r adroddiad hwn yn newid yn sylweddol. Byddai amgylchiadau o'r fath yn cynnwys, er enghraifft, newid mawr annisgwyl mewn cyfraddau llog, newid yn rhaglen cyfalaf y Cyngor neu yn lefel ei balans buddsoddi.

2. Y Cyd-destun Allanol

2.1 Cefndir Economaidd

Mae cynnydd y DU wrth negodi ei ymadawiad o'r Undeb Ewropeaidd, ynghyd a trefniadau masnachol y dyfodol yn parhau yn ddylanwad mawr ar strategaeth rheolaeth trysorlys y Cyngor yn 2019/20.

Cynyddodd Chwyddiant Prisiau Defnyddwyr (CPI) mis Hydref o 2.4% blwyddyn/blwyddyn, ychydig yn is na'r rhagolygon consensws a bron yn unol ag Adroddiad Chwyddiant Banc Lloegr. Dangosodd data marchnad lafur diweddaraf ar gyfer mis Hydref 2018 fod y gyfradd ddiweithdra wedi codi mymryn i 4.1%, tra bod y gyfradd mewn gwaith wedi cyrraedd ei phwynt uchaf ar gofnod, sef 75.7%. Roedd y gyfradd twf blynyddol cyfartalog 3 mis ar gyfer cyflog arferol h.y. ac eithrio bonws, yn 3.3% wrth i gyflogau barhau i godi'n raddol a thynnu rhywfaint ar chwyddiant cyffredinol. O ran gwir gyflogau, wedi'u haddasu i gyfrif am chwyddiant, gwelwyd twf o 1%, lefel sy'n debygol o gael ychydig iawn o effaith ar wariant defnyddwyr.

Roedd y cynnydd mewn twf GDP chwarterol o 0.4% yn Ch2 i 0.6% yn Ch3 yn ymwneud â ffactorau'n gysylltiedig â'r tywydd gan gynyddu yr hyn yr oedd aelwydydd yn ei ddefnyddio a gweithgareddau adeiladu yn ystod cyfnod yr haf yn dilyn gwendid yn gysylltiedig â'r tywydd yn ystod Ch1. Mae twf GDP blynyddol yn 1.5% ac yn parhau yn is na'r duedd. Wrth edrych i'r dyfodol, mae Banc Lloegr yn ei Adroddiad Chwyddiant ar gyfer mis Tachwedd, yn disgwyl i dwf GDP fod yn 1.75% ar gyfartaledd yn ystod y cyfnod a ragwelir, cyn belled bod y broses o'r DU yn gadael yr UE yn un eithaf llyfn.

Yn dilyn penderfyniad Banc Lloegr i gynyddu'r Gyfradd Banc i 0.75% ym mis Awst, ni wnaed unrhyw newidiadau i bolisi ariannol ers hynny. Fodd bynnag, mae'r Banc yn disgwyl pe bai'r economi yn parhau i esblygu yn unol â'r hyn a ragwelodd ym mis Tachwedd, bydd angen cynyddu'r Gyfradd Banc ymhellach er mwyn i chwyddiant ddychwelyd i'w darged o 2%. Mae'r Pwyllgor Polisi Ariannol yn parhau i ategu mai graddol a chyfyngedig fyddai unrhyw gynnydd yn y dyfodol.

Tra mae twf UDA wedi arafu yn 2018, mae'r economi yn parhau i berfformio'n gryf. Parhaodd Cronfa Ffederal yr UD i dynhau drwy gydol 2018, gan wthio cyfraddau cyfredol i 2% - 2.25% cyfredol ym mis Medi. Mae marchnadoedd yn parhau i ddisgwyl un cynnydd arall i'r gyfradd ym mis Rhagfyr, ond mae llai o ddisgwyliad y bydd yna gynnydd pellach yn 2019, fel y disgwyliwyd yn flaenorol, wrth i bryderon am frwydrau masnach effeithio ar weithgarwch economaidd.

2.2 Rhagolygon credyd

Mae pedwar o grwpiau banc mawr y DU wedi gwahanu eu rhaniadau bancio manwerthu a buddsoddi i mewn i endidau cyfreithiol ar wahân o dan y ddeddfwriaeth diogelu. Bank of Scotland, Barclays Bank UK, HSBC UK Bank, Lloyds Bank, National Westminster Bank, Royal Bank of Scotland ac Ulster Bank yw'r banciau diogelu sydd nawr ond yn darparu gweithgareddau manwerthu banc risg isel. Barclays Bank, HSBC Bank, Lloyds Bank Corporate Markets a NatWest Markets yw'r banciau buddsoddi. Mae asiantaethau graddfeydd credyd wedi addasu graddfeydd y banciau yma gyda'r banciau diogel yn derbyn graddfeydd gwell na'r gwrthbartion yn gyffredinol.

Mae Banc Lloegr wedi cyhoeddi ei adroddiad diweddaraf ar brofion pwysau'r banc, gan ddangos fod pob endid a gafodd ei gynnwys yn y dadansoddiad wedi llwyddo yn y prawf â chymod fod rheolwyr wedi gweithredu lefelau o gamau gweithredu lliniaru cyfalaf a photensial. Nid oedd Banc Lloegr yn gofyn i unrhyw fanc godi cyfalaf ychwanegol.

Mae banciau Ewrop yn ystyried eu paratoad at Brexit gyda rhai yn edrych i greu is-gwmnïau DU er mwyn sicrhau eu bod yn gallu parhau i weithredu yma. Mae cryfder credyd y banciau newydd yn dal yn anhysbys, er bod y siawns o gefnogaeth gan y cwmni rhiant yn uchel os bydd ei angen o gwbl. Mae'r ansicrwydd oherwydd y trafodaethau hir rhwng y DU a'r UE yn pwysu ar credydrwydd banciau y DU ag Ewropeaidd gyda gweithrediadau sylweddol yn y ddau awdurdodaeth.

2.3 Rhagolygon cyfraddau llog

Yn dilyn cynyddu y cyfradd banc i 0.75% ym mis Awst 2018, mae ymgynghorwyr rheolaeth trysorlys y Cyngor, Arlingclose yn rhagweld dau godiad pellach o 0.25% yn ystod 2019 gan gynyddu cyfradd llog swyddogol y DU i 1.25%. Mae MPC Banc Lloegr wedi cadw eu disgwyliadau ar gyfer codiadau cyfradd araf a sefydlog dros gyfnod y rhagolwg. Mae'r MPC yn parhau gyda tuedd at bolisi ariannol tynnach ond yn anfodlon i wthio disgwyliadau rhy gryf. Mae Arlingclose yn credu bod aelodau'r MPC yn ystyried bod cyfraddau llog isel iawn yn creu problemau economaidd arall, a bydd Cyfradd Banc uwch yn arf polisi mwy effeithiol os yw risgiau negyddol Brexit yn crisialu a bydd angen torri'r gyfradd.

Mae amgylchedd economaidd y DU yn parhau i fod yn gymharol feddal, er gwaethaf data marchnad llafur cryf. Barn Arlingclose yw bod yr economi yn pl i wynebu rhagolwg heriol wrth adael yr Undeb Ewropeaidd a thwf y rhanbarth Ewro yn lleddfu. Tra bod y tybiaethau yn disgwyl bod bargaen Brexit yn cael ei gytuno ar, a bod cytundeb ar drawsnewid a threfniadau masnachu'r dyfodol cyn y DU yn gadael y UE, mae'r posibilrwydd bydd Brexit 'dim bargaen' yn dal i gysgodi gweithgareddau'r economi (ar amser ysgrifennu'r esboniad yma yng nghanol mis Rhagfyr). Fel y cyfryw, ystyrir bod risgiau ar ragolwg cyfradd llog yn bendant am i lawr.

Mae dychweliadau giltiau ac felly cyfraddau benthyciadau tymor hir wedi aros ar lefelau isel ond disgwylir symudiadau i fyny o'r lefelau cyfredol yn seiliedig ar dafluniad cyfradd llog Arlingclose, oherwydd cryfder economi'r US ag arweiniad ymlaen ar gyfraddau uwch yr ECB. Mae rhagolwg dychweliadau giltiau 10 mlynedd a 20 mlynedd yn aros o gwmpas 1.5% a 2% yn ôl ei trefn dros gyfnod rhagolwg y cyfraddau llog, er hynny, mae anweddolrwydd sy'n codi o ddigwyddiadau economaidd a gwleidyddol yn debygol i barhau i allu cynnig y cyfleoedd i fenthycg.

Mae rhagolwg economaidd a chyfraddau llog mwy manwl a ddarparwyd gan Arlingclose i'w weld yn **Atodiad 1**.

- 2.4** Er diben gosod y gyllideb, tybiwyd bod buddsoddiadau newydd yn cael eu gwneud ar gyfradd o 0.88% ar gyfartaledd, ac na fydd angen unrhyw fenthyciadau tymor hir newydd yn 2019/20

3. Y Cyd-destun Lleol

- 3.1 Ar 31 Rhagfyr 2018, roedd gan y Cyngor fenthyciadau o £106.4m a £34m o fuddsoddiadau. Ceir rhagor o fanylder yn **Atodiad B**. Mae tabl 1 isod yn ddadansoddiad mantolen sy'n dangos y newidiadau a ragwelir i'r symiau hyn.

Tabl 1: Crynodeb mantolen a'r rhagolwg

	31.3.18 Gwir £m	31.3.19 Amcan- gyfrif £m	31.3.20 Amcan- gyfrif £m	31.3.21 Amcan- gyfrif £m	31.3.22 Amcan- gyfrif £m
GCC	177.0	177.6	175.5	172.7	169.1
Llai: Rhwymedigaethau arall *	(3.5)	(3.2)	(3.0)	(2.7)	(2.4)
Benthyca GCC	173.5	174.4	172.5	170.0	166.7
Llai: Benthyca allanol **	(106.4)	(106.4)	(104.4)	(103.1)	(101.8)
Benthyca mewnol	67.1	68.0	68.1	66.9	64.9
Llai: Cronfeydd defnyddiadwy	(56.2)	(41.2)	(39.2)	(35.2)	(33.2)
Llai: Cyfalaf gweithio	(48.0)	(48.0)	(48.0)	(48.0)	(48.0)
Buddsoddiadau	(37.1)	(21.2)	(19.1)	(16.3)	(16.3)

* ymrwymadau MCP

**yn dangos dim ond benthyciadau y mae'r Cyngor wedi ymrwymo iddynt heb gynnwys ail gyllido dewisol

- 3.2 Caiff yr angen sylfaenol i fenthyca er dibenion cyfalaf ei fesur gan y Gofyn Cyllido Cyfalaf (GCC), tra mai'r cronfeydd defnyddiadwy a'r cyfalaf gweithio yw'r adnoddau sylfaenol sydd ar gael i'w buddsoddi. Strategaeth gyfredol y Cyngor yw cynnal benthyciadau a buddsoddiadau islaw eu lefelau sylfaenol, a elwir weithiau yn benthyca mewnol.
- 3.3 Mae Tabl 1 yn dangos bydd angen i'r Cyngor fenthyg yn ystod y tair blynedd nesaf. Os yw hyn yn digwydd, defnyddir benthyca tymor byr er mwyn lleihau'r gyfradd llog.
- 3.4 Mae'r *Cod Darbodus ar gyfer Cyllid Cyfalaf mewn Awdurdodau Lleol* gan CIPFA yn argymhell y dylai cyfanswm dyledion y Cyngor fod yn is na'i GCC uchaf posib yn ôl y rhagolygon dros y tair blynedd nesaf. Dengys Tabl 1 fod y Cyngor yn disgwyl cydymffurfio â'r argymhelliad hwn yn ystod 2019/20.


4. Meincnod Ymrwymadau

- 4.1 Er mwyn cymharu gwir fenthyciadau'r Cyngor yn erbyn strategaeth arall, mae meincnod rhwymedigaeth wedi cael ei chyfrifo sy'n dangos lefel benthyca gyda risg isaf. Mae hyn yn tybio'r un rhagolygon a tabl 1 uchod, ond bod balansau arian a buddsoddiadau yn aros ar lefel isafswm o £20m ar ddiwedd bob blwyddyn er mwyn cynnal digon o hylifedd ond lleihau'r risg credyd.

Tabl 2: Meincnod Ymrwymadau

	31.3.18 Gwir £m	31.3.19 Rhagolwg £m	31.3.20 Rhagolwg £m	31.3.21 Rhagolwg £m	31.3.22 Rhagolwg £m
GCC	177.0	177.6	175.5	172.7	169.1
Llai: Cronfeydd	(56.2)	(41.2)	(39.2)	(35.2)	(33.2)
Llai: Cyfalaf gweithio	(48.0)	(48.0)	(48.0)	(48.0)	(48.0)
Plws: LleiaFswm	(37.1)	(21.2)	(19.1)	(16.3)	(16.3)
Meincnod Ymrwymadau	109.9	109.6	107.4	105.8	104.2

4.2 Gan ddilyn o'r rhagolygon tymor canolig yn nhabl 2 uchod, mae'r meincnod tymor hir yn rhagdybio gwariant cyfalaf wedi'i ariannu gan fenthyciadau o £4m y flwyddyn, lleiafswm darpariaeth refeniw ar wariant cyfalaf newydd yn seiliedig ar gyfnod oes ased o 25 mlynedd a chynnydd chwyddiant o 2.5% y flwyddyn ar incwm, gwariant a reserfau. Dangosir hyn yn y siart isod:



Mae'r siart yn dangos bod benthyciadau yn llawer is na'r GCC a bod gan y Cyngor arian i fuddsoddi. Ar sail y tybiaethau nodir uchod, hwn yw'r sefyllfa sydd yn debygol o barhau yn y tymor hir.

5. Y Strategaeth Fenthyca

5.1 Mae'r Cyngor ar hyn o bryd yn dal £106 miliwn o fenthyciadau, yr un lefel a diwedd y flwyddyn blaenorol, mae hyn fel rhan o'i strategaeth ar gyfer ariannu rhaglenni cyfalaf y blynyddoedd cynt. Mae rhagolygon y fantolen a welir yn nhabl 1 yn dangos nad yw'r Cyngor angen benthyca arian tymor hir yn 2019/20 ond efallai bydd angen benthyg tymor byr oherwydd rhesymau llif arian. Bydd y Cyngor hwyrach angen benthyca i ariannu gofynion y blynyddoedd i ddod ymlaen llaw, cyn belled nad yw hyn yn uwch na'r terfyn awdurdodedig ar gyfer benthyca, sef £190 miliwn.

5.2 Amcanion

Prif amcan y Cyngor wrth fenthyca arian yw cael cydbwysedd risg isel priodol rhwng sicrhau costau llog isel a ennill sicrwydd cost dros y cyfnod mae angen yr arian. Yn ail amcan i hyn yw'r hyblygrwydd i ail negodi benthyciadau pe bai cynlluniau tymor hir y Cyngor yn newid.

5.3 Strategaeth

Yn wyneb y toriadau sylweddol i wariant cyhoeddus, ac yn arbennig i'r cyllid ar gyfer llywodraeth leol, mae strategaeth benthyca'r Cyngor yn parhau i fynd i'r afael â'r mater allweddol o fforddiadwy heb beryglu sefydlogrwydd tymor hir y portffolio dyledion. Gan fod cyfraddau llog tymor byr yn llawer is na chyfraddau tymor hir, mae'n debygol o fod yn fwy effeithiol yn y tymor byr i un ai defnyddio adnoddau mewnol, neu i fenthyg dros y tymor byr yn lle hynny.

Drwy wneud hyn, gall y Cyngor leihau costau benthyca net (er yn hepgor yr incwm o fuddsoddiadau) a lleihau'r risg trysorlys cyffredinol. Bydd y buddion o fenthyca mewnol yn cael eu monitro'n rheolaidd yn erbyn y potensial o greu costau ychwanegol trwy ohirio benthyca tan y dyfodol pan ragwelir y bydd cyfraddau benthyca tymor hir yn codi yn gymedrol. Bydd Arlingclose yn cynorthwyo'r Cyngor gyda'r 'gost cario' a'r dadansoddiad elw. Gall yr allbwn o hwn bennu p'un a fydd y Cyngor yn benthyca symiau ychwanegol ar gyfraddau sefydlog hirdymor yn 2019/20 gyda'r bwriad o gadw costau llog y dyfodol yn isel, hyd yn oed os bydd hyn yn creu cost ychwanegol yn y tymor byr.

Fel arall, gall y Cyngor drefnu benthyciadau sy'n cychwyn yn ei flaen yn 2019/20, gyda'r cyfradd llog wedi ei sefydlu ymlaen llaw, ond bod yr arian yn cael ei dderbyn mewn blynyddoedd i ddod. Byddai hyn yn rhoi sicrwydd cost heb ddioddef y gost cario yn y cyfamser.

Yn ogystal â hyn, mae'n bosib y bydd y Cyngor yn benthyca benthyciadau tymor byr i gwrdd â diffygion annisgwyl yn y llif arian.

5.4 Ffynonellau benthycyca

Dyma'r ffynonellau sydd wedi'u cymeradwyo ar gyfer benthyciadau tymor byr a thymor hir:

- Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus (PWLB) ac unrhyw olynnydd
- unrhyw sefydliad a gymeradwywyd ar gyfer buddsoddi (gweler paragraff 5.5 isod)
- unrhyw fanc neu gymdeithas adeiladau arall sydd wedi'u hawdurdodi i weithredu yn y DU
- unrhyw gorff cyhoeddus yn y DU
- cronfeydd pensiwn cyhoeddus a preifat yn y DU (eithrio Cronfa Bensiwn Gwynedd)
- Buddsoddwyr marchnad cyfalaf
- Cwmnïau i bwrpas arbennig a grëwyd i alluogi cyhoeddi bondiau ar y cyd rhwng awdurdodau lleol.

5.5 Ffynonellau eraill arian dyled

Yn ogystal, gellir codi cyllid cyfalaf drwy'r dulliau canlynol sydd ddim yn fenthyciadau, ond y gellir eu cyfrif fel rhwymedigaethau dyledion eraill:

- Prydlesau
- Hur-bwrcasu
- Menter Cyllid Preifat
- Gwerthu ac adlesu

Yn flaenorol, mae'r Cyngor wedi derbyn mwyafrif o'i fenthyciadau tymor hir gan y Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus (PWLB), ond byddwn yn parhau i ystyried ffynonellau cyllid eraill, megis benthyciadau gan awdurdodau lleol a benthyciadau banc, gall fod ar gael ar gyfraddau mwy ffafriol.

5.6 Benthyciadau tymor byr a chyfradd newidiol

Mae'r benthyciadau yma yn gadael y Cyngor yn agored i'r risg o gynnydd tymor byr yn y gyfradd llog, ac felly yn agored i derfynau amlygiadau cyfradd llog y dangosyddion rheolaeth trysorlys isod.

5.7 Aildrefnu dyledion

Mae'r PWLB yn caniatáu i awdurdodau ad-dalu benthyciadau cyn iddynt aeddfedu, ac un ai talu premiwm neu dderbyn disgownt yn unol â fformiwla a osodwyd yn seiliedig ar gyfraddau llog presennol. Hwyrach y bydd rhai benthycwyr yn barod i drafod telerau ad-dalu cynnar. Gall y Cyngor gymeryd mantais o hyn ac amnewid rhai benthyciadau am fenthyciadau newydd, neu ad-dalu benthyciadau heb eu hamnewid, lle y disgwylir y bydd hyn yn arwain at arbediad cyffredinol neu leihad cyffredinol mewn risg.

6. Y Strategaeth Fuddsoddi

- 6.1** Mae gan y Cyngor arian wedi'i fuddsoddi, sy'n cynrychioli incwm a dderbynnir cyn ei wario ynghyd â'r balansau a'r cronfeydd wrth gefn a ddelir. Yn y 12 mis diwethaf, mae balans buddsoddiadau'r Cyngor wedi amrywio rhwng £79.4 a £17.6 miliwn, a disgwylir cynnal lefelau tebyg am y flwyddyn sydd i ddod.

Mae hyn yn cynnwys balansau arian Cronfa Bensiwn Gwynedd sydd yn cael eu pwlio gyda chronfeydd y Cyngor at ddibenion buddsoddi. Mae'r Gronfa Bensiwn yn gofyn am hyn bob blwyddyn gan fod y dychweliadau a dderbynnir yn well ac mae'r risgiau wedi eu lleihau wrth uno'r arian gyda chronfeydd y Cyngor. Bydd y Pwyllgor Pensiynau yn cymeradwyo'r elfennau perthnasol y Datganiad Strategaeth hwn a gofyn i barhau gyda'r trefniadau pwl ar gyfer 2019/20 yn ei gyfarfod ar 14 Mawrth 2019.

6.2 Amcanion

Mae Cod CIPFA a Chanllaw LIC yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor fuddsoddi ei gronfeydd yn ddarbodus, gan roi ystyriaeth i ddiogelwch a hylifedd ei fuddsoddiadau cyn ceisio am y gyfradd enillion neu'r cynnyrch uchaf. Amcan y Cyngor wrth fuddsoddi arian yw taro'r cydbwysedd cywir rhwng risg ac enillion, gan leihau'r risg o golledion drwy buddsoddiadau'n diffygdlu a'r risg o dderbyn incwm sy'n anaddas o isel ar fuddsoddiadau. Pan ddisgwylir i falansau cael eu buddsoddi am fwy na blwyddyn, bydd y Cyngor yn anelu i dderbyn dychweliad cyfan sydd yn gyfartal neu'n uwch na chyfradd gyffredinol chwyddiant, er mwyn cynnal grym gwario'r swm a fuddsoddir.

6.3 Cyfraddau llog negyddol

Pe bai'r DU yn mynd mewn i ddirwasgiad yn ystod 2019/20, mae siawns fechan y gall Banc Lloegr osod y Gyfradd Banc ar neu o dan sero, sydd yn debyg o fwydo drwodd i gyfraddau llog negyddol ar yr holl fuddsoddiadau tymor byr risg isel sydd ar gael. Mae'r sefyllfa yma yn bodoli yn llawer o wledydd Ewrop yn barod. Os yw hyn yn digwydd, bydd diogelwch yn cael ei fesur fel derbyn y swm cytundebol a fuddsoddwyd ar aeddfedrwydd, er gallai'r swm yma bod yn llai na fuddsoddwyd yn wreiddiol.

6.4 Strategaeth

Gyda'r cynnydd parhaus yn y risg ac enillion isel iawn o fuddsoddiadau byrdymor ansicredig banc, mae'r Cyngor yn bwriadu arallgyfeirio yn bellach i ddsbarthiadau o asedau sy'n fwy sicr a/neu gynnyrch uwch yn ystod 2019/20. Mae hyn yn benodol yr achos ar gyfer yr £10m amcangyfrifedig sydd ar gael ar gyfer buddsoddiad tymor hirach. Mae'r rhan helaeth o'r arian parod sydd dros ben gan y Cyngor wedi'i fuddsoddi mewn adneuo'n banc anwarantedig, tystysgrifau adneuo'n a chronfeydd marchnadoedd arian. Bydd yr arallgyfeirio felly'n parhau'r strategaeth a fabwysiadwyd yn 2015/16.

6.5 Modelau Busnes

O dan y safon 9 IFRS mae'r gyfrifeg ar gyfer buddsoddiadau penodol yn dibynnu ar "model busnes" y Cyngor i'w rheoli. Mae'r Cyngor yn anelu i ennill gwerth gan ei fuddsoddiadau trysorlys sydd yn cael eu rheoli'n fewnol gyda model busnes o gasglu llif arian cytundebol ac felly, ble mae'r meini prawf yn cael ei cwrdd, mae'r buddsoddiadau yn dal i gael eu cyfrifo ar gost wedi ei amorteiddio.

6.6 Gwrthbartion cymeradwy

Gall y Cyngor fuddsoddi ei gronfeydd dros ben gyda unrhyw o'r gwrthbartion yn nhabl 3 isod, yn amodol ar y terfynau arian (fesul gwrthbarti) a'r cyfyngiadau amser a ddangosir.

Tabl 3: Gwrthbartion Buddsoddi sydd wedi'u Cymeradwyo a'r terfynau

Cyfradd Credyd	Banciau Ansicredig	Banciau â Sicrwydd	Llywodraeth	Corfforaethau	Darparwyr Cofrestredig
Llywodraeth DU	d/b	d/b	£ diderfyn 50 mlynedd	d/b	d/b
AAA	5% / £4m 5 mlynedd	10% / £8m 20 mlynedd	10% / £8m 50 mlynedd	5% / £4m 20 mlynedd	5% / £4m 20 mlynedd
AA+	5% / £4m 5 mlynedd	10% / £8m 10 mlynedd	10% / £8m 25 blynedd	5% / £4m 10 blynedd	5% / £4m 10 blynedd
AA	5% / £4m 4 blynedd	10% / £8m 5 mlynedd	10% / £8m 15 blynedd	5% / £4m 5 blynedd	5% / £4m 10 blynedd
AA-	5% / £4m 3 blynedd	10% / £8m 4 blynedd	10% / £8m 10 mlynedd	5% / £4m 4 blynedd	5% / £4m 10 blynedd
A+	5% / £4m 2 flynedd	10% / £8m 3 blynedd	5% / £8m 5 mlynedd	5% 3 blynedd	5% / £4m 5 blynedd
A	5% / £4m 13 mis	10% / £8m 2 flynedd	5% / £8m 5 mlynedd	5% / £4m 2 flynedd	5% / £4m 5 blynedd
A-	5% / £4m 6 mis	10% / £8m 13 mis	5% / £8m 5 mlynedd	5% / £4m 13 mis	5% / £4m 5 blynedd
Dim	£1m 6 mis	d/b	10% / £8m 25 blynedd	£0.5m 5 mlynedd	5% / £4m 5 mlynedd
Cronfeydd wedi eu cyfuno a ymddirediolaethau buddsoddiadau eiddo	10% / £8m fesul cronfa neu ymddiriedolaeth				

Rhaid darllen y tabl hwn mewn cysylltiad â'r nodiadau isod.

6.7 Statws Credyd

Gosodir cyfyngiadau buddsoddi drwy gyfeirio at y statws credyd hirdymor isaf sydd wedi'i gyhoeddi gan ddetholiad o asiantaethau graddio allanol. Defnyddir y statws credyd sy'n berthnasol i'r buddsoddiad penodol neu'r dosbarth o fuddsoddiad pan fo hwnnw ar gael, ac fel arall defnyddir statws credyd y gwrthbartion. Fodd bynnag, nid yw penderfyniadau buddsoddi yn cael ei gwneud ar sail cyfraddau credyd yn unig, mae'r holl ffactorau perthnasol gan gynnwys cyngor allanol yn cael eu hystyried.

6.8 Banciau Ansicredig

Cyfrifon, adneuon, tystysgrifau adneuon a bondiau ansicredig uwch gyda banciau a chymdeithasau adeiladu, ac eithrio banciau datblygu amlochrog. Mae'r buddsoddiadau'n agored i risg o golli credyd drwy gyfrwng '*bail-in*' petai'r rheoleiddiwr yn penderfynu bod banc yn methu neu'n debygol o fethu.

6.9 Banciau â Sicrwydd

Bondiau gorchuddiedig, cytundebau adbrynu o chwith a threfniadau gyda sicrwydd cyfochrog gyda banciau a chymdeithasau adeiladu. Mae'r buddsoddiadau hyn wedi'u sicrhau ar asedau'r banc, sy'n cyfyngu'r colledion potensial petai methdaliad, ac mae'n golygu eu bod wedi'u heithrio rhag '*bail-in*'. Os nad oes unrhyw statws credyd penodol ar gyfer y buddsoddiad, bydd statws credyd yn bodoli ar gyfer y sicrwydd cyfochrog sy'n sail i'r buddsoddiad. Defnyddir y statws uchaf o'r statws credyd sicrwydd cyfochrog a'r statws credyd gwrthbarti i benderfynu ar y cyfyngiadau o ran arian barod ac amser. Ni fydd cyfanswm y buddsoddiadau â sicrwydd a'r buddsoddiadau ansicredig mewn unrhyw un banc yn fwy na'r cyfyngiad arian parod ar gyfer buddsoddiadau â sicrwydd.

6.10 Llywodraeth

Benthyciadau, bondiau a biliau a gyhoeddir neu a warrantir gan lywodraethau cenedlaethol, rhanbarthol, awdurdodau lleol a banciau datblygol amlochrog. Ni fyddai'r buddsoddiadau yma yn destun '*bail-in*', a bychan iawn yw'r risg o ansolfedd. Gellir gwneud buddsoddiadau gyda Llywodraeth Ganolog y DU gyda dim cyfyngiad am hyd at 50 mlynedd.

6.11 Corfforaethau

Benthyciadau, bondiau a phapur masnachol a gyhoeddir gan gwmnïau ac eithrio banciau a darparwyr cofrestredig. Nid yw'r buddsoddiadau hyn yn destun '*bail-in*' ond maent yn agored i'r risg y gallai'r cwmni ddod yn fethdalwr. Mae benthyciadau i gwmnïau heb graddfa credyd ond yn cael ystyried yn dilyn asesiad credyd allanol neu uchafswm o £1 million mesul cwmni fel rhan o bŵl amrywiol er mwyn lledaenu'r risg yn eang.

6.12 Darparwyr cofrestredig

Benthyciadau a bondiau a gyhoeddir, neu a warrantir gan, neu sydd wedi'u sicrhau ar asedau darparwyr tai cymdeithasol cofrestredig, a elwid gynt yn gymdeithasau tai. Caiff y cyrff hyn eu rheoleiddio'n llym gan yr Rheoleiddiwr Tai Cymdeithasol (yn Lloegr), Rheoleiddiwr Tai yn yr Alban, Llywodraeth Cymru ac yr Adran ar gyfer y Gymuned (yn Gogledd Iwerddon). Fel darparwyr gwasanaethau cyhoeddus, maent yn debygol iawn o barhau i dderbyn cymorth gan y llywodraeth os bydd angen.

6.13 Cronfeydd wedi'u cyfuno

Cyfranddaliadau neu unedau mewn dulliau buddsoddi amrywiol sy'n cynnwys unrhyw un o'r mathau a restrwyd uchod, ynghyd â chyfranddaliadau ecwiti ac eiddo. Y fantais i'r rhain yw bod y risgiau buddsoddi wedi'u gwasgaru'n ehangach, a bod gwasanaethau rheolwr proffesiynol y gronfa ar gael drwy dalu ffi. Bydd Cronfeydd Marchnadoedd Arian tymor byr sy'n cynnig diddymu ar yr un diwrnod ac anweddolrwydd isel neu dim o gwbl yn cael eu defnyddio fel dewis amgen i gyfrifon banc lle ceir mynediad ar unwaith, tra bydd cronfeydd wedi'u cyfuno ble mae eu gwerth yn newid yn ôl prisiau'r farchnad ac/neu a chanddynt gyfnod rhybudd yn cael eu defnyddio ar gyfer cyfnodau buddsoddi hirach.

6.14 Cyfrifon banc gweithredol

Gall y Cyngor ddelio gyda unrhyw fanc yn y DU gyda statws credyd dim is na BBB - a chydag asedau mwy na £25 biliwn, a hynny, er enghraifft, drwy gyfrifon cyfredol, cyfrifon casglu a gwasanaethau caffael masnachwyr. Nid yw'r rhain yn cael eu cael eu cyfrif fel buddsoddiadau, ond maent yn parhau yn agored i risgiau 'bail-in', ac felly bydd y balansau yn cael eu cadw'n is na £900,000 fesul banc. Mae Banc Lloegr wedi datgan petai yna fethiant, y byddai banciau gydag asedau sy'n fwy na £25 biliwn yn fwy tebygol o fod yn destun 'bail-in' na chael eu gwneud yn fethdalwyr, gan gynyddu'r tebygolrwydd y byddai'r Cyngor yn gallu parhau i weithredu.

6.15 Asesu Risg a Statws Credyd

Mae ymgynghorwyr trysorlys y Cyngor yn derbyn ac yn monitro'r graddfeydd credyd, a byddant yn hysbysu unrhyw newid yn y statws wrth iddynt ddigwydd. Pan fo statws credyd endid yn cael ei israddio, ac yn methu â diwallu'r meini prawf ar gyfer buddsoddi:

- ni wneir unrhyw fuddsoddiadau newydd;
- bydd unrhyw fuddsoddiadau presennol yn cael eu hadalw neu eu gwerthu os gellir gwneud hynny heb unrhyw gost, a
- rhoddir ystyriaeth lawn i adalw neu werthu'r holl fuddsoddiadau presennol eraill gyda'r gwrthbarti a effeithiwyd.

Pan fo asiantaeth sy'n graddio credyd yn cyhoeddi bod statws credyd rhyw sefydliad yn cael ei adolygu er mwyn ei israddio o bosib (gelwir hyn hefyd yn "rating watch negative" neu "credit watch negative") fel y gall ddisgyn islaw'r meini prawf cymeradwy ar gyfer y statws credyd, yna dim ond buddsoddiadau y gellir eu tynnu allan ar y diwrnod gwaith nesaf fydd yn cael eu gwneud gyda'r sefydliad hwnnw hyd nes y cyhoeddir canlyniad yr adolygiad. Ni fydd y polisi hwn yn berthnasol i ragolygon negatif, sy'n awgrymu newid cyfeiriad yn yr hir dymor yn hytrach na newid statws credyd ar unwaith.

6.16 Gwybodaeth arall ar ddiogelwch fuddsoddiadau

Mae'r Cyngor yn deall bod graddfeydd statws credyd yn broffwydi da, ond nid perffaith, ar gyfer buddsoddiadau'n diffygdlu. Rhoddir ystyriaeth lawn felly i wybodaeth arall sydd ar gael ar ansawdd credyd y sefydliadau y mae'n buddsoddi ynddynt, gan gynnwys prisiau cyfnewid diffygion credyd, datganiadau ariannol, gwybodaeth ar gymorth posib gan y llywodraeth ac adroddiadau yn y wasg ariannol a dadansoddiad a chyngor gan ymgynghorydd rheolaeth trysorlys y Cyngor. Ni wneir unrhyw fuddsoddiadau gyda sefydliad os oes amheuan cadarn ynghylch ei ansawdd credyd, hyd yn oed os yw'n cwrdd â'r meini prawf statws credyd.

Pan fo amodau'n dirywio yn y farchnad ariannol ac yn effeithio ar ansawdd credyd yr holl sefydliadau, fel y digwyddodd yn 2008 ac yn 2011, nid yw'r elfen hon ar y cyfan yn cael ei hadlewyrchu mewn graddau statws credyd, ond gellir ei gweld mewn mesurau marchnad eraill. Yn yr amgylchiadau hyn, bydd y Cyngor yn cyfyngu ei fuddsoddiadau i'r sefydliadau hynny a chanddynt ansawdd credyd uwch, ac yn lleihau ar gyfnod hiraf ei fuddsoddiadau er mwyn cynnal y lefel diogelwch angenrheidiol. Bydd graddau'r cyfyngiadau hyn yn unol â'r amodau presennol yn y farchnad ariannol. Os yw'r cyfyngiadau hyn yn golygu nad oes digon o sefydliadau masnachol o ansawdd credyd uchel ar gael i fuddsoddi balansau arian y Cyngor, yna caiff yr arian dros ben ei adneuo gyda Llywodraeth y DU, trwy'r Swyddfa Rheoli Dyledion er enghraifft, neu gydag awdurdodau lleol eraill. Bydd hyn yn peri gostyngiad yn lefel yr incwm a geir ar fuddsoddiadau, ond bydd yn diogelu'r prif swm a fuddsoddwyd.

6.17 Buddsoddiadau penodedig

Mae Canllaw Llywodraeth Cymru yn diffinio buddsoddiadau penodedig fel rhai:

- sydd ar ffurf punnoedd sterling,
- sy'n cael eu had-dalu o fewn 12 mis o'r trefniant,
- na chânt eu diffinio fel gwariant cyfalaf yn ôl y ddeddfwriaeth, a
- rhai a fuddsoddwyd gydag un o'r canlynol:
 - Llywodraeth y DU,
 - awdurdod lleol, cyngor plwyf neu gyngor cymuned yn y DU, neu
 - gyda chorff neu gynllun buddsoddi o "ansawdd credyd uchel".

Mae'r Awdurdod yn diffinio sefydliadau sydd ag "ansawdd credyd uchel" fel y rheini sydd â statws credyd o A- neu uwch, sy'n preswyllo yn y DU neu mewn gwlad dramor sydd â statws sofran o AA+ neu uwch. Ar gyfer cronfeydd marchnad arian a chronfeydd cyfunedig eraill diffinnir "ansawdd credyd uchel" fel y rhai sydd gyda chyfradd credyd A- neu uwch.

6.18 Buddsoddiadau Amhenodedig

Mae unrhyw fuddsoddiad nad yw'n bodloni'r diffiniad ar gyfer buddsoddiad penodedig yn cael ei gategoreiddio fel buddsoddiad amhenodedig. Nid yw'r Awdurdod yn bwriadu gwneud unrhyw fuddsoddiadau mewn arian gwlad tramor na un wedi ei ddiffinio fel buddsoddiad cyfalaf. Bydd buddsoddiadau amhenodedig felly'n gyfyngedig i fuddsoddiadau tymor hir h.y. y rheini sydd i fod i aeddfedu 12 mis neu hwy ar ôl dyddiad y trefniant; y rheini gaiff eu diffinio fel gwariant cyfalaf yn ôl y ddeddfwriaeth, megis cyfrandaliadau mewn cronfeydd marchnad arian a chronfeydd cyfunedig eraill; a buddsoddiadau gyda chyrrff a rhaglenni nad ydynt yn bodloni'r diffiniad o ansawdd credyd uchel. Mae'r cyfyngiadau ar fuddsoddiadau amhenodedig i'w gweld yn nhabl 3 isod.

Tabl 3: Cyfyngiadau ar Fuddsoddiadau Amhenodedig

	Cyfyngiad arian
Cyfanswm buddsoddiadau tymor hir	£30m
Cyfanswm buddsoddiadau heb statws credyd neu gyda statws sy'n is na A- (heblaw Llywodraeth y DU ac Awdurdodau Lleol y DU)	£8m
Cyfanswm buddsoddiadau (heblaw cronfeydd cyfunedig) mewn gwledydd tramor sydd â statws sy'n is na AA+	£4m
Cyfanswm y buddsoddiadau amhenodedig	£24m

6.19 Cyfyngiadau Buddsoddi

Rhagwelir bydd gan y Cyngor £41 miliwn mewn cronfeydd refeniw ar 31 Mawrth 2019 fydd ar gael i dalu am unrhyw golledion buddsoddi. Er mwyn sicrhau nad yw mwy na 20% o'r cronfeydd hyn mewn perygl oherwydd diffyg dalu unigol, yr uchafswm gellir ei fenthycu i unrhyw un sefydliad (heblaw Llywodraeth y DU) yw £8 miliwn. O ran y cyfyngiad yma bydd grŵp o fanciau o dan yr un perchnogaeth yn cael eu trin fel sefydliad unigol. Bydd terfynau yn cael eu rhoi ar reolwyr cronfa, buddsoddiadau mewn cyfrifon enwebai brocers, gwledydd tramor a sectorau diwydiant fel isod. Nid yw buddsoddiadau mewn cronfeydd cyfunedig a banciau datblygu amlochrog yn cyfrif yn erbyn y terfyn ar gyfer unrhyw wlad tramor unigol, gan fod y risg yn cael ei rannu dros nifer o wledydd.

Tabl 4: Cyfyngiadau Buddsoddi

	Cyfyngiad arian
Unrhyw sefydliad unigol, ar wahân i Lywodraeth Ganolog y DU	£8m yr un
Llywodraeth Ganolog y DU	anghyfyngedig
Unrhyw grŵp o sefydliadau dan yr un perchnogaeth	£8m fesul grŵp
Unrhyw grŵp o gronfeydd cyfunedig dan yr un rheolaeth	£20m fesul rheolwr
Offerynnau y mae'n bosib eu cyfnewid a ddelir yng nghyfrif enwebedig brocer	£40m fesul brocer
Gwledydd tramor	£8m fesul gwlad
Darparwyr cofrestredig a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig	Cyfanswm o £20m
Buddsoddiadau ansicredig gyda chymdeithasau adeiladu	Cyfanswm o £8m
Benthyciadau i gorfforaethau heb eu raddio	Cyfanswm o £8m
Cronfeydd marchnad arian	Cyfanswm o £40m
Ymddiriedolaethau buddsoddi ystâd real	Cyfanswm o £20m

6.20 Rheoli hylifedd

Mae'r Cyngor yn defnyddio technegau rhagolwg darbodus ar gyfer llif arian er mwyn pennu'r cyfnod hwyaf y gellir ymrwymo cronfeydd yn ddarbodus. Caiff y rhagolygon eu llunio ar y sail bod benthyca tymor byr yn cael ei ddefnyddio i gwmpasu ei ymrwymadau ariannol os oes angen. Mae'r cyfyngiadau ar fuddsoddiadau tymor hir yn cael eu gosod ar sail cynllun ariannol tymor canol a rhagolwg llif arian y Cyngor.

7. Dangosyddion Rheolaeth Trysorlys

Mae'r Cyngor yn mesur ac yn rheoli pa mor agored ydyw i risgiau rheolaeth trysorlys gan ddefnyddio'r dangosyddion a ganlyn.

7.1 Diogelwch

Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu mesur gwirfoddol i ddangos ei sensitifrwydd i risg credyd trwy fonitro sgôr credyd cyfartalog yn ôl cyfran amser ei bortffolio buddsoddi. Caiff hyn ei gyfrifo trwy roi sgôr i bob buddsoddiad (AAA=1, AA+=2, ac ati) a chymryd y cyfartaledd rhifyddol, gan bwysu'r cyfartaledd yn ôl maint pob buddsoddiad.

Dangosydd risg credyd	Targed
Sgôr credyd cyfartalog y portffolio	6.0

7.2 Hylifedd

Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu mesur gwirfoddol i ddangos ei sensitifrwydd i risg hylifedd trwy fonitro faint o arian sydd ar gael i gwrdd â thaliadau annisgwyl mewn cyfnod penodol, heb fenthyca ychwanegol.

Dangosydd risg hylifedd	Targed
Cyfanswm arian ar gael o fewn 3 mis	£10m

7.3 Datguddiad Cyfraddau Llog

Nod y dangosydd hwn yw rheoli datguddiad y Cyngor i risg cyfradd llog. Yr effaith refeniw ar gyfyngiadau uwch dros flwyddyn yn dilyn codiad neu gwmp o 1% ar gyfraddau llog fyddai:

Dangosydd risg cyfradd llog	Cyfyngiad
Y terfyn uchaf ar effaith refeniw blwyddyn <u>codiad</u> 1% yng nghyfraddau llog	£761,000
Y terfyn uchaf ar effaith refeniw blwyddyn gyda <u>cwmp</u> o 1% yng nghyfraddau llog	£0

Caiff effaith newid mewn cyfraddau llôg ei gyfrifo ar y dybiaeth y bydd benthyciadau a buddsoddiadau sy'n aeddfedu yn cael eu hamnewid ar y cyfraddau cyfredol.

7.4 Strwythur Aeddfedrwydd Benthyciadau

Nod y dangosydd hwn yw rheoli pa mor agored yw'r Cyngor i risg ail gyllido. Bydd y terfynau uchaf ac isaf ar strwythur aeddfedrwydd benthyciadau fel a ganlyn:

Dangosydd risg cyfradd ail gyllido	Cyfyngiad Uchaf	Cyfyngiad Isaf
Dan 12 mis	25%	0%
12 mis ac o fewn 24 mis	25%	0%
24 mis ac o fewn 5 mlynedd	50%	0%
5 mlynedd ac o fewn 10 mlynedd	75%	0%
10 mlynedd a mwy	100%	0%

Mae'r cyfnodau amser yn dechrau ar ddiwrnod cyntaf pob blwyddyn ariannol. Y dyddiad aeddfedrwydd ar fenthyciadau yw'r dyddiad cynharaf y gall y sawl sydd wedi rhoi'r benthyciad fynnu bod y benthyciad yn cael ei ad-dalu.

7.5 Prif Symiau a Fuddsoddir am Gyfnodau sy'n Hwyt na flwyddyn

Pwrpas y dangosydd hwn yw rheoli pa mor agored yw'r Cyngor i'r risg o fynd i golledion trwy geisio ad-daliadau buan ar ei fuddsoddiadau. Bydd y terfynau ar gyfanswm y prif swm a fuddsoddir i aeddfedu'n derfynol tu hwnt i ddiwedd y cyfnod fel a ganlyn:

	2019/20	2020/21	2021/22
Y terfyn ar y prif swm a fuddsoddwyd tu hwnt i ddiwedd y flwyddyn	£20m	£20m	£20m

8. Materion Cysylltiedig

8.1 Mae nifer o eitemau ychwanegol y mae'n rhaid i'r Cyngor eu cynnwys yn ei Strategaeth Rheolaeth Trysorlys, yn ôl CIPFA.

8.2 Cytundebau Deilliadau

Yn absenoldeb unrhyw rym cyfreithiol penodol i wneud hynny, ni fydd y Cyngor yn defnyddio cytundebau ariannol annibynnol (megis cytundeb cyfenwid, cytundeb ymlaen, cytundeb dyfodol a chytundeb opsiwn). Mae'n bosib y bydd cytundebau sydd wedi'u hymgorffori mewn benthyciadau a buddsoddiadau, gan gynnwys cronfeydd wedi eu cyfuno a thrafodion sy'n dechrau yn y dyfodol, yn cael eu defnyddio, a bydd y risgiau sydd ynghlwm â hwy yn cael eu monitro yn unol a risg cyffredinol y strategaeth rheolaeth trysorlys.

8.3 Cyfarwyddeb Marchnadoedd mewn Offerynnau Ariannol

Mae'r Cyngor wedi dewis cael statws cleient proffesiynol gyda'i darparwyr gwasanaethau ariannol, gan gynnwys ymgynghorwyr, banciau, broceriaid a rheolwyr buddsoddi, er mwyn caniatáu mynediad at amrediad mwy o wasanaethau ond heb y diogelwch rheoleiddio uwch sydd ar gael i unigolion a chwmnïau bychan. Oherwydd maint ac ystod gweithgareddau rheolaeth trysorlys y Cyngor, mae'r Pennaeth Cyllid yn credu mai hwn yw'r statws priodol gorau.

9. Arweiniad Llywodraeth Cymru

9.1 Hyfforddiant Buddsoddi

Caiff anghenion staff rheolaeth trysorlys y Cyngor am hyfforddiant mewn rheolaeth buddsoddi eu hasesu bob blwyddyn fel rhan o'r broses gwerthuso staff, ac yn ychwanegol i hynny pan fydd cyfrifoldebau aelodau staff unigol yn newid.

Mae staff yn mynychu cyrsiau hyfforddi, seminarau a chynadleddau a ddarperir gan Arlingclose a CIPFA yn rheolaidd. Caiff staff perthnasol eu hannog hefyd i astudio cymwysterau proffesiynol gan CIPFA, Cymdeithas Trysoryddion Corfforaethol a sefydliadau priodol eraill.

9.2 Ymgynghorwyr Buddsoddi

Mae'r Cyngor wedi penodi Arlingclose Limited fel ymgynghorwyr rheolaeth trysorlys ac mae'n derbyn cyngor penodol ar faterion buddsoddi, dyledion a chyllid cyfalaf. Mae ansawdd y gwasanaeth hwn yn cael ei fonitro gan Bennaeth yr Adran Gyllid a'r Rheolwr Buddsoddi yn rheolaidd.

9.3 Buddsoddi Arian a Fenthyciwyd cyn i'r Angen Godi

O bryd i'w gilydd, hwyrach y bydd y Cyngor yn benthycu arian cyn i'r angen godi, pan ddisgwylir mai hyn fydd yn rhoi'r gwerth am arian gorau yn y tymor hir. Gan y bydd y symiau a fenthycir yn cael eu buddsoddi hyd nes caiff yr arian ei wario, mae'r Cyngor yn ymwybodol y bydd yn agored i'r risg o golli'r symiau a fenthyciwyd, a'r risg y bydd cyfraddau llog ar fuddsoddiadau a benthyciadau yn newid yn y cyfamser. Bydd y risgiau hyn yn cael eu rheoli fel rhan o reolaeth gyffredinol y Cyngor o'i risgiau trysorlys.

Ni fydd y cyfanswm a fenthycir yn uwch na'r terfyn benthycu awdurdodedig o £190 miliwn. Disgwylir mai dwy flynedd fydd y cyfnod mwyaf rhwng benthycu a gwario'r arian, serch hyn, nid oes gofyn i'r Awdurdod gysylltu benthyciadau penodol gydag eitemau gwariant penodol.

10. Goblygiadau Ariannol

- 10.1** Y gyllideb ar gyfer yr incwm buddsoddi yn 2019/20 yw £0.2 miliwn, yn seiliedig ar gyfartaledd portffolio buddsoddi o £22 miliwn ar gyfradd llog o 0.88%. Y gyllideb ar gyfer y llog ar ddyledion yn 2019/20 yw £6.0 miliwn, yn seiliedig ar gyfartaledd portffolio dyledion o £106.6 miliwn ar gyfradd llog cyfartalog o 5.62%. Os bydd lefelau gwirioneddol y buddsoddiadau a'r benthyciadau a'r cyfraddau llog yn wahanol i'r rhagolygon, yna bydd gwahaniaeth cyfatebol yn y perfformiad yn erbyn y gyllideb.

11. Ystyried Opsiynau Eraill

11.1 Nid yw Canllawiau Llywodraeth Cymru na Chôd CIPFA yn pennu unrhyw strategaeth rheoli trysorlys penodol i awdurdodau lleol ei fabwysiadu. Ar ôl ymgynghori gyda'r Aelod Cabinet dros Gyllid, mae'r Pennaeth Cyllid yn credu fod y strategaeth uchod yn cynnig cydbwysedd addas rhwng rheoli risgiau a chost-ffeithiolrwydd. Isod, rhestrir rhai strategaethau eraill, ynghyd â'u hoblygiadau o ran rheoli risgiau.

Dewis Arall	Effaith ar incwm a gwariant	Effaith ar reoli risgiau
Buddsoddi mewn amrediad mwy cyfyng o wrth bartïon ac/neu am gyfnodau byrrach	Bydd incwm ar y llôg yn is	Llai o berygl o golledion o ganlyniad i ddiffygdalu'n ymwneud â chredyd, ond byddai unrhyw golledion yn fwy
Buddsoddi mewn amrediad ehangach o wrth bartïon ac/neu am gyfnodau hirach	Bydd incwm ar y llôg yn uwch	Mwy o risg o golledion o ganlyniad i ddiffygdalu'n ymwneud â chredyd, ond byddai unrhyw golledion yn llai
Benthycia symiau ychwanegol ar gyfraddau llôg sefydlog hirdymor	Bydd costau llôg dyledion yn codi; mae'n annhebygol y gellid gwrthbwysu hyn drwy incwm buddsoddi uwch	Balans buddsoddi uwch yn arwain at fwy o effaith petai ddiffygdalu; fodd bynnag byddai'r costau llôg hirdymor yn fwy sicr
Cymeryd benthyciadau byrdymor newidiol yn hytrach na chyfraddau sefydlog hirdymor	Bydd costau llôg dyledion yn is i gychwyn	Bydd y cynnydd yn y costau llôg ar ddyledion yn cael eu gwrthbwysu i raddau helaeth gan y cynnydd yn yr incwm buddsoddi yn y tymor canolig, ond bydd mwy o ansicrwydd am y costau hirdymor
Lleihau lefel y benthyciadau	Mae'r arbediad ar lôg y ddyled yn debygol o fod yn fwy na'r incwm buddsoddi a gollir	Balans buddsoddi is yn arwain at lai o effaith petai ddiffygdalu; fodd bynnag byddai'r costau llog hirdymor yn llai sicr

Atodiad 1 – Rhagolygon Economaidd a Chyfraddau Llôg Arlingclose, Rhagfyr 2018

Rhagdybiaethau sylfaenol:

- Mae ein rhagamcanion cyfradd llog canolog wedi'u cyfrifo ar y sail fod yna gyfnod trosglwyddo wedi i'r DU adael yr UE yn ffurfiol.
- Mae gan y Pwyllgor Polisi Ariannol (MPC) duedd bendant tuag at bolisi ariannol tynnach ond mae'n gyndyn o wthio disgwyliadau cyfraddau llog yn rhy gryf. Credwn fod aelodau MPC yn ystyried: 1) y bydd marchnadoedd llafur tynn yn annog pwysau chwyddiannol yn y dyfodol, 2) y bydd cyfraddau llog isel iawn yn arwain at broblemau economaidd eraill a 3) bod Cyfradd Banc uwch yn arf fwy effeithiol pe byddai risgiau twf negyddol yn cael eu crisialu.
- Yn sgil y rhagamcanion a'r cynnydd ym maint y risgiau gwleidyddol ac economaidd y mae economi'r DU yn eu hwynebu, rydym yn parhau â risgiau negyddol sylweddol i'n rhagamcanion, er gwaethaf y posibilrwydd o dwf ychydig yn gryfach flwyddyn nesaf wrth i fuddsoddiad busnes adlamu pe bai'r Cytundeb i Adael yr UE yn cael ei gymeradwyo. Mae'r posibilrwydd o ganlyniadau economaidd difrifol wedi cynyddu yn dilyn ymateb gwael yr Aelodau Seneddol i'r Cytundeb Gadael. Disgwyliwn i Fanc Lloegr gadw neu ostwng cyfraddau llog o'r lefelau cyfredol os yw risgiau Brexit yn dod i'r fei.
- Mae amgylchedd economi'r DU yn gymharol feddal, er gwaethaf data marchnad lafur sy'n ymddangos yn gryf. Adferwyd twf GDP rhywfaint yng chwarteri canol 2018, ond mae data mwy diweddar yn awgrymu fod yr economi wedi arafu'n sylweddol yn Ch4. Y farn yw bod economi'r DU yn parhau i wynebu rhagolygon heriol wrth i'r wlad adael yr Undeb Ewropeaidd ac wrth i dwf economaidd yr Ardal yr Ewro feddal.
- Mae pwysau côst yn esmwytho ond rhagwelir y bydd chwyddiant yn aros yn uwch na tharged 2% y Banc am y rhan fwyaf o'r cyfnod rhagolwg. Mae prisiau olew is wedi gostwng pwysau chwyddiant, ond golyga'r farchnad lafur tyn a'r lleihad yng ngwerth y bunt y gall chwyddiant aros yn uwch na'r targed am yn hwy na'r disgwyl.
- Mae twf economaidd byd-eang yn arafu. Er gwaethaf y twf arafach, mae Banc Canolog Ewrop yn paratoi marchnadoedd ar gyfer diwedd QE, amseriad y cynnydd cyntaf yn y gyfradd (2019) a'u trywydd wedi hynny. Mae data mwy diweddar o UDA wedi rhoi'r Gronfa Ffederal dan bwysau i leihau cyflymder y tynhau ariannol - fodd bynnag, bydd cynnydd blaenorol a disgwyliadau uwch yn arafu twf economaidd.
- Mae gweithredoedd y banc canolog a risgiau gwleidyddol wedi arwain at amodau cyfnewidiol iawn yn y marchnadoedd ariannol, yn cynnwys y marchnadoedd bond, a byddant yn parhau i wneud hynny.

Rhagolygon

- Mae'r MPC wedi cynnal disgwyliadau o gynnydd araf mewn cyfraddau llôg dros y gorwel a ragwelir, ond mae digwyddiadau diweddar ynghylch Brexit wedi lleihau disgwyliadau cyfraddau llôg. Ein hachos canolog yw y bydd y Gyfradd Banc yn cynyddu ddwywaith yn 2019, wedi i'r DU adael yr UE. Mae risgiau'n parhau ar yr ochr negyddol.
- Mae enillion Gilt wedi parhau ar lefelau isel. Rydym yn disgwyl gweld lefelau presennol yn codi, yn seiliedig ar ein hachos canolog y bydd y DU yn mynd i gyfnod trosglwyddo wedi iddi adael yr UE yn ffurfiol ym mis Mawrth 2019. Fodd bynnag, bydd ein rhagolygon economaidd gwan a'r amodau cyfnewidiol yn sgil digwyddiadau economaidd a gwleidyddol yn parhau i gynnig cyfleoedd benthyca.

	Dec-18	Mar-19	Jun-19	Sep-19	Dec-19	Mar-20	Jun-20	Sep-20	Dec-20	Mar-21	Jun-21	Sep-21	Dec-21	Average
Official Bank Rate														
Upside risk	0.00	0.00	0.00	0.00	0.25	0.25	0.25	0.25	0.25	0.25	0.25	0.25	0.25	0.17
Arlingclose Central Case	0.75	1.00	1.00	1.25	1.25	1.25	1.25	1.25	1.25	1.25	1.25	1.25	1.25	1.17
Downside risk	0.00	0.50	0.50	0.75	0.75	0.75	0.75	0.75	0.75	0.75	0.75	0.75	0.75	0.65
3-mth money market rate														
Upside risk	0.10	0.10	0.10	0.10	0.15	0.20	0.20	0.20	0.20	0.20	0.20	0.20	0.20	0.17
Arlingclose Central Case	0.80	1.00	1.10	1.20	1.30	1.30	1.25	1.20	1.20	1.20	1.20	1.20	1.20	1.17
Downside risk	0.20	0.50	0.60	0.70	0.80	0.80	0.75	0.75	0.75	0.75	0.75	0.75	0.75	0.68
1-yr money market rate														
Upside risk	0.20	0.30	0.30	0.35	0.35	0.35	0.35	0.35	0.35	0.35	0.35	0.35	0.35	0.33
Arlingclose Central Case	1.05	1.25	1.35	1.40	1.50	1.45	1.40	1.40	1.40	1.40	1.40	1.40	1.40	1.37
Downside risk	0.35	0.50	0.60	0.75	0.75	0.75	0.75	0.75	0.75	0.75	0.75	0.75	0.75	0.69
5-yr gilt yield														
Upside risk	0.15	0.20	0.25	0.35	0.35	0.35	0.35	0.35	0.35	0.35	0.35	0.35	0.35	0.32
Arlingclose Central Case	1.15	1.20	1.25	1.35	1.40	1.40	1.35	1.35	1.30	1.30	1.30	1.30	1.30	1.30
Downside risk	0.30	0.35	0.45	0.50	0.60	0.60	0.60	0.60	0.60	0.60	0.60	0.60	0.60	0.54
10-yr gilt yield														
Upside risk	0.20	0.25	0.25	0.35	0.35	0.35	0.35	0.35	0.35	0.35	0.35	0.35	0.35	0.32
Arlingclose Central Case	1.60	1.65	1.65	1.70	1.75	1.75	1.75	1.70	1.70	1.70	1.70	1.70	1.70	1.70
Downside risk	0.30	0.45	0.50	0.55	0.60	0.60	0.60	0.60	0.60	0.60	0.60	0.60	0.60	0.55
20-yr gilt yield														
Upside risk	0.20	0.25	0.25	0.35	0.35	0.35	0.35	0.35	0.35	0.35	0.35	0.35	0.35	0.32
Arlingclose Central Case	1.90	1.95	1.95	2.00	2.00	2.00	2.00	2.00	2.00	2.00	2.00	2.00	2.00	1.98
Downside risk	0.30	0.40	0.45	0.45	0.45	0.45	0.45	0.45	0.45	0.45	0.45	0.45	0.45	0.43
50-yr gilt yield														
Upside risk	0.20	0.25	0.25	0.35	0.35	0.35	0.35	0.35	0.35	0.35	0.35	0.35	0.35	0.32
Arlingclose Central Case	1.80	1.85	1.85	1.90	1.90	1.90	1.90	1.90	1.90	1.90	1.90	1.90	1.90	1.88
Downside risk	0.30	0.40	0.45	0.45	0.45	0.45	0.45	0.45	0.45	0.45	0.45	0.45	0.45	0.43

PWLB Certainty Rate (Maturity Loans) = Gilt yield + 0.80%

PWLB Local Infrastructure Rate (Maturity Loans) = Gilt yield + 0.60%

Eitem 10

PWYLLGOR	PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU
DYDDIAD	14 CHWEFROR 2019
TEITL	CYNNYRCH ARCHWILIO MEWNOL
PWRPAS YR ADRODDIAD	AMLINELLU GWAITH ARCHWILIO MEWNOL AM Y CYFNOD HYD AT 1 CHWEFROR 2019
AWDUR	LUNED FÔN JONES - RHEOLWR ARCHWILIO
GWEITHREDIAD	DERBYN YR ADRODDIAD, SYLWEBU AR Y CYNWYS A CHEFNOGI'R GWEITHREDIADAU SYDD EISOES WEDI'U CYTUNO GYDA'R GWASANAETHAU PERTHNASOL

1. CYFLWYNIAD

- 1.1 Mae'r adroddiad yma yn crynhoi gwaith Archwilio Mewnol am y cyfnod o 19 Tachwedd 2018 hyd 1 Chwefror 2019.

2. GWAITH A GWBLHAWYD YN Y CYFNOD

- 2.1 Cwblhawyd y gwaith canlynol yn y cyfnod hyd at 1 Chwefror 2019:

Disgrifiad	Nifer
Adroddiadau am Archwiliadau o'r Cynllun Gweithredol	12
Adroddiadau Grant	1

Ceir manylion pellach ar y gwaith yma yng nghorff yr adroddiad hwn ac yn yr atodiadau amgaeedig.

2.2 Adroddiadau Archwilio

2.2.1 Mae'r tabl canlynol yn gosod allan yr archwiliadau o'r cynllun a gwblhawyd yn y cyfnod hyd at 1 Chwefror 2019, gan ddangos y lefel sicrwydd perthnasol a chyfeiriad i'r atodiad perthnasol.

TEITL	ADRAN	GWASANAETH	LEFEL SICRWYDD	ATODIAD
Trefniadau Diogelu – Sefydliadau	Corfforaethol	-	Cyfyngedig	Atodiad 1
Rheoli Gwybodaeth - Sefydliadau	Corfforaethol	-	Digonol	Atodiad 2
Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol	Corfforaethol	-	Cyfyngedig	Atodiad 3
Cronfa'r Degwm	Corfforaethol	-	Cyfyngedig	Atodiad 4
Prosiect TRAC	Addysg	Ar draws yr adran	Uchel	Atodiad 5
Biliau Cylchol	Amgylchedd	Tir ac Eiddo'r Cyngor	D/B	Atodiad 6
Trafnidiaeth Cyhoeddus	Amgylchedd	Trafnidiaeth a Gofal Stryd	Digonol	Atodiad 7
Systemau – Rheolaeth "Patch"	Cyllid	Ar draws yr adran	Uchel	Atodiad 8
Cyfrifon Amgueddfa Lloyd George	Economi a Chymuned	Archifau, Amgueddfeydd a Chelfyddydau	Uchel	Atodiad 9
Cynllun Troi Tai'n Gartrefi	Oedolion, Iechyd a Llesiant	Tai Sector Breifat	Uchel	Atodiad 10
Grant Dechrau'n Deg – Gofal Plant	Plant a Chefnogi Teuluoedd	Plant a Theuluoedd	Uchel	Atodiad 11
Tanciau Disel a Rheoli Disel	Priffyrdd a Bwrdeistrefol	Fflyd	Cyfyngedig	Atodiad 12

2.2.2 Mae lefelau sicrwydd cyffredinol archwiliadau yn syrthio i un o bedwar categori fel y dengys y tabl isod.

LEFEL SICRWYDD	UCHEL	Gellir datgan sicrwydd o briodoldeb gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle i gyflawni amcanion.
	DIGONOL	Mae rheolaethau mewn lle i gyflawni amcanion ond bod agweddau lle gellir tynhau ar y trefniadau i liniaru'r risgiau ymhellach.
	CYFYNGEDIG	Er bod rheolaethau mewn lle, mae angen gwella cydymffurfiaeth â'r rheolaethau a/neu gyflwyno rheolaethau newydd i leihau'r risgiau mae'r gwasanaeth yn agored iddynt.
	DIM SICRWYDD	Ystyrir bod y rheolaethau mewn lle yn annigonol gyda methiant i gyflawni amcanion.

2.3 Archwiliad Grant Ôl-16

2.3.1 Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol ddarparu 'tystiolaeth o wariant priodol' o'r dyraniadau ar gyfer chweched dosbarth ac addysg barhaus i oedolion. Mae canllawiau 'Archwilio Awdurdodau Lleol ar gyfer Ariannu Llywodraeth Cynulliad Cymru' yn nodi y bydd yr Awdurdod Lleol yn darparu'r wybodaeth ganlynol yn flynyddol i Lywodraeth Cymru:

- a) rhestr o bob adroddiad archwilio mewnol sydd wedi'u cwblhau yn ystod y flwyddyn honno sy'n cynnwys unrhyw ddysgu mewn ysgol neu yn y gymuned lle y mae grantiau Llywodraeth Cymru yn gyfrifol am y costau yn gyfan-gwbl neu'n rhannol;
- b) ar gyfer yr adroddiadau hynny, mae angen y farn archwilio gyffredinol yn ogystal ag unrhyw wendidau sylweddol a nodir yn ogystal â'r cynllun gweithredu / sylwadau rheoli i fynd i'r afael â'r gwendidau hynny;
- c) copi o adroddiad blynyddol y Pennaeth Archwilio Mewnol (neu gyfwerth);
- d) copi o lythyr rheoli yr archwiliad allanol sy'n gysylltiedig â'r flwyddyn ariannol benodol wedi iddo gael ei gyflwyno i'r Cyngor.

2.3.2 Cyflwynwyd y wybodaeth uchod ynghyd â'r rhestrau gwirio cysylltiedig at Lywodraeth Cymru o fewn y terfyn amser sef 31 Ionawr 2019.

3. GWAITH DILYNIANT

3.1 Mae trefniadau newydd wedi eu sefydlu ar gyfer archwiliadau dilyniant. Yn 2017/18, daethpwyd i gytundeb ar 163 o gamau gweithredu i'w cyflawni erbyn 31 Mawrth 2019. Yn dilyn cais am wybodaeth a thystiolaeth gan yr Unedau/Gwasanaethau perthnasol ar gynnydd gweithrediadau, dengys ar 1 Chwefror 2019 bod gweithrediad derbyniol ar **71.17%** o'r camau cytunedig, h.y. 116 allan o 163.

4. GWAITH AR Y GWEILL

4.1 Roedd y gwaith canlynol ar y gweill ar 1 Chwefror 2019:

- Cefnogi Adolygiadau Ffordd Gwynedd (*Corfforaethol*)
- Gwaith Atal Twyll ac Atal Llygredigaeth Rhagweithiol (*Cofforaethol*)
- Trefniadau Rheoli Risg o Dwyll a Llygredigaeth (*Corfforaethol*)
- Y Fenter Twyll Cenedlaethol (*Corfforaethol*)
- Ymwybyddiaeth o Bolisi Canu'r Gloch – Cynradd ac Uwchradd (*Addysg*)
- Statws Cyflogaeth IR35 (*Addysg*)
- GwE – Statws Cyflogaeth IR35 (*GwE*)
- Prynu Cyfarpar drwy'r Ysgol (*Addysg*)
- Ysgolion – Cyffredinol (*Addysg*)
- Difa Pla (*Amgylchedd*)
- Trefniadau Trwyddedu (*Amgylchedd*)
- Cynnal a Chadw Eiddo (*Amgylchedd*)
- Cyfraniadau gan Gyflogwyr (*Cyllid*)
- Budd-daliadau – Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol (*Cyllid*)
- Gwaredu Cyfarpar TG (*Cyllid*)
- Diogelwch Seiber (*Cyllid*)
- Trefniadau Adfer Trychineb TG (*Cyllid*)
- Statws Cyflogaeth IR35 (*Economi a Chymuned*)
- Menter Adfywio Glannau a Chanol Tref Caernarfon – Trefniadau Llywodraethu (*Economi a Chymuned*)
- Trefniadau ar Alwad a Brys (*Oedolion, Iechyd a Llesiant*)
- Adroddiad Blynyddol Gwasanaethau Cymdeithasol (*Oedolion, Iechyd a Llesiant*)
- Plant – Lleoliadau All-Sirol (*Plant a Chefnogi Teuluoedd*)
- Cynlluniau Gofal a Chymorth (Plant) o dan Rhan 4 DGC (Cymru) 2014 (*Plant a Theuluoedd*)
- Rheoli Llifogydd (*Ymgynghoriaeth Gwynedd*)

5. ARGYMHELLIAD

5.1 Gofynnir i'r Pwyllgor dderbyn yr adroddiad hwn ar waith Archwilio Mewnol am y cyfnod o 19 Tachwedd 2018 hyd at 1 Chwefror 2019, sylwebu ar y cynnwys yn ôl dymuniad yr aelodau, a chefnogi'r gweithrediadau cytunedig sydd eisoes wedi'u cyflwyno i reolwyr y gwasanaethau perthnasol.

**TREFNIADAU DIOGELU - SEFYDLIADAU
CORFFORAETHOL**

1. Cefndir

- 1.1 Un o brif flaenoriaethau Cyngor Gwynedd yw sicrhau bod trefniadau a gweithdrefnau cadarn yn eu lle er mwyn sicrhau bod trigolion yn cael eu hamddiffyn rhag camdriniaeth, esgeulustod, radicaleiddio, caethwasiaeth, trais yn y cartref ac ecploetiaeth. Mae cyfrifoldeb ar bob aelod o staff i adrodd ar bryder neu amheuaeth fod unigolion yn cael eu cam-drin.
- 1.2 Mae nifer o bosteri ynghyd â phamffledi a chardiau cyswllt wedi eu cynhyrchu er mwyn codi ymwybyddiaeth staff o faterion a threfniadau diogelu. Yn ogystal, mae modiwlau e-ddysgu ar gael i weithwyr sydd â mynediad at gyfrifiadur a thrwy hunanwasanaeth ar gyfer gweithwyr maes.

2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

- 2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau fod sefydliadau tu allan i brif swyddfeydd y Cyngor yn ymwybodol o'u cyfrifoldeb i gyfeirio pryderon am ddiogelu plant ac oedolion yn briodol.
- 2.2 Roedd yr archwiliad yn cwmpasu cynnal trafodaethau gyda Rheolwyr ac arsylwi bod poster Diogelu yn cael ei arddangos mewn sefydliadau y tu allan i'r prif swyddfeydd. Roedd hyn yn cynnwys cartrefi preswyl, canolfannau hamdden, traethau ac harbyrau Cyngor Gwynedd bu i Archwilio Mewnol ymweld â hwy fel rhan o gynllun blynyddol Archwilio Mewnol 2018-19.

3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad

- 3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

Lefel Sicrwydd	Disgrifiad
CYFYNGEDIG	Er bod rheolaethau mewn lle, mae angen gwella cydymffurfiaeth â'r rheolaethau a/neu gyflwyno rheolaethau newydd i leihau'r risgiau mae'r gwasanaeth yn agored iddynt.

4. Sgôr Risg Cyfredol

- 4.1 Mae risgiau'r archwiliad fel a ganlyn:

<u>Lefel Risg</u>	<u>Nifer</u>
UCHEL IAWN	0
UCHEL	1
CANOLIG	0
ISEL	0

5. Prif Ddarganfyddiadau

5.1 Gwelwyd yn gyffredinol bod ymwybyddiaeth o faterion diogelu, ond bod lle i wella ar godi ymwybyddiaeth ymhellach. Fel rhan o gynllun archwilio 2018-19 archwiliwyd sampl o ganolfannau hamdden y Cyngor, cartrefi preswyl, traethau ac harbyrau. O fewn y rhaglen archwilio, fe archwiliwyd trefniadau diogelu megis polisiâu diogelu, hyfforddiant a dadleniadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (GDG/DBS). Gweler isod grynoded o'r darganfyddiadau.

5.2 Canolfannau Hamdden

5.2.1 Roedd pob canolfan yn dilyn polisi corfforaethol y Cyngor. Mae diogelu yn cael ei gynnwys fel rhan o anwythiad pob aelod o staff newydd, a cynhelir hyfforddiant dros gyfnod y Nadolig tra mae'r canolfannau ar gau i'r cyhoedd. Nid oedd gan ddwy o'r canolfannau bosteri diogelu corfforaethol ond fe drefnwyd bod posteri yn cael eu hanfon iddynt yn dilyn yr ymweliadau.

5.2.2 Gwiriwyd cofnodion hyfforddiant modiwlau e-ddysgu ar gyfer staff y canolfannau. Ar gyfer un o'r canolfannau roedd 9 aelod o staff o sampl o 10 wedi cwblhau'r modiwlau 'Diogelu Oedolion', 'Amddiffyn a Diogelu Plant' a 'Cam-drin Domestig' yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf. Nifer fechan o'r canolfannau eraill oedd wedi cwblhau'r modiwlau. Eglurodd un Rheolwr ar Ddyletswydd bod yr hyfforddiant yma yn mynd rhagddo a bod bwriad i gael y gweithwyr i gwblhau'r hyfforddiant yn yr wythnosau nesaf.

5.2.3 Detholwyd sampl o swyddogion o'r pedair canolfan a gwelwyd bod gan bob un ohonynt ddadleniadau GDG cyfredol oni bai am ddau ohonynt oedd yn y broses o'u hadnewyddu. Yn ogystal, roedd pob canolfan yn arddangos posteri yn hysbysu unigolion i beidio tynnu lluniau cyhoeddus, gan fod rhaid cwblhau ffurflen bwrsapol os am wneud hyn. Mae staff y canolfannau hamdden yn ymwybodol o'r trefniadau a'r camau i'w cymryd petai achos o'r fath yn digwydd.

5.3 Cartrefi Preswyl

5.3.1 Roedd pob cartref yn dilyn polisi corfforaethol y Cyngor. Gwelwyd mai polisi dyddiedig Gorffennaf 2013 oedd mewn un Cartref, er bod y polisi eisoes wedi cael ei adolygu ym mis Medi 2017. Mae'r Rheolwraig wedi sicrhau bod polisi cyfredol nawr ar gael i'r gweithwyr. Roedd posteri diogelu i'w gweld ym mhob cartref.

5.3.2 Nid oedd pob aelod o staff wedi derbyn hyfforddiant diogelu oedolion bregus, a darganfuwyd achosion ble roedd angen ei adnewyddu. Dylai'r gweithwyr dderbyn hyfforddiant ystafell ddosbarth ar gyfer diogelu pob 3 mlynedd. Roedd hyfforddiant amryw o staff yn dyddio yn ôl mwy na'r cyfnod 3 blynedd gyda rhai yn dyddio yn ôl i 2010. Yn yr achos yma roedd y Rheolwraig yn ymwybodol o'r sefyllfa a gwelwyd ei bod wedi trefnu hyfforddiant diogelu i 13 aelod o staff yn ystod y flwyddyn i ddod.

5.3.3 Gwiriwyd cofnodion hyfforddi e-ddysgu gan gynnwys modiwlau 'Cam-drin Domestig', 'Diogelu Oedolion' ac 'Amddiffyn a Diogelu Plant', nifer fechan o swyddogion y cartrefi oedd wedi cwblhau'r modiwlau yma ar adeg yr archwiliadau. Roedd y Rheolwyr yn ymwybodol o'r angen i gwblhau'r modiwlau yma, nododd un ohonynt y trafferthion maent wedi gael i sicrhau mynediad i bob aelod o staff a hefyd yr angen i sicrhau cyflenwad o staff ar ddyletswydd tra mae eraill yn cwblhau'r modiwlau. Nid yw'n angenrheidiol i staff gwblhau'r modiwlau diogelu gan eu bod eisoes yn derbyn hyfforddiant wyneb yn wyneb ond o ran y modiwl 'Cam-drin Domestig' mae'n angenrheidiol i bob aelod o staff y Cyngor i gwblhau'r modiwl.

5.3.4 Detholwyd sampl o swyddogion o'r pedwar cartref a gwelwyd bod gan bob un ohonynt ddadleniad GDG cyfredol.

5.4 Traethau ac Harbyrau

- 5.4.1 Roedd poster diogelu yn weledol mewn un o'r Porthladdoedd ac un o'r traethau a ymwelwyd â hwy yn unig. Holwyd y gweithwyr maes ar y traethau, y rhan helaeth yn rhai tymhorol, am negeseuon a chyfleoedd hyfforddiant corfforaethol megis 'Cam-drin Domestig' a diogelu ond mynegwyd nad oeddynt yn ymwybodol am e-ddysgu a'r angen statudol i gwblhau hyfforddiant 'Cam-drin Domestig' arno.

6. Camau Gweithredu

Mae'r Panel Gweithredol Diogelu wedi ymrwymo i weithredu'r camau canlynol i liniaru'r risgiau a amlygwyd:

- **Parhau i godi ymwybyddiaeth gweithwyr y Cyngor o drefniadau diogelu corfforaethol a'r angen i gwblhau hyfforddiant.**

RHEOLI GWYBODAETH - SEFYDLIADAU CORFFORAETHOL

1. Cefndir

- 1.1 Mae'r Cyngor yn gwneud cryn ddefnydd o wybodaeth bersonol yn ei holl feysydd gwaith. Fel rhan o'i gyflogaeth gyda Chyngor Gwynedd mae disgwyl i bob aelod o staff fod yn gyfarwydd â'i gyfrifoldebau Diogelu Data ac ymdrin â gwybodaeth bersonol mewn modd sy'n cydymffurfio â'r Ddeddf Diogelu Data a'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (RhDDC, neu 'GDPR').
- 1.2 Daeth y RhDDC a Deddf Diogelu Data 2018 i rym ar y 25 o Fai 2018. Golyga hyn y bydd yn rhaid i sefydliadau gydymffurfio â'r RhDDC ynghyd â'r Ddeddf Diogelu Data newydd.
- 1.3 Mae'r newidiadau yn golygu bod angen esbonio yn llawer mwy eglur i'r cyhoedd a staff sut mae eu gwybodaeth bersonol yn cael ei ddefnyddio. Bydd gan unigolion lawer mwy o hawliau a bydd angen prawf pendant o ganiatâd i ddefnyddio gwybodaeth. Bydd rhaid adrodd yn genedlaethol os yw gwybodaeth yn mynd ar goll neu i'r lle anghywir a bydd angen gwybod pa wybodaeth bersonol sydd gennych, lle mae'n cael ei storio, efo pwy mae'n cael ei rannu a pha mor hir bydd yn cael ei gadw.
- 1.4 Fe gynhaliwyd Archwiliad ar drefniadau'r Cyngor wedi i Reoliad Diogelu Data Cyffredinol ddod i rym. Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau fod trefniadau addas mewn lle er mwyn dechrau cydymffurfio â'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol. Mae'r canlyniadau i weld o fewn adroddiad Archwilio Mewnol 'Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol' dyddiedig Rhagfyr 2018.

2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

- 2.1 Bwriad yr Archwiliad oedd sicrhau fod gwybodaeth a gedwir gan y Cyngor yn cael ei gadw yn ddiogel ac mewn cydymffurfiaeth ag egwyddorion y RhDDC a'r Ddeddf newydd. Roedd yr archwiliad yn cwmpasu arsylwi ar drefniadau diogelu gwybodaeth wrth ymweld â sefydliadau'r Cyngor sydd y tu allan i'r prif adeiladau. Roedd hyn yn cynnwys Canolfannau Hamdden, Cartrefi Preswyl a Harbwr y bu i Archwilio Mewnol ymweld â nhw fel rhan o gynllun blynyddol Archwilio Mewnol eleni.

3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad

- 3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

Lefel Sicrwydd	Disgrifiad
DIGONOL	Mae rheolaethau mewn lle i gyflawni amcanion ond bod agweddau lle gellir tynhau ar y trefniadau i liniaru'r risgiau ymhellach.

4. Sgôr Risg Cyfredol

4.1 Mae risgiau'r archwiliad fel a ganlyn:

Lefel Risg	Nifer
UCHEL IAWN	0
UCHEL	0
CANOLIG	1
ISEL	0

5. Prif Ddarganfyddiadau

5.1 Gwelwyd yn gyffredinol bod ymwybyddiaeth am faterion rheoli gwybodaeth ag egwyddorion diogelu data, ond fod lle i wellau ar godi ymwybyddiaeth ymhellach. Gweler isod grynodedb o'r darganfyddiadau yn y sefydliadau ymwelwyd ag yn ystod 2018-19.

5.2 Canolfannau Hamdden

5.2.1 Roedd yn ymddangos bod dealltwriaeth dda o ddiogelwch gwybodaeth yn y sampl o ganolfannau hamdden ymwelwyd â hwy yn ystod y flwyddyn 2018-19, ond dim ond dau o'r sampl oedd yn ymwybodol o'r tîm Rheoli Gwybodaeth a'r gefnogaeth maent yn gynnig.

5.2.2 Mae elfennau o ddiogelwch gwybodaeth yn cael ei gynnwys yn anwythiad staff y canolfannau e.e. sut i ymdrin â phecyn debyd uniongyrchol a pheidio rhannu rhifau ffôn dros y ffôn. Mae staff newydd yn derbyn copi o'r canllawiau'r System Rheoli Integredig (Intergrated Management System - IMS) i'w darllen. Yn ogystal, mae modiwl e-ddysgu RhDDC ar gael iddynt gwblhau.

5.2.3 Holwyd ynglŷn â chyfnodau cadw a nodwyd eu bod yn ymwybodol ohonynt. Gwelwyd bod y Swyddog Cefnogi Busnes a Systemau wedi cofnodi dyddiadau gwaredu ar focsys mewn un canolfan. Roedd pob canolfan yn defnyddio peirannau llarpio ar gyfer gwaredu gwybodaeth gyfrinachol gydag un ohonynt hefyd yn gwneud defnydd o'r sachau coch. Roeddynt yn ymwybodol o'r angen i gadw gwybodaeth gyfrinachol dan glo e.e. cedwir copi'r ganolfan o'r ffurflen debyd uniongyrchol dan glo.

5.2.4 Holwyd ynglŷn os oes cyfarwyddyd yn cael ei roi i staff i beidio â thrafod materion tu allan i'r gwaith a nodwyd bod staff yn cael eu hannog i beidio. Gwelwyd bod sgriniau cyfrifiaduron wedi eu cloi pan nad oeddynt yn cael eu defnyddio ar ddiwrnodau'r ymweliadau ac ni welwyd cyfrineiriau ar sgriniau yn ystod yr ymweliadau.

5.2.5 Roedd pob canolfan yn arddangos posteri yn hysbysu unigolion i beidio tynnu lluniau cyhoeddus, gan fod rhaid cwblhau ffurflen bwrrpasol os am wneud hyn. Mae staff y canolfannau hamdden yn ymwybodol o'r trefniadau a'r camau i'w cymryd petai achos o'r fath yn digwydd.

5.2.6 Roedd teledu cylch cyfyng (TCC - CCTV) wedi ei osod ym mhob canolfan hamdden a gwelwyd bod arwyddion i hysbysu'r cyhoedd ohonynt. Mae swyddogion penodol yn gyfrifol am reoli'r system a defnyddir cyfrineiriau i gael mynediad at y feddalwedd. Mae gwirio bod y TCC yn gweithio yn rhan o wiriadau dyddiol un o'r Rheolwyr ar Ddyletswydd. Mae cyfnodau cadw'r data yn amrywio o un ganolfan i'r llall o bythefnos i fis, unwaith mae'r cyfnod yma yn dod i ben, caiff y data ei ddileu. Mae modd gwneud copïau wrthgefn petai cais yn cael ei wneud drwy'r gwblhau'r ffurflen briodol.

5.3 Cartrefi Preswyl

5.3.1 Un allan o'r ddau Gartref Preswyl ymholwyd oedd yn ymwybodol o'r tîm Rheoli Gwybodaeth, serch hyn roedd ganddynt ddealltwriaeth dda o'r rheolau. Roeddynt yn cadw polisi desg glir, yn ymwybodol o'r cyfnodau cadw ac yn gwneud defnydd o llarpiwyr a sachau coch.

5.3.2 Mae staff wedi cwblhau ffurflen cyfrinachedd fel rhan o'r pecyn cais ac felly yn ymwybodol o'r angen i beidio â thrafod materion tu allan i'r gwaith. Mae ganddynt drefniadau ar gyfer gwirio pwy sydd ar ben y ffôn ac nid ydynt yn rhannu gwybodaeth gyfrinachol dros y ffôn.

5.4 Harbwr Porthmadog

5.4.1 Roedd swyddogion yr harbwr yn ymwybodol o'r tîm Rheoli Gwybodaeth. Ni welwyd cyfrineiriau ar y sgriniau ac roeddynt yn cael eu cloi pan nad oeddynt mewn defnydd. Nid oedd ganddynt ffeiliau papur i'w cadw dan glo gan eu bod yn cadw popeth ar iGwynedd, er hyn, roedd ganddynt larpiwr yn y swyddfa petai angen gwaredu gwybodaeth gyfrinachol. Roeddynt yn ymwybodol o'r risg o eraill yn clywed gwybodaeth bersonol dros y ffôn ac roedd ganddynt drefn o beidio ffonio tra bod cwsmeriaid yno. Yn ogystal, mae swyddfa gefn ar gael petai angen trafod materion cyfrinachol.

5.4.2 Roedd teledu cylch cyfyng (TCC - CCTV) wedi ei osod yn yr harbwr ac roedd arwydd i hysbysu'r cyhoedd ei fod wedi ei osod ar yr adeilad. Mae holl weithwyr yr harbwr yn ymwybodol o sut i ddefnyddio'r system TCC ond petai ymholiad gan yr Heddlu, yr Harbwrfeistr yn unig fuasai'n delio â hwy. Yn yr achosion yma mae angen cwblhau ffurflen diogelu data.

6. Camau Gweithredu

Mae'r Rheolwr Ymchwil a Gwybodaeth wedi ymrwymo i weithredu'r camau canlynol i liniaru'r risgiau a amlygwyd:

- **Parhau i godi ymwybyddiaeth gweithwyr y Cyngor o drefniadau rheoli gwybodaeth gan gynnwys Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol.**

RHEOLIAD DIOGELU DATA CYFFREDINOL CORFFORAETHOL

1. Cefndir

- 1.1 Daeth y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (RhDDC) i rym ar 25 Mai 2018. Mae'r rheoliad yn cael effaith uniongyrchol ar bob un o aelod-wladwriaethau'r UE. Yn ogystal, â'r RhDDC, mae deddf diogelu data newydd, sef Deddf Diogelu Data 2018, wedi dod yn weithredol i'r DU. Cadarnhaodd y llywodraeth bydd y DU yn dilyn rhan helaeth o reoliadau'r UE pan fydd y DU yn gadael yr UE. Golyga hyn y bydd yn rhaid i sefydliadau gydymffurfio â'r RhDDC ynghyd â'r Ddeddf Diogelu Data newydd.
- 1.2 Mae gan y Cyngor rwymedigaeth gyfreithiol i ofalu bod y data personol a gesglir yn cael ei ymdrin mewn cydymffurfiaeth â'r RhDDC a'r Ddeddf Diogelu Data newydd yn ogystal â'r gallu i ddangos ei fod yn cydymffurfio. Mae diffyg cydymffurfiaid yn rhoi'r Cyngor mewn risg o dderbyn dirwy gan y Comisiynydd Gwybodaeth, i fyny hyd at 20 miliwn Euro am fethiant i warchod data personol ac o bosib, achos cyfreithiol a niwed difrifol i enw'r Cyngor. Yn ogystal, o dan y RhDDC mae sgôp y gweithgareddau y gall y Cyngor dderbyn dirwy amdanynt wedi eu ehangu.
- 1.3 Yn ôl gwybodaeth a dderbyniwyd gan y Rheolwr Gwybodaeth a mynychu cynadleddau RhDDC, nid oedd y Comisiynydd Gwybodaeth yn rhagweld y byddai unrhyw gyngor yn cydymffurfio'n llawn pan ddaeth y RhDDC ddod i rym (25 Mai 2018). Fodd bynnag, mae'n hanfodol bod y Cyngor yn gallu arddangos i'r Comisiynydd Gwybodaeth bod camau rhesymol wedi cael eu cymryd tuag at gydymffurfiaeth er mwyn sicrhau y bydd tebygolrwydd isel bod y Cyngor yn derbyn dirwy.

2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

- 2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau fod trefniadau addas mewn lle er mwyn dechrau cydymffurfio â'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol. Er mwyn cyflawni hyn, roedd yr archwiliad yn cwmpasu sicrhau bod cynllun gweithredu wedi cael ei sefydlu ar gyfer gweithredu ar y newidiadau ar draws y Cyngor. Roedd hefyd yn derbyn tystiolaeth i sicrhau bod trefniadau priodol mewn lle ar gyfer casglu gwybodaeth i'w archwilio petai'r Comisiynydd Gwybodaeth yn cynnal archwiliad ar y Cyngor. Mae'r isod yn weithgareddau allweddol ble disgwyliwyd i'r Cyngor eu gweithredu a ble roedd yr archwiliad yn darparu ar eu sicrwydd.
 - Adnabod ble mae gwybodaeth bersonol wedi cael ei gadw, o fewn y Cyngor a'r hyn sydd yn cael ei rannu gyda phartneriaid/contractwyr eraill, yn ogystal ag adnabod rheolaethau ar gyfer sicrhau cydymffurfiaid.
 - Sicrhau bod trefniadau llywodraethu priodol mewn lle h.y. bod Swyddog Diogelu Data yn gyfrifol am wybodaeth ac yn cyfathrebu /adrodd i'r Cabinet.
 - Adolygu a/neu weithredu ar drefniadau tryloywder ar gyfer rhyddhau a chyflwyno gwybodaeth i'r cyhoedd a sicrhau eu bod yn briodol o dan y rheoliad newydd.

3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad

3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

Lefel Sicrwydd	Disgrifiad
CYFYNGEDIG	Er bod rheolaethau mewn lle, mae angen gwella cydymffurfiaeth â'r rheolaethau a/neu gyflwyno rheolaethau newydd i leihau'r risgiau mae'r gwasanaeth yn agored iddynt*.

**Noder bod y lefel sicrwydd yn adlewyrchiad o'r sefyllfa gorfforaethol bresennol, h.y. yn seiliedig ar swmp y gwaith mae'r adrannau angen eu cwblhau i sicrhau cydymffurfiaid llawn. Nid yw'n adlewyrchiad ar y cynnydd mae rhai adrannau wedi ei wneud ers pan ddaeth y rheoliad i rym.*

4. Sgôr Risg Cyfredol

4.1 Mae risgiau'r archwiliad fel a ganlyn:

<u>Lefel Risg</u>	<u>Nifer</u>
UCHEL IAWN	0
UCHEL	2
CANOLIG	5
ISEL	0

5. Prif Ddarganfyddiadau

5.1 Rhoddir lefel sicrwydd "Cyfyngedig" i'r adroddiad oherwydd ym marn yr Archwiliwr mae'r Cyngor yn agored i risgiau megis effaith ar enw da, colled ariannol ac o bosib achosion cyfreithiol yn digwydd o ganlyniad i ddigwyddiadau megis data personol yn cael ei rhyddhau ar gam a/neu fod y Cyngor yn derbyn dirwy oherwydd diffyg cydymffurfiaeth. Fodd bynnag, mae'r gwasanaeth o'r farn bod yr effaith yn is na sylweddol iawn. Ar hyn o bryd nid oes unrhyw brawf ar sut y bydd y Comisiynydd Gwybodaeth yn dirwyo o dan y drefn newydd - credir bod y ffactor anrhagweledig yma yn golygu ansicrwydd ac yn uchafu'r risg.

5.1.1 Darganfuwyd bod y sylfaen cynllunio a dosbarthu gwybodaeth ar y rheoliad diogelu data cyffredinol wedi cael ei sefydlu gan y Cyngor. Mae Swyddog Diogelu Data wedi cael ei phenodi a chynllun gweithredu corfforaethol a rhaglen waith i'r adrannau yn bodoli. Gwelwyd hefyd bod hyfforddiant codi ymwybyddiaeth staff wedi'i redeg ac mae'r gwasanaeth wedi dosbarthu'r holl wybodaeth/canllawiau yn ogystal â'r polisi diogelu data cyfredol i staff. Er hynny, ymddengys bod llawer o weithgareddau ar y gweill a heb eu gweithredu o fewn yr amserlen a osodwyd gydag ond un gweithgaredd o fewn y targed wedi'i osod hyd at fis Rhagfyr 2018.

5.1.2 Gwelwyd bod y Polisi Diogelu Data wedi cael ei diweddarau ac wedi'i gyflwyno ar y Ganolfan Bolisi ynghyd ag e-byst wedi mynd allan i'r holl staff yn eu hysbysu o'r newidiadau. Fodd bynnag, nid oes trefniadau cadarn mewn lle i sicrhau bod pob aelod o staff y Cyngor yn darllen a deall y polisi diogelu data, yn ogystal â gallu gweithredu ar y newidiadau sydd yn cwmpasu'r ddeddf a'r rheoliad newydd.

5.1.3 Ymddengys nad yw'r gofrestr asedau wedi cael ei gwblhau'n gyflawn. Gwelwyd bod diffyg mewn gwasanaethau i adnabod os oedd cytundebau data personol eu hangen

neu adnabod y sail gyfreithiol o'u gweithgareddau prosesu data. Yn dilyn ein hymholiadau, ymddengys bod nifer o staff yn ansicr o'r gofynion, yn cynnwys os yw'n dibynnu ar ganiatâd fel sail gyfreithiol i brosesu data (a chaniatâd gan blant), ac os yw cytundebau angen cael eu sefydlu a/neu adolygu.

- 5.1.4 Adnabuwyd bod canllawiau ar gyfer gweithredu ar yr Asesiad Effaith Diogelu Data (AEDD) yn cynnwys Cwestiynau Sgrinio a thempled AEDD wedi cael eu sefydlu. Fodd bynnag, ni welwyd rheolaethau i sicrhau y gellir adnabod y prosiect a'u bod wedi cwblhau'r cwestiynau sgrinio, yn ogystal â'r ffurflen AEDD.
- 5.1.5 Adroddodd y Swyddog Diogelu Data Corfforaethol bod diffyg adnoddau ar hyn o bryd i allu cynnal archwiliadau sicrhau cydymffurfiad fel rhan o'i swydd a bod diffyg adnodd o fewn y tîm i gynnal archwiliadau yn risg i'r Cyngor.
- 5.1.6 Adnabuwyd gwasanaethau oedd wedi cynnal adolygiadau o'u hysbysiadau preifatrwydd. Allan o'r sampl o wasanaethau a ymholwyd, gwelwyd bod rhai wedi'u cwblhau ond bod y mwyafrif ar y gweill.
- 5.1.7 Ni chafwyd cadarnhad bod unrhyw waith proffilio a gwaith cynnal penderfyniadau awtomatig yn cael eu cynnal o fewn cydymffurfiaeth RhDDC.

6. Camau Gweithredu

Mae'r Gwasanaeth wedi ymrwymo i weithredu'r camau canlynol i liniaru'r risgiau a amlygwyd:

- **Ystyried yr opsiynau ar gyfer sut i sicrhau bod pob aelod o staff yn cwblhau hyfforddiant statudol ynghyd â pholisïau'r Cyngor.**
- **Adolygu'r dyddiadau ar y rhaglen weithredu a sicrhau bod diweddariad i'r gofrestr asedau yn cael ei gwblhau o fewn y dyddiad targed, yn dilyn unrhyw gyfarwyddiadau pellach gan y Swyddog Diogelu Data.**
- **Sicrhau bod colofn fonitro ar y gofrestr asedau fel y gall y Swyddog Diogelu Data fonitro cynnydd. Sicrhau bod eitem sefydlog ar fonitro ar raglen y Grŵp Rheoli Gwybodaeth.**
- **Creu cyswllt gyda'r Swyddog Cydraddoldeb i gytuno ar ffordd o gael gwybod am brosiectau lle mae angen ystyried os byddai angen cynnal AEDD.**
- **Hysbysu'r Rheolwr Adrannau o'r angen i weithredu ar y cwestiynau sgrinio AEDD ar gyfer prosiectau newydd a'i ddogfennu. Cynnwys cyfeiriad ar yr angen i gynnal AEDD mewn hyfforddiant i reolwyr ar y drefn prosiectau.**
- **Darparu cefnogaeth i adrannau sydd gyda llawer o gytundebau mewn lle. Aelodau'r Grŵp Rheoli Gwybodaeth i adnabod unrhyw gontract cyfredol i sicrhau cydymffurfiaeth ar ddeddfwriaeth newydd. Y Tîm Caffael a'r Timau Categori wrth gefn i ddarparu cefnogaeth ac arweiniad gydag unrhyw addasiadau fel sydd angen.**
- **Sicrhau bod rhaglen waith yr adrannau yn cael ei monitro fel bod cynnydd ar weithrediad ar yr hysbysiadau preifatrwydd ac unrhyw weithgareddau eraill ar y rhaglen yn mynd yn eu blaen.**
- **Codi mater adnabod gwaith proffilio a chynnal gwaith awtomeiddio penderfyniadau ar agenda Grŵp Rheoli Gwybodaeth iddynt adnabod os yw'n berthnasol o fewn eu timau rheoli adrannol ac i ychwanegu'r wybodaeth ar y gofrestr asedau.**

Atodiad 4

CRONFA'R DEGWM

CORFFORAETHOL

1. Cefndir

- 1.1 Pwrpas Cronfa'r Degwm yw hyrwyddo a chefnogi gweithgareddau gan elusennau cofrestredig. Mae modd i sefydliadau megis eisteddfodau lleol, gweithgareddau celfyddydol, mudiadau addysg, hamdden a chwaraeon, cadwriaethol ac elusennau sy'n cefnogi pobl wael neu bobl anabl ymgeisio am grant o'r gronfa.
- 1.2 Ar hyn o bryd mae'r Gronfa yn cwmpasu Gwynedd, Conwy a Môn, ble Gwynedd yw'r Awdurdod arweiniol. Mae bwriad datgymalu'r Gronfa rhwng yr awdurdodau ond mae oediad sylweddol yn hyn yn deillio o anghydfod traws-ffiniol hirdymor ynglŷn â darn o dir, oedd yn cynnwys swyddogion eiddo a chyfreithwyr o'r 3 Cyngor, er ymddengys bod datrysiad diweddar wedi ei wneud. Mae gwerth arian mewn llaw'r gronfa yn £1.8 miliwn gyda 44% yn berchen i Wunedd, a chaiff y llog ei wario yn flynyddol ar sail grantiau i sefydliadau elusennol. Croesawir ceisiadau am grantiau hyd at £3,000 a lle rhoddir grant ni fydd y gronfa yn ystyried ceisiadau am gymorth gan yr un corff am yr un prosiect am gyfnod o 3 mlynedd o ddyddiad y cais blaenorol.

2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

- 2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau fod trefniadau dosbarthu grantiau o Gronfa'r Degwm i elusennau cofrestredig yng Ngwynedd yn briodol. Er mwyn cyflawni hyn, roedd yr archwiliad yn cwmpasu adolygu'r rheolaethau sydd ynghlwm â'r broses drwy wirio sampl o grantiau diweddar a'r ceisiadau er mwyn sicrhau bod y sefydliadau a'r prosiectau yn gymwys i'r grant ac yn ei ddefnyddio'n briodol.

3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad

- 3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

Lefel Sicrwydd	Disgrifiad
CYFYNGEDIG	Er bod rheolaethau mewn lle, mae angen gwella cydymffurfiaeth â'r rheolaethau a/neu gyflwyno rheolaethau newydd i leihau'r risgiau mae'r gwasanaeth yn agored iddynt.

4. Sgôr Risg Cyfredol

- 4.1 Mae risgiau'r archwiliad fel a ganlyn:

<u>Lefel Risg</u>	<u>Nifer</u>
UCHEL IAWN	0
UCHEL	1
CANOLIG	0
ISEL	0

5. Prif Ddarganfyddiadau

- 5.1 Er bod £1.8m o arian mewn llaw yn y Gronfa, roedd angen gwerthu'r buddsoddiadau

oedd yn arfer ennill llog priodol i'r Gronfa er mwyn cydymffurfio gyda rheolau ddaeth i rym mis Rhagfyr 2013. Ers hynny, mae'r arian wedi bod yn eistedd mewn cyfrif yn ennill llog isel iawn ac er bod ymrwymiad ac ymdrech i ail-fuddsoddi'r arian, nid yw hyn wedi digwydd oherwydd y bwriad i ddatgymalu'r gronfa i'r tri awdurdod. Yn anffodus, gan fod y grantiau a ddyrannir yn seiliedig ar y llog blynyddol, yna mae'r arian sydd ar gael i'w dyrannu wedi lleihau. Erbyn hyn, mae'r Gronfa wedi defnyddio ei danwariant hanesyddol ac ers Ebrill 2018, penderfynwyd peidio derbyn ceisiadau newydd gan nad oes digon o arian. Fodd bynnag, mae ymrwymadau i ddyrannu cyfraniadau i Eisteddfodau lleol yn parhau yn uwch na'r incwm llog disgwylidig, a disgwylir y bydd y Gronfa yn gorwario eleni. Mae awdurdodau Conwy a Môn eisoes wedi mynegi pryder dros lefelau incwm y Gronfa, ac o ganlyniad, eu cyllidebau ar gyfer dyrannu arian i'r mudiadau o fewn eu siroedd.

- 5.2 Disgwylir i'r Gronfa orwario oddeutu £3,000 yn 2018/19, yn seiliedig ar ymrwymiad i ddyrannu rhodd o £300 i 28 o Eisteddfodau lleol (cyfanswm o £8,400), wedi ei hariannu gan incwm llog disgwylidig o oddeutu £4,000 a defnydd o weddillion balans tanwariant y gronfa (£1,500). Fodd bynnag, yn dilyn datrysiad diweddar i'r anghydfod traws-ffiniol hirdymor ynglŷn â darn o dir, mae disgwyl erbyn dechrau 2019/20 y bydd cyfran Gwynedd o'r arian mewn llaw wedi ei fuddsoddi a bydd incwm llog sylweddol uwch yn cael ei dderbyn er mwyn ail-ddechrau dyrannu grantiau.
- 5.3 O'r sampl o brosiectau a wiriwyd, ymddengys bod pob un yn gymwys i dderbyn y grant. Nid oes angen i'r Eisteddfodau, sef derbynwyr grantiau eleni, gyflwyno gymaint o ddogfennau a'r elusennau, ond gwelwyd bod trefn ble derbynnir mantolen a rhaglen y dydd fel prawf bod yr Eisteddfod wedi cymryd lle. Ar gyfer y sampl o elusennau, er nad oedd y holl ddogfennau disgwylidig ar gael i'w gwirio yn ystod yr archwiliad, megis rhai cyfansoddiadau a datganiadau banc, gan ystyried natur y sefydliadau derbynnir y grantiau, y symiau, a'r nifer o grantiau dyrannwyd, yna ystyrir hwy yn risg isel.

6. Camau Gweithredu

Mae'r Adran Gyllid wedi ymrwymo i weithredu'r camau canlynol fydd yn lliniaru'r risgiau a nodwyd:

- **O ganlyniad i ddatrysiad diweddar gyda'r tiroedd a datgymalu'r gronfa, gellir symud ymlaen i weithredu'r cynlluniau o fuddsoddi arian y Gronfa er mwyn ennill cyfradd uwch o log ac felly uchafu y nifer o grantiau telir allan yn flynyddol.**

PROSIECT TRAC ADDYSG

1. Cefndir

- 1.1 Mae'r cynllun TRAC 11-24 yn brosiect a ariannir gan yr Undeb Ewropeaidd, sy'n derbyn cefnogaeth gan Echel Blaenoriaeth 3 Cronfa Gymdeithasol Ewrop: Cyflogaeth Ieuencid a Chyrhaeddiad ac yn cael ei arwain gan Gyngor Sir Ddinbych mewn partneriaeth â chynghorau sir gogledd Cymru, Grŵp Llandrillo Menai, Coleg Cambria a Gyrfa Cymru. Sefydli'r prosiect ar gyfer darparu sgiliau a'r gefnogaeth addas i ddisgyblion a phobl ifanc oed 11-24 sydd mewn perygl o beidio â bod mewn addysg, gwaith neu hyfforddiant yng Ngogledd Cymru.
- 1.2 Nod y cynllun yw adnabod disgyblion sy'n gymwys i'r prosiect yn gynnar a darparu cwricwlwm a chefnogaeth addas ar eu cyfer. Mae'r prosiect wedi cael ei gyflwyno gan dîm ar draws Gogledd Cymru ble defnyddir ymyraethau gwahanol i sicrhau bydd person ifanc sy'n cymryd rhan yn manteisio ar gefnogaeth lles ac iechyd, gellir gael mynediad at gwricwlwm amgen a fydd yn eu galluogi i gymryd cymwysterau achrededig a gysylltir â chyfleoedd y farchnad lafur lleol.
- 1.3 Hyd at Orffennaf 2018, roedd 465 o ddisgyblion wedi derbyn cymorth, 229 wedi cwblhau'r cynllun TRAC a 76% o'r disgyblion wedi mynd ymlaen i addysg bellach, gwaith neu brentisiaeth. Erbyn Gorffennaf 2022, amcangyfrifir y bydd 1,120 yn derbyn cymorth, 90% o ddisgyblion blwyddyn 11 yn mynd ymlaen i addysg bellach, gwaith neu brentisiaeth a hyd at 336 o'r disgyblion yn ennill cymhwyster Lefel 1 neu 2 (sy'n gyfystyr a TGAU lefel A* i E).

2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

- 2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau bod trefniadau addas mewn lle ar gyfer cwrdd â'r nod i leihau'r niferoedd o bobl ifanc sydd ddim mewn addysg, gwaith neu hyfforddiant. Er mwyn cyflawni hyn, roedd yr archwiliad yn cwmpasu gwirio sampl o ddisgyblion oedd wedi cael eu hadnabod yn gymwys i'r prosiect er mwyn sicrhau bod y gwaith adnabod disgyblion a phrosesu cynnig am gymorth wedi cael eu gweithredu'n briodol a bod trefniadau mesur perfformiad priodol mewn lle.

3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad

- 3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

Lefel Sicrwydd	Disgrifiad
UCHEL	Gellir datgan sicrwydd o briodoldeb gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle i gyflawni amcanion.

4. Prif Ddarganfyddiadau

- 4.1 Gwelwyd bod rheolaethau mewnol cryf yn bodoli ar gyfer darparu gwasanaeth drwy'r Prosiect TRAC a bod tîm TRAC Gwynedd yn dilyn canllawiau sydd wedi eu gosod gan yr Undeb Ewropeaidd a Chyngor Sir Ddinbych yn fanwl. Detholwyd ar hap sampl o 17 o ddisgyblion sydd yn bresennol yn derbyn cymorth drwy'r prosiect neu wedi elwa o'r prosiect yn flaenorol er mwyn sicrhau bod gweithrediadau'r prosiect wedi cael eu cynnal mewn modd priodol.
- 4.1.1 O'r sampl o ddisgyblion a wiriwyd, ymddengys bod pob un yn gymwys i dderbyn y gefnogaeth a gwelwyd tystiolaeth briodol ar gyfer pob ffeil. Roedd gan yr holl ddisgyblion ar y cynllun sgôr LPT uwchben y trothwy o 31, a gafodd ei osod gan y Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO) Gorffennaf 2017.
- 4.1.2 Yn dilyn canllawiau WEFO, mae'n ofynnol bod ffurflen caniatâd rhiant, hysbysiad preifatrwydd, ffurflen unigolyn a ffurflen gyfeirio yn cael eu llenwi cyn agor ffeil TRAC i'r disgybl. Fe wiriwyd y sampl am hyn a gwelwyd bod rhai anghysondebau megis hysbysiad preifatrwydd a/neu ffurflenni caniatâd rhiant heb eu derbyn. Cadarnhaodd y Rheolwr Prosiect TRAC eu bod wedi derbyn cyfarwyddyd gan Gyngor Sir Ddinbych bod yn bosib iddynt weithio heb ganiatâd rhiant os yw'r cymorth a dderbynnir ar safle'r ysgol yn unig.
- Gan nad oedd hysbysiad preifatrwydd wedi ei dderbyn ar gyfer rhai disgyblion, fe gadarnhaodd y Rheolwr TRAC na fydd y disgyblion yma yn cael eu hychwanegu at ddibenion WEFO o dan unrhyw amgylchiadau ac ni fydd modd rhannu eu gwybodaeth. Yn dilyn yr ail-broffilio a gymerodd le yn yr haf, mae Swyddog Monitro a rheoli ansawdd wedi ei phenodi i sicrhau y bydd y rheolaethau yma yn cael eu dilyn.
- 4.1.3 Fe wiriwyd sampl o hawliadau wrth edrych ar y cod gwariant A999 LA79 a gwelwyd eu bod yn gywir, cyflawn ac wedi'u gwneud yn amserol. Yn ogystal, gwelwyd bod gwariant priodol yn cael ei wneud efo'r arian a dderbynnir gan yr Undeb Ewropeaidd Cymru, megis gwariant ar gyflawni prosiectau staff, rheoli prosiectau, costau teithio a chysiau hyfforddiant.
- 4.1.4 Fe adolygwyd canlyniadau'r perfformiad a adroddwyd yn erbyn y prosiect gan dderbyn tystiolaeth gefnogol ar eu cyfer. Gwelwyd bod y canlyniadau a adroddwyd o ansawdd priodol ac wedi eu hadrodd yn gywir.
- 4.1.5 Gwelwyd nid oes gan y gwasanaeth unrhyw wybodaeth ar wefan y Cyngor er mwyn darparu gwybodaeth i'r cyhoedd ynglŷn â'r cynllun TRAC ar hyn o bryd. Cadarnhawyd bod trefniadau ar y gweill a disgwylir y bydd gwefan ar gael yn y dyfodol agos. Nid yw hyn yn creu risg o ddisgyblion cymwys yn colli allan ar y cyfle o gael cefnogaeth gan fod yr erfyn adnabod cynnar (EIT) yn cael ei redeg drwy'r system rheoli gwybodaeth ysgolion (SIMS) ar gyfer yr holl ysgolion yng Ngwynedd ac yna bydd pob disgybl sydd yn cael eu hadnabod yn cael eu hadrodd ar yr adroddiad cymwys i dderbyn ymyrraeth TRAC.

BILIAU CYLCHOL AMGYLCHEDD

1. Cefndir

- 1.1 Ym mlwyddyn ariannol 2017/18, cynhaliwyd archwiliad ar incwm manddaliadau y Cyngor, sef unedau cymharol fach o dir ac eiddo caiff eu rhentu allan i denantiaid at ddefnydd amaethyddol. Gwelwyd bod y Cyngor yn codi anfonebau ar y tenantiaid drwy filio cylchol, '*recurring billing*', sy'n golygu cynhyrchir anfonebau yn awtomatig ar amser penodol o'r flwyddyn, am nifer o flynyddoedd - ond roedd yn gyfyngedig o fewn y system ariannol. Darganfuwyd achosion ble na anfonebwyd rhai tenantiaid yn dilyn i'r cyfnodau rhaglunedig bilio cylchol derfynu, a hynny heb fod yn wybodus i'r swyddogion. Yn dilyn yr archwiliad, darganfuwyd ei fod yn bosib ehangu'r cyfnodau bilio cylchol yn y system ymhell i'r dyfodol, a gwnaethpwyd hynny er mwyn lliniaru'r risg o fethiant i godi bil ar denant. Yn ogystal, mae bwriad cysoni holl gytundebau byw o system newydd Eiddo, TF, gyda chofnodion yr Uned Incwm er mwyn sicrhau y codir tâl ar bob cytundeb.

2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

- 2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau bod yr holl gwsmeriaid sydd wedi bod yn derbyn biliau cylchol wedi bod yn cael eu bilio yn amserol. Roedd yr archwiliad yn cwmpasu ehangu sampl archwiliad manddaliadau, dyddiedig 2017/18, drwy gynhyrchu adroddiad o'r cyfriflyfr ar yr holl filiau cylchol dros y 9 mlynedd diwethaf gan amlygu achosion ble mae'r bilio cylchol wedi dod i ben, ymchwilio beth yw'r rhesymau pam, ac adnabod os oes colledion ariannol i'r Cyngor.

3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad

- 3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau yn ystod archwiliad ar incwm manddaliadau y Cyngor, dyddiedig 2017/18. Tybir nad yw'n briodol i ddynodi lefel sicrwydd gan bod y gwendidau rheolaethol eisoes wedi eu hadnabod a'u hadrodd mewn archwiliad blaenorol. Bwriad yr archwiliad yma oedd gwirio effaith y gwendid rheolaethol sydd eisoes wedi ei hadnabod.

4. Prif Ddarganfyddiadau

- 4.1 Dengys o adroddiad y cyfriflyfr bod nifer o enghreifftiau ble mae derbyniadau incwm drwy drefniant bilio cylchol wedi dod i ben. Darganfuwyd yn y rhan helaeth o achosion bod rhesymau dilys am y rhain, megis bod busnes sy'n talu rhent i'r Cyngor wedi gadael yr eiddo. Yn ogystal, gwelwyd ar adegau bod trefniant bilio cylchol wedi dod i ben cyn ailgychwyn eto yn y dyfodol, sy'n gadael blwch yn y llif incwm. Yn yr achosion yma, gwelwyd fod anfoneb arferol 'unwaith ac am byth' wedi eu codi yn eu lle, sy'n golygu nad oedd colled ariannol. Fodd bynnag, ymhelaethir isod ar achosion ble daeth trefniadau bilio cylchol i ben a nad oedd gweithrediad gan y Cyngor.

- 4.1.1 Mae cwmni (rhif cyflenwr 140100) wedi bod yn talu rhent blynyddol o £2,500 i'r Gwasanaeth Morwrol drwy filio cylchol. Ymddengys bod y bilio wedi dod i ben yn 2014, a ni chodwyd anfoneb yn 2015/16, 2016/17 a 2017/18. Yn dilyn ymholiadau, cadarnhaodd y Gwasanaeth bod y symiau yn ddyledus felly codwyd anfoneb am ôl-daliad o £7,500 (sydd bellach wedi'i thalu), a thaliad pellach i gwmpasu rhent 2018/19 hyd nes eu dyddiad gadael ym mis Medi.
- 4.1.2 Mae cwsmer 010776 wedi bod yn talu rhent blynyddol o £112 i'r Gwasanaethau Tai drwy drefniant bilio cylchol. Fodd bynnag, ymddengys bod y bilio cylchol wedi dod i ben yn 2014, a ni chodwyd anfoneb yn 2015/16, 2016/17 a 2017/18. Yn ogystal, mae cwsmer 012548 wedi bod yn talu rhent blynyddol o £30 i'r Adran Addysg drwy drefniant bilio cylchol, ac ymddengys bod y bilio cylchol wedi dod i ben yn 2014, a ni chodwyd anfoneb yn 2015/16, 2016/17 a 2017/18. Ni dderbyniwyd eglurhad gan y Gwasanaeth Eiddo os yw'r cwsmeriaid yn parhau yn yr eiddo ac os oes ôl-rhent yn ddyledus i'r Cyngor ai peidio.

**TRAFNIDIAETH CYHOEDDUS
AMGYLCHEDD**

1. Cefndir

1.1 Mae Cyngor Gwynedd yn gyfrifol am drefnu nifer o lwybrau bysiau cyhoeddus ar draws y Sir. Wedi i gwmni Express Motors golli eu trwydded CGC/PSV (Cerbyd Gwasanaeth Cyhoeddus), cynigodd y Cyngor y gwaith yr oeddent yn arfer ei gyflawni i'r cyhoedd ar ffurf tendr.

2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau fod trefniadau addas mewn lle wrth weinyddu a gwobrwyo tendrau i gwmnïau bysiau pan mae newid mewn gwasanaeth. Er mwyn cyflawni hyn, roedd yr archwiliad yn cwmpasu adolygu sampl o dendrau diweddar i gwmnïau bysiau gan sicrhau bod y trefniadau a'r taliadau a wneir yn briodol.

3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad

3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

Lefel Sicrwydd	Disgrifiad
DIGONOL	Mae rheolaethau mewn lle i gyflawni amcanion ond bod agweddau lle gellir tynhau ar y trefniadau i liniaru'r risgiau ymhellach.

7. Sgôr Risg Cyfredol

4.1 Mae risgiau'r archwiliad fel a ganlyn:

<u>Lefel Risg</u>	<u>Nifer</u>
UCHEL IAWN	0
UCHEL	0
CANOLIG	1
ISEL	0

4. Prif Ddarganfyddiadau

5.1 Roedd tendr 'itt_64605' yn cynnwys holl lwybrau oedd yn arfer cael eu gwasanaethu gan Express Motors. Gwelwyd bod gwybodaeth berthnasol megis dyddiad cyhoeddi, dyddiad ac amser cau, manylion contract a disgrifiad wedi eu harddangos ar y wefan i'r ymgeiswyr. I gwblhau cais, roedd gofyn i ymgeiswyr lenwi 3 adran; cymhwyster, technegol a masnachol. Gan fod y ceisiadau i gyd yn ddigidol ac yn cael eu gweinyddu drwy wefan <http://www.gwerthwchigymru.llyw.cymru> nid oes angen i ddau swyddog fod yn bresennol i agor tendr gan fod y data yn cael ei storio ar y wefan ac nid oes modd ei newid.

- 5.2 Detholwyd sampl o 7 llwybr o 'itt_64605' ar gyfer yr archwiliad; llwybrau 301, 1BE, 1E, 35, 82, 83S a 85E. Gwiriwyd y ceisiadau a dderbyniwyd am bob llwybr. Gwelwyd bod 4 cwmni wedi gwneud cais am 5 llwybr o'r sampl ac roedd 5 cais wedi ei gwneud am y 2 arall. Gwelwyd bod rhai cwmnïau wedi atodi dogfennau yn cynnig opsiynau amgen am amserlenni a phrisiau. Gwelwyd ym mhob achos bod y cwmni addas wedi ei ddewis ar gyfer y llwybrau.
- 5.3 Mae trefniadau mewn lle i wirio os yw ymgeiswyr yn ariannol hyfyw. Derbynai'r Cyngor gyfrifon dwy flynedd ddiweddaraf unrhyw gwmni sy'n gwneud cais. Caiff y cyfrifon yma eu gwirio gan y Swyddog Contractau a'r Rheolwr Categori – Corfforaethol. Gellir cryfhau'r trefniadau yma petai gwiriadau yn cael eu gwneud trwy wasanaeth fel 'Creditsafe' neu 'Dun & Bradstreet', sy'n rhoi barn ar sefyllfa ariannol y cwmnïau.
- 5.4 Mynegodd y Swyddog Contractau y caiff ymweliadau â gwasanaethau eu cynnal yn rheolaidd gan Swyddogion Cludiant i werthuso perfformiad a gofynion diogelwch y Cyngor megis TCC (CCTV) a gwregysau a.y.b. Fel rhan o'r gwiriadau a wneir cyn gwobrwyo tendr, gwiriai'r Cyngor bod gan unrhyw wasanaeth Drwydded Gweithredwr wedi'i derbyn gan VOSA (Vehicles & Operator Services Agency).
- 5.6 Gwelwyd dogfen yn amlinellu'r 'llwybrau craidd a theithiau allweddol' nodwyd gan y Cyngor i sicrhau trafndiaeth i waith, addysg a gofynion iechyd a chymdeithasol i'r cyhoedd. Mae nifer o'r llwybrau wedi eu cyfuno neu eu hymestyn i sicrhau bod llwybrau digonol yn cael eu gweithredu.
- 5.7 Bu'n rhaid i'r Cyngor wneud cais i Lywodraeth Cymru am gyllideb ychwanegol yn dilyn un gweithredwr yn colli eu trwydded. Roedd gwahaniaeth yn y prisiau roedd cwmnïau yn gynnig pan roddwyd y tendr allan i gymharu â'r hyn oedd yn cael ei dalu i'r cwmni blaenorol. Mynegwyd bod hyn o bosib gan fod y cwmni blaenorol yn gwneud colled wrth weithredu rhai llwybrau. Bydd cynnydd sylweddol i wariant y Cyngor ar y gwasanaeth yma ond nid yw'n gost a ellir ei osgoi os yw gwasanaeth trafndiaeth gyhoeddus y Cyngor am gadw ei safon.

6. Camau Gweithredu

Mae'r Gwasanaeth Trafnidiaeth wedi ymrwymo i weithredu'r camau canlynol i liniaru'r risgiau a amlygwyd:

- **Sicrhau caiff gwiriadau ychwanegol eu gwneud ar gyfrifon gan swyddogion caffael/cyfrifeg neu drwy feddalwedd megis 'Creditsafe' yn y dyfodol pan fu gwaith yn cael ei roi i dendr.**

RHEOLAETH 'PATCH' CYLLID

1. Cefndir

1.1 Diffinir rheoli 'patch' fel y prosesau a weithredir i wella, diweddarau a chyweirio gwendidau systemau a meddalwedd a ddarganfyddir ar ôl i elfennau'r isadeiledd gael eu rhyddhau ar y farchnad. Mae'n hanfodol ar gyfer diogelwch systemau'r Cyngor bod trefniadau addas mewn lle.

2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau bod trefniadau addas mewn lle i reoli a dosbarthu diweddariadau 'patch'. Er mwyn cyflawni hyn, roedd yr archwiliad yn cwmpasu gwirio cynnwys y polisi perthnasol a chydymffurfiaeth â'r polisi yn ogystal â gwirio trefniadau ar gyfer diweddariadau 'patch' a ddosbarthwyd yn ddiweddar. Er pwrpas yr archwiliad, cafodd yr archwiliad ei gyfyngu i drefniadau diweddariadau 'patch' ar y rhwydwaith corfforaethol yn unig ac eithrio adrannau rhwydwaith cwricwlwm a chyhoeddus sydd yn disgyn tu hwnt i gylch gwaith diogelwch TG corfforaethol.

3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad

3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

Lefel Sicrwydd	Disgrifiad
UCHEL	Gellir datgan sicrwydd o briodoldeb gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle i gyflawni amcanion.

4. Prif Ddarganfyddiadau

- 4.1 Cafodd Polisi Rheolaeth Cyweirio y Cyngor ei adolygu gan y Peiriannydd Diogelwch a'i gymeradwyo gan y Tîm Is-Adeiledd TG ym mis Gorffennaf 2018. Gwelwyd bod y polisi yn gynhwysfawr, clir ac eglur gan drafod trefniadau diweddarau dyfeisiadau, cymhwysiadau a serfiwyr gydag amserlen yn dangos y blaenoriaeth gosod cyweiriadau yn seiliedig ar gategori risg a ddiffinir yn y polisi.
- 4.2 Gwelwyd bod trefniadau priodol mewn lle ar gyfer rheoli patch ar y gwahanol mathau o serfwyr y Cyngor ynghyd â swyddogion atebol i'w rheoli.
- 4.3 O'r sampl o systemau a wiriwyd, profwyd bod trefniadau o fewn y gwasanaethau ar gyfer profi a rhyddhau diweddariadau 'patch' i'r systemau.
- 4.4 Defnyddir system 'Desktop Central' gan 'ManageEngine' ar gyfer gwirio statws 'patch' peiriannau a'u diweddarau. Dangoswyd y system yma'n gweithredu a gwelwyd bod y rheolaethau mewn lle yn effeithiol. Mae monitro cyson yn digwydd drwy'r system 'Desktop Central'. Yn ychwanegol i hyn, caiff sganiau am wendidau eu rhedeg yn reolaidd gan ddefnyddio'r rhaglen 'Nessus' sydd yn annibynnol o 'Desktop Central'. Caiff unrhyw wendidau eu hamlygu gan y sgan a'u gweithredu.
- 4.5 Arsylwyd y broses o ddiweddarau gwendidau o'r sgan 'Nessus' diweddar. Gwelwyd bod y fersiwn penodol o MSXML ar naw peiriant y Cyngor heb eu cefnogi a gwelwyd bod galwad i'r Ddesg Gymorth TG wedi'i wneud i dynnu'r fersiwn MSXML oddi ar y peiriannau a adnabuwyd.

- 4.6 Gwiriwyd y drefn profi diweddariadu 'patch' sydd yn cael eu rhyddhau ar draws y Cyngor. Adroddwyd bod oddeutu deg peiriant yn cael eu defnyddio o fewn y gwasanaeth TG i brofi 'patches' pan cânt eu rhyddhau. Yn dilyn wythnos ar y deg peiriant, rhoddir y 'patches' ar 50 i 100 o beiriannau prawf mewn gwahanol adrannau a lleoliadau ar draws y Cyngor am gyfnod prawf o bythefnos er mwyn sicrhau bod unrhyw broblemau a ddarganfyddir yn cael eu gweithredu arnynt cyn rhyddau'r 'patch'.
- 4.7 Mae'r Polisi Rheolaeth Cyweirio yn diffinio'r term risg categori argyfwng sy'n gysylltiedig â 'patch' fel 'bygythiad agos i isadeiledd y sefydliad'. Mynegwyd bod achosion argyfwng wedi codi yn gymharol ddiweddar yn sgîl digwyddiadau 'Wannacry', 'Meltdown' a 'Spectre'. Adroddwyd bod y gwasanaeth wedi dilyn y canllawiau a amlinellir yn y polisi yn yr achosion yma.
- 4.8 Adolygwyd trefniadau diweddarau 'patch' serfiwyr a darganfuwyd bod system 'SenseLogix' yn cael ei rhedeg ar serfer ar rwydwaith corfforaethol y Cyngor. Datrysiaid arbed ynni ydy 'SenseLogix', sy'n galluogi rheoli nifer o sribedi pŵer arbennig sydd ar hyd y Cyngor. Darganfuwyd bod diffyg gwybodaeth am drefniadau diweddarau 'patch' y system 'SenseLogix' yn cael ei rannu gan y gwasanaeth Cynnal a Chadw a Chadwraeth Egni. Amlygwyd yn ystod yr archwiliad bod risg o ddiffyg diweddarau'n arwain at wendidau diogelwch gallai unigolyn gymryd mantais ohonynt i diffodd trydan i sawl cyfrifiadur a pheiriant o fewn y Cyngor. Yn ystod yr archwiliad, trafodwyd y risg a llinariwyd drwy benderfynu gwaredu'r system 'SenseLogix'. Bydd trefniadau i ddatgysylltu'r holl offer a'r serfer o'r rhwydwaith yn y dyfodol agos.

**CYFRIFON AMGUEDDFA LLOYD GEORGE
ECONOMI A CHYMUNED**

1. Cefndir

1.1 Mae Amgueddfa Lloyd George a chartref ei blentyndod, Highgate, Llanystumdwy, yn olrhain bywyd cyn Brîf Weinidog Prydain. Gweinyddir yr amgueddfa gan Gyngor Gwynedd gyda chymorth Cyfeillion yr Amgueddfa sy'n cefnogi a chynorthwyo datblygiad yr Amgueddfa a'i defnydd addysgiadol. Gan mai elusen yw'r Amgueddfa, sydd yn 2017-18 wedi uchafu trothwy incwm o £25,000 diolch i grant gan y Llywodraeth, rhaid cyflwyno cyfrifon ac adroddiad blynyddol yr ymddiriedolwyr i'r Comisiwn Elusennau, gan gynnwys adroddiad archwiliwr annibynnol o'r cyfrifon.

2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

2.1 Bwriad yr archwiliad oedd cwblhau adroddiad archwiliwr annibynnol o gyfrifon 2017-18 yr Amgueddfa, gan roi sicrwydd bod yr hyn a gyflwynwir i'r Comisiwn Elusennau yn gywir. Gwnaethpwyd hyn drwy eu cysoni gyda chyfriflyfr y Cyngor, gan sicrhau bod yr holl drafodion yn berthnasol i'r Amgueddfa.

3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad

3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

Lefel Sicrwydd	Disgrifiad
UCHEL	Gellir datgan sicrwydd o briodoldeb gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle i gyflawni amcanion.

4. Prif Ddarganfyddiadau

4.1 Darganfuwyd fod y cyfrifon yn briodol ac felly cwblhawyd adroddiad yr archwiliwr annibynnol er mwyn datgan hynny. Amlygwyd mater i'r Uned Gyllid mewn perthynas â reserf o fewn y cyfrifon ar ddiwedd y flwyddyn, ond nid oedd angen sylw pellach.

**CYNLLUN TROI TAI’N GARTREFI
OEDOLION, IECHYD A LLESIANT**

1. Cefndir

1.1 Lanswyd y cynllun Troi Tai’n Gartrefi yn Ebrill 2012 i ddarparu benthyciadau di-log i berchnogion tai gwag, i adnewyddu tai o’r fath ar gyfer eu gwerthu neu’u gosod. Cynigir benthyciadau di-log dros dymor byr neu ganolig a fydd o gymorth i berchnogion, preswylwyr, landlordiaid a sefydliadau trydydd sector cymwys wella cyflwr eiddo preswyl.

2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau bod amcanion Cynllun Troi Tai’n Gartrefi yn cael eu gweithredu. Er mwyn cyflawni hyn, roedd yr archwiliad yn cwmpasu gwirio’r rheolaethau mewnol sydd mewn lle drwy ddedol sampl o geisiadau er mwyn sicrhau bod y benthyciadau a weinyddir wedi cael eu prosesu yn unol â’r Polisi Tai Sector Breifat (2018).

3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad

3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i’r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

Lefel Sicrwydd	Disgrifiad
UCHEL	Gellir datgan sicrwydd o briodoldeb gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle i gyflawni amcanion.

4. Prif Ddarganfyddiadau

4.1 Gwelwyd bod trefniadau priodol mewn lle ar gyfer gweinyddu’r Cynllun Troi Tai’n Gartrefi.

4.1.1 Sefydlwyd Polisi Tai Sector Preifat (2018) yn Ionawr 2018, mae’r polisi hwn yn disodli’r polisiâu blaenorol a gyhoeddwyd yn 2007, 2012, 2014 a 2017. Mae mân newidiadau i’r Cynllun Troi Tai’n Gartrefi eleni, sef ymestyn y cyfnod ad-dalu os yw eiddo yn cael ei osod, nawr ceir 5 mlynedd i ad-dalu’r benthyciad di-log ble ynghynt roedd yn gyfnod o 3 mlynedd. Nid yw’r Polisi diwygiedig ar gael ar wefan Cyngor Gwynedd ar hyn o bryd gan fod angen cwblhau addasiadau pellach a wnaed ym mis Hydref a chwblhau cyfieithu’r Polisi.

4.1.2 Gwiriwyd llyfryn gwybodaeth y Cynllun ynghyd a dogfennau gwybodaeth eraill megis llythyr eglurhaol a rhestr dogfennau i gyd-fynd â’r cais. Gwelwyd bod ffi Tŷ’r Cwmniau yn amrywio yn y dogfennau, gyda 2 ohonynt yn nodi £45 tra bod y ddogfen arall yn nodi £40. Cadarnhawyd mai £40 sydd wedi bod yn cael ei godi ar yr ymgeiswyr llwyddiannus. Fodd bynnag, cysylltodd Swyddog Tai Gwag Gwynedd gyda Swyddogion Tai Gwag eraill Gogledd Cymru a chadarnhawyd mai £45 yw’r swm cywir. Addaswyd y dogfennau perthnasol fel eu bod yn gyson a chodir £45 o hyn ymlaen.

- 4.1.3 Nid pob eiddo sy'n gymwys i dderbyn cymorth drwy'r Cynllun. Trafodir y cynllun gyda'r rhai a ddangosir diddordeb a phenderfynir os ydynt yn gymwys i'r cynllun ai peidio. Mae angen i'r eiddo fod wedi bod yn wag am o leiaf 6 mis i fod yn gymwys am y benthyciad, ac mae'n rhaid derbyn cymeradwyaethau a/neu ganiatâd (cais cynllunio, rheolaethau adeiladau a.y.b.) sydd yn ofynnol i ymgymryd â'r gwaith. Mae'n rhaid i'r eiddo un ai gael ei werthu neu ei rentu unwaith mae'r gwaith wedi ei gwblhau, nid yw'r Cynllun yma ar gyfer berchennog-ddeiliaid. Hefyd, mae angen cadarnhad bod gan yr ymgeiswyr gyllid digonol i sicrhau y gellir cwblhau'r gwaith os nad yw'r benthyciad yn cynnwys y costau llawn, a bod ganddynt y modd i ad-dalu'r benthyciad.
- 4.1.4 Gwelwyd bod yr holl ddogfennau perthnasol wedi eu derbyn ar gyfer y sampl o geisiadau a wiriwyd a bod trefniadau priodol mewn lle er mwyn monitro'r ad-daliadau.

**GRANT DECHRAU'N DEG – GOFAL PLANT
PLANT A THEULUOEDD**

1. Cefndir

- 1.1 Mae Dechrau'n Deg yn rhan o Raglen Blynyddoedd Cynnar i deuluoedd â phlant o dan 4 oed sy'n byw yn ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru. Bwriad y grant yw gwella sgiliau plant er mwyn eu paratoi ar gyfer yr ysgol ac am fywyd yn gyffredinol, gan hefyd gynnig cymorth ychwanegol i rieni. Un o elfennau craidd Dechrau'n Deg yw gofal plant o ansawdd uchel, rhad ac am ddim.
- 1.2 Dyfarnwyd Llywodraeth Cymru dros £2 miliwn o grant refeniw Dechrau'n Deg i Gyngor Gwynedd yn ystod 2018-19.

2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

- 2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau priodoldeb y taliadau a wneir i ddarparwyr am ofal plant gan sicrhau bod yr hyn darparwyd yn cyd-fynd ag amcanion y grant. Er mwyn cyflawni hyn, roedd yr archwiliad yn cwmpasu dethol sampl o daliadau gofal plant gan sicrhau bod gwiriadau priodol wedi'u gwneud gyda'r cyflenwr cyn dyfarnu ac yn ystod cytundeb er mwyn gwireddu'r amcanion.

3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad

- 3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

Lefel Sicrwydd	Disgrifiad
UCHEL	Gellir datgan sicrwydd o briodoldeb gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle i gyflawni amcanion.

4. Prif Ddarganfyddiadau

- 4.1 Detholwyd sampl o daliadau Gofal Plant a gellir datgan bod rheolaethau priodol mewn lle er mwyn sicrhau bod yr hyn a ddarparwyd gan y cylchoedd meithrin yn cyd-fynd gydag amcanion a thelerau Dechrau'n Deg.
- 4.2 Gwelwyd caiff gwiriadau priodol a chyfnodol eu gwneud gyda'r darparwyr cyn dyfarnu ac yn ystod y cytundeb er mwyn sicrhau gofal o ansawdd sy'n cyflawni amcanion y grant. O'r sampl o 8 cylch allan o'r 13 sy'n rhan o'r cynllun, ymddengys bod pob un yn cydymffurfio â gofynion y grant. Mae'r Gwasanaeth Blynyddoedd Cynnar yn ymweld â'r darparwyr gan wirio, er enghraifft, cynnydd plant, polisiau'r cylchoedd, gwiriadau DBS, cofrestryddion presenoldeb a.y.b. a chedwir copïau o'r rhain ar ffeil.
- 4.3 Canfuwyd anghysondeb rhwng llythyr cynnig grant Llywodraeth Cymru a'r Cytundebau Lefel Gwasanaeth rhwng y Cyngor a'r darparwyr. Mynegir y llythyr cynnig bod yn rhaid i'r llythyr a'r holl ddogfennau gwreiddiol sy'n berthnasol â'r cyllid cael eu cadw am gyfnod o 10 mlynedd. Fodd bynnag, noda adran 2.2 'Rheolaeth Ariannol' o'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth bod yn rhaid i'r darparwr cynnal a chadw pob cofnod perthnasol am gyfnod o 7 mlynedd yn unig. Mynegodd y Swyddog Monitro, Dadansoddi Data a Chyllid Dros Dro y buasai'n hysbysu'r Uned Contractau er mwyn diweddarau'r ddogfen.

5. Camau Gweithredu

Mae'r Swyddog Monitro, Dadansoddi Data a Chyllid Dros Dro wedi ymrwymo i weithredu'r camau canlynol i liniaru'r risgiau a amlygwyd:

- **Hysbysu'r Uned Contractau er mwyn diweddarau cyfnodau dargadw dogfennau fel y nodir yn y Cytundebau Lefel Gwasanaeth, er mwyn bod yn gyson â'r llythyr cynnig grant.**

TANCIAU DIESEL A RHEOLI DIESEL PRIFFYRDD A BWRDEISTREFOL

1. Cefndir

1.1 Mae amryw o ddepos Priffyrdd a Bwrdeistrefol y Cyngor yn cadw stoc o DERV (Diesel Gwyn) a Gasoil (Diesel Coch) mewn tanciau at ddefnydd cerbydau'r Cyngor, gan gynnwys cerbydau casglu gwastraff, glanhau stryd, gritio, peiriannau a faniau. Yn bennaf caiff diesel ei archebu gan yr Uned Fflyd ond gwneir defnydd hefyd o gardiau 'All Star' er mwyn prynu tanwydd o garejys lleol. Mae cadw cyflenwad o ddisel yn rhatach na'i brynu o garejys lleol ac yn sicrhau cyflenwad petai argyfwng o brinder tanwydd, ond mae costau cynnal a chadw sylweddol ynghlwm â'r tanciau. Mae'r Adran wedi adnabod y maes fel risg uchel ar y Gofrestr Risg Corfforaethol.

2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau fod trefniadau archebu a chadw stoc newydd o ddisel yn addas a bod offer digonol mewn lle i'w ddiogelu. Er mwyn cyflawni hyn, roedd yr archwiliad yn cwmpasu ymweld â sampl o ddepos sy'n darparu diesel i gerbydau'r Cyngor gan holi'r Rheolwr Safle am y trefniadau ac unrhyw weithrediadau ar argymhellion ymgynghorwyr diweddar.

3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad

3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

Lefel Sicrwydd	Disgrifiad
CYFYNGEDIG	Er bod rheolaethau mewn lle, mae angen gwella cydymffurfiaeth â'r rheolaethau a/neu gyflwyno rheolaethau newydd i leihau'r risgiau mae'r gwasanaeth yn agored iddynt.

4. Sgôr Risg Cyfredol

4.1 Mae risgiau'r archwiliad fel a ganlyn:

<u>Lefel Risg</u>	<u>Nifer</u>
UCHEL IAWN	0
UCHEL	1
CANOLIG	3
ISEL	0

5. Prif Ddarganfyddiadau

5.1 Yn dilyn archwiliad gan BSI yn ystod Tachwedd 2016, adroddwyd nad oedd Gwynedd yn cydymffurfio â safonau ISO14001 (Rheolaeth Amgylcheddol). Mewn ymateb, comisiynwyd cwmni Phoenix Forecourt Services (PFS) i gynnal asesiad o'r holl danciau tanwydd ar safleoedd Priffyrdd a Bwrdeistrefol yn ystod Ebrill a Mai 2017. Amlygwyd safon gwael y tanciau yn yr adroddiad gan nodi argymhellion i'r Adran weithredu arnynt. Hyd yma nid yw'n ymddangos fod y mwyafrif o'r argymhellion wedi eu gweithredu ac ymddengys nad oedd y staff ar y safleoedd yn ymwybodol pwy oedd â'r cyfrifoldeb, nac yn barod i dderbyn cyfrifoldeb.

- 5.1.1 Yn ystod yr ymweliadau gwelwyd fod cyflwr gwael ar rai o'r tanciau a'r cyfarpar, megis y darllenwyr cyfaint a'r larymau, ond wrth drafod â staff nid yw'n glir pwy sydd â'r cyfrifoldeb am eu cynnal. Nid oes trefn amlwg er mwyn glanhau, gofalu a chynnal a chadw'r tanciau ac ymddengys nad oes cyfathrebu clir rhwng y Gwasanaethau o fewn yr Adran.
- 5.1.2 Mynegodd un rheolwr safle ei bryder am gyflwr y tanc a'r system draeniau ar y safle ac nid yw'n fodlon derbyn cyfrifoldeb gan ei fod wedi rhannu ei bryderon sawl gwaith a heb dderbyn ymateb boddhaol. Ategwyd hyn mewn adroddiad ar gyflwr y lleoliadau tanwydd gan y Rheolwr Fflyd ar y cyd â'r Peiriannydd Cynorthwyol Sicrwydd Ansawdd Amgylcheddol. Nodir yn yr adroddiad fod archwiliad iechyd a diogelwch o'r Safle yn Chwefror 2008 wedi argymhell digomisiynu'r tanc cyn gynted â phosib. Serch hynny mae'r tanc yn parhau i gael ei ddefnyddio.
- 5.1.3 Mae darllenwyr cyfaint digidol wedi eu gosod ar yr holl danciau sy'n rhan o'r system a weithredir gan y Gwasanaeth Fflyd. Mae'r Gwasanaeth yn monitro'r data a gesglir gan y darllenwyr yma ac yn ei ddefnyddio i osod isafswm stoc (re-order level) ac yna archebu cyflenwad newydd o danwydd fel yr angen. Nid yw'r safleoedd na'u staff yn rhan o'r broses yma. O ganlyniad nid oes unrhyw wiriadau yn cael eu gwneud pan fydd y cyflenwadau yn cyrraedd y safleoedd. Pan dderbynnir anfoneb, mae'r Gwasanaeth Fflyd yn gwirio'r cyfanswm a nodir arno a'i gymharu gyda darlleniad y darllenwr ar gychwyn y diwrnod derbyniwyd y cyflenwad. Mae hyn yn rhoi darlun bras o gyfaint y tanwydd yn y tanc a'r gwagle ynddo er mwyn gwirio fod y cyflenwad a nodir ar yr anfoneb yn gywir. Mae staff ar y safleoedd wedi codi pryder ynglŷn â'r drefn gan nad oes tocyn digidol yn cael ei ddarparu ar pob achlysur gan yrrwr y cyflenwr i nodi cyfaint y cyflenwad yn fanwl.
- 5.1.4 Ymddengys nad yw nifer o'r darllenwyr yn darparu darlleniadau cywir, roedd y darllenwr digidol yn Afonwen yn dangos darlleniadau a oedd yn codi a gostwng 100 litr yn ystod yr ymweliad, a'r darllenwr analog cyfochr yn nodi cyfanswm oedd oddeutu 900 litr yn wahanol iddo. Holwyd y Rheolwyr Safle am hyn a nodwyd nad oedd ganddynt ffydd yn y darllenwyr, a bod tanc Ffridd Rasmus wedi gwagio ar un achlysur er bod y darllenwr yn nodi fod digon ar ôl.
- 5.1.5 Mae'r Rheolwr Fflyd eisoes wedi cynllunio i gyflwyno trefn newydd pan dderbynnir disel ar y safleoedd lle mae bwriad i aelod o staff gwrdd â gyrrwr y darparwr a dilyn camau penodol gan gwblhau rhestr wirio bwrsasol.
- 5.1.7 Defnyddir system ffob ar gyfer y rhan fwyaf o gerbydau'r fflyd lle mae'r gyrrwyr yn sganio ffob unigryw a bwydo rhif odomedr y cerbyd i mewn. Mae'r meddalwedd Timeplan sy'n rheoli'r system yn penderfynu os yw'r cofnod yn ddilys er mwyn rhyddhau tanwydd. Nid yw rhai cerbydau megis lorïau gritio a cherbydau glanhau stryd (Sweepers) yn cynnwys odomedr felly nid yw'r rheolaeth mor gadarn ar gyfer y cerbydau yma. Mewn theori mae'r system yn rheoliad digonol ond ni all roi sicrwydd llawn oherwydd y ddibyniaeth ar staff i ymrwymo i'w weithredu yn gywir o ran y ffobiâu a'r cofnod odomedr.
- 5.1.8 Gwelwyd fod 'Spill Kits' yn bresennol ar bob safle ond fod yr offer wedi ei gadw mewn storfa o fewn y Depo yn Afonwen yn hytrach na mewn lleoliad ymarferol ger ochr y tanc. Mae tanciau'r safleoedd eraill yn cynnwys adran wedi eu diogelu rhag y tywydd lle mae'r pwmp a'r elfennau trydanol wedi eu lleoli, cedwir y 'Spill Kit' yn y rhan yma hefyd. Gwelwyd ar safle Cibyn fod sbwriel yn y cynhwysydd sy'n dal y 'kit'.

6. **Camau Gweithredu**

Mae'r Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol wedi ymrwymo i weithredu'r camau canlynol i liniaru'r risgiau a amlygwyd:

- Gweithredu ar ddiffygion y tanciau neu eu digomisiynu a'u cyfnewid os yw'n weithgaredd sy'n rhoi gwell gwerth am arian i'r dyfodol.
- Sefydlu trefn ble cynhelir gwiriadau stoc pan dderbynnir cyflenwad ar y safleoedd.
- Sefydlu trefn newydd o lanhau a gofalu am gyflwr y tanciau a'r ardal o'u cwmpas.
- Atgoffa staff o'r pwysigrwydd i ddefnyddio'r ffobiâu yn gywir a rhoi darlleniad manwl o'r odomedr ar y system Timeplan er mwyn atal trafferthion yn y dyfodol.

PWYLLGOR	PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU
DYDDIAD	14 CHWEFROR 2019
TEITL	CYNLLUN ARCHWILIO MEWNOL 2018/19
PWRPAS YR ADRODDIAD	DIWEDDARU'R PWYLLGOR AR Y CYNNYDD YN ERBYN CYNLLUN ARCHWILIO MEWNOL 2018/19
AWDUR	LUNED FÔN JONES - RHEOLWR ARCHWILIO
GWEITHREDIAD	ER GWYBODAETH

1. CYFLWYNIAD

1.1 Mae'r adroddiad yma yn ddiweddariad ar y sefyllfa gyfredol o ran cwblhau Cynllun Archwilio Mewnol 2018/19.

2. CRYNODEB O WAITH Y CYNLLUN

2.1 Mae Cynllun Archwilio 2018/19 wedi ei gynnwys yn Atodiad 1, gyda statws y gwaith ar 1 Chwefror 2019 wedi ei nodi, yn ogystal â'r amser a dreuliyd ar bob archwiliad. Roedd statws y gwaith yn y cynllun gweithredol ar y dyddiad hwnnw fel a ganlyn:

Statws yr Archwiliad	Nifer
Wedi ei gynllunio	3
Gwaith Maes ar y gweill	17
Disgwyl Adolygiad	2
Adroddiad Drafft	3
Adroddiad Terfynol	35
Cyfanswm	<u>60</u>
Wedi ei ganslo	4

2.2 Mae'r gwasanaeth yn anelu i gael 95% o archwiliadau'r cynllun unai wedi eu cau neu gydag adroddiad terfynol wedi ei ryddhau erbyn 31 Mawrth 2019. Mae proffil y dangosydd fesul chwarter fel a ganlyn:

Diwedd chwarter 1	8%
Diwedd chwarter 2	20%
Diwedd chwarter 3	50%
Diwedd chwarter 4	95%

2.3 Gwelir o'r tabl uchod mai gwir gyrhaeddiad Archwilio Mewnol hyd at 1 Chwefror 2019 oedd **58.33%** - allan o'r **60** archwiliad unigol yng nghynllun 2018/19 roedd **35** wedi eu rhyddhau yn derfynol.

3. ADDASIADAU I'R CYNLLUN

3.1 Mae'r archwiliadau canlynol wedi eu hychwanegu at y cynllun:

- Trefniadau Rheoli Risg o Dwyll a Llygredigaeth – 25 diwrnod
- Cyfrifon Amgueddfa Lloyd George – 5 diwrnod

Ar gyfer ymgymryd â'r archwiliadau hyn, penderfynwyd canslo archwiliad "Trefniadau Comisiynu" (30 diwrnod). Detholwyd yr archwiliad yma i'w chanslo oherwydd nad oes unrhyw gynnydd wedi ei wneud mewn perthynas â chyfuno cyllidebau (*pooled budgets*).

3.2 Roedd pymtheg diwrnod wedi eu dyrannu ar gyfer archwiliad "Bwrdd Twf Gogledd Cymru", (bellach a adnabyddir fel Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru). Penderfynwyd i lithro'r archwiliad yma i gynllun 2019/20 a trosglwyddo'r dyddiau i gynnal archwiliad ar "Statws Cyflogaeth IR35 – Economi a Chymuned".

3.3 Mae'r ddarpariaeth ar gyfer cynnal archwiliad "Cronfa'r Degwm" wedi cynyddu o dri diwrnod i wyth diwrnod. Roedd y ddarpariaeth wreiddiol ar gyfer cynnal gwiriad annibynnol os oedd incwm y gronfa dros £25,000. Fodd bynnag, nid oedd angen gwiriad annibynnol ond penderfynwyd cynnal adolygiad i sicrhau fod trefniadau dosbarthu grantiau o'r gronfa i elusennau cofrestredig yng Ngwynedd yn briodol.

3.4 Penderfynwyd trosglwyddo chwe diwrnod o'r ddarpariaeth ar gyfer "Gwaith Atal Twyll ac Atal Llygredigaeth Rhagweithiol" i gynnal archwiliad "Biliau Cylchol" yn sgil gwendidau a ddarganfuwyd pan gynhaliwyd archwiliad "Manddaliadau".

4. ARGYMHELLIAD

4.1 Gofynnir i'r Pwyllgor nodi cynnwys yr adroddiad hwn fel diweddariad o gynnydd yn erbyn cynllun archwilio 2018/19, cynnig sylwadau arno a derbyn yr adroddiad.



Cynllun Archwilio Mewnol 2018/19

Côd yr Archwiliad	Enw'r Archwiliad	Cynllun Gwreiddiol	Addasiad	Cynllun Addasiedig	Gwir Ddyddiau	Statws yr Archwiliad
CORFFORAETHOL						
1-CORFF-09/2019	Cefnogi Adolygiadau Ffordd Gwynedd	20.00	0.00	20.00	8.09	Wedi ei gynllunio
1-CORFF-19/2019/001	Trefniadau Diogelu - Trais yn y Cartref	15.00	0.00	15.00	9.34	Adroddiad Terfynol
1-CORFF-19/2019/002	Trefniadau Diogelu - Sefydliadau	4.00	0.00	4.00	4.60	Adroddiad Terfynol
1-CPGV-02/2019	Gwaith Atal Twyll ac Atal Llygredigaeth Rhagweithiol	20.00	-6.00	14.00	3.58	Gwaith Maes ar y gweill
1-CPGV-03/2019	Trefniadau Rheoli Risg o Dwyll a Llygredigaeth	0.00	25.00	25.00	13.65	Gwaith Maes ar y gweill
2-ADN-CGC-DPA/2019cy	Rheoli Gwybodaeth - Sefydliadau	6.00	0.00	6.00	5.99	Adroddiad Terfynol
2-ADN-CGC-DPA/2019dp	Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol	15.00	0.00	15.00	22.34	Adroddiad Terfynol
AO-ARL-05/2019	Y Fenter Twyll Genedlaethol	40.00	0.00	40.00	15.86	Gwaith Maes ar y gweill
EADDZ-01/2019	Cronfa'r Degwm	3.00	5.00	8.00	8.72	Adroddiad Terfynol
ADDYSG						
Adnoddau						
4-DAT-X-ADD/2019/gy	Grant Gwisg Ysgol	0.00	6.00	6.00	6.11	Adroddiad Terfynol
4-DAT-X-ADD/2019GAD	Grant Datblygu Disgyblion	10.00	0.00	10.00	9.95	Adroddiad Terfynol
4-DAT-X-ADD/2019GGA	Grant Gwella Addysg ar gyfer Ysgolion	15.00	0.00	15.00	14.70	Adroddiad Terfynol
4-DAT-X-ADD/2019o16	Grant Addysg Ôl-16	3.00	0.00	3.00	3.05	Adroddiad Terfynol
EADDA03/2019/001	Ymwybyddiaeth o Bolisi Canu'r Gloch - Cynradd ac Uwchradd	25.00	0.00	25.00	7.76	Gwaith Maes ar y gweill
EADDA03/2019/002	Mynediad i Ysgolion	15.00	0.00	15.00	14.24	Adroddiad Terfynol
EADDA04/2019/IR35	Statws Cyflogaeth IR35	30.00	0.00	30.00	17.04	Adroddiad Drafft
Ar draws yr adran						
EADDA06/2019	Prosiect TRAC	15.00	0.00	15.00	18.58	Adroddiad Terfynol
GwE						
4-GWE/2019/IR35	GwE - Statws Cyflogaeth IR35	30.00	0.00	30.00	22.77	Adroddiad Drafft
Ysgolion						
EADDA32/2019	Prynu Cyfarpar drwy'r Ysgol	0.00	15.00	15.00	8.58	Gwaith Maes ar y gweill
EADDA35/2019	Ysgolion - Cyffredinol	10.00	0.00	10.00	4.26	Gwaith Maes ar y gweill

Côd yr Archwiliad	Enw'r Archwiliad	Cynllun Gwreiddiol	Addasiad	Cynllun Addasiedig	Gwir Ddyddiau	Statws yr Archwiliad
AMGYLCHEDD						
Gwarchod y Cyhoedd						
2ADN-GGYC-GYC/2019dp	Difa Pla	12.00	0.00	12.00	5.26	Gwaith Maes ar y gweill
BB-YSG-11/2019	Trefniadau Trwyddedu	8.00	0.00	8.00	8.08	Disgwyl Adolygiad
Tir ac Eiddo'r Cyngor						
BA-EID-02/2019	Cynnal a Chadw Eiddo	15.00	0.00	15.00	19.93	Adroddiad Drafft
BA-EID-04/2019/bil	Biliau Cylchol	0.00	6.00	6.00	4.61	Adroddiad Terfynol
Trafnidiaeth a Gofal Stryd						
DDAT-CC-01/2019	Trafnidiaeth Cyhoeddus	12.00	0.00	12.00	12.72	Adroddiad Terfynol
CYLLID						
Ar draws yr adran						
AW-TG-12/2019	Systemau - Rheolaeth "Patch"	12.00	0.00	12.00	15.73	Adroddiad Terfynol
Cyfrifeg						
AN-ACY-02/2019	Rhyngwynebau gyda'r Cyfriflyfr Ariannol	20.00	0.00	20.00	20.03	Adroddiad Terfynol
Pensiynau a Chyflogau						
AP-PEN-07/2019	Cyfraniadau gan Gyflogwyr	25.00	0.00	25.00	17.71	Gwaith Maes ar y gweill
Referniw						
AB-BD-01/2019kc	Budd-daliadau - Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol	12.00	0.00	12.00	14.91	Disgwyl Adolygiad
AC-TR-01/2019	System Treth Cyngor - One Digital Portal	10.00	-10.00	0.00	0.54	Wedi ei ganslo
AC-TR-01/Ad/2019	Treth Cyngor - Ad-daliadau	0.00	10.00	10.00	12.31	Adroddiad Terfynol
AC-TR-07/2019	Atal a Dileu Dyledion Treth Cyngor	10.00	0.00	10.00	11.57	Adroddiad Terfynol
AC-TR-11/2019	Trethi Busnes - Rhestr Brisio	6.00	0.00	6.00	5.73	Adroddiad Terfynol
Technoleg Gwybodaeth						
AW-TG-05/2019	Gwaredu Cyfarpar TG	8.00	0.00	8.00	4.14	Gwaith Maes ar y gweill
AW-TG-06/2019/001	Diogelwch Seiber	0.00	10.00	10.00	8.95	Gwaith Maes ar y gweill
AW-TG-08/2019	Trefniadau Adfer Trychineb TG	10.00	0.00	10.00	5.93	Gwaith Maes ar y gweill
AW-TG-17/2019	Rheolaeth Trwyddedu Meddalwedd	10.00	-10.00	0.00	0.41	Wedi ei ganslo
ECONOMI A CHYMUNED						
Ar draws yr adran						
DGW-01/2019/001	Statws Cyflogaeth IR35 - Economi a Chymuned	0.00	15.00	15.00	7.03	Wedi ei gynllunio

Côd yr Archwiliad	Enw'r Archwiliad	Cynllun Gwreiddiol	Addasiad	Cynllun Addasiedig	Gwir Ddyddiau	Statws yr Archwiliad
Archifau, Amgueddfeydd a Chelfyddydau						
EDIW-MU-01/2019/001	Cyfrifon Amgueddfa Lloyd George	0.00	5.00	5.00	4.70	Adroddiad Terfynol
Hamdden						
EHAMAC6401/2019	Canolfan Hamdden Arfon	0.00	10.00	10.00	10.50	Adroddiad Terfynol
EHAMAC6406/2019	Canolfan Hamdden Plas Ffrancon	0.00	10.00	10.00	9.97	Adroddiad Terfynol
EHAMAC6421/2019	Canolfan Hamdden Glaslyn	0.00	10.00	10.00	10.01	Adroddiad Terfynol
EHAMAC6442/2019	Canolfan Hamdden Penllyn	0.00	10.00	10.00	11.14	Adroddiad Terfynol
Morwrol a Pharciau Gwledig						
EHAMT-01/2019	Casglu Incwm - Traethau a Pharciau Gwledig	10.00	0.00	10.00	10.08	Adroddiad Terfynol
EHAZ-01/2019/001	Glynllifon - Incwm	0.00	6.00	6.00	6.55	Adroddiad Terfynol
Strategaeth a Datblygu						
DDAT-AD-02/2019	Menter Adfywio Glannau a Chanol Tref Caernarfon – Trefniadau Llywodraethu	15.00	0.00	15.00	13.66	Gwaith Maes ar y gweill
DDAT-AD-05/2019	Bwrdd Twf Gogledd Cymru	15.00	-15.00	0.00		Wedi ei ganslo
OEDDION, IECHYD A LLESIANT						
Ad draws yr adran						
5-GOF-GCY-ARALW/2019	Trefniadau ar Alwad a Brys	15.00	0.00	15.00	6.08	Gwaith Maes ar y gweill
GRH-GW01/2019ab	Adroddiad Blynyddol Gwasanaethau Cymdeithasol	8.00	0.00	8.00	8.24	Gwaith Maes ar y gweill
Busnes						
GRH-CD01/2019	Trefniadau Comisiynu	30.00	-30.00	0.00		Wedi ei ganslo
Cefnogi Pobl						
GDAPR-SP01/2019	Grant Cefnogi Pobl	15.00	0.00	15.00	10.46	Adroddiad Terfynol
Gofal Cymunedol						
GDAPR-GC04/2019	Gofal Cartref - Costau Teithio	15.00	0.00	15.00	14.23	Adroddiad Terfynol
Preswyl a Dydd						
5-GOF-CART1341/2019	Plas y Don	12.00	0.00	12.00	11.49	Adroddiad Terfynol
5-GOF-CART1345/2019	Plas Hedd	12.00	0.00	12.00	12.58	Adroddiad Terfynol
5-GOF-CART1350/2019	Hafod Mawddach	12.00	0.00	12.00	12.14	Adroddiad Terfynol
5-GOF-CART1356/2019	Cefn Rodyn	12.00	0.00	12.00	12.27	Adroddiad Terfynol
Tai Sector Breifat						
T-TAI-G06/2019	Grant Cyfleusterau i'r Anabl	15.00	0.00	15.00	11.61	Adroddiad Terfynol

Côd yr Archwiliad	Enw'r Archwiliad	Cynllun Gwreiddiol	Addasiad	Cynllun Addasiedig	Gwir Ddyddiau	Statws yr Archwiliad
T-TAI-G10/2019	Cynllun Troi Tai'n Gartrefi	12.00	0.00	12.00	12.31	Adroddiad Terfynol

PLANT A CEFNOGI TEULUOEDD

Plant a Theuluoedd

5-GOF-X-PL/2019/003	Grant Dechrau'n Deg - Gofal Plant	0.00	8.00	8.00	8.34	Adroddiad Terfynol
GGWAS-PLANT3/2019	Plant - Lleoliadau All-Sirol	0.00	12.00	12.00	4.54	Gwaith Maes ar y gweill
GGWAS-PLANT8/2019	Cynlluniau Gofal a Chymorth (Plant) o dan Rhan 4 DGC 2014	20.00	0.00	20.00	5.20	Gwaith Maes ar y gweill

PRIFFYRDD A BWRDEISTREFOL

Fflyd

PGW-TR-02/2019	Tanciau Disel a Rheoli Disel	15.00	0.00	15.00	16.51	Adroddiad Terfynol
----------------	------------------------------	-------	------	--------------	--------------	--------------------

Rheoli Gwastraff a Strydoedd

3-AMG-GORF/2019	Gorfodaeth Stryd	12.00	0.00	12.00	0.95	Wedi ei gynllunio
-----------------	------------------	-------	------	--------------	-------------	-------------------

YMGYNGHORIAETH GWYNEDD

Ar draws yr adran

PYMG-CON/2019	Rheoli Llifogydd	15.00	0.00	15.00	6.01	Gwaith Maes ar y gweill
---------------	------------------	-------	------	--------------	-------------	-------------------------

100-270

PWYLLGOR	PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU
DYDDIAD	14 CHWEFROR 2019
TEITL	CYNLLUN ARCHWILIO MEWNOL DRAFFT 2019/20
PWRPAS YR ADRODDIAD	CYFLWYNO CYNLLUN ARCHWILIO MEWNOL DRAFFT AR GYFER Y FLWYDDYN 1 EBRILL 2019 – 31 MAWRTH 2020
AWDUR	LUNED FÔN JONES - RHEOLWR ARCHWILIO
GWEITHREDIAD	CYMERADWYO'R CYNLLUN YN YR ATODIAD

1. CYFLWYNIAD

- 1.1 Cyflwynir cynllun drafft o waith Archwilio Mewnol am y flwyddyn ariannol 2019/20 er sylwadaeth a chymeradwyaeth y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu.
- 1.2 Mae'r adroddiad yma'n egluro'r ffactorau a ystyriwyd a'r broses a ddefnyddiwyd i gyrraedd at y cynllun a gyflwynir i'r Pwyllgor.

2. BWRIAD ARCHWILIO MEWNOL

- 2.1 Pwrpas y gwasanaeth Archwilio Mewnol ydi:

Rhoi hyder i'r dinesydd a'r Cyngor am amgylchedd reolaeth a threfniadau llywodraethu'r Cyngor trwy adrodd yn annibynnol a gwrthrychol i'r Pennaeth Cyllid a'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu

- 2.2 Wrth baratoi'r cynllun gwaith yma, felly, rhoddwyd ystyriaeth i'r hyn sydd angen i'r gwasanaeth ei wneud er mwyn cyflawni'r pwrpas yma.
- 2.3 Adnoddau cyfyngedig sydd gan yr uned; adnodd staffio'r Uned yw 7 swydd amser llawn gyda dwy o archwilwyr dros dro, i gyflenwi yn absenoldeb mamolaeth a cafwyd adnodd ychwanegol gan y Pennaeth Cyllid gan fod tri swyddog yn hyfforddi ar yr un pryd. Mae hyn yn ei wneud yn gynyddol bwysig fod y gwasanaeth yn cyfeirio ei adnoddau i'r llefydd cywir.
- 2.4 Felly, er mwyn sicrhau ein bod yn adolygu'r pethau cywir, yn gyntaf rhoddwyd ystyriaeth i'r Gofrestr Risg Corfforaethol yn ogystal â chofrestrau risg pob adran. Mae hyn er mwyn sicrhau fod rheolaethau allweddol y Cyngor er mwyn ymdrin â'i brif risgiau yn derbyn sylw. Yn hynny o beth, rydym wedi cydweithio'n agos â'r Uned Yswiriant a Risg, sydd fel rhan o'u rôl yn sicrhau fod y cofrestrau hyn yn cael eu diweddarau'n rheolaidd.

2.5 Canlyniad hyn oedd paratoi cynllun drafft cychwynnol, sydd wedi cael ei drafod gyda pob Pennaeth adran (neu dîm rheoli adrannol mewn rhai achosion). Roedd hyn yn gyfle i fireinio'r cynllun ymhellach, cyn paratoi'r Cynllun drafft a gyflwynir i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu.

2.6 Yn ystod 2019/20, bydd Archwilio Mewnol hefyd yn rhoi ystyriaeth briodol i'r canlynol:

- Sicrhau fod y gwasanaeth yn cyfrannu i adolygiadau Ffordd Gwynedd, fel mae'r angen yn codi, er mwyn sicrhau llwyddiant i newid diwylliant y Cyngor.
- Yn ymwybodol ar bob amser o'r posibilrwydd y gall twyll neu lygredigaeth ddigwydd. Byddwn felly yn manteisio ar y Fenter Twyll Cenedlaethol ac yn cynnal gwaith Atal Twyll Rhagweithiol.
- Yn parhau i roi sylw i grantiau penodol, yn enwedig lle mae amodau'r grant yn disgwyl adolygiad gan Archwilio Mewnol.

Mae hyn wedi ei adlewyrchu yn y cynllun.

3. ADNODDAU SYDD AR GAEL

3.1 Rhagwelir y bydd oddeutu 766 diwrnod o adnoddau archwilio ar gael i gwblhau cynllun archwilio 2019/20. Mae hyn ar sail dadansoddi'r adnoddau staffio sydd ar gael, gan gynnwys cyllidebau rhesymol ar gyfer gweithgareddau "di-gynnyrch" megis gwyliau, salwch, hyfforddiant, rheolaeth a chyfarfodydd ac ar ôl ystyried y darpariaethau canlynol:

	2019/20	2018/19
Darpariaeth ar gyfer cyngor ar reolaethau a phriodoldeb	55 diwrnod	55 diwrnod
Darpariaeth ar gyfer gwaith ymatebol	40 diwrnod	30 diwrnod
Darpariaeth ar gyfer dilyniant	50 diwrnod	50 diwrnod

4. ARGYMHELLIAD

4.1 Gofynnir i'r Pwyllgor gymeradwyo'r Cynllun Archwilio drafft ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2019 i 31 Mawrth 2020.

CYNLLUN ARCHWILIO MEWNOL DRAFFT 2019/20

Archwiliad	Rheswm	Dyddiau
CORFFORAETHOL		
Cefnogi Adolygiadau Ffordd Gwynedd	Cynnig cyngor a chefnogaeth i staff a rheolwyr ar faterion risg a rheolaeth fewnol. (Cymerir agwedd Ffordd Gwynedd at holl waith Archwilio Mewnol)	20
Gwaith Atal Twyll ac Atal Llygredigaeth Rhagweithiol a'r Fenter Twyll Genedlaethol	Gwaith i'w gynnal er mwyn sicrhau fod trefniadau cadarn yn eu lle i ymdrin â'r risgiau o dwyll a llygredigaeth a gwaith yn ymwneud a'r Fenter Twyll Genedlaethol a gaiff ei rhedeg gan Swyddfa Archwilio Cymru.	40
Gwerth am Arian	Adolygiad o werth am arian mewn maes penodol.	20
Trefniadau Diogelu	Adolygiad o drefniadau hyfforddiant ar yr ystod o fodiwlau diogelu.	15
Trefniadau Diogelu Plant ac Oedolion Bregus– Sefydliadau	Darpariaeth ar gyfer cynnal adolygiadau ar "Ddiogelu" wrth ymweld â sefydliadau.	4
Diwylliant a Moeseg	Bydd canlyniad yr archwiliad yn rhoi dynodiad ar sut mae egwyddorion Ffordd Gwynedd yn treiddio drwy'r sefydliad.	15
Rheoli Gwybodaeth – Sefydliadau	Darpariaeth ar gyfer cynnal adolygiadau yn y maes Rheoli Gwybodaeth wrth ymweld â sefydliadau.	6
Merched mewn Arweinyddiaeth	Un o brif flaenoriaethau gwella Cyngor Gwynedd – bydd yr adolygiad yn canolbwyntio ar ba brosiectau sydd ar y gweill.	5
Goramser	Gwirio bod taliadau goramser yn cael eu talu ar y cyfradd cywir a'u bod yn briodol.	25
Costau Teithio – Hunan-wasanaeth	Adolygiad o'r trefniadau monitro.	5
ADDYSG		
Adnoddau		
Grant Addysg Ôl-16	Disgwyliad yn yr amodau ariannol.	3
Trefniadau Cyllidebu Ôl-16	Adolygiad wedi ei gynnwys ar gais y Pennaeth Addysg.	10
Grant Datblygu Disgyblion	Nid yw'r GDD wedi ei ymgorffori yn y Grant Gwella Addysg, felly mae'n ofynnol i gynnal archwiliad ar wahân.	10

Archwiliad	Rheswm	Dyddiau
Grant Gwella Addysg	Mae'r grant yn gyfuniad o sawl grant blaenorol oedd yn cael eu talu gan Lywodraeth Cymru.	15
Cyfrifon Ymddiriedolaeth	Adolygiad o gyfrifon ymddiriedolaeth gan gynnwys trefniadau i gyflwyno ac asesu trefniadau.	5
Ysgolion		
Ysgol Hafod Lon	Mae cyllideb sylweddol ar gyfer yr ysgol.	12
Ysgol Pendalar	Mae cyllideb sylweddol ar gyfer yr ysgol.	12
Penodi a Chostau Athrawon Llanw – Uwchradd	Adolygiad o'r trefniadau cyfredol.	25
Cronfeydd Ysgol	Adolygiad o gronfeydd ysgolion Gwynedd.	20
Ysgolion Cyffredinol	Darpariaeth blyneddol ar gyfer rhoi cyngor ac ymgynghori.	5
GwE		
Gwerth am Arian	Adolygiad o daliadau a gwerth am arian GwE.	20
AMGYLCHEDD		
Amgylchedd		
Grant AHNE	Gwirio'r trefniadau rheoli i sicrhau y caiff y Cynllun Rheoli ei gyflawni.	10
Cynllunio		
Cytundebau Adran 106	Mae rhwymedigaethau cynllunio dan Adran 106 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (fel y'i diwygiwyd), a adwaenir yn gyffredinol fel Cytundebau A106, yn fecanwaith sy'n gwneud cynnig datblygu na fyddai'n dderbyniol fel arall yn dderbyniol yn nhermau cynllunio.	15
Trafnidiaeth a Gofal Stryd		
Uned Diogelwch y Ffyrdd	Mae'r Uned yn destun toriadau, felly adolygu'r effaith ar y gwasanaeth.	8
Trafnidiaeth – Costau Teithio Ôl-16	Adolygiad o'r trefniadau cyfredol.	12
Tir ac Eiddo'r Cyngor		
Manddaliadau	Adolygiad o'r drefn rheoli newydd a ddaeth i rym yn 2018-19.	15
Rheolaeth Categori	Adolygiad o'r trefniadau ar gyfer caffael contractwyr asbestos a phrofwyr PAT (Portable Asbestos Testing).	15

Archwiliad	Rheswm	Dyddiau
ASiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru		
Ar draws yr adran		
Achrediadau	Gwirio bod trefniadau digonol mewn lle i fonitro cydymffurfiad â'r safonau disgwylidig.	15
CEFNOGAETH GORFFORAETHOL		
Cyswllt Cwsmer a Chofrestru		
Defnydd a Rheolaeth o Gyfryngau Cymdeithasol	Adolygiad o drefniadau sefydlu cyfrifon ar gyfrifon cymdeithasol a monitro eu cynnwys.	8
Monitro Perthynas â Chwsmeriaid (<i>Customer Relationship Monitoring</i>)	Adolygu'r trefniadau ar gyfer ymateb i gwynion.	10
Dysgu a Datblygu'r Sefydliad		
Modiwl Datblygu Staff (MoDS)	Bydd y Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn cynnal archwiliad ar y defnydd o'r MoDS ar draws y Cyngor yn ystod blwyddyn ariannol 2019/20 yn unol â'r hyn a fynegir yn yr adroddiad wreiddiol.	8
CYLLID		
Ar draws yr adran/corfforaethol		
Diogelwch Systemau TG	Bwriedir cynnal archwiliadau ar faterion penodol yn y maes Technoleg Gwybodaeth.	30
Ariannol		
System Taliadau – Newid Data Sefydlog	Mae'n hanfodol bod trefniadau mewn lle i atal ymdrech am daliad twyllodrus.	10
Cyfrifeg		
Cysoni Banc	Mae'r maes hwn yn allweddol ar gyfer cau'r cyfrifon yn amserol.	20
Refeniw		
Budd-daliadau - Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol	Disgwylir y bydd cynnal adolygiad o gymorth i'r archwilwyr allanol wrth gynnal eu hadolygiad o'r Cais Sybsidi Budd-dal Tai.	12
Hunanwasanaeth Treth Cyngor	Llithro o gynllun 2018/19 oherwydd diffyg adnoddau TG i ymgymryd â'r prosiect.	10
Credyd Cynhwysol	Mae hwn yn fater sydd wedi ai adnabod yn faes o risg uchel yn y Gofrestr Risg Corfforaethol.	15

Archwiliad	Rheswm	Dyddiau
ECONOMI A CHYMUNED		
<i>Adfywio Cymunedol</i>		
Cronfa'r Degwm	Bydd angen gwiriad annibynnol os yw incwm y gronfa dros £25,000.	3
<i>Archifau, Amgueddfeydd a Chelfyddydau</i>		
Cyfrifon Amgueddfa Lloyd George	Gofyniad yn unol â rheolau y Comisiwn Elusennol i archwilio'r cyfrifon.	5
<i>Morwrol a Pharciau Gweledig</i>		
Iechyd a Diogelwch Harbyrau	Mae hwn yn faes o risg uchel.	5
Mesurau Diogelwch Parc Padarn	Mae'r maes wedi ei adnabod ar y Gofrestr Risg Corfforaethol.	3
<i>Prosiectau Sylweddol</i>		
ARFOR	Cyngor Gwynedd yw'r corff arweiniol a bwriedir cynnal adolygiad o'r trefniadau llywodraethu a threfniadau i wirio gwariant.	8
Cynllun Llanbedr	Gwiriad o drefniadau rheoli'r prosiectau ar gynllun sydd â gwerth oddeutu £25m.	15
Cynllun STEM Gogledd	Adolygiad o gynlluniau penodol.	8
<i>Strategaeth a Datblygu</i>		
Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru	Trefniadau llywodraethu y Bwrdd – sef cydbwyllgor o blith awdurdodau lleol gyda chynrychiolwyr o bartneriaid allweddol megis Cyngor Busnes Gogledd Cymru a Merswy Dyfrdwy, Prifysgolion a Cholegau Addysg Bellach.	15
OEDOLION, IECHYD A LLESIANT		
<i>Digartrefedd a Thai Cefnogol</i>		
Cynllun Ail-leoli Ffoaduriaid Syria	Adolygiad o'r trefniadau ar gyfer dyroddi arian.	8
Costau Gwely a Brecwast	Adolygu'r taliadau a wnaethpwyd i sicrhau eu priodoldeb.	10
<i>Cefnogi Pobl</i>		
Grant Cefnogi Pobl	Disgwyliad yn amodau'r grant.	15
<i>Preswyl a Dydd</i>		
Plas Gwilym, Penygroes	Holl gartrefi'r Cyngor i'w harchwilio o fewn cylch 3 blynedd (2019/20 yw'r drydedd blwyddyn o dair).	12

Archwiliad	Rheswm	Dyddiau
Plas Pengwaith, Llanberis	Holl gartrefi'r Cyngor i'w harchwilio o fewn cylch 3 blynedd (2019/20 yw'r drydedd blwyddyn o dair).	12
Bryn Blodau, Blaenau Ffestiniog	Holl gartrefi'r Cyngor i'w harchwilio o fewn cylch 3 blynedd (2019/20 yw'r drydedd blwyddyn o dair).	12
Llys Cadfan, Tywyn	Holl gartrefi'r Cyngor i'w harchwilio o fewn cylch 3 blynedd (2019/20 yw'r drydedd blwyddyn o dair).	12
Canolfannau Dydd – Anabledd Dysgu	Cynnal adolygiad o drefniadau ariannol ac anariannol y canolfannau.	25

PLANT A CHEFNOGI TEULUOEDD

Plant a Theuluoedd

Hafan y Sêr	Uned egwyl fer sydd wedi ei lleoli ar safle Ysgol Hafod Lon a agorwyd ym mis Ebrill 2018.	12
Taliadau i Ofalwyr Maeth	Mae swm sylweddol yn cael ei dalu yn y maes hwn.	12
Cyfrifon Clybiau Ieuencid	Adolygiad i sicrhau bod y cyfrifon wedi eu cau yn briodol a bod unrhyw gardiau debyd wedi eu dychwelyd.	8

PRIFFYRDD A BWRDEISTREFOL

Ar draws yr adran

Cynllun Parhad Gwasanaeth	Mae hwn yn fater sydd wedi ei amlygu yn y Gofrestr Risg Corfforaethol a bydd yr archwiliad yn cwmpasu gwirio'r cynllun ynghyd â sicrhau bod polisiâu wedi eu llunio ar gyfer eitemau pwrpasol, e.e. halen.	12
---------------------------	--	----

Gwaith Priffyrdd

Rhaglen Waith - Pontydd	Gwirio'r trefniadau ar gyfer rhaglennu'r gwaith cynnal a chadw a bod hynny wedi ei adnabod ar y Cynllun Rheoli Asedau.	10
-------------------------	--	----

Gwaith Bwrdeistrefol

Cynnal a Chadw Meysydd Chwarae	Gwirio bod trefniadau addas yn bodoli i gynnal meysydd chwarae i liniaru risgiau iechyd a diogelwch i ddefnyddwyr.	12
--------------------------------	--	----

Toiledau Cyhoeddus a Phartneriaethau gyda Chynghorau Cymuned a thref	Yn unol â Deddf Iechyd Cyhoeddus Cymru) 2017, mae'n ofynnol bod y Cyngor yn llunio Strategaeth Toiledau Cyhoeddus erbyn Mai 2018.	12
--	---	----

Archwiliad	Rheswm	Dyddiau
YMGYNGHORIAETH GWYNEDD <i>Ar draws yr adran</i> Achrediadau	Gwirio bod trefniadau digonol mewn lle i fonitro cydymffurfiaid â'r safonau disgwyliedig	15
CYFANSWM DYDDIAU		766

Eitem 13

PWYLLGOR	PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU
DYDDIAD	14 CHWEFROR 2019
TEITL	STRATEGAETH GWRTH-DWYLL, GWRTH-LYGREDD A GWRTH-GWGRWOBRYWO CYNGOR GWYNEDD A CHYNLLUN YMATEB
PWRPAS YR ADRODDIAD	DIWEDDARU'R PWYLLGOR AM DREFNIADAU ATAL TWYLL AC ATAL LLYGREDD Y CYNGOR, A CHYFLWYNO RHAGLEN WAITH AM Y TAIR BLYNEDD NESAF
AWDUR	DEWI MORGAN, UWCH REOLWR REFENIW A RISG
GWEITHREDIAD	MABWYSIADU'R STRATEGAETH A'R CYNLLUN A DATGAN CEFNOGAETH I'W CYNNEWYS

Cyflwyniad

- 1 Mae "**Risg o Dwyll, Llwrwobrwyo a/neu Lygredd**" wedi cael ei adnabod fel un o risgiau corfforaethol y Cyngor. Ar hyn o bryd, ystyrir fod hwn yn **risg isel** (sgôr 4) yng nghyd-destun fframwaith llywodraethu'r Cyngor, oherwydd **sgôr o 2 ar gyfer Effaith** (Effaith **arwyddocaol** ar fywyd neu les nifer o drigolion (e.e. effaith ar fywyd neu les ond yn disgyn o fewn amrediad disgwyliadwy bywyd dydd i ddydd) neu **gweladwy** ar nifer iawn o drigolion), a **sgôr o 2 ar gyfer Tebygolrwydd** (tebygolrwydd iddo ddigwydd yn isel - ond dal yno). Credir fod y tebygolrwydd yn isel gan fod rheolaeth fewnol yn gyffredinol gadarn; mae gwaith Archwilio Mewnol yn cadarnhau hyn.
- 2 Er hyn, rydym yn parhau'n ymwybodol o'r risg, ac mae'r Cyngor wedi dioddef o dwyll mawr yn y gorffennol. Felly, nodir yn y gofrestr risg corfforaethol y byddai Strategaeth Gwrth-Dwyll a Gwrth-Lygredd ar gyfer 2019 – 2022 yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yng nghyfarfod Chwefror 2019.
- 3 Ymhellach, yn y gweithdy a gynhaliwyd ar 5 Tachwedd 2018 i adolygu ei effeithiolrwydd, mynegodd aelodau'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu y dylid cyflwyno mwy adroddiadau i'r Pwyllgor am waith atal twyll ac atal llygredd o fewn Cyngor Gwynedd.
- 4 Gall Cyngor Gwynedd, fel unrhyw gorff cyhoeddus arall sydd yn ymdrin ag arian sylweddol, fod yn destun ymdrechion i dwyllo neu ymdrechion i ddylanwadu ar swyddogion a/neu aelodau mewn modd lwgr. Gall hyn gael ei weithredu, neu ei ymgeisio, gan unigolion o'r tu allan i'r Cyngor, gan staff, gan aelodau neu gyfuniad o'r rhain yn cyd-gynllwynio.

Strategaeth

- 5 Mae Strategaeth Gwrth-Dwyll, Gwrth-Lwgrwobrwyo a Gwrth-Lygredd yn rhan allweddol o fframwaith llywodraethu yr awdurdod, ac mae ei fabwysiadu, ei hyrwyddo a'i weithredu yn gamau hanfodol i ennyn hyder y cyhoedd am ddiogelwch arian y trethdalwr. Mae'n adlewyrchu penderfyniad y Cyngor i warchod ei hun rhag twyll a llygredd a'r bwriad yw sicrhau safonau uchel o atebolrwydd cyhoeddus.

- 6 Mae'r Strategaeth yn darparu trosolwg o bolisi'r Cyngor o safbwynt ei agwedd tuag at dwyll a llygredd a'r rhai sydd yn gweithredu, neu'n ceisio gweithredu, twyll neu lygredd yn erbyn Cyngor Gwynedd a'r trethdalwr. Mae wedi'i ddylunio i:
- Egluro'r hyn y mae'r Cyngor yn ei olygu o ran twyll, llwgrwobrwyo a llygredd;
 - Gosod y safonau y mae'r Cyngor yn eu disgwyl gan ei Aelodau Etholedig a'i staff;
 - Hyrwyddo atal twyll;
 - Hyrwyddo darganfod twyll;
 - Dangos sut y bydd y Cyngor yn ymchwilio i dwyll, llwgrwobrwyo a llygredd;
 - Hyrwyddo ymwybyddiaeth o dwyll.
- 7 Yn unol â'r dyhead a amlygwyd yn y gweithdy ym mis Tachwedd 2018, bydd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn derbyn adroddiadau rheolaidd (oddeutu pob 6 mis), ar ymdrechion y gwrth-dwyll, gwrth-llwgrwobrwyo a gwrth-lygredd y Cyngor.

Cynllun Ymateb

- 8 Yn ogystal â'r Strategaeth, mae'r Cynllun Ymateb i Dwyll a Llygredd hir-sefydledig i'w ddarllen ar y cyd â'r Strategaeth, ac yn gosod allan yr hyn y dylai staff a/neu rheolwyr ei wneud pan maent yn amau fod twyll neu lygredd yn digwydd, a'r camau ymarferol y bydd y Cyngor yn eu dilyn er mwyn mynd i'r afael â'r mater. Cafodd y ddogfen yma ei adolygu'n ffurfiol ddiwethaf yn 2013 felly mae'n amserol i'w adolygu nawr. Ar wahân i addasiadau i adlewyrchu strwythur staffio, nid oes newid arwyddocaol iddo.
- 9 Mae'r ddogfen yn gosod allan yr hyn sydd angen i'r canlynol ei wneud pan maent yn darganfod neu'n amau twyll, llwgrwobrwyo neu lygredd:
- Staff
 - Rheolwyr
 - Archwilwyr
- 10 Mae'r cynllun wedi ei ddatblygu gan roi sylw dyledus ac ystyriaeth i nifer o bolisiau a gweithdrefnau eraill o fewn y Cyngor er mwyn sicrhau cysondeb, gan gynnwys:
- Yr amodau gwaith lleol
 - Polisi Datgelu ("Canu'r Gloch")
 - Polisi Disgyblaeth
 - Rheolau Gweithdrefn Ariannol
 - Siarter Archwilio Mewnol
- 11 Mae'r Cynllun Ymateb yn esbonio sut y bydd y Cyngor yn gweithredu er mwyn ymchwilio i honiadau o dwyll, llwgrwobrwyo neu lygredd, gan gynnwys sut mae hyn yn plethu gyda Polisi Disgyblu yr Awdurdod.
- 12 Mae cynllun hefyd yn amlinellu sut bydd y Cyngor yn gweithredu, a'r opsiynau sy'n rhaid eu hystyried, pan fydd tystiolaeth ddigonol i gefnogi'r honiadau o dwyll, llwgrwobrwyo neu lygredd wedi cael ei gasglu, gan gynnwys disgyblaeth fewnol a/neu erlyniad troseddol neu sifil, neu gyfuniad o'r rhain.

Argymhelliad

- 13 **Gofynnir i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu dderbyn yr adroddiad yma fel eglurhad o drefniadau'r Cyngor ar gyfer ymchwilio ac atal twyll a llygredd o fewn y gyfundrefn.**
- 14 **Gofynnir i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu gymeradwyo'r Strategaeth Gwrth-dwyll, Gwrth-Lwgrwobrwyo a Gwrth-Lygredd a'r Cynllun Ymateb i Dwyll a Llygredd.**

CYNGOR GWYNEDD

STRATEGAETH GWRTH-DWYLL, GWRTH-LWGRWOBROWYO A GWRTH-LYGREDD

2019 – 2022

1. PWRPAS

Pwrpas y ddogfen yma yw egluro beth fydd y Cyngor yn ei wneud yn 2019 – 2022 er mwyn isafu'r risg o dwyll a llygredd, ymchwilio i unrhyw amheuan, a'r camau y byddwn yn eu cymryd yn sgil hynny.

Mae'r ddogfen yma yn:

- Egluro'r hyn y mae'r Cyngor yn ei olygu o ran twyll, llwgrwobrwyo a llygredd;
- Gosod y safonau y mae'r Cyngor yn eu disgwyl gan ei Aelodau Etholedig a'i staff;
- Hyrwyddo atal twyll;
- Hyrwyddo darganfod twyll;
- Dangos sut y bydd y Cyngor yn ymchwilio i dwyll, llwgrwobrwyo a llygredd;
- Hyrwyddo ymwybyddiaeth o dwyll.

2. CYFLWYNIAD

Wrth gwblhau ei swyddogaethau a'i gyfrifoldebau, mae'r Cyngor wedi mabwysiadu diwylliant o fod yn agored a theg bob amser. Mae'r Cyngor yn disgwyl y bydd Aelodau Etholedig, staff, ymgynghorwyr, cyflenwyr, contractwyr a sefydliadau eraill sy'n bartneriaid yn mabwysiadu'r safonau uchaf o briodoldeb ac atebolrwydd.

Bydd Cyngor Gwynedd yn parhau ag agwedd o beidio goddef unrhyw Dwyll, Llwgrwobrwyo a Llygredd.

3. DIFFINIADAU

Twyll

Mae Deddf Twyll 2006 yn amlinellu'r drosedd gyffredinol o dwyll, ac yn diffinio tair ffordd o gyflawni'r drosedd o dwyll:

- **Twyll trwy gynrychiolaeth ffug** – pan fo unigolyn yn gwneud cynrychiolaeth anonest, bwriadol sy'n anwir neu'n gamarweiniol.
- **Twyll trwy fethu datgelu gwybodaeth yn fwriadol** – pan fo unigolyn yn methu datgelu gwybodaeth yn fwriadol ac anonest i berson arall pan fo ganddynt ddyletswydd gyfreithiol i wneud hynny, neu pan fo'r wybodaeth yn wybodaeth y disgwylir iddynt ei datgelu, neu y byddai disgwyliad rhesymol arnynt i'w datgelu.
- **Twyll trwy gamddefnyddio eu swydd** – pan fo unigolyn sydd wedi'i benodi i swydd ble y disgwylir iddynt amddiffyn buddiannau ariannol person arall yn camddefnyddio'r swydd honno yn anonest a dirgel yn ddiarwybod i'r person arall.

Gall y math o dwyll y gallai'r Cyngor ei ddioddef gynnwys y canlynol (nid yw'r rhestr yn gynhwysfawr):

Twyll trwy gynrychiolaeth ffug:

- hawlio costau teithio neu hawlio taliadau goramser ffug neu sydd wedi'u gorliwio,
- anfonebau'n cael eu cyflwyno am wasanaethau na chafodd eu derbyn,
- bod mewn cyflogaeth arall pan fo rhywun wedi derbyn llythyr salwch gan feddyg i beidio â dod i'r gwaith,
- cofnodi oriau anghywir ar y cynllun oriau ystwyth.

Twyll trwy fethu datgelu gwybodaeth yn fwriadol

- Methu datgelu gwybodaeth am gollfarn droseddol berthnasol neu anhreuliedig ar ffurflen gais am swydd,
- Contractwyr yn methu datgelu gwybodaeth am erlyniadau lechyd a Diogelwch ar ddogfennau tendr,
- Dweud bod gwerth asedau'r Cyngor yn llai na'r gwir werth cyn eu gwaredu i aelod o'r teulu, ffrind neu chi'ch hun.

Twyll trwy gamddefnyddio sefyllfa

- Ble mae unigolion o fewn sefydliad yn camddefnyddio eu safle yn y sefydliad hwnnw er mwyn hwyluso'r drosedd. Byddai troseddau penodol dan y pennawd hwn yn cynnwys gofalwyr yn dwyn o gartrefi cleientiaid gofal cartref, neu rhoi contractau i ffrindiau a / neu aelodau o'ch teulu trwy dwyll.

Yn yr holl categorïau uchod, mae'r Ddeddf Twyll yn amlinellu dau ofyn sylfaenol y mae'n rhaid eu bodloni cyn y gellir cyhuddo unigolyn o unrhyw un o'r troseddau uchod: rhaid i ymddygiad y diffynnydd fod yn anonest a rhaid iddo ef / iddi hi fod wedi bwriadu cael budd neu achosi colled (neu fod mewn perygl o achosi colled) i rywun arall. O ganlyniad, o ran ymddygiad sy'n berthnasol i'r Strategaeth hon:

- Nid oes rhaid i unrhyw golled neu fudd gael eu gwireddu – ystyrir bod bwriadu cael budd neu achosi colled yn weithred o dwyll
- Nid oes rhaid i'r person sy'n gwneud y weithred o dwyll fod ar ei ennill – gallai weithredu er budd rhywun arall
- Mae "budd" a "cholled" yn cael eu diffinio yn Rhan 5 Deddf Twyll – gallai fod yn arian neu'n eiddo arall (boed yn real, yn bersonol, yn ddiriaethol neu'n anniriaethol), gallai fod yn barhaol neu dros dro ac:

mae "budd" yn cynnwys cael budd trwy gadw'r hyn sydd gennych, ynghyd â chael budd trwy gael yr hyn nad oes gennych, ac mae "colled" yn cynnwys colled trwy beidio â chael yr hyn y gallwch ei gael, ynghyd â cholled trwy golli'r hyn sydd gennych yn barod.

Twyll Mewnol ac Allanol

Yn y Strategaeth yma, diffinnir "Twyll Mewnol" fel twyll sy'n cael ei gyflawni gan staff y Cyngor neu ei aelodau, gyda bwriad o achosi colled i Gyngor Gwynedd, ble bo'r twyll wedi'i gyflawni neu'i hwyluso o ganlyniad i safle unigolyn neu grŵp yn y sefydliad. Diffinnir "Twyll Allanol" fel twyll sy'n cael ei gyflawni gan unigolion y tu allan i'r sefydliad, neu y tu allan i faes gwaith arferol aelod o staff, gyda golwg ar achosi colled i'r Cyngor.

Yn y rhan fwyaf o achosion, byddai'n hawdd darganfod a yw'r weithred o dwyll yn "fewnol" neu'n "allanol" ond mewn rhai achosion, gall y sefyllfa fod yn fwy amwys gan y gall aelod o staff neu aelod o'r Cyngor gyflawni twyll allanol a thwyll mewnol yn erbyn yr awdurdod. Er enghraifft, ystyrir bod aelod o staff y Cyngor sy'n gwneud cais am grant profi modd ond sy'n dal gwybodaeth benodol yn ôl yn fwriadol, a fyddai'n effeithio ar swm y grant a delir, yn "dwyll allanol". Fodd bynnag, pe bai aelod o staff sy'n chwarae rhan yn y broses o weinyddu'r grant yn cymryd mantais o'i swydd er mwyn cyfeirio arian grant ato ef / ati hi ei hun trwy dwyll, ystyrir bod hyn yn "dwyll mewnol".

Gweithrediad:	Cynnal gweithdai rheolaidd o swyddogion perthnasol i drafod materion sy'n codi, risgiau ymddangosol a rhannu arferion da
Rheswm:	P'un ai ydi twyll yn fewnol, allanol neu'n gyfuniad o'r ddau, mae'r mathau o dwyll y ceisir eu cyflawni, a'r dull o wneud hyn, yn datblygu dros amser. Bydd cynnal gweithdai yn rhoi cyfle i adnabod yr hyn sydd rhaid ei wneud i ymateb i hyn.

Twyll Budd-dal a Gostyngiad Treth Cyngor

Gweithrediad:	Cydweithio gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau i ddatblygu'r gwaith o ymchwilio i dwyll Gostyngiad Treth Cyngor
Rheswm:	Ers 2014, mae'r cyfrifoldeb am ymchwilio i droseddau yn ymwneud â thwyll Budd-dal Tai wedi trosglwyddo o'r Cyngor i Wasanaeth Twyll a Gwallau yr Adran Gwaith a Phensiynau. Er hynny, nid yw'r gwasanaeth hwnnw yn ymchwilio ac erlyn troseddau sydd yn ymwneud â'r Cynllun Gostyngiadau Treth Cyngor. Mae'r Adran Gyllid wedi casglu fod gwaith pellach y gellir ei wneud yn y maes yma i wella effeithiolrwydd.

Llygredd a Llwgrwobrwyo

Diffinnir llygredd fel “cynnig, rhoi, ceisio neu dderbyn cymhelliad neu wobr a allai ddylanwadu ar weithred unrhyw berson”.

Dan Deddf Llwgrwobrwyfaeth 2010, mae’r canlynol yn droseddau:

- **Llwgrwobrwyfaeth Gweithredol:** cynnig, addo neu rhoi llwgrwobr (Adran 1).
- **Llwgrwobrwyfaeth Goddefol:** ceisio, derbyn neu gytuno i dderbyn llwgrwobr (Adran 2).
- **Llwgrwobrwyo swyddog cyhoeddus tramor** (Adran 6).
- **Trosedd gorfforaethol o fethiant i atal llwgrwobrwyfaeth:** sefydliadau masnachol sy'n methu i atal pobl sy'n gysylltiedig â hwy rhag llwgrwobrwyo ar eu rhan (Adran 7).

Er mwyn gallu amddiffyn yn llawn y drosedd hon, mae’r Cyngor yn rhoi gweithdrefnau ar waith i atal pobl sy'n gysylltiedig ag ef rhag llwgrwobrwyo ar ei ran.

Mae chwech egwyddor y gweithdrefnau a ddylai fod yn eu lle fel a ganlyn:

1. **Gweithdrefnau cymesur:** dylai’r gweithdrefnau a gyflwynir fod yn gymesur â'r risgiau llwgrwobrwyo a wynebir ac â natur, graddfa a chymhlethdod gweithgareddau’r Cyngor. Dylai'r gweithdrefnau hyn hefyd fod yn glir, yn ymarferol, hygyrch, wedi eu gweithredu’n effeithiol a’n cael eu gorfodi.
2. **Ymrwymiad ar y lefel uchaf:** dylai'r Cyngor a'r Cabinet fod wedi eu hymrwymo i atal llwgrwobrwyo gan bersonau sy'n gysylltiedig â'r Cyngor. Dylid meithrin diwylliant lle nad yw llwgrwobrwyo byth yn dderbyniol.
3. **Asesiad risg:** Caiff natur a graddau'r amlygiad i risgiau allanol a mewnol posibl o llwgrwobrwyo ei asesu. Dylai'r asesiad hwn fod yn gyfnodol, yn wybodus ac wedi ei ddogfennu.
4. **Diwydrwydd dyledus:** gweithdrefnau diwydrwydd dyladwy yn cael eu cymhwysu mewn dull cymesur a seiliedig ar risg, mewn perthynas â phersonau sy'n perfformio neu a fydd yn perfformio gwasanaethau ar gyfer, neu ar ran y Cyngor, er mwyn lliniaru’r risgiau llwgrwobrwyo a nodwyd.
5. **Cyfathrebu (gan gynnwys hyfforddiant):** ceisio sicrhau bod polisiâu atal llwgrwobrwyo a gweithdrefnau yn cael eu hymgorffori a'u deall ar draws y Cyngor.
6. **Monitro ac adolygu:** gweithdrefnau dynodedig i atal llwgrwobrwyo yn cael eu monitro a'u hadolygu a gwneir gwelliannau lle bo angen.

Enillion Troseddol

Mae Deddf Enillion Troseddol 2002 yn darparu ar gyfer atafaelu neu adennill sifil o'r elw o drosedd, sy'n gofyn am daliad gan yr unigolyn euog yn seiliedig ar y budd a gafwyd o'u troseddau. Mae'r Ddeddf yn caniatáu atafaelu arian, asedau materol ac asedau cudd.

Mae enghreifftiau o'r meysydd ble gall y Cyngor ddefnyddio'r Ddeddf yma yn cynnwys:

- Gorfodaeth Cynllunio.
- Iechyd yr Amgylchedd - tipio anghyfreithlon, dympio anghyfreithlon o deiars.
- Tai - hawliadau ffug gan landlordiaid.
- Iechyd Anifeiliaid - trwydded bridio cin.
- Safonau Masnach - gwerthu nwyddau ffug.
- Staff - twyll treuliau.

Er mwyn bwrw ymlaen â'r achos o dan y Ddeddf Elw Troseddau 2002, rhaid fod unigolyn (neu grŵp o unigolion) fod wedi ei gael yn euog o drosedd yn y llys. Rhaid rhoi ystyriaeth wedyn i allu'r unigolyn i dalu, a'r swm dan sylw.

4. DIWYLLIANT

Mae'r Cyngor yn benderfynol bod diwylliant a naws y sefydliad yn onest ac yn wrthwynebus o dwyll a llygredd. Mae'n ddisgwyliedig ac yn ofynnol bod unigolion a sefydliadau sy'n ymwneud â'r Cyngor mewn unrhyw ffordd yn gweithredu'n onest a bod aelodau etholedig a staff ar bob lefel yn gweithredu mewn ffordd sy'n esiampol dda i eraill.

Gweithrediad:	Parhau i danysgrifio i Ganolfan Gwrth Dwyll CIPFA a gwneud defnydd o'r cyfleuster, gan gynnwys y ffynhonnell adnabod risgiau twyll, er mwyn sicrhau mynediad at ymarfer da
Rheswm:	Mae'r gwasanaeth yma yn ffynhonnell werthfawr o arfer da a chysylltiadau gyda cyrff eraill sydd yn gweithio yn y maes.

Codau Ymddygiad Amrywiol

Mae "Rheoliadau Côt Ymddygiad (Cyflogeion Cymwys Llywodraeth Leol)(Cymru) 2001" yn nodi dull o weithio sy'n onest a theg. Rhaid i staff weithredu yn unol â'r côd bob amser sy'n cynnwys:

- Egwyddorion Cyffredinol;
- Atebolrwydd;
- Amhleidioldeb Wleidyddol;
- Cysylltiadau ag Aelodau, y Cyhoedd a chyflogeion eraill;
- Cydraddoldeb;
- Stiwardiaeth;
- Buddiannau Personol;
- Chwythu'r Chwiban [h.y. Canu'r Gloch];
- Ymdrin â Gwybodaeth;
- Penodi Staff;
- Ymchwiliadau gan Swyddogion Monitro.

Mae gan y Cyngor Gôt Ymddygiad ar gyfer Aelodau sy'n nodi'r egwyddorion canlynol:

- Anhunanoldeb
- Gonestrwydd
- Uniondeb a Gwedduster
- Dyletswydd i Gynnal y Gyfraith
- Stiwardiaeth
- Gwrthrychedd wrth wneud Penderfyniadau
- Cydraddoldeb a Pharch
- Bod yn Agored
- Atebolrwydd
- Arweinyddiaeth

ynghyd â'r ddyletswydd i ddatgelu a chofnodi buddiant personol.

Mae'n ofynnol i bob Aelod Etholedig ac aelodau o staff ddatgan unrhyw gynnig o rodd neu letygarwch sy'n gysylltiedig mewn unrhyw ffordd â'r dull y maent yn cwblhau eu dyletswyddau ar ran y Cyngor yn unol â'r Côt Ymddygiad sy'n ymwneud â Rhoddion a Lletygarwch sydd wedi'i fabwysiadu gan y Cyngor.

Cadw Trosolwg

Gweithrediad:	Cynnwys eitem ar waith atal twyll ar raglen y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ddwywaith y flwyddyn
Rheswm:	Fel y “rhai sy’n gyfrifol am lywodraethu”, mae’n ofynnol fod y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn cadw trosolwg o’r hyn sydd yn cael ei wneud er mwyn ymdrin â thwyll a llygredd. I’r perwyl hwnnw, bwriedir adrodd ddwywaith y flwyddyn, neu’n fwy aml fel bo’r angen, ar weithgareddau gwrth-dwyll yr awdurdod.

Polisi Canu’r Gloch

Mae gan aelodau o staff rôl bwysig i’w chwarae o ran ymdrin â thwyll a llygredd a bydd y Cyngor yn annog staff i roi rhybudd a darparu gwybodaeth os ydynt yn amau bod twyll neu lygredd yn digwydd. Gall staff wneud hyn gan fod yn ymwybodol y bydd pryderon o’r fath yn cael eu trin yn gyfrinachol a’u bod yn cael eu hymchwilio’n briodol. Amlinellir y gweithdrefnau adrodd ym mholisi Canu’r Gloch y Cyngor. Mae’r cynllun hwn yn rhoi dull diogel a dibynadwy i staff er mwyn iddynt adrodd yn onest am unrhyw bryderon sy’n ymwneud ag ymddygiad anghyfreithlon, twyllodrus neu lygredig, camymddygiad ariannol, peryglu’r cyhoedd neu’r amgylchedd, cam-drin cleientiaid ac ati. Er bod y meysydd sy’n berthnasol i Bolisi Canu’r Gloch y Cyngor yn llawer ehangach na thwyll, llwgrwobrwyo a llygredd yn unig, mae annog pobl i adrodd am ymddygiad o’r fath yn rhan hanfodol o’r polisi hwn.

Anogir aelodau a’r cyhoedd yn gyffredinol i adrodd am bryderon o ymddygiad twyllodrus neu lygredig trwy gysylltu â’r Uwch Reolwr Refeniw a Risg neu’r Rheolwr Archwilio.

Systemau Rheolaeth Fewnol

Er mwyn diogelu cronfeydd cyhoeddus, mae’n hanfodol bod aelodau o staff yn cydymffurfio â’r systemau a’r dulliau rheolaeth fewnol sydd wedi’u rhoi yn eu lle gan reolwyr er mwyn atal twyll a llygredd. Pan fo twyll neu lygredd yn digwydd o ganlyniad i wendid yn systemau a gweithdrefnau’r Cyngor, bydd Penaethiaid Adran yn sicrhau y gweithredir dulliau rheoli priodol er mwyn atal hynny rhag digwydd eto. Yn y rhan fwyaf o achosion, bydd Archwilio Mewnol yn adolygu dulliau rheoli o’r fath fel rhan o’i adolygiad sicrwydd cyffredinol a dylai pob rheolwr ac aelod o staff gefnogi hyn a chydweithredu’n llawn â hyn.

Mae gan reolwyr ddyletswydd ychwanegol i:

- Sicrhau bod staff y maent yn gyfrifol amdanynt yn ymwybodol o’r perygl o dwyll a llygredd.
- Cymryd camau i atal twyll a llygredd gan ddefnyddio dulliau rheoli mewnol a monitro priodol.
- Gweithredu argymhellion Archwilio Mewnol y cytunwyd arnynt.
- Annog staff i adrodd am unrhyw amheuaeth o dwyll, llwgrwobrwyo a llygredd yn unol â Pholisi Canu’r Gloch y Cyngor.

Bod yn Rhagweithiol

Gweithrediad:	Asesu'r posibilrwydd o ddefnyddio data'n well er mwyn adnabod ac ymchwilio i dwyll
Rheswm:	Mae Archwilio Mewnol yn neilltuo amser yn ei gynllun archwilio blynyddol er mwyn ymgymryd â gwaith gwrth-dwyll rhagweithiol. Er hynny, mae'n ddyletswydd ar bawb sy'n cynnal gwasanaethau i fod yn effro i'r risg o dwyll. Byddwn yn edrych i mewn i'r posibilrwydd o unedau, unai ar y cyd ag Archwilio Mewnol neu ar wahân, yn defnyddio'r data sydd ganddynt – ac o fewn y gyfraith – i chwilio am batrymau amheus.

Cydweithredu â'r Ymchwilyr

Disgwylir i bob aelod etholedig a staff roi'r cymorth angenrheidiol i'r ymchwilyr, ynghyd â darparu datganiad i'r Heddlu os bydd angen iddynt wneud hynny.

5. ATAL TWYLL, LLWGRWOBROWYO A LLYGREDD

Mae'r Cyngor yn ceisio atal twyll, llwgrwobrowyo a llygredd trwy:

- Codi ymwybyddiaeth o'r perygl o dwyll, llwgrwobrowyo a llygredd;
- Gwneud Aelodau a Staff yn ymwybodol o'u rolau a'u cyfrifoldebau;
- Gweithio gydag asiantaethau a chyrff eraill.
- Creu diwylliant ble mae llygredd ac ymddygiad dwyllodrus yn ymddygiad annerbiniol.
- Ceisio, ble'n briodol ac mewn modd cywir, i roi cyhoeddusrwydd i achosion o dwyll, llwgrwobrowyo a llygredd sydd wedi ei gyflawni yn erbyn yr awdurdod.

Dylai pob Aelod a staff fod yn ymwybodol o'r posibilrwydd y gallai twyll, llwgrwobrowyo, llygredd a lladrata fod yn digwydd yn eu gweithle a bod yn barod i rannu eu pryderon gyda'r bobl briodol.

Mae'n hanfodol bod y polisiau a'r gweithdrefnau ar gyfer crybwyll pryderon wedi'u nodi'n glir a'u bod ar gael i Aelodau, staff a'r cyhoedd. Rhaid i'r Cyngor adolygu a diweddarau'r polisiau a'r gweithdrefnau hyn yn rheolaidd.

Rhaid i Aelodau a staff sicrhau eu bod yn osgoi sefyllfaoedd ble y mae'n bosib y bydd buddiannau'n gwrthdaro. Dyma enghreifftiau o sefyllfaoedd o'r fath:

- Allanoli gwasanaethau;
- Tendre mewnol;
- Cynllunio; a
- Materion yn ymwneud â thir.

Gweithrediad:	Bydd y Cyngor yn effro i'r risg o dwyll gyda datblygiadau newydd o fewn y Cyngor
Rheswm:	Mae datblygiadau newydd, o bosib, yn creu risgiau newydd o safbwynt twyll. Lle'n briodol, dylai'r risg o dwyll fod yn rhan o asesiad risg prosiectau sylweddol.

Dulliau Rheoli Mewnol a Sicrwydd Archwilio

Rheolwyr sy'n gyfrifol am reoli'r perygl o dwyll a llygredd, ac mae'n rhaid iddynt sicrhau bod lefelau addas o wiriadau mewnol yn cael eu cynnwys mewn gweithdrefnau gwaith, yn enwedig mewn gweithdrefnau ariannol. Mae'n hanfodol (ble bo hynny'n ymarferol bosib) bod dyletswyddau'n rhai penodol a'u bod yn cael eu rhannu fel na all unigolion gwblhau taliad cyflawn heb dderbyn mewnbwn a/neu awdurdodiad gan swyddog priodol arall.

Rhaid rhoi gwybod i'r Rheolwr Archwilio am unrhyw amheuaeth o dwyll, llygredd ac amhriodoldeb neu dwyll, llygredd ac amhriodoldeb sydd wedi'u darganfod, er mwyn hysbysu ei barn ar yr amgylchedd rheoli mewnol a rhaglen waith Archwilio Mewnol ynghyd â gadael iddo sicrhau bod camau priodol yn cael eu cymryd.

Mae'r Archwilwyr Mewnol yn wylidwrus wrth ymgymryd â'u gwaith er mwyn isafu risgiau a nodweddion a allai adael i dwyll, llwgrwobrwyo neu lygredd ddigwydd. Yn ogystal, mae archwilwyr mewnol yn wylidwrus o unrhyw awgrym bod twyll, llwgrwobrwyo neu lygredd wedi bod yn digwydd a byddant yn hysbysu'r swyddogion priodol yn unol â hynny. Fodd bynnag, ni all gweithdrefnau archwilio eu hunain, hyd yn oed pan fyddant yn cael eu gweithredu â gofal proffesiynol, warantu y bydd twyll, llwgrwobrwyo neu lygredd yn cael eu canfod.

Recriwtio

Rhaid i'r Cyngor ddilyn gweithdrefnau recriwtio yn ddiogel wrth gyflogi staff newydd neu staff asiantaethau. Mae hyn yn cynnwys adolygu cofnodiadau cyflogaeth blaenorol darpar staff o ran eu priodoldeb, gonestrwydd a'u hunaniaeth. Mae hyn yn berthnasol i staff dros dro a staff parhaol. Gellir gwneud hyn trwy ddefnyddio geirda gan gyflogwyr blaenorol ac adolygu'u cymwysterau.

Cydweithrediad Rhyngasiantaethol

Yn ogystal, mae'r Cyngor wedi'i ymrwymo i weithio a chydweithredu â sefydliadau eraill er mwyn atal twyll a llygredd sydd wedi'u trefnu. Ble bynnag y bo modd, bydd y Cyngor yn barod i ddatblygu ac annog rhannu gwybodaeth (ar weithgarwch twyll a llygredd lleol a chenedlaethol) gydag awdurdodau eraill ac asiantaethau allanol megis yr Heddlu, grwpiau swyddogion archwilio rhyngasiantaethol, Swyddfa Archwilio Cymru ac adrannau'r Llywodraeth (yn cynnwys yr Adran Gwaith a Phensiynau). Enghraifft amlwg o hyn yw'r Fenter Twyll Genedlaethol (NFI) sy'n cael ei gynnal pob 2 flynedd.

Mae cymryd gofal priodol wrth warchod cywirdeb a chyfrinachedd data yn benodol bwysig wrth rannu gwybodaeth. Bydd Archwilio Mewnol yn rheoli rhannu gwybodaeth ac yn cynorthwyo gyda hynny.

6. DARGANFOD TWYLL A LLYGREDD AC YMCHWILIO IDDYNT

Dan y Côt Ymddygiad i Staff¹ a Rheolau Gweithdrefn Ariannol y Cyngor² rhaid i staff adrodd am unrhyw amheuaeth o dwyll a llygredd i'r Pennaeth Cyllid, yr Uwch Reolwr Refeniw a Risg neu'r Rheolwr Archwilio, naill ai'n uniongyrchol neu trwy eu rheolwr llinell. Mae adrodd am achosion yn y modd hwn yn hanfodol i'r Strategaeth Gwrth-dwyll, Gwrth-lwgrwobrwyo a Gwrth-lygredd ac yn sicrhau bod:

- Amheuaeth o dwyll, llwgrwobrwyo a llygredd yn cael eu hymchwilio'n briodol;
- Y Cynllun Ymateb i Dwyll, Llwgrwobrwyo a Llygredd yn cael ei weithredu'n briodol;
- Proses safonol ar gyfer ymdrin â phob amheuaeth o dwyll, llwgrwobrwyo a llygredd;
- Buddiannau'r cyhoedd a'r Cyngor yn cael eu hamddiffyn;
- Unrhyw sancsiwn posib (troseddol, sifil, disgyblu neu gyfuniad o'r tri) ddim yn cael ei beryglu.

Er mwyn parhau i gydymffurfio â Chôt Ymarfer Archwilio Mewnol a Rheolau Gweithdrefn y Cyngor, strategaeth Cyngor Gwynedd o ran ymchwilio i amheuaeth o dwyll, llwgrwobrwyo a llygredd yw bod pob achos yn cael ei gyfeirio at Archwilio Mewnol er mwyn cael ei ymchwilio. Bydd y Rheolwr Archwilio yn gweithio gyda rheolwyr ac asiantaethau eraill er mwyn penderfynu ar y math o ymchwiliad a'r trywydd y bydd yn ei ddilyn. Bydd pob ymchwiliad yn cael ei gynnal gan ddilyn y Cynllun Ymateb i Dwyll a Llygredd.

Bydd yr ymchwiliad yn cael ei gynnal yn unol â Pholisi a Gweithdrefnau Disgyblu'r Cyngor. Er bod y polisi yn nodi nad yw ymchwiliad ffurfiol yn angenrheidiol ar gyfer yr hyn y mae'r rheolwr llinell perthnasol yn ei ystyried fel mân drosedd, ni fydd yr un rheolwr yn ystyried twyll, llwgrwobrwyo, llygredd nac amhriodoldeb ariannol fel mân droseddau. Yn ogystal, mae'r Polisi a'r Gweithdrefnau Disgyblu yn nodi y bydd manyldeb yr ymchwiliad yn dibynnu'n hollol ar ba mor ddifrifol yw'r honiadau. Bydd rhagdybiaeth o gamau ffurfiol bob amser mewn achosion honedig o dwyll, llwgrwobrwyo a llygredd, a byddant yn cael eu hystyried bob amser i fod yn ddigon difrifol i warantu ymchwiliad Archwilio Mewnol swyddogol.

Nodir yr hyn a ganlyn fel enghreifftiau o gamymddygiad llwyr yn y Polisi a'r Gweithdrefnau Disgyblu:

- Lladrata oddi wrth y Cyngor neu unrhyw un o gleientiaid y Cyngor.
- Twyll difrifol a fyddai'n gwneud yr unigolyn yn anaddas i weithio i'r Cyngor.
- Rhoi gwybodaeth gelwyddog ar gofnodiadau yn fwriadol.
- Torri difrifol ar ymddiriedaeth.

Rhoddir ystyriaeth hefyd i gamau dan Ddeddf Enillion Troseddol 2002 ble'n briodol.

¹ **Paragraff 20.8:** Os digwydd fod cyflogai cymwys yn dod i wybod am weithgareddau y mae'n credu eu bod yn anghyfreithlon, yn amhriodol, yn anfoesol neu fel arall yn anghyson â'r Côt hwn, dylai'r cyflogai roi gwybod am y mater, gan weithredu yn unol â'i hawliau o dan Ddeddf Datgelu er Lles y Cyhoedd 1998, ac â gweithdrefn yr awdurdod perthnasol ar gyfer rhoi gwybod yn gyfrinachol, neu unrhyw weithdrefn arall sydd wedi'i chynllunio at y diben hwn.

² **Rheol 16.14.6:** Os cyfyd unrhyw fater sydd neu y tybir ei fod yn ymwneud ag afreoleidd-dra ynglŷn ag arian parod, nwyddau neu unrhyw drefniant i hawlio taliad amhriodol gan y Cyngor neu eiddo arall o eiddo'r Cyngor, yna rhaid i'r Pennaeth Gwasanaeth neu swyddog arall sy'n gwneud darganfodiad ddilyn Strategaeth Gwrth-dwyll a Gwrth-lygredd y Cyngor a rhoi gwybod yn ddiymdroi i'r Pennaeth Cyllid a / neu'r Uwch Reolwr Archwilio a Risg, a fydd yn cymryd y camau angenrheidiol i ymchwilio i'r mater a pharatoi adroddiad.

7. HYFFORDDIANT

Mae'r Cyngor yn cydnabod y bydd llwyddiant parhaus y Strategaeth hon a'i hygyrdded cyffredinol yn dibynnu'n rhannol ar effeithiolrwydd yr hyfforddiant sydd wedi'i raglennu ac ymatebolrwydd staff trwy'r sefydliad i gyd.

Yn ystod oes y Strategaeth, bwriedir cynnal hyfforddiant a digwyddiadau sydd wedi eu teilwra'n benodol i gynyddu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth staff a rheolwyr am nodweddion twyll, ar ôl cynnal asesiad o'r hyn fydd yn gweithio.

Gweithrediad:	Sefydlu Tîm Tasg a Gorffen i adnabod ffyrdd o godi ymwybyddiaeth am dwyll ar draws y Cyngor
Rheswm:	Cyn trefnu hyfforddiant, bydd rhaid buddsoddi amser i ystyried beth fydd yn gweithio. Tybir mai'r ffordd mwyaf effeithlon o wneud hynny fyddai gyda tîm bychan o swyddogion.

Yn ogystal, mae'r Cyngor wedi'i ymrwymo i hyfforddi a datblygu staff sy'n ymwneud ag ymchwilio i dwyll a llygredd a bydd yn darparu hyfforddiant addas.

Gweithrediad:	Bod yn ragweithiol drwy fynychu digwyddiadau hyfforddi a ddarperir gan gyrff proffesiynol, a/neu darparu hyfforddiant ar y cyd ag awdurdodau eraill er mwyn uchafu effeithiolrwydd
Rheswm:	Mae'n hanfodol fod sgiliau swyddogion allweddol yn cael eu cynnal, fel eu bod yn ymwybodol o risgiau newydd, ac yn ymchwilio'n gywir.

8. CASGLIAD

Mae Cyngor Gwynedd wedi'i ymrwymo i daclo twyll, llwgrwobrwyo a llygredd; bydd yn ymateb yn effeithiol, yn drefnus ac yn seiliedig ar yr egwyddorion sydd wedi'u cynnwys yn y ddogfen hon.

Bydd y Cyngor yn parhau i adolygu ei reolau a'i weithdrefnau, ac o ganlyniad, mae'n hanfodol bod y Strategaeth hon yn cael ei hadolygu'n rheolaidd er mwyn cynnal ei heffeithiolrwydd a pharhau i gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth.

CYNGOR GWYNEDD

CYNLLUN YMATEB I DWYLL, LLWGRWOBRYWO A LLYGREDD

1. CYFLWYNIAD

Mae Cyngor Gwynedd wedi'i ymrwymo i lywodraethu corfforaethol cadarn ac i warchod y cronfeydd cyhoeddus sydd wedi eu hymddiried i'w ofal. Fodd bynnag, weithiau bydd y sawl sy'n cyflawni trosedd yn ddigon penderfynol i ganfod ffordd o weithio o amgylch systemau a gweithdrefnau. Mae isafu unrhyw golledion o ganlyniad i dwyll yn rhan hanfodol o sicrhau bod adnoddau'r Cyngor yn cael eu defnyddio i'r dibenion priodol. I'r diben hwn, mae Strategaeth Gwrth-dwyll, Gwrth-Lwgrwobrwyo a Gwrth-Lygredd y Cyngor wedi'i datblygu a'i chynnal.

Mae'n rhaid i bob rheolwr fod yn ymwybodol o'r hyn sydd ei angen pan fyddant yn cael eu hysbysu o amheuaeth o dwyll. Dylid darllen y Cynllun Ymateb i Dwyll hwn ar y cyd gyda'r Strategaeth Gwrth-dwyll, Gwrth-Lwgrwobrwyo a Gwrth-Lygredd sy'n nodi'r broses ar gyfer staff sy'n dymuno rhoi gwybod am unrhyw amheuaeth a sut y dylai swyddogion y Cyngor ymateb i hynny. Mae'r Cynllun hwn yn darparu canllawiau ar y camau sydd i'w cymryd pan yr amheuir bod twyll yn digwydd neu pan ganfyddir twyll, ac mae'n ymdrin â materion megis: i bwy y dylid adrodd am y twyll, cyfrifoldeb am gamau gweithredu, pwy fydd yn ymchwilio i'r digwyddiad a sut y dylid ymdrin â'r gweithwyr sydd dan amheuaeth.

Mae'n hanfodol bwysig bod y Cynllun hwn yn cael ei ddilyn gan bob un sy'n berthnasol er mwyn sicrhau bod y sefyllfa'n cael ei thrin yn broffesiynol ac er mwyn sicrhau nad yw'r achos yn cael ei beryglu. Wrth ddefnyddio'r Cynllun, gallai'r Cyngor:

- atal colledion pellach,
- sefydlu a diogelu tystiolaeth angenrheidiol ar gyfer camau troseddol a chamau disgyblu,
- rhoi gwybod i'r awdurdod perthnasol, bwrdd ariannu a'r Heddlu,
- isafu'r colledion a'u hadfer,
- cymryd camau disgyblu yn erbyn y rhai sy'n ymwneud â'r digwyddiad,
- adolygu'r rhesymau pam fod hyn wedi digwydd, y mesurau a gymerwyd i atal hyn rhag digwydd eto a gweithredu camau angenrheidiol i gryfhau'r gweithdrefnau.

Yn ogystal, mae'r Cynllun hwn yn ceisio sicrhau bod yr ymchwiliad yn cydymffurfio â'r polisiau a'r gweithdrefnau a ganlyn:

- Côd Ymddygiad Staff y Cyngor,
- Rheolau Gweithdrefn Ariannol y Cyngor,
- Polisi Canu'r Gloch y Cyngor,
- Gweithdrefnau Disgyblu'r Cyngor.

Diffiniadau

Mae'r diffiniadau o "Dwyll", "Twyll Mewnol ac Allanol", "Twyll Budd-dal" a "Llygredd" i gyd i'w cael yn y Strategaeth Gwrth-dwyll, Gwrth-Lwgrwobrwyo a Gwrth-lygredd.

Twyll Budd-dal

Nid yw'r Cynllun hwn yn berthnasol i Dwyll Budd-dal (fel y'i diffinnir yn y Strategaeth Gwrth-dwyll, Gwrth-Lwgrwobrwyo a Gwrth-lygredd), gan fod gweithdrefnau ar wahân yn bodoli ar gyfer hyn.

2. ADRODD AM AMHEUAETH O DWYLL

Camau gweithredu gan Staff

Gellir darganfod amheuaeth o dwyll mewn sawl ffordd. Dyma rai enghreifftiau:

- Aelod o staff y Cyngor, yn rhinwedd eu swydd, yn dod yn amheus o daflenni amser, ffurflenni costau teithio, tystysgrifau grant, anfonebau ac ati, sy'n cael eu cyflwyno er derbyn taliad.
- Aelod o staff y Cyngor yn dod yn amheus o weithgareddau un neu fwy o'u cydweithwyr.
- Anghysondebau sy'n cael eu darganfod gan archwiliwr mewnol neu allanol wrth wneud gwaith archwilio arferol.
- Aelod neu swyddog o'r Cyngor yn cael gwybod am yr amheuaeth o dwyll gan asiantaethau allanol neu aelodau o'r cyhoedd.

Ym mhob achos, mae'n bwysig bod staff yn teimlo eu bod yn gallu adrodd am eu pryderon a'u bod yn ymwybodol o sut y gallant wneud hynny. Bydd amheuaeth o dwyll yn cael ei drin yn ddifrifol a bydd yn cael ei adolygu a'i addasu yn unol â'r ddeddfwriaeth berthnasol a'r Strategaeth Gwrth-dwyll, Gwrth-Lwgrwobrwyo a Gwrth-lygredd.

Dylai pob aelod o staff fod yn ymwybodol bod y Côt Ymddygiad i Staff a'r Rheolau Gweithdrefn Ariannol (y mae'r ddau'n rhan o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd) gyda'i gilydd yn gosod rhwymedigaeth ar yr holl staff i adrodd am amheuaeth o dwyll, llygredd ac anghysondebau i'r Pennaeth Cyllid, yr Uwch Reolwr Refeniw a Risg a / neu'r Rheolwr Archwilio:

Côt Ymddygiad Staff, Paragraff 20.8: Os digwydd fod cyflogai cymwys yn dod i wybod am weithgareddau y mae'n credu eu bod yn anghyfreithlon, yn amhriodol, yn anfoesol neu fel arall yn anghyson â'r Côt hwn, dylai'r cyflogai roi gwybod am y mater, gan weithredu yn unol â'i hawliau o dan Ddeddf Datgelu er Lles y Cyhoedd 1998, ac â gweithdrefn yr awdurdod perthnasol ar gyfer rhoi gwybod yn gyfrinachol, neu unrhyw weithdrefn arall sydd wedi'i chynllunio at y diben hwn.

Rheol Gweithdrefn Ariannol 16.14.6: Os cyfyd unrhyw fater sydd neu y tybir ei fod yn ymwneud ag afreoleidd-dra ynglŷn ag arian parod, nwyddau neu unrhyw drefniant i hawlio taliad amhriodol gan y Cyngor neu eiddo arall o eiddo'r Cyngor, yna rhaid i'r Pennaeth Gwasanaeth neu swyddog arall sy'n gwneud y darganfyddiad ddilyn Strategaeth Gwrth-dwyll, Gwrth-Lwgrwobrwyo a Gwrth-lygredd y Cyngor a rhoi gwybod yn ddiymdroi i'r Pennaeth Cyllid a / neu'r Uwch Reolwr Archwilio a Risg, a fydd yn cymryd y camau angenrheidiol i ymchwilio i'r mater a pharatoi adroddiad.

Fodd bynnag, mae'r Cyngor yn llwyr ymwybodol y gall adrodd am yr amheuon hyn fod yn hynod boenus a thrawmatig (yn enwedig os yw'r person dan amheuaeth yn rheolwr llinell i'r aelod hwnnw o staff, neu'n gydweithiwr y mae'n gweithio ag ef/ â hi bob dydd, a / neu rannu swyddfa ag ef / â hi). O ganlyniad i hyn, mae nifer o fesurau yn eu lle er mwyn amddiffyn staff sy'n adrodd am bryderon dilys. Yn enwedig, mae'r Ddeddf Diogelu er Lles y Cyhoedd yn annog pobl i grybwyll pryderon am gamymddygiad yn y gweithle ac o gymorth i sicrhau bod sefydliadau yn ymateb trwy:

- ymdrin â'r neges yn hytrach na'r negesydd; a
- gwrthod y demtasiwn i guddio camymddygiad difrifol.

Ceir rhagor o ganllawiau ym Mholisi Canu'r Gloch y Cyngor, sy'n amlinellu'r ffordd y gall unrhyw aelod o staff adrodd am unrhyw amheuaeth sydd ganddynt. Fodd bynnag, mae'r Polisi Canu'r Gloch yn ymdrin ag amrediad llawer ehangach o gamymddygiad na dim ond twyll, llygredd neu anghysondebau ariannol. Rhaid ymdrin â'r materion eraill hyn yn ôl eu haeddiant a'u hadrodd i'r man mwyaf priodol – fel arfer i'r Uwch Reolwr neu Bennaeth Adran perthnasol.

Bydd angen trin unrhyw bryderon sydd gan aelod o staff, ynghyd â thrafodaethau cychwynnol, yn sensitif ac yn hollol gyfrinachol ac ni ddylai unrhyw un fod ag ofn crybwyll eu pryderon. Efallai y bydd eglurhad diniwed i'r hyn y mae'r aelod o staff yn bryderus yn ei gylch – os fydd hyn yn wir, yna ni fydd angen cymryd camau pellach ac o leiaf y bydd y pryderon wedi cael eu lleisio.

Efallai y bydd aelod o staff yn dewis adrodd am eu pryderon yn ddiennw a pherchir hynny. Dylid nodi, os bydd yr adroddiad yn awgrymu bod gweithgaredd anghyfreithlon wedi digwydd a bod yr achos am gael ei ddilyn gan yr Heddlu, bydd angen gwybod pwy yw'r unigolyn sydd wedi adrodd am y manylion yn ddiweddarach os yw'r achos troseddol am gael ei ddilyn yn effeithiol - mae'n well gwybod pwy sydd wedi adrodd am ddiwyddiadau a bydd o gymorth gyda'r ymchwiliad.

Os daw unrhyw un yn ymwybodol o amheuaeth o dwyll neu anghysondeb, dylent nodi eu pryderon ar bapur cyn gynted ag y bo'n ymarferol bosib. Dylent wneud nodyn o'r holl fanylion perthnasol, megis beth a ddywedwyd yn ystod sgysiau dros y ffôn neu sgysiau eraill, y dyddiad, yr amser ac enwau unrhyw rai sydd yn ymwneud â'r digwyddiad. Dylent adrodd am y mater yn syth i naill ai:

- **eu Rheolwr Llinell, Pennaeth Gwasanaeth neu Gyfarwyddwr Strategol fydd yna'n cysylltu â'r Pennaeth Cyllid, yr Uwch Reolwr Refeniw a Risg neu'r Rheolwr Archwilio, neu**
- **yn uniongyrchol i'r Pennaeth Cyllid, yr Uwch Reolwr Refeniw a Risg neu'r Rheolwr Archwilio.**

Pan fyddant yn adrodd am eu pryderon, dylai staff drefnu i roi unrhyw nodiadau y maent wedi'u cymryd ac unrhyw dystiolaeth a gasglwyd, i'r archwiliwr priodol. Cedwir cyfrinachedd i bawb o ran yr adroddiadau a wnaed nad oes modd eu profi yn dilyn yr ymchwiliad.

Ni ddylai staff wneud yr hyn a ganlyn:

- cysylltu â'r sawl sy'n cael ei amau o fod yn twyllo mewn ymdrech i geisio sefydlu'r ffeithiau neu fynnu gwneud iawn,
- trafod manylion yr achos, amheuon neu honiadau gydag unrhyw un y tu allan i Gyngor Gwynedd (yn cynnwys y Wasg) oni bai bod y Rheolwr Archwilio wedi gofyn iddynt wneud hynny,
- trafod yr achos gydag unrhyw un yn y Cyngor ac eithrio eu Rheolwr Llinell eu hunain, Pennaeth Gwasanaeth, Cyfarwyddwr Strategol, Pennaeth Cyllid, yr Uwch Reolwr Refeniw a Risg neu'r Rheolwr Archwilio,
- ceisio cynnal ymchwiliadau neu gyfweiliadau neu gwestiynu unrhyw un eu hunain, oni bai bod y Rheolwr Archwilio wedi gofyn iddynt wneud hynny (yn gweithredu yn unol â deddfwriaeth a chodau ymarfer perthnasol).

Camau Gweithredu gan Reolwyr

Os yw rheolwyr yn credu bod ganddynt reswm i amau bod twyll neu lygredd yn digwydd yn eu maes gwaith, dylent wneud yr hyn a ganlyn:

- Gwrando ar bryderon staff ac ymdrin â phob adroddiad a dderbynnir o ddifrif ac yn sensitif, gan sicrhau y rhoddir gwrandawriad teg i holl bryderon staff. Yn ogystal, dylai rheolwyr sicrhau staff na fyddent yn dioddef yn sgil adrodd am eu pryderon.
- Cael cymaint o wybodaeth â phosib gan yr aelod o staff, yn cynnwys unrhyw nodiadau a thystiolaeth sydd ganddynt a allai gefnogi'r honiad. Ni ddylai rheolwyr amharu ag unrhyw dystiolaeth a dylid sicrhau ei fod yn cael ei gadw mewn man diogel.
- Adrodd am y mater yn syth i'r Pennaeth Cyllid, yr Uwch Reolwr Refeniw a Risg neu'r Rheolwr Archwilio. Ni ddylent geisio cynnal ymchwiliad eu hunain na gofyn i unigolyn gael rhagor o wybodaeth mewn dull cudd, gan y gallai hyn beryglu'r dystiolaeth (gan atal camau disgyblu priodol neu gamau troseddol yn y man).

Camau Gweithredu gan Archwilwyr

Os fydd Archwilwyr Mewnol y Cyngor yn darganfod yr hyn y credant ei fod yn dwyll, yn llygredd neu'n ymddygiad amhriodol yn ystod archwiliad, rhaid iddynt ddiogelu'r holl dystiolaeth a gwneud nodiadau manwl o'r holl dystiolaeth a gesglir. Yna, dylent adrodd am eu amheuron yn syth i'r arweinydd tîm, a ddylai yna roi gwybod i'r Rheolwr Archwilio cyn gynted ag y bo modd. Bydd y broses ymchwilio (rhan 4 isod) yn digwydd yn dilyn hynny.

3. HONIADAU MALEISUS

Os gwneir honiad disylwedd, maleisus neu er budd personol, gellir cymryd camau disgyblu yn erbyn y person sy'n gwneud yr honiad.

4. Y BROSES YMCHWILIO

Archwilio Mewnol sy'n gyfrifol am symbylu a goruchwylio'r holl ymchwiliadau twyll. Bydd Archwilio Mewnol yn sicrhau bod pob ymchwiliad yn cydymffurfio â'r un safon ac yn unol â'r ddeddfwriaeth.

Dan Bolisi a Gweithdrefnau Disgyblu'r Cyngor (Rhan 7.3 yr Amodau Gwaith Lleol), bydd gofyn ymchwilio i unrhyw honiad o dorri rheolau a safonau'r Cyngor cyn gynted ag y bo modd, oni bai bod y rheolwr llinell o'r farn bod y drosedd honedig yn un fân. Fodd bynnag, yn unol â'r Strategaeth Gwrth-dwyll, Gwrth-Lwgrwobrwyo a Gwrth-Lygredd, ni ddylai unrhyw reolwr ystyried honiadau o dwyll, llygredd neu anghysondebau ariannol fel "mân droseddau", felly, cynhelir ymchwiliad ym mhob achos. Mae'r Polisi a'r Gweithdrefnau Disgyblu yn nodi'r hyn a ganlyn fel enghreifftiau o weithrediadau sy'n cael eu hystyried fel camymddygiad llwyr:

- lladrata oddi wrth y Cyngor neu unrhyw un o gleientiaid y Cyngor,
- twyll difrifol a fyddai'n gwneud yr unigolyn yn anaddas i weithio i'r Cyngor,
- rhoi gwybodaeth gelwyddog ar gofnodiadau yn fwriadol, neu
- torri difrifol ar ymddiriedaeth.

Yn ogystal, fel yr amlinellir yn y Strategaeth, nid oes rhaid i fudd neu golled gael eu gwireddu – mae bwriad i dwyllo yn ddigon i arwain at ymchwiliad.

Nid yw'r broses ymchwilio yn rhan o'r broses ddisgyblu; yr unig beth yw hyn yw ffordd o gasglu'r holl ffeithiau sy'n ymwneud â'r honiadau a mynegir hyn yn glir wrth unrhyw aelod o staff sy'n cynorthwyo'r Cyngor gydag ymchwiliad o'r math hwn.

Ni ddatgelir canlyniadau'r ymchwiliadau i unrhyw un, na'u trafod gyda hwy, ac eithrio'r rhai sydd wir angen gwybod. Mae hyn yn bwysig er mwyn osgoi difrodi enw da'r rhai sydd yn cael eu hamau ond sy'n cael eu canfod yn ddiuog o ymddygiad anghyfiawn, ac er mwyn gwarchod y Cyngor rhag atebolrwydd sifil posib.

Mewn achosion pan fo unigolyn yn cael ei amau o dwyll ond pan nad yw'r ymchwiliad sy'n dilyn yn cefnogi hynny, mae'n bwysig bod y posibilrwydd o ddifrodi enw da'r unigolyn yn cael ei gadw i'r lleiafswm. Bydd y person a adroddodd am yr amheuaeth o dwyll neu anghysondeb yn y lle cyntaf yn cael gwybod nad yw'r ymchwiliad wedi profi unrhyw ymddygiad anghyfiawn.

Cynhelir unrhyw weithgarwch ymchwilio angenrheidiol heb ystyried perthynas unrhyw unigolyn â'r Cyngor, eu swydd na hyd eu gwasanaeth.

Unwaith y bydd yr ymchwiliad wedi'i gwblhau, bydd Archwilio Mewnol yn paratoi adroddiad ysgrifenedig sy'n nodi'r ffeithiau a ganfyddir fel rhan o'r ymchwiliad. Bydd yr adroddiad yn osgoi unrhyw ddyfalu ac ni wneir unrhyw ddatganiad na ellir ei gefnogi gyda ffeithiau.

5. Y CAMAU I'W CYMRYD

Pan fo tystiolaeth yn cefnogi'r honiad o dwyll neu lygredd, ystyrir dilyn trywydd triphlyg ("*triple-tracking*") fel rhan o'r ymchwiliad. Hynny yw, a ddylai'r camau i'w cymryd fod yn rhai troseddol, sifil, disgyblu neu'n gyfuniad o'r tri.

Camau Disgyblu

Pan fo tystiolaeth o dwyll neu lygredd wedi'i chasglu, bydd yr adroddiad Archwilio Mewnol a ddisgrifiwyd uchod yn cael ei ddefnyddio bob amser fel cofnod ffurfiol o ymchwiliad fel y'i disgrifir ym Mholisi a Gweithdrefnau Disgyblu'r Cyngor. Cynhelir gweithdrefnau Disgyblu gan y rheolwr llinell perthnasol, a fydd yn defnyddio adroddiad ymchwilio Archwilio Mewnol fel tystiolaeth bwysig; dylai'r archwiliwr(wyr) sy'n ymchwilio fod yn bresennol i gyflwyno'r dystiolaeth mewn gwrandawriad disgyblu. Fodd bynnag, ni fydd archwiliwr Archwilio Mewnol yn ffurfio rhan o banel disgyblu.

Camau Troseddol

Yn unol â Rheolau Gweithdrefn Ariannol y Cyngor, os yw'r Swyddog Monitro wrth ystyried adroddiad ymchwilio Archwilio Mewnol, o'r farn bod y gyfraith wedi'i thorri, bydd y mater yn cael ei adrodd i'r Heddlu er ymchwiliad pellach a hynny ar ddisgresiwn y Pennaeth Cyllid.

Os oes aelod o staff yn ymwneud â'r achos, bydd camau disgyblu'n cael eu cymryd ar frys yn unol â Gweithdrefnau Disgyblu'r Cyngor pa un a yw'r mater yn cael ei gyfeirio at yr Heddlu ai peidio.

Os fydd yr Heddlu'n penderfynu bod angen cynnal ymchwiliad ffurfiol, disgwylir i bob aelod o staff gydymffurfio'n llawn ag unrhyw geisiadau neu argymhellion sy'n dilyn. Bydd yr holl gyswllt gyda'r Heddlu yn dilyn eu cyswllt cyntaf, yn digwydd fel arfer trwy Archwilio Mewnol.

Camau Sifil

Pan fo'r Cyngor wedi dioddef colled, ceisir gwneud iawn am unrhyw fudd neu fantais a gafwyd a cheisir adennill costau gan yr unigolyn(ion) oedd yn gyfrifol am y twyll.

Fel cam cyntaf, bydd yr unigolyn dan sylw yn derbyn cais i wneud iawn am y golled. Efallai y bydd yn briodol ystyried adennill y golled o unrhyw arian sy'n ddyledus i'r unigolyn wrth ei ddiswyddo (os yw'r sawl sy'n gyfrifol am y twyll yn aelod o staff). Dylid ceisio cyngor gan y Pennaeth Cyllid a'r Adain Gyfreithiol cyn ceisio adennill y golled.

Pan fo aelod o staff yn aelod o gynllun pensiwn Cyngor Gwynedd, a'i fod yn euog o dwyll, gall y Cyngor adennill y golled o werth cyfalaf buddion cronnus yr unigolyn yn y Cynllun, sydd yna'n cael eu gostwng yn unol â'r cyngor a dderbynnir gan yr actwari.

Os na fydd unigolyn yn gwneud iawn am y golled, dylid ystyried cymryd camau sifil i adennill y golled, yn amodol ar y cyngor cyfreithiol a dderbyniwyd. Gan mai arian y trethdalwyr yw'r cronfeydd a gamddefnyddiwyd, gall yr adennill sifil fod yr un mor bwysig ag erlyniad llwyddiannus.

Gellir defnyddio datrysiadau sifil os fydd achos troseddol yn methu, neu os na fydd cyhuddiad troseddol yn cael ei ddilyn, oherwydd diffyg prawf.

Pan fetho popeth arall, os na chymerir camau datrys sifil yn sgil cyngor cyfreithiol, gellir defnyddio Polisi Yswiriant Gwarant Ffydd y Cyngor er mwyn adennill y colledion. Fodd bynnag, mewn achosion pan fo twyll wedi digwydd yn dilyn rheolaeth neu oruchwyliaeth benodol wael, efallai na ellir adennill y cyfanswm llawn. Ym mhob achos, dylid rhoi gwybod i'r Gwasanaeth Yswiriant a Rheoli Risg yng nghamau cychwynnol yr ymchwiliad er mwyn sicrhau yr ymdrinnir â'r hawliadau yswiriant mor effeithiol ac effeithlon ag y bo modd.

Sanctiynau Paralel

Nid oes rheswm cyfreithiol pam na ddylai'r tri math o gam y gellir eu cymryd gael eu cynnal ar yr un pryd neu groesi ei gilydd o leiaf. Yn gyffredinol, ni fydd y llysoedd yn rhoi blaenoriaeth awtomatig i achos troseddol. Ni ddylid gohirio camau eraill hyd nes diwedd y gwrandawriad troseddol oni bai bod gwir berygl – nid tybiaeth yn unig – y byddai datgelu'r amddiffyniad yn y camau sifil yn arwain at gamwedd bosib, neu'n gallu arwain at hynny (trwy, er enghraifft, alluogi tystion yr erlyniad i baratoi tystiolaeth ffug). Ar gyfer cyfraith achosion, gweler *Jefferson v Betcha* [1979] 1 WLR 898, 904 ac *R v BBC, ex p. Lavelle* [1983] 1 WLR 23, 39.

6. DYSGU O'N PROFIADAU

Pan fo twyll wedi digwydd, rhaid i'r rheolwyr wneud unrhyw newidiadau angenrheidiol i systemau a gweithdrefnau er mwyn sicrhau na fydd twyll tebyg yn digwydd eto. Ble bo'n briodol, bydd Archwilio Mewnol yn cyhoeddi adroddiad "gwersi a ddysgwyd" er mwyn amlygu ble y gwelwyd diffyg goruchwyllo, neu reolaeth wedi torri i lawr / diffyg rheolaeth. Bydd adroddiadau o'r fath yn darparu argymhellion er mwyn osgoi digwyddiadau pellach, a hynny yn yr ardal benodol ble y digwyddodd y twyll a, ble bo'n briodol, o fewn cyd-destun ehangach gweinyddiaeth y Cyngor.